

**CABINET****CYNGOR GWYNEDD**

<b>DYDDIAD</b>	Dydd Mawrth, 22ain Tachwedd, 2022
<b>AMSER</b>	1.00 y.h.
<b>LLEOLIAD</b>	Cyfarfod Aml-Leoliad - Aml-Leoliad - Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac ar Zoom Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu <a href="https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home">https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home</a>
<b>PWYNT CYSWLLT</b>	Annes Siôn 01286 679490 / cabinet@gwynedd.llyw.cymru

**AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD**

<b>Aelodau</b>	
Dyfrig Siencyn	Arweinydd y Cyngor
Nia Wyn Jeffreys	Dirprwy Arweinydd
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai
Beca Brown	Aelod Cabinet Addysg
Berwyn Parry Jones	Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol a YGC
Dafydd Meurig	Aelod Cabinet Amgylchedd
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Elin Walker Jones	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Cyllid
Menna Jones	Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol

## RHAGLEN

	<b>Eitem</b>	<b>Cyflwynir gan</b>	<b>Swyddog</b>	<b>Tud.</b>
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWDYD AR 27 MEDI A 7 HYDREF 2022			4 - 21
6	PREMIWM TRETH CYNGOR AR AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG HIRDYMPREMIWM TRETH CYNGOR	Cyng. Ioan Thomas	Dewi A Morgan	22 - 117
7	MABWYSIADU CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY	Cyng. Dafydd Meurig	Dafydd Wyn Williams	118 - 205
8	GWEDD 4 RHAGLEN FUDDSODDI MEWN PANELI SOLAR	Cyng. Craig ap Iago	David Mark Lewis	206 - 213
9	DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2021 - HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD (DRAFFT) 2021/22	Cyng. Dyfrig Sיעyn	Dewi Wyn Jones	214 - 236
10	CYNLLUN DEISEBAU	Cyng. Menna Jones	Annes Sion	237 - 252
11	ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU 2021/22	Cyng. Dilwyn Morgan	Dylan Owen	253 - 281
12	ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A	Cyng. Dilwyn Morgan	Aled Davies	282 - 287

	LLESIANT			
13	ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS BLANT A CEFNOGI TEULUOEDD	Cyng. Elin Walker Jones	Marian Parry Hughes	288 - 291

---

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 27 MEDI 2022

---

### Yn bresennol-

Y Cyngorwyr: Dyfrig Siencyn, Nia Jeffreys, Craig ab Iago, Beca Brown, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Menna Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan a Ioan Thomas.

### Hefyd yn bresennol-

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Adran Gyllid) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Blant a Cefnogi Teuluoedd)

Eitem 7: Delyth G Williams (Ymgynghorydd Cydraddoldeb)

Eitem 8: Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth a Iaith) a Gwenllian Williams (Ymgynghorydd Iaith)

Eitem 9: Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol)

Eitem 10: Catrin Love (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant)

Eitem 11: Alun Gwilym Williams (Uwch Reolwr Busnes) a Hawis Jones (Rheolwr Comisiynu, Contractau a Prosiectau)

Eitem 13-15: Debbie Anne Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg) a Buddug Mair Huws (Swyddog Adnoddau Cynorthwyol).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw fater bryd.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION CYFARFODYDD A GYNHALIWYD AR Y 19 GORFFENNAF 2022

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y 19 Gorffennaf 2022 fel rhai cywir.

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL RHIANT CORFFORAETHOL 2021-22

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Elin Walker Jones

### PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad a oedd yn adrodd ar waith y Panel Rhiant Corfforaethol ar gyfer 2021-22.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod gofyn i Aelodau Cabinet fod yn ymwybodol o waith y Panel Rhiant Corfforaethol. Eglurwyd fod yr adroddiad yn nodi fod gan y Cyngor gyfrifoldeb clir i fod yn Rhiant Corfforaethol i bob plentyn yng Ngwynedd, ac i sicrhau gofal effeithiol, diogel, sefydlog ac addas i blant mewn gofal.

Amlygwyd y prif bwyntiau yn yr adroddiad a oedd yn cynnwys fod gostyngiad wedi bod yn nifer y plant mewn gofal dros y flwyddyn 2021-22, gyda 46 plentyn wedi dod i ofal am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn ac 54 wedi mynd allan o ofal. Pwysleisiwyd ei bod yn ymddangos fod y strategaeth o gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn gweithio gyda nifer uchel o blant yn parhau i fod adref dan oruchwyliaeth neu wedi eu lleoli gyda gofalwyr maeth o fewn eu teuluoedd.

Tynnwyd sylw yn benodol at Geiswyr Lloches ar eu Pen eu Hunain gan nodi fod y Swyddfa Gartref wedi rhoi cyfarwyddyd i bob Awdurdod Lleol i dderbyn dyraniad o geiswyr lloches. Amlygwyd rhwng Rhagfyr a Mawrth y bu i'r Cyngor dderbyn 3 ceisiwr Lloches, a rhaid nodi fod darganfod lleoliadau addas wedi bod yn heriol o safbwynt eu hoedran, anghenion ieithyddol a diwylliannol ac yn aml iawn y trawma maent wedi ei profi. Nodwyd y cynlluniau a fydd yn cael eu blaenoriaethu gan y Panel eleni a oedd yn cynnwys ail edrych ar y strategaeth ac i barhau i glywed a gwrando ar lais y plant mewn gofal.

Ychwanegodd Pennaeth Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd fod niferoedd ceiswyr lloches bellach yn 10 unigolyn, gan nodi fod yr amserlen wedi bod yn hynod dynn gyda 5 diwrnod i ddod o hyd i leoliad iddynt. Eglurwyd fod cyfrifoldeb mawr ar staff i sicrhau cefnogaeth iddynt a bellach fod un gweithiwr cymdeithasol wedi cael eu ail leoli i ganolbwyntio ar y gefnogaeth yma.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am yr adroddiad a nodwyd pwysigrwydd i holl gynghorwyr Gwynedd i fynychu'r hyfforddiant am eu rôl fel Rhiant Corfforaethol.
- Diolchwyd am addasiadau sydd wedi ei gnwued i'r panel eleni gyda'r Prif Weithredwr bellach yn Gadeirydd y Panel, gan nodi y bydd hyn yn sicrhau fod pob adran yn ymwybodol o'i cyfrifoldeb yn y maes hwn.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021/22, CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020/24

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Jones

## PENDERFYNIAD

Nodwyd y cynnwys a cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol 2021-22, Cynllun Cydraddoldeb 2020-24.

## TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai dyma ail Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24. Eglurwyd fod y ddwy flynedd dan sylw wedi bod yn rhai anarferol ac anodd ac wedi effeithio ar y maes cydraddoldeb. Mynegwyd er nad yw'r gwasanaeth wedi gallu cyflawni popeth oeddent yn ei fwriadu yn ystod y cyfnod, mae gwaith paratoi a chynnydd wedi ei wneud ym mhob un o'r 5 amcan ac mae disgwyl i gwblhau'r holl waith o fewn oes y Cynllun.

Tynnwyd sylw at pob amcan yn unigol gan nodi'r prif lwyddiannau. O ran yr amcan 1: Cryfhau a dyfnhau capasiti ac ymrwymiad staff ac Aelodau Etholedig Cyngor Gwynedd ym maes Cydraddoldeb trwy sicrhau eu bod yn derbyn yr hyfforddiant cywir, nodwyd fod hyfforddiant wedi ei gynnal o bell ac fod gwaith wedi ei wneud ar yr e-fodiwl.

Mynegwyd gyda amcan 2: Gwella'r wybodaeth sydd gennym gan ac am bobl gyda nodweddion gwarchoddedig, fod gwaith yn y maes hwn wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl ond eu bod wedi adnabod fod y gwaith hyn yn rywbeth sydd angen ei wneud yn barhau gan ddefnyddio gwahanol ddulliau. Wrth amlygu Amcan 3: Adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei wneud yn barod i wreiddio Asesiadau Effaith Cydraddoldeb fel arf i sicrhau gwell penderfyniadau, mynegwyd fod templed asesiad effaith cynhwysfawr wedi ei greu yn rhanbarthol ac wedi ei addasu ar gyfer ei ddefnyddio yng Ngwynedd. Amlygwyd mai un o'r prif lwyddiannau oedd i'r Cabinet fabwysiadu Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiad.

Nodwyd o ran Amcan 4: Gweithredu i leihau'r bwlch tâl rhwng y rhywiau ac adnabod unrhyw fwlch tâl ar sail unrhyw nodwedd arall, er fod nifer o aelodau staff a gwblhawyd holiadur cydraddoldeb wedi codi o 41.8% i 48% eglurwyd nad oedd hyn yn ddigon o gynnydd o bell ffordd ac o ganlyniad y bydd gwaith yn cael ei annog a gweithio gydag Adrannau. O ran yr amcan olaf: Gweithredu i ddenu amrediad o ymgeiswyr er mwyn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu nodwyd fod cynllun peilot wedi ei gynnal yn yr adran Cefnogaeth Gorfforaethol i holi'r rhai oedd yn gadael y Cyngor am unrhyw rwystrau oeddent wedi ei wynebu. Eglurwyd yn ogystal fod y Cyngor yn gweithio gyda Inclusive Employers er mwyn gwella gwasanaeth y Cyngor ar gyfer pob nodwedd.

Ychwanegodd y Ymgynghorydd Cydraddoldeb fod peth llithriad wedi bod gyda'r gwaith o ganlyniad i'r pandemig, ond eu bod yn symud ymlaen ac fod y gwasanaeth yn hyderus y byddant yn cyflawni o fewn amserlen y cynllun.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolch am yr adroddiad ac atgoffwyd pawb fod hyrwyddo cydraddoldeb yn gyfrifoldeb i bawb ac nid y gwasanaeth yma yn unig.

## 8. DIWYGIO POLISI IAITH GYMRAEG Y CYNGOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Jones

**PENDERFYNIAD**

Cefnogwyd yr addasiadau a wnaethpwyd i'r Polisi Iaith ac argymhellwyd fod y Cyngor Llawn yn mabwysiadu'r Polisi diwygiedig.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r penderfyniad. Nodwyd fod y Polisi Iaith yn gosod gofynion sydd yn sicrhau bod gwasanaethau a swyddogion yn gweithio mewn ffordd sy'n cyd-fynd efo gofynion Safonau'r Gymraeg. Mynegwyd ei fod hefyd yn gosod allan ble mae'r Cyngor yn mynd y tu hwnt i ofynion y Safonau, drwy weithredu mewn ffordd sydd yn rhoi y Gymraeg gyntaf, neu yn codi statws y Gymraeg

Eglurwyd fod angen i adolygu wedi codi yn sgil camau gweithredu a osodwyd ar ôl ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg, ac hefyd sylweddoliad bod rhai pethau wedi newid yn y ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu a cyflwyno gwasanaethau (yn enwedig defnyddio mwy o wasanaethau ar-lein). Mynegwyd fod angen adlewyrchu newidiadau mewn Prosiectau blaenoriaeth fel y Dynodiadau Iaith, a Hunanwasanaeth ac arweiniad y Prosiect Enwau Lleoedd Cynhenid Gymraeg.

Amlygwyd y prif newidiadau sydd i'w gweld yn yr adroddiad o ran gosod egwyddorion cyffredinol ar ddechrau pob adran, i roi arweiniad ar gyfer gweithredu yn ddigidol ble nad oedd arweiniad cynt ac i gryfhau'r arweiniad ar asesu effaith. Mynegwyd fod trafodaethau wedi ei cynnal yn fewnol gyda grwpiau staff ar yr addasiadau yma ynghyd a trafodaeth ddwy waith gyda aelodau'r Pwyllgor Iaith.

Nodwyd fel y camau nesaf y bydd yr Uned Iaith a Chraffu yn llunio rhaglen gyfathrebu fel bod pob adran yn ymwybodol o'r addasiadau sydd wedi eu gnwued i'r Polisi Iaith.

Ychwanegodd yr Ymgynghorydd Iaith fod addasiadau wedi eu gnwued i'r Polisi Iaith yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Iaith, ac mae hyn er mwyn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd.

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFLOGAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Jones

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd a nodwyd y wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/22.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r prif faterion gweithlu a oedd yn derbyn sylw y llynedd. Pwysleisiwyd fod yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at y prif heriau sydd yn wynebu'r Cyngor fel cyflogwr dros y flwyddyn yma a'r tymor hirach.

Tynnwyd at y prif negeseuon yn yr adroddiad, yn gyntaf wrth ddod allan o'r pandemig, mae'r Cyngor fel pob Cyngor a chyflogwr yn gweithredu o fewn cyd-destun cyflogaeth

sydd wedi newid yn sylweddol bellach. Mynegwyd fod arferion gweithio wedi newid yn barhaol ac fod o ganlyniad ei fod yn golygu fod rhai problemau recriwtio a chadw staff yn dechrau dod i'r amlwg. Pwysleisiwyd fod mwy o ofyn nac erioed i gynllunio gweithlu yn effeithiol, ac i geisio rhagweld heriau'r dyfodol a pharatoi ar gyfer y sgiliau a pobl y bydd eu hangen i ymdopi a hynny.

Nodwyd fod iechyd a lles staff yn gwbl allweddol i'r Cyngor a nodwyd fod pwysau gwahanol bellach ar deuluoedd gyda'r cynnydd mewn costau byw ac mae angen i'r Cyngor fel cyflogwr fod yn fyw i sut y gall y straen hwnnw effeithio ar lesiant staff. Mynegwyd fod y Cyngor yn parhau i ddatblygu ac arbrofi a threfniadau gwaith 'hybrid' ar gyfer staff, ac nodwyd y bydd trefniadau yn sefydlogi dros fisoedd y gaeaf ac yn rhoi gwell darlun o'r hyn fydd yn ei le yn y tymor hirach. Ond pwysleisiwyd mae anghenion gwasanaeth a thrigolion Gwynedd fydd yn gyrru'r trefniadau terfynol yn y pen draw.

Pwysleisiodd y Rheolwr Gwasanaeth fod yr adroddiad yn edrych yn benodol ar y gweithlu a themâu oedd i'w gweld yn y Cyngor dros y flwyddyn diwethaf. Ychwanegwyd fod y themâu a amlygwyd yn parhau i fod yn bwysig i'r gwasanaeth ac y byddant yn parhau i fod yn flaenoriaeth dros y cyfnod i ddod. Nodwyd fod pwysau ar wasanaethau i recriwtio a cadw staff i'w weld ar draws y Cyngor ac fod gwaith yn cael ei wneud i edrych ar hyn.

#### Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod angen uchafu a hyrwyddo'r cynllun Prentisiaethau sydd i'w weld o fewn y Cyngor ac i wneud mwy o'r cynllun.
- Mynegwyd ei bod yn arwyddocaol fod cynnydd mawr wedi bod yn y ffigyrau o swyddi yn cael ei ail hysbysebu dros y blynyddoedd diwethaf, a nodwyd fod angen sicrhau fod y Cyngor yn edrych ar sut mae yn hysbysebu swyddi ac yn cyfleu y ddelwedd orau ar gyfer darpar ymgeiswyr. Eglurwyd fod y farchnad recriwtio wedi newid dros gyfnod y pandemig ac fod y Cyngor yn ceisio dal i fyny gyda'r oes i wella y ffordd maent yn hysbysebu.
- Eglurwyd fod yr aelodau yn ymwybodol o staff yn gadael y Cyngor i weithio mewn cwmnïau ac awdurdodau eraill oherwydd y gallu i weithio o adref a holwyd os yw'r Cyngor yn cynnig yr un math o delerau. Nodwyd fod gweithio yn hyblyg a rhithiol yn rhoi gyfleoedd a heriau i'r Cyngor ac amlygwyd yr angen i'r Cyngor fod yn annog ymgeiswyr i ymuno a'r gweithlu.
- Amlygwyd yr angen i'r Cyngor fod yn hyrwyddo y buddiannau o fod yn gweithio i Awdurdod Lleol ac i arddangos holl becyn cyflogaeth y Cyngor.

## 10. ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD, DIOGELWCH A LLESIANT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Jones

### PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr Adroddiad Blynyddol.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r penderfyniad. Nodwyd mai dyma'r ail flwyddyn olynol heriol iawn i'r adran oherwydd sefyllfa Covid-19. Mynegwyd fod yr heriau wedi



bod yn wanhaol i flwyddyn gyntaf y pandemig gyda heriau yn ymwneud ag ymateb i ofynion Llywodraeth oedd yn newid yn barhaus, adfer Gwasanaethau yn ddiogel a dychwelyd staff bregus yn ôl i'w gwaith yn ddiogel. A hynny, pwysleisiwyd, tra oedd ffigyrau Covid yng Ngwynedd yn uwch nag oeddent yn y flwyddyn flaenorol.

Eglurwyd o ran damweiniau a digwyddiadau fod 113 achos o staff yn dal Covid yn eu gwaith wedi ei hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mynegwyd o ran damweiniau fel arall ategwyd mai symud a thrin pwysau a llithro a baglu oedd y prif achosion am anafiadau. Nodwyd fod gwaith yn digwydd i daclu anafiadau symud a thrin yn benodol.

Mynegwyd fod Covid wedi cael effaith ar iechyd staff yn gyffredinol ac mae'r Uned Iechyd Galwedigaethol wedi gweld y nifer cyfeiriadau uchaf ers sefydlu'r Uned ac mae hyn yn wir o ran Gwasanaeth Cwnsela Medra a ffisiotherapi gyda straen, iechyd meddwl a phroblemau Cyhyrsgerbydol yn brif resymau am y cyfeiriadau.

Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth fod yr adroddiad hwn yn adrodd ar y sefyllfa y llynedd, a nodwyd ei bod yn braf gallu adrodd fod camau breision yn cael ei gwneud i ddal i fyny efo risgiau sydd wedi eu hamlygu dros y blynyddoedd. Eglurwyd fod prosiect penodol ar Iechyd Meddwl ar hyn o bryd gan fod cyfeiriadau i Iechyd Galwedigaethol wedi bod yn uwch ynghyd â hyfforddiant i Reolwyr ac Arweinyddion Tîm am Iechyd Meddwl.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Amlygwyd fod digwyddiad yn cael ei gynnal ym mis Rhagfyr a fydd yn fandadol i Reolwyr ac Arweinyddion Tîm yn benodol ar Iechyd Meddwl, ble fydd hanner y trefniadau yn cael ei roi ar normaleiddio sgwrs am Iechyd Meddwl gyda Staff.
- Tynnwyd sylw yn ogystal i hyfforddiant i Ionawr i Gynghorwyr am adnabod diffygion Iechyd Meddwl.

## **11. ADRODDIAD DRAFFT O SEFYDLOGRUYDD MARCHNAD GOGLEDD CYMRU 2022**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan

### **PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd yr Adroddiad Sefydlogrwydd ar y Farchnad Gogledd Cymru 2022 ac argymhell i'r Cyngor Llawn ei gymeradwyo.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod Asesiad Anghenion Poblogaeth y Gogledd wedi ei gyflwyno yn ôl ym mis Mawrth eleni ac fod yr adroddiad hwn yn ddilyniant iddo. Eglurwyd ei fod ar ei daith drwy'r Pwyllgor Craffu, Cabinet ynghyd a'r Cyngor Llawn cyn mynd ymlaen i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac yna ei gyflwyno i'r Llywodraeth. Pwysleisiwyd fod yr adroddiad ar hyn o bryd yn parhau fel drafft gan eu bod yn disgwyl am ddata cyfredol er mwyn ei ddiweddu.

Mynegwyd fod yr adroddiad hwn yn un pwysig a fydd yn cael ei ddefnyddio er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau nid yn unig yng Ngwynedd ond yn rhanbarthol yn ogystal. Amlygwyd fod nifer o'r meysydd sydd wedi eu hamlygu yn yr adroddiad yn faterion sydd wedi cael eu hadnabod yn barod gan y Cyngor.

Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Busnes fod yr Aseiad Anghenion Rhanbarthol yn rhestru yr anghenion tra fod yr adroddiad hwn fel aseiad y farchnad yn cyflwyno sut i gyflenwi ar gyfer gyfarch yr anghenion. Pwysleisiwyd fod y canfyddiadau yn cyd-fynd a'r materion sydd yn cael ei amlygu yng Ngwynedd fel prinder cartrefi nyrsio.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod aelodau yn aml yn ddrwgdybus o adroddiadau sydd yn cael eu gorfodi ar y Cyngor ond fod yr adroddiad hwn yn arddangos canfyddiadau ddiddorol sy'n amlygu patrymau cyflenwi a cynnydd yn y galw. Nodwyd fod y sefyllfa fregus tu hwnt i waith y Cyngor o ran cyllido a staffio, ond holwyd a fydd camau pellach yn cael ei gnwued gan y Llywodraeth yn dilyn derbyn yr adroddiad. Eglurwyd fod arwyddion yn dod gan y Llywodraeth eu bod yn rhoi mwy o bwysigrwydd i'r math yma o adroddiadau ac eu bod yn mynd i roi bwyslais i'r byrddau partneriaeth rhanbarthol.

## **12. PREMIWM TRETH CYNGOR AR AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG HIRDY MOR**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

### **PENDERFYNIAD**

Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y gynnig posib i gynyddu'r Premiwm ar Dreth Cyngor Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor tu hwnt i 100% a hyd at 300% ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Cyllid mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i baratoi pecyn ymgynghori cyhoeddus yn unol â'r adroddiad ac unrhyw argymhellion gan y Cabinet.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad hwn yn gofyn i fynd i ymgynghoriad cyhoeddus. Nodwyd fod rhaid i'r Cyngor Llawn wneud penderfyniad blynyddol ar raddfa'r Premiwm, ac er mwyn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol, os am gynyddu'r lefel y Premiwm, mae'n rhaid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig.

Eglurwyd fod Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 wedi caniatáu disgrisiwn i'r Cyngor godi premiwm o hyd at 100% ar Dreth Cyngor rhai dosbarthiadau o ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor ond nodwyd bydd yr uchafswm yma yn cynyddu o o 1 Ebrill 2023 a bydd gan awdurdodau lleol y grym i godi premiwm o hyd at 300%. Mynegwyd fod mynd i'r afael â phrinder tai fforddiadwy o fewn Gwynedd yn ogystal â'r nifer uchel o ail gartrefi yn flaenoriaeth i'r Cyngor ac mae codi Premiwm Treth Cyngor yn un o'r arfau sydd ar gael i ddelio a'r sefyllfa.

Ategwyd fod Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998 yn nodi fod 'ail gartrefi' wedi'u categorio i ddau ddsbarth, sef dosbarthau A a B, tra bod dosbarth C yn cyfeirio at eiddo gwag:

- Dosbarth A – Annedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi'i ddodrefnu'n sylweddol lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.
- Dosbarth B – Annedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi'u ddodrefnu'n sylweddol a nid oes cyfyngiad cyfreithiol ar ei feddiant.
- Dosbarth C – Annedd sydd yn ddi-dddeiliad a heb ei ddodrefnu'n sylweddol.

Nodwyd ar 13 Gorffennaf, roedd dros 4600 o dai ei destun y Premiwm ar ail gartrefi (Dosbarth B), 200 ohonynt ddim yn talu'r premiwm gan eu bod yn destun eithriadau a 760 o fewn Dosbarth A ble mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf y flwyddyn berthnasol. Mynegwyd ers cyflwyno Premiwm fod y Cyngor wedi penderfynu yn flynyddol i godi'r un lefel o bremiwm ar eiddo gwag hir dymor ac ail gartrefi, ond mae modd codi lefelau gwahanol os yw'r amgylchiadau lleol yn cyfiawnhau hynny.

Eglurwyd o ran gofynion cyfreithiol fod y penderfyniad yn cael ei wneud yn flynyddol gan y Cyngor Llawn ac fod angen cyflwyno Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn. Ychwanegwyd fod gofyn i gynnal ymgynghoriad ac ymgysylltu gyda rhan ddeiliad cyn codi unrhyw bremiwm a nodwyd fod yr adran yn bwriadu ei gynnal am 28 diwrnod yn ystod mis Hydref. Yn dilyn hyn, ategwyd y bydd adroddiad i'r Cabinet ym mis Tachwedd cyn ei drafod yn y Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr. Pwysleisiwyd y bydd y mater yn cael ei graffu yn ogystal gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Ychwanegodd y Swyddog Monitro fod unrhyw benderfyniad Cabinet yn ddarostyngedig i gyfnod galw i mewn i Graffu, ond eglurwyd fod gan y Cabinet hawl o dan rhan 7 o'r Cyfansoddiad i wneud Penderfyniad Brys mewn trafodaeth â Chadeirydd y Cyngor. Gofynnwyd i'r Cabinet i'w drin fel penderfyniad brys fel bod modd i'r adran symud ymlaen i weithredu yn syth, gan nodi y bydd hyn yn cael ei adrodd yn y Cyngor Llawn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd cefnogaeth i fynd i ymgynghori ac yn deall yr angen i'r penderfyniad gael ei wneud mewn brys.
- Mynegwyd angen i anfon llythyr at Lywodraeth Cymru er mwyn gofyn am yr eithriadau sydd i'r rhai sy'n talu Premiwm.

### **13. ADOLYGU CYFANSODDIAD PWYLLGOR CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG) GWYNEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Beca Brown

#### **PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd argymhelliad yr Adran Addysg a Phwyllgor CYSAG Gwynedd fyddai newid aelodaeth Grŵp B fel a nodir :

- Grŵp A – Cristnogaeth a Chredoau eraill
  - Grŵp B – cynrychiolaeth Athrawon a Phenaethiaid – Cadw nifer y seddi ar 5
- Dyrannu'r seddi fel a ganlyn:

- 3 sedd i'w rhannu rhwng yr Undebau Athrawon a gydnabyddir gan Gyngor Gwynedd (NAS/UWT; UCAC ; NEU; ASCL a'r NAHT – i'w benderfynu gan Fforwm Undebau Athrawon Gwynedd)
- 1 sedd i'w llenwi gan y Grŵp Ymgynghorol Dalgylchol Cynradd ac Arbennig (GYDCA)
- 1 sedd i'w llenwi gan Grŵp Penaethiaid Uwchradd Gwynedd (GSCU)

— Grŵp C - Aelodau Etholedig - cadw yn 7

— Cyfetholedig - Pwyllgor CYSAG i gadw'r hawl i gyfethol aelodau

(3 pleidlais sydd sef 1 i bob Grŵp, nid oes pleidlais gan yr aelodau Cyfetholedig).

## TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai cais yw'r adroddiad i adolygu cyfansoddiad CYSAG Gwynedd. Eglurwyd nad yw'r Cyngor wedi ystyried y cyfansoddiad ers 2019, ac fod newid wedi bod i'r undebau yn dilyn hyn. Mynegwyd fod angen i addasu'r Cyfansoddiad er mwyn cryfhau cynrychiolaeth athrawon ar y Pwyllgor.

Ychwanegodd y Swyddog Adnoddau Cynorthwyol fod CYSAG wedi ei greu o 3 grŵp – y cyntaf Cristnogaeth a Chredoau Eraill a oedd yn destun yr adolygiad yn ôl yn 2019, Yr ail grŵp sef Cynrychiolaeth Athrawon ac Phenaethiaid ac yna y grŵp olaf sef Aelodau Etholedig. Eglurwyd mai gofyn sydd yma i addasu yr ail grŵp, ganfod un o'r undebau bellach ddim yn bodol ac o ganlyniad fod angen addasu'r seddi. Gofynnwyd i'r 5 sedd gael ei rhannu fel ganlyn:

- 3 sedd i'w rhannu rhwng yr Undebau Athrawon a gydnabyddir gan Gyngor Gwynedd (NAS/UWT; UCAC ; NEU; ASCL a'r NAHT – i'w benderfynu gan Fforwm Undebau Athrawon Gwynedd)
- 1 sedd i'w llenwi gan y Grŵp Ymgynghorol Dalgylchol Cynradd ac Arbennig (GYDCA)
- 1 sedd i'w llenwi gan Grŵp Penaethiaid Uwchradd Gwynedd (GSCU)

## 14. CYMERADWYO A MABWYSIADU MAES LLAFUR CYTUNEDIG AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Beca Brown

### PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd a mabwysiadwyd Maes llafur Cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol ag argymhelliad yr Adran Addysg a Chyngor Ymgynghorol Statudol ar Addysg Grefyddol (CYSAG) Gwynedd a'r Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig a Chanllawiau Llywodraeth Cymru.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad hwn yn amlygu y newid mewn maes llafur a fydd yn symud o Addysg Grefyddol traddodiadol i fod yn Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Eglurwyd y bydd y maes llafur newydd yn cynnwys safbwyntiau athronyddol anghrefyddol yn ychwanegol i grefydd. Croesawyd y newid hwn gan

amlygu ei fod yn gyfle i bobl ifanc adnabod yr hyn sydd yn gyffredin rhwng pawb ac i drafodaethau difyr am wahaniaethau a fydd yn hybu parch i bawb.

Ychwanegodd y Swyddog Adnoddau Cynorthwyol fod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno yn sgil sefydlu Cwricwlwm i Gymru. Nodwyd fod dyletswydd cyfreithiol ar bob awdurdod yng Nghymru i gynnal Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig er mwyn adolygu'r maes llafur a bu i Wynedd ei gynnal ar 15 Chwefror 2022. Penderfyniad unfrydol y Gynhadledd oedd mabwysiadu Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

## 15. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS ADDYSG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Beca Brown

### PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei bod wedi bod yn gyfnod prysur i'r adran ac fod yr adroddiad yn amlygu ystod o waith sydd yn cael ei wneud. Mynegwyd er fod ymgais yma i dynnu popeth ynghyd fod un thema i'r gweld drwy'r adroddiad sef lles, cyrhaeddiad a chynhwysiad. Eglurwyd fod y maes yma wedi bod yn bwysig erioed ond fod y pandemig wedi amlygu'r heriau sydd yn wynebu plant a pobl ifanc y sir. Pwysleisiwyd yn wyneb yr holl heriau fod yr Aelod Cabinet wedi ei rhyfeddu at wydnwch pobl ifanc ac fod yr adran yn ceisio lliniaru'r heriau ac i gefnogi y plant a pobl ifanc i gyrraedd eu llawn botensial.

Tynnwyd sylw at rai cynlluniau fel a ganlyn, nodwyd fod pob ysgol yn gweithredu rhaglen Cyflymu Dysgu o ganlyniad i'r pandemig ac fod gwaith arbennig yn cael ei wneud i dargedu y cyfnod cyn ac ar ôl dysgu. Pwysleisiwyd fod y gwaith o drawsnewid y gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn parhau ac fod blaen arolwg parodrwydd yn dangos cynnydd cryf iawn ar draws y sir i'r paratodau sydd wedi eu gwneud eisoes.

Ymfalchiwyd yn y gwaith sydd wedi ei wneud i'r Strategaeth Ddigidol gyda dyfais electroneg bellach wedi ei roi i bob plentyn o flwyddyn 3 i 11 er mwyn lleihau'r anghyfartaledd rhwng plant, sydd a'r rhyddid o fynd a'r dyfais adref gydag hwy. O ran y cynllun Cinio am Ddim mynegwyd fod y sir o flaen amserlen ac yn falch ei fod yn gweithio.

Amlygwyd balchder yn y gyfundrefn Addysg Drochi gan fod sawl ffynhonnell ariannol wedi galluogi'r adran i gomisiynu gwaith i greu tref rhithiol a fydd yn rhoi'r cyfle i blant siarad Cymraeg yn rhithiol cyn mentro i'w ddefnyddio yn y byd 'go iawn'. Eglurwyd fod hyn yn gwneud y gwaith o ddysgu'r iaith yn fwy tebyg i gem yn hytrach na gwers.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

— Llongyfarchwyd pobl ifanc y sir ar eu canlyniadau TGAU a Lefel A.

- Holwyd o ran y Strategaeth Addysg Ddigidol os pob plentyn bellach wedi derbyn eu teclynnau. Cadarnhawyd eu bod wedi rhannu'r cyflenwad olaf dros yr wythnosau diwethaf.
- Cwestiynwyd os o ran y teclynnau yn rhan o'r Strategaeth Ddigidol os yw disgyblion yn cael mynd a hwy adref. Mynegwyd fod yr hawl i fynd a hwy adref yn hanfodol i'r cynllun i sicrhau fod pob plentyn yn cael yr un cyfle a cael y cyfle i wneud eu gwaith cartref heb unrhyw heriau.
- Holwyd sut mae'r adran Arlwygo a Glanhau yn dygymod gyda'r gofynion ychwanegol o ran darpariaeth cinio ysgol ar draws y sir. Nodwyd fod galw sylweddol uwch ond fod llawer o waith wedi ei wneud i sicrhau offer a cyfleusterau cywir. O ran staffio, nodwyd fod yr adran wedi gallu ymdopi ar galw hyn yma ond ei bod yn wych gweld teuluoedd yn manteisio ar y cyfle.

## 16. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS GYLLID

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

### PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr aelod yn falch o nodi ar y cyfan fod perfformiad yr adran yn gyffredinol dda. Tynnwyd sylw at rai penawdau, gan gychwyn gyda Cyflawni Arbedion. Eglurwyd nad sôn am arbedion o fewn yr Adran Gyllid mae'r rhan yma o'r adroddiad ond arbedion ar draws y Cyngor, a nodwyd nad yw rhai adrannau yn gallu cyflawni £0.5 miliwn o arbedion a oedd i'w ddisgwyl eleni. Mynegwyd fod disgwyliad l'r setliad ar gyfer 2023/24 gan y Llywodraeth fod yn is ac ei bod yn gynyddol debygol na fydd modd llithro cynlluniau i gael cynllun ariannol cytbwys. Nodwyd y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno dros y misoedd nesaf.

O ran yr Gwasanaeth Archwilio Mewnol, nodwyd fod pwysau capasiti wedi bod yn broblem, ond dros fisoedd cyntaf y flwyddyn fod y gwasanaeth wedi bod yn gwneud archwiliadau mewnol ar oddeutu 70 o Gynghorau Cymuned. Tynnwyd sylw at waith da mae'r Gwasanaeth Trethi wedi yn ei wneud yn sicrhau dosbarthu £150 i aelwydydd dros y sir, ac wedi llwyddo i'w wneud i 99% o aelwyd erbyn diwedd Mehefin. Nodwyd mai hyn oedd y ffigwr gorau yng Nghymru. Mynegwyd fod Datganiad Cyfrifon drafft y Cyngor wedi ei gyflwyno ym mis Mehefin eleni a rhyfeddwyd at allu'r adran i'w gwblhau mewn cyfnod mor fyr o amser.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Amlygwyd llwyddiant yr adran i sicrhau taliadau o £150 i aelwydydd y sir ac fod y gwasanaeth yn haeddu canmoliaeth yn dilyn sicrhau taliadau dros gyfnod Covid yn ogystal.
- Mynegwyd fod lleihau mewn cyfnod prosesu budd-daliadau a holwyd beth oedd hyd prosesu ceisiadau. Nodwyd oddeutu 13.5 diwrnod ar gyfer cais newydd a 5.5 diwrnod os addasiadau..

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 2:50pm

---

**CADEIRYDD**

---

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 4 HYDREF 2022

---

### Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Craig ab Iago, Beca Brown, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Menna Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan a Ioan Thomas.

### Hefyd yn bresennol-

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Adran Gyllid), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 5: Sioned Williams (Pennaeth Adran Economi a Chymuned)

Eitem 7: Carys Fon Williams (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyng. Nia Jeffreys.

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod, ac yn benodol Huw Dylan Owen ar ei gyfarfod cyntaf fel Cyfarwyddwr Corfforaethol.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. ADRODDIAD PERFFORMAID YR AELOD CABINET DROS ECONOMI A CHYMUNED

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfrig Siencyn

### PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.



## TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi y prif gynlluniau. Nodwyd o ran Uchelgais y Gogledd fod rhai prosiectau bellach ar waith, ond eglurwyd fod un cynllun bellach wedi ei dynnu yn ôl. Mynegwyd fod cynllun Bodelwyddan wedi ei dynnu yn ôl o ganlyniad i newidiadau yn y cynllun datblygu lleol a olygwyd ei fod yn addasu holl ansawdd y prosiect. Eglurwyd fod trefniadau yn ei lle i ystyried cynlluniau i lenwi'r bwlch.

Tynnwyd sylw at gais i gyflawni Ffordd Mynediad Llanbedr ac i osgoi y pentref gan nodi fod yr adran yn parhau i ddisgwyl am gyhoeddiad gan y Llywodraeth Prydain i wybod os yw'r cais wedi bod yn llwyddiannus. Cyfeiriwyd at gynllun Arfor gan nodi fod y Llywodraeth a'r Awdurdodiadau bellach wedi cytuno ar y cynlluniau ond eu bod yn parhau i disgwyl am y llythyr ffurfiol er mwyn cychwyn ar y gwaith. Amlygwyd fod yr amserlen yn mynd i fod yn dynn i wario yr arian o fewn y 6 mis nesaf.

Bu i'r Pennaeth Adran dynnu sylw yn benodol at berfformiad yr adran, gan adrodd y bydd angen cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet ar sefyllfa Byw'n lach. Eglurwyd er yn galonogol fod nifer defnyddwyr yn dychwelyd i'r gwasanaeth yn codi, mae'n parhau i fod yn isel yn dilyn cyfnod y pandemig ac fod yn rhoi pwysau ychwanegol ar eu cyllideb.

Ar y llaw arall nodwyd fod Hafan, Pwllheli sy'n rhan o'r Gwasanaeth Morwrol bellach yn llawn ac fod hyn yn rhoi pwysau ar is-adeiledd ac y galw am fuddsoddiad pellach yno. O ran y sefyllfa arbedion nodwyd fod pwysau ar gyllideb yr adran gan fod gwaith uwchraddio Neuadd Dwyfor wedi arafu o ganlyniad i'r pandemig ac felly heb gyrraedd ei darged incwm. Ond eglurwyd fod gwaith cynllunio manwl yn cael ei wneud ac fod yr adran yn gobeithio y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn haf nesaf.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Amlygwyd fod rhai traethau wedi cael problemau mawr dros yr haf, yn benodol yn Morfa Bychan gyda Cartrefi Modur yn aros dros nos. Holwyd os oes modd sicrhau fod y sefyllfa yn cael ei datrys cyn haf nesaf. Eglurwyd fod llythyr bellach wedi ei baratoi a fydd yn cael ei gyflwyno i'r unigolion a fydd yn gwrthod symud eu cerbydau a / neu cydymffurfio a fydd yn rhoi dirwy o hyd at £1000 iddynt, ac y bydd hyn yn gobeithio yn weithredol o'r Pasg ymlaen.
- Nodwyd fod nifer o gynlluniau yn edrych ar greu gwaith yn yr ardal, ac amlygwyd bellach fod prinder pobl i lenwi'r swyddi. Eglurwyd fod y sefyllfa wedi newid ers pan crëwyd y cynlluniau bum mlynedd yn ôl, ac felly bydd yr heriau newydd yn cael eu hamlygu yn Cynllun y Cyngor nesaf.
- Mynegwyd fod cronfeydd Ewropeaidd yn o dod i ben dros y blynyddoedd nesaf, gyda'r mwyafrif o'r gwariant yn gorfod cael ei gwblhau erbyn 2023. O ganlyniad i hyn nodwyd y bydd nifer o wasanaethau a swyddi yn cael ei dad gomisiynu. Esboniwyd fod dwy gronfa ar gael gan Lywodraeth Cymru, ac fod yr adran yn disgwyl am ganlyniad cais ar gyfer y Gronfa Ffyniant Cyffredinol, ac y bydd

£24miliwn yn dod i Wynedd drwy'r Gronfa Ffyniant Bro. Eglurwyd y bydd angen gwario'r arian ymhen dwy flynedd a hanner sydd yn gyfnod byr tu hwnt. O ran y Rhaglen Datblygu Gwledig, esboniwyd fod Llywodraeth Cymru wedi amlygu fod yr arian hwn yn cael ei glustnod ar gyfer cynlluniau amgylcheddol amaethyddol a olygai y bydd nifer o gynlluniau eraill a swyddi yn dod i ben. Mynegwyd fod yr adran yn ceisio cynllunio er mwyn adeiladu ar y cynlluniau hyn yn hytrach 'na cychwyn o'r dechrau.

— Diolch i'r staff am eu gwaith.

## 6. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS GEFNOGAETH GORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Jones

### PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod gan yr adran Gefnogaeth Corfforaethol 9 blaenoriaeth gwella o fewn Cynllun y Cyngor. Nodwyd fod un ohonynt sef Cynllunio Gweithlu yn her i bawb ond fod gwaith yn cael ei wneud o fewn yr adran i edrych ar hyn. O ran cynllun Cadw'r Budd yn Lleol ei fod yn symud i'r cyfeiriad cywir a mynegwyd fod yr Aelod Cabinet yn edrych ymlaen i barhau gyda'r gwaith da sydd yn cael ei wneud yn y maes cydraddoldeb.

Tynnwyd sylw at y maes Cyfreithiol gan nodi fod hyfforddiant i aelodau yn ystod y cyfnod croeso wedi mynd yn arbennig o dda. Amlygwyd yn ogystal fod canran o bobl ifanc 16+ a oedd wedi cofrestru i bleidleisio bellach wedi codi i 70%. Mynegwyd fod hyn o ganlyniad i benodi aelod o staff i annog bobl ifanc ynghyd ag arwain y gwaith.

Ar y cyfan nodwyd fod yr aelod Cabinet yn hapus gyda perfformiad yr adran.

Ychwanegodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol y bydd dau o'r blaenoriaethau gwella yn dod i ben yn naturiol eleni sef Hybu Defnydd o'r Cymraeg ac y Defnydd o'r Gymraeg mewn Gwasanaethau Cyhoeddus. O ran perfformiad yr adran nodwyd fod peth oedi wedi bod o ganlyniad i'r pandemig yn y maes gwyliadwriaeth iechyd, ac fod y tîm iechyd galwedigaethol yn ceisio dal i fyny gyda'r gwaith. Ychwanegwyd fod y gwaith o greu endid annibynnol i Hunaniaith yn parhau ac fod y grŵp arweiniol yn hyderus y bydd modd gwneud datganiad yn yr Eisteddfod yn 2023.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

— Holwyd gyda nifer uchel o ddynion i'w gweld ar y Tîm Rheoli o fewn y Cyngor beth mae'r cynllun Merched mewn Arweinyddiaeth yn ei wneud i hybu merched mewn rolau uwch o fewn y Cyngor. Nodwyd fod Grŵp

Gweithredol Merched mewn Arweinyddiaeth yn cyfarfod yn rheolaidd ac fod nifer o gynlluniau megis y rhaglen datblygu potensial a sgysiau dros baned i staff a Cynghorwyr. Eglurwyd fod sylfaen bendant wedi ei osod a nodwyd hyder y bydd y cynllun yn llwyddiannus ond fod newid diwylliant am gymryd amser. Ychwanegwyd yn ogystal fod nifer y merched sydd wedi ymgeisio am swyddi uwch wedi codi ond nad oeddent i'w gweld yn y penodiadau eto.

- O ran y Gwaith Cynllunio Gweithlu, nodwyd balchder fod y gwaith yn symud yn ei flaen ond ei fod yn her fawr sydd i'w gweld ar draws y Cyngor. Holwyd sut mae'r Cynllun yn mesur y perfformiad. Nodwyd fod y Grŵp Cynllunio Gweithlu yn cyfarfod yn fisol, ac y bydd ystadegau yn cael ei cyflwyno i'r aelodau Cabinet dros yr wythnosau nesaf. cael ystadegau i sicrhau ddim mewn lle gwell na be da ni yn meddwl.
- Holwyd sut mae'r cyfleon o fewn y Cyngor, megis Cynllun Yfory a Prentisiaethau yn cael ei gwerthu i bobl ifanc. Nodwyd fod cynllun newydd yn y broses o gael ei ddatblygu ac fod nifer uchel o ymweliadau gyda sefydliadau addysgol dros y flwyddyn a hanner diwethaf. Pwysleisiwyd yn ogystal fod y ddau gynllun yn cael ymgeiswyr o safon yn ymgeisio am y cyfleoedd.
- Mynegwyd fod llawer o sôn am brinder tai a'r argyfwng tai ar Gyfryngau Cymdeithasol, a nodwyd fod nifer o'r sylwadau yn amlygu mai diffyg swyddi da o fewn y sir yw'r broblem fwyaf. Nodwyd fod y naratif yma yn hen gan fod nifer o gyfleodd da o ran swydd, ac fod amrywiaeth eang o swyddi i'w gweld ar draws Gwynedd.
- Nodwyd fod merched, yn benodol merched sy'n gynghorwyr, yn aml yn cael ei gweld fel targedau haws ac yn cael ei trin mewn ffordd wahanol ar Gyfryngau Cymdeithasol a holwyd beth mae'r Cyngor yn wedi wneud i gefnogi merched yn y sefyllfa hwn. Nodwyd fod cefnogaeth ymarferol i aelodau a llawer o waith wedi ei wneud yn ddiweddar. Eglurwyd fod digwyddiadau dros y misoedd diwethaf wedi sicrhau fod diogelwch merched wedi ei drafod ar draws y Cyngor, er mwyn sicrhau fod camau ychwanegol yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau diogelwch.

## **7. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS DAI A EIDDO**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago

### **PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr Aelod Cabinet yn hapus iawn gyda perfformiad yr adran a tynnwyd sylw at rai agweddau. O ran y sefyllfa Digartrefedd nodwyd ei fod yn sefyllfa sy'n gwaethygu yn ddyddiol gyda'r ffigyrau bellach 50% yn uwch nag oedd i'w weld cyn y pandemig. Eglurwyd fod y cynlluniau a grëwyd cyn y pandemig bellach ddim yn ddigon da, ac fod angen

creu cynlluniau er mwyn gweithredu ar yr egwyddor o gartrefu unigolion o fewn eu cymunedau. Amlygwyd fod un cynllun yn gofyn i landlordiaid preifat i ddefnyddio eu tai i gartrefu pobl leol yn hytrach nac eu ddefnyddio ar gyfer llety gwyliau.

Tynnwyd sylw at gynllun arloesol sydd i'w weld yn y gwasanaeth digartrefedd, gyda cefnogaeth iechyd meddwl arbennig. Eglurwyd fod canran uchel o unigolion di-gartref a problemau iechyd meddwl ac fod yr adran wedi penodi aelod o staff sydd a arbenigedd yn y maes a fydd yn ceisio gweithio gyda unigolion fel bod modd eu cadw pobl yn eu cartrefi ac i'w hatal rhag mynd yn ddigartref.

Mynegwyd fod y Cyngor bellach wedi prynu darn o dir ym Morfa Nefyn er mwyn adeiladu tai a fydd yn cartrefu pobl leol yng nghanol y pentref mewn tai fforddiadwy, hawdd i'w cynhesu ac yn amgylcheddol wyrdd. Nodwyd fod y tai yma wedi ei seilio ar syniad o Dŷ Gwynedd, sef creu y math o dŷ mae trigolion Gwynedd ei angen ac nid yn unig yn dŷ ond yn gartref.

Ar y cyfan, nododd yr Aelod Cabinet ei fod yn hapus a'r perfformiad ond ei bod yn anodd dathlu gan fod y sefyllfa yn parhau heb ei datrys ond fod yr adran yn ceisio eu gorau i gynorthwyo pobl gan greu gobraith mewn sefyllfa anobeithiol.

Ychwanegodd y Pennaeth Adran eu bod yn ymwybodol o heriau sylweddol sydd yn wynebu yr adran yn dilyn y pandemig, brexit, cynnydd mewn costau byw ynghyd â chynnydd mewn digartrefedd. Nodwyd fod yr adran yn awyddus i newid rhai o'i cynlluniau sydd i'w gweld o fewn Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023/34 a fydd yn cynnwys blaenoriaethau newydd sydd yn fwy penodol i fynd i'r afael ar heriau sy'n wynebu'r adran.

#### Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd am y Cynllun Iechyd Meddwl fydd o fewn y tîm digartrefedd. Eglurwyd fod y cynllun yn un arloesol ac unigryw i Wynedd, eglurwyd fod hwn yn gynllun sydd am sicrhau cefnogaeth i'r digartref gan y Maes Iechyd. Mynegwyd ei fod yn enghraifft glir o sut mae'r adran yn ceisio meddwl yn wahanol ac yn gweithio i ddatrys problemau.
- Mynegwyd fod y podiau sydd i'w gweld yng Nghaernarfon ar gyfer y digartref bellach yn ymddangos wedi ei cwblhau ond fod problemau gyda Dŵr Cymru ac fod nifer o gwestiynau wedi codi yn lleol pam nad oes neb yn byw ynddynt. Nodwyd fod problemau wedi bod gyda'r dreiniau ond fod datrysiad bellach ac fod yr adran yn gobeithio y bydd unigolion yn y podiau o fewn y pythefnos nesaf.
- Holwyd os yw'r adran fel rhan o Gynllun Prynu Tai a Tir yn cadw golwg ar gyfryngau cymdeithasol gan fod nifer o bobl yn nodi eu bwriad i werthu ar y safleoedd yma er mwyn ceisio derbyn prynwr lleol. Nodwyd fod yr adran yn cadw golwg ac fod modd i unigolion ddod yn uniongyrchol at y Cyngor yn ogystal i nodi eu hawydd i werthu yn uniongyrchol i'r Cyngor.
- Gofynnwyd os yw'r Cyngor yn edrych ar eu stadau a mân-ddaliadau fel lleoliadau i adeiladu tai. Nodwyd fod y Cyngor yn edrych a bob darn o dir sydd yn eiddo iddynt er mwyn sicrhau cyfleodd i godi tai newydd.

**8. BLAEN RAGLEN Y CABINET**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd y Flaen raglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod.

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 2:15pm

---

**CADEIRYDD**

# Eitem 6

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>22 Tachwedd 2022</b>
<b>Aelod Cabinet:</b>	<b>Y Cynghorydd Ioan Thomas</b>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	<b>Dewi Morgan</b>
<b>Rhif Ffôn Cyswllt:</b>	<b>01286 682684</b>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor</b>

#### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1. Argymhell i'r Cyngor llawn ar 1 Rhagfyr 2022 mai'r canlynol yw'r opsiwn a ffafrir o safbwynt lefel y Premiwm ar Dreth Cyngor Ail Gartrefi ac Anheddau Gwag Hirdymor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24:
  - Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).
  - Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 150% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. cynyddu o 100% i 150%).
  - Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 100% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).

## **2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

- 2.1. Yn unol â gofynion Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniad blynyddol os yw am godi Premiwm ar Dreth Cyngor eiddo gwag hir-dymor ac ail gartrefi ("anheddau wedi eu meddiannu'n gyfnodol). Heb benderfyniad, byddai'n rhaid cynnig disgownt o 50% ar Dreth Cyngor eiddo o'r fath.
- 2.2. Er mai'r Cyngor llawn sydd rhaid gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â disgownt neu bremiwm Treth Cyngor, a lefel y disgownt neu bremiwm, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor mae angen i'r Cabinet wneud argymhelliad i'r Cyngor llawn.
- 2.3. Ar gyfer blynyddoedd ariannol 2021/22 a 2022/23, mae'r Cyngor wedi codi Premiwm Treth Cyngor o 100%, sef yr uchaf a ganiataid dan y gyfraith ar gyfer y blynyddoedd ariannol hyn. Mae newidiadau deddfwriaethol yn golygu gall y Cyngor godi Premiwm o hyd at 300% o 1 Ebrill 2023 ymlaen.

## **3. CYFLWYNIAD**

- 3.1. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn caniatáu disgrisiwn i'r Cyngor godi Treth Cyngor llawn, caniatáu disgownt o hyd at 50%, neu godi Premiwm ychwanegol ar Dreth Cyngor rhai dosbarthau o ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor.
- 3.2. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 1998, i ganiatáu DIM disgownt i ail gartrefi.
- 3.3. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 2009, i ganiatáu DIM disgownt i eiddo sydd wedi bod yn wag ers 6 mis neu fwy.
- 3.4. Ychwanegodd Adran 139 Deddf Tai (Cymru) 2014 Adrannau 12A a 12B i Ddeddf 1992 er mwyn cynnwys darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi "Premiwm" o ddim mwy na 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy (Adran 12A) ac ail gartrefi dosbarth B (Adran 12B)
- 3.5. Ar 8 Rhagfyr 2016, penderfynodd y Cyngor y byddai'n codi Premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor, yn weithredol o 1 Ebrill 2018. Ar 4 Mawrth 2021, penderfynodd y Cyngor y byddai'n cynyddu'r Premiwm i 100%, sef y lefel uchaf bosib dan y ddeddfwriaeth, ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, ac ar 2 Rhagfyr 2021 penderfynodd gadw lefel y Premiwm yn 100% ar gyfer 2022/23.

- 3.6. Mae *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022 (SI 2022/370 Cy.90)* wedi addasu Adrannau 12A a 12B Deddf 1992 sy'n rhoi grym i awdurdodau bilio godi premiwm o hyd ar 300% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir-dymor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 a blynyddoedd ariannol dilynol.
- 3.7. Er mwyn ei alluogi i wneud argymhelliad yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd 2022, penderfynodd y Cabinet ar 27 Medi 2022 y byddai'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn derbyn barn y cyhoedd sut dylid ymateb i'r newid yn y Ddeddf. Mae'r cyfnod ymgynghori wedi dod i ben, a phwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno canlyniadau'r ymgynghoriad, yn ogystal ag ystyriaethau perthnasol eraill, fel bod modd i'r Cabinet bwysu a mesur yr adborth sydd wedi ei dderbyn cyn penderfynu ar argymhelliad i'w gynnig i'r Cyngor llawn.
- 3.8. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi eu cynnwys yn Rhan 5 yr adroddiad yma.

#### 4. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

##### Cyd-destun

- 4.1. Nid "ail gartrefi" na "tai haf" yw'r terminoleg a ddefnyddir yn Adran 12B, ond "aneddau gyda preswyllo o bryd i'w gilydd (*dwelling occupied periodically*)". Mae'r Ddeddf yn datgan mai'r amodau er mwyn i eiddo fod yn destun premiwm Treth Cyngor "ail gartref" yw, "**there is no resident of the dwelling, and the dwelling is substantially furnished**". Hynny yw, nad yw'r eiddo yma yn brif gartref i unrhyw un, ond mae wedi cael ei ddodrefnu. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth i allu gwahaniaethu ar sail lle mae'r perchennog yn byw, neu os yw'n cael ei ddefnyddio at bwrpasau gwyliau.
- 4.2. Yn *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998 (SI 1998/105)* mae 'ail gartrefi' wedi'u categorio i ddau ddsbarth, sef dosbarthau A a B, tra bod dosbarth C yn cyfeirio at eiddo gwag:
  - **Dosbarth A** – Anedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi'i ddodrefnu'n sylweddol lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.
  - **Dosbarth B** – Anedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi'u ddodrefnu'n sylweddol a nid oes cyfyngiad cyfreithiol ar ei feddiant.
  - **Dosbarth C** – Anedd sydd yn ddi-ddeddf a heb ei ddodrefnu'n sylweddol.
- 4.3. Diffinnir "trigolyn" mewn perthynas ag unrhyw anedd fel unigolyn sydd wedi cyrraedd 18 mlwydd oed gyda'u prif neu unig breswylfa yn yr anedd (Adran 6(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992).



- 4.4. Fel canlyniad i'r newidiadau a daeth i rym yn sgil Deddf Tai (Cymru) 2014, ystyriwyd y mater gan y Cyngor Llawn ar 8 Rhagfyr 2016, a penderfynodd godi Premiwm o 50% yn 2018/19 ar ail gartrefi dosbarth B ac ar eiddo gwag hir dymor dosbarth C (gwag am 12 mis neu fwy).
- 4.5. Mae'r holl bapurau cefndir mewn perthynas â'r penderfyniad cyntaf i godi Premiwm i'w cael ar wefan Cyngor Gwynedd:  
<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=130&mid=1656&ver=4>
- 4.6. Ar 4 Mawrth 2021 penderfynodd y Cyngor y byddai'n cynyddu lefel y Premiwm i 100% ar eiddo perthnasol. Mae holl bapurau cefndir mewn perthynas â'r penderfyniad hwn i'w cael ar wefan Cyngor Gwynedd:  
<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//ielistdocuments.aspx?cid=130&mid=4215&ver=4&>
- 4.7. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn mynnu fod rhaid gwneud penderfyniad yn unol ag Adrannau 12, 12A a 12B yn flynyddol, a hynny gan y Cyngor Llawn.
- 4.8. Mae strategaeth ariannol 2022/23, a setliad grant y Cyngor gan Lywodraeth Cymru, wedi'i seilio ar barhad y polisi i ganiatáu DIM disgownt, a byddai rhaid i unrhyw newid i'r polisi hwnnw gael ei ariannu gan y Cyngor yn 2022/23.
- 4.9. Mae'r rheoliadau ar gyfer gosod sylfaen y dreth wedi eu llunio fel nad yw penderfyniad i godi Premiwm yn effeithio ar setliad grant y Cyngor gan Lywodraeth Cymru.
- 4.10. Ar 9 Tachwedd 2022 roedd:
- **4,564** eiddo yn destun y Premiwm ar ail-gartrefi (Dosbarth B)
  - **229** o ail gartrefi pellach yn Dosbarth B ond ddim yn talu'r Premiwm gan eu bod yn destun un o'r eithriadau a amlinellir yn Rhan 8 isod.
  - **753** eiddo o fewn Dosbarth A lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.
- 4.11. Ar yr un adeg, roedd **1,099** eiddo yn destun y Premiwm ar annedd gwag hirdymor.

## Gofynion Statudol

- 4.12. Wrth roi'r grym i gynghorau i godi Premiwm (yn wreiddiol hyd at 100% ac yna hyd at 300%) ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer gweinyddu'r Premiwm, sef *Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru*. Mae copi o'r Canllawiau Statudol i'w gael yn Atodiad 1.
- 4.13. Mae paragraffau 20 i 22 o'r Canllawiau yn amlinellu'r hyn sydd angen i awdurdod lleol ei ystyried pan yn bwriad cyflwyno Premiwm. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i rhain yn 2016 pan benderfynodd Cyngor Gwynedd gyflwyno Premiwm o 50% ar ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor, ac yna bob blwyddyn pan yn dod i benderfyniad ar y Premiwm ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Os bydd y Cabinet yn penderfynu argymhell cynyddu lefel y Premiwm bydd angen iddo ystyried y canlynol eto, a sut mae'r dystiolaeth sydd i law yn cyflawni'r isod.

**20. Bwriadwyd i'r disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol i godi premiwm fod yn gyfrwng i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y canlynol:**

- adfer defnydd cartrefi gwag hirdymor er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a
- chynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynladwyedd cymunedau lleol.

**21. Wrth benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio, dylid talu sylw i'r nodau hyn. Dylai awdurdodau gymryd i ystyriaeth yr angen am dai a'r amgylchiadau neilltuol yn eu hardal.**

**22. Mae yna ystod o ffactorau a allai fod o gymorth i awdurdodau lleol i benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio. Tra y bydd rhai ffactorau yn benodol naill ai i gartrefi gwag hirdymor neu i ail gartrefi, bydd eraill yn gyffredin i'r ddau. Rhestrir y ffactorau hyn isod i fod o gymorth i awdurdodau lleol. Ni fwriadwyd i'r rhestr fod yn un derfynol.**

- Niferoedd a chanrannau o gartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi yn yr ardal;
- Dosbarthiad cartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi a thai eraill ledled yr awdurdod ac asesiad o'u heffaith ar werthoedd eiddo mewn ardaloedd neilltuol;
- Yr effaith bosibl ar economïau lleol a'r diwydiant twristiaeth;
- Patrymau'r galw am gartrefi fforddiadwy a faint sydd ar gael;

- Yr effaith bosibl ar wasanaethau cyhoeddus lleol;
- Yr effaith bosibl ar y gymuned leol;
- Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau i gynyddu'r cyflenwad tai;
- Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau i fod o gymorth i adfer defnydd eiddo gwag.

- 4.14. Wrth gyflwyno'r Premiwm o 50%, rhoddwyd sylw penodol i ddau astudiaeth. Yn gyntaf, dadansoddiad manwl a gynhaliwyd yn 2013 oedd yn cefnogi cyflwyno premiwm, gan hefyd bwysu am gamau i reoli / rhwystro trosglwyddiad ail gartrefi i dai gwyliau masnachol a'r gyfundrefn treth busnes. Roedd y ddogfen yn cynnwys dadansoddiad fanwl yn cefnogi safbwynt y Cyngor y dylid rhoi'r hawl i ganiatáu premiwm ar ail gartrefi. Rhannwyd canlyniad y dadansoddiad yma gydag aelodau ar y pryd, a bu'n ystyriaeth allweddol wrth wneud y penderfyniad i godi Premiwm ar ail gartrefi.
- 4.15. Yn yr un modd, roedd Strategaeth Dai 2013-17 yn rhoi sylw i eiddo gwag o fewn Gwynedd, a datganiad cenhadaeth y Strategaeth Tai Gwag oedd: "Bydd Cyngor Gwynedd yn ymdrechu i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Ein nod yw cyfrannu at les y gymdogaeth, cynyddu'r cyflenwad tai, lleihau digartrefedd neu'r posibilrwydd o ddigartrefedd, ac ar yr un pryd, lleihau'r pwysau ar y Rhestr Aros Tai".
- 4.16. Erbyn hyn, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth Tai newydd (Cyngor llawn, 18 Gorffennaf 2019), ac mae tri adroddiad allweddol wedi cael sylw gan y Cabinet yn Rhagfyr 2020 a Mehefin 2021:
- 15 Rhagfyr 2020
- Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau
- Cynllun Gweithredu Tai.
- 15 Mehefin 2021
- Ail Gartrefi – Datblygu Polisiâu Newydd yng Nghymru
- 4.17. Mae'r uchod yn dystiolaeth allweddol er mwyn ystyried os oes cyfiawnhad dros newid lefel bresennol y Premiwm.

## Ail Gartrefi

### Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau

4.18. Mae canlyniad y Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau yn rhoi cefndir o'r sefyllfa yng Ngwynedd o safbwynt "cartrefi gwyliau", ac effaith gyfunol ail gartrefi ac unedau gwyliau hunan-ddarpar ar gymdeithas Gwynedd:

Adroddiad Cabinet:

[https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27960/Eitem%207%20-%20Adroddiad\\_GwaithYmchwilTaiGwyliau.pdf?LLL=1](https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27960/Eitem%207%20-%20Adroddiad_GwaithYmchwilTaiGwyliau.pdf?LLL=1)

Atodiad – Ymchwil:

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27959/Eitem%207%20-%20Atodiad%20-%20Ymchwil.pdf?LLL=1>

4.19. Cymeradwywyd y gwaith ymchwil hwn gan y Cabinet i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Gwnaethpwyd y penderfyniad "yn wyneb yr angen i gael gwell rheolaeth ar dai sydd yn cael eu tynnu allan o'r cyflenwad sydd ar gael i bobl leol, a thrwy hynny i roi buddiannau trigolion lleol yn gyntaf".

4.20. Roedd y gwaith ymchwil yn ystyried "cartrefi gwyliau" fel cyfuniad o ail gartrefi ac unedau gwyliau hunan-ddarpar. Roedd yr astudiaeth yn amlygu'r nifer uchel o anheddau a ddefnyddir o fewn Gwynedd at bwrpasau gwyliau, gyda dros 4,800 o ail-gartrefi ac oddeutu 2,000 o unedau gwyliau hunan-ddarpar (Tachwedd 2020):

	Gwynedd	Cymru
Nifer o unedau preswyl	61,645	988,418
Nifer o ail-gartrefi	4,873	18,547
Nifer o lety gwyliau hunan-ddarpar (uned busnes annomestig)	1,976	6,906
Cyfanswm cyfunol	6,849	25453
Canran cyfunol o lety gwyliau	10.76%	2.56%

*Ffynhonnell: Adroddiad Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau, Rhagfyr 2020*

- 4.21. Mae dros 1 o bob 10 uned preswyl yng Ngwynedd yn lety gwyliau gydag 8% yn ail gartrefi. Nid yw'r unedau gwyliau hunan-ddarpar yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn Treth Cyngor gan eu bod wedi trosglwyddo i'r rhestr ardrethi annomestig, a rhoddir mwy o sylw i'r eiddo hyn yn Rhan 6 yr adroddiad yma.
- 4.22. Fel mae'r Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau yn nodi, ers cyflwyno premiwm treth cyngor ar ail gartrefi yn 2018 a chyflwyno'r cynllun rhyddhad treth i unedau llety gwyliau hunanarlwyo cymwys sy'n talu'r cyfraddau trethi annomestig, mae nifer yr ail gartrefi wedi lleihau'n raddol gyda nifer yr eiddo sy'n talu cyfraddau treth annomestig yn cynyddu'n raddol.
- 4.23. Fodd bynnag, disgwylir bydd newidiadau deddfwriaethol a ddaw yn weithredol rym yn Ebrill 2023 yn debygol o arafu'r trosglwyddiad yma. Ceir mwy o fanylion am hyn yn Rhan 6 isod.

#### Ail Gartrefi: Datblygu Polisiâu Newydd yng Nghymru

- 4.24. Ym mis Mawrth 2021 cyhoeddwyd adroddiad cynhwysfawr o dan y teitl "Ail Gartrefi – Datblygu Polisiâu Newydd yng Nghymru" (awdur Dr Simon Brooks) mewn ymateb i gomisiwn gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg yn Llywodraeth Cymru. Mae copi o'r adroddiad i'w gael yma:

[Ail gartrefi: Datblygu polisiâu newydd yng Nghymru](#)

- 4.25. Mae adroddiad Dr Brooks yn cynnwys 12 argymhelliad ac ar 15 Mehefin 2021 trafododd y Cabinet ymateb y Cyngor i'r adroddiad:

[Ymateb Cyngor Gwynedd i'r adroddiad "Ail Gartrefi - Datblygu Polisiâu Newydd Yng Nghymru"](#)

- 4.26. Roedd penderfyniad y Cabinet fel a ganlyn:

"Cytunwyd ar ymateb y Cyngor i'r adroddiad "Ail Gartrefi – Datblygu Polisiâu Newydd yng Nghymru" fel y nodir yn rhan 9 o'r adroddiad gan amlygu'n benodol yr angen i addasu argymhelliad rhif 7 – Llety Gwyliau Tymor Byr a Threthi Busnes.

Cytunodd yr Arweinydd i gyfleu'r ymateb yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru gan alw arnynt i'w fabwysiadau a gweithredu'r argymhellion mwyaf effeithiol ar fyrder er mwyn ymateb i'r argyfwng tai sy'n wynebu cymunedau Gwynedd".

## Anheddau Gwag

- 4.27. Ers cyflwyno'r Premiwm am y tro cyntaf yn 2018 mae Cyngor Gwynedd wedi codi'r un gyfarfod ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor. Un o'r rhesymau am hyn oedd ymarferoldeb cadw trosolwg o'r eiddo oedd wedi eu dodrefnu a'r rhai sydd ddim (sef y gwahaniaeth ymarferol rhwng y ddau fath o eiddo).
- 4.28. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau bilio yng Nghymru yn codi cyfradd wahanol o Premiwm ar eiddo gwag hir-dymor ac ail gartrefi, ac mae hyn yn bosiblwydd yng Ngwynedd hefyd.
- 4.29. Dylid nodi hefyd fod cyfanswm o 1,099 eiddo gwag hir-dymor, tra'n gymharol isel o'i gymharu â nifer yr ail gartrefi o fewn Gwynedd, yn ffigwr uchel pan yn ystyried y galw am gartrefi fforddiadwy o fewn y sir ac mae hyn wedi ei gydnabod yn y Strategaeth Tai. Yn ôl Ystadegau Cymru, mae amcangyfrifon yn awgrymu fod Gwynedd yn 5<sup>ed</sup> allan o 22 awdurdod lleol Cymru o ran nifer o eiddo gwag hirdymor.
- 4.30. Mewn cymhariaeth â'r ail gartrefi ac eiddo sydd wedi trosglwyddo, gwelir fod yr eiddo gwag hirdymor o fewn Gwynedd yn dueddol o fod mewn bandiau Treth Cyngor is nag eiddo Gwynedd yn gyffredinol; gwelir yn arbennig fod dros 20% ohonynt ym Mand A, o'i gymharu â llai na 15% o'r stoc cyffredinol.

### Strategaeth Tai 2019-2024

- 4.31. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ei Strategaeth Tai 2019-2024, "Cartrefi i Bobl Gwynedd" yng Ngorffennaf 2019:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Tai/Strategaeth-Tai-v29-Terf-Cymraeg.pdf>

- 4.32. Mae'r Strategaeth yn nodi'r weledigaeth o "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd". Mae'r Strategaeth yn nodi'r canlynol am dai gwag: *"Rydym wedi adnabod oddeutu 1,300 o dai gwag ar draws y Sir. Mae'r rhain yn dai sydd wedi bod yn wag ers peth amser a gall eu cyflwr fod yn wael iawn. Mae hyn yn wastraff adnodd wrth ystyried bod agos i 2,000 o bobl ar restr aros y Cyngor. Credwn nad yw'r rhestr tai gwag yn gyflawn, a bod angen cynyddu'r ymdrech i'w canfod a'u dychwelyd i ddefnydd fel cartrefi i'n trigolion"*.

## Cynllun Gweithredu Tai

- 4.33. Mae nifer uchel o anheddau gwag hirdymor yng Ngwynedd o'i gymharu â siroedd eraill o'r un maint. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn trosi'r Strategaeth i mewn i brosiectau penodol er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa ac un o'r rhain ydi darparu cefnogaeth ariannol i 250 o brynwyr tro cyntaf lleol a fydd yn eu cynorthwyo i brynu ac adnewyddu cartrefi gwag.

Adroddiad Cabinet:

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27956/Eitem%206%20-%20Cynllun%20Gweithredu%20Tai%20TERFYNOL.pdf?LLL=1>

Cynllun Gweithredu:

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27957/Eitem%206%20-%20Atodiad%20A%20-%20Cynllun%20Gweithredu%20Tai.pdf?LLL=1>

## 5. YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

- 5.1. Eglurwyd i'r Cabinet ym Medi 2022 fod y Canllawiau Statudol, *Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru*, hefyd yn nodi

**23. Rhaid i'r penderfyniad gan awdurdod lleol i godi premiwm dan adrannau 12A neu 12B o Ddeddf 1992 gael ei wneud gan y Cyngor llawn. Cyn gwneud hynny, rhaid i'r awdurdod lleol roi'r ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru 2011 ac i'r holl ystyriaethau perthnasol eraill. Dylai'r awdurdod lleol hefyd ystyried ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr etholwyr lleol, a chynnal ymgynghoriad cyn penderfynu p'un ai codi un neu'r ddau breimiwm ynteu peidio.**

- 5.2. Defnyddiwyd y meddalwedd *LimeSurvey* a ddefnyddir yn arferol gan y Cyngor er mwyn llunio holiadur. Lansiodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar 30 Medi 2022, ac roedd yn agored am 28 diwrnod tan 28 Hydref 2022. Rhyddhawyd datganiadau i'r wasg a arweiniodd at nifer o erthyglau ac eitemau yn y wasg a'r cyfryngau. Dechreuwyd cyhoeddi negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol yr un pryd er mwyn hyrwyddo'r ymgynghoriad. Cyhoeddwyd ail ddatganiad i'r wasg ym mis Hydref mewn da bryd cyn y dyddiad cau, a bu sawl neges atgoffa ar gyfrifon Facebook a Trydar y Cyngor.

## Cyfryngau Cymdeithasol a Llythyru

- 5.3. Er mwyn sicrhau fod ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad mor eang â phosib, ar 29 Medi anfonwyd llythyr at bob perchennog ail gartref ac eiddo gwag hirdymor yn eu hysbysu am yr ymgynghoriad; lle roedd cyfeiriad gohebu ar y system Treth Cyngor oedd yn wahanol i gyfeiriad yr eiddo dan sylw, defnyddiwyd y cyfeiriad gohebu.
- 5.4. Rydym yn hyderus felly bod ymdrech resymol wedi cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth ymysg pobl Gwynedd a perchnogion ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor i'w hysbysu o'r ymgynghoriad fel bod modd iddynt ymateb, ac fod hyn yn dystiolaeth fod ymdrech glir wedi ei wneud i gysylltu â rhanddeiliaid allweddol.
- 5.5. Nid oes modd cael cyfleuster gwirio a fyddai'n sicrhau mai unwaith yn unig y gallai unigolyn fynegi barn, ond mae'n bwysig nodi nad pleidlais neu refferendwm cyhoeddus yw'r ymarfer hwn ond yn hytrach ymarfer ymgynghori a gynlluniwyd i gasglu barn trigolion llawn amser Gwynedd yn ogystal â pherchnogion anheddau sy'n cael eu meddiannu o bryd i'w gilydd ac anheddau gwag hirdymor ar faterion parhaus. Hynny yw, nid cyfrif amrwd o'r atebion o blaid ac yn erbyn cynyddu'r Premiwm fydd y prif ffactor fydd angen ei ystyried, ond serch hynny mae'r ffigyrau isod yn rhoi ymdeimlad i aelodau'r Cabinet am nifer a chyfeiriad yr ymatebion.
- 5.6. Mae'n egwyddor sylfaenol fod unrhyw ymgynghoriad yn cael ei gynnal pan mae'r cynigion yn cael eu ffurfio a fod canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael ystyriaeth cydwybodol wrth ddod i safbwynt. Felly, wrth wneud ei argymhelliad, bydd angen i'r Cabinet roi ystyriaeth briodol i'r materion a'r pryderon sydd wedi eu cynnwys yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, fel bod darlun llawn o'r materion sydd wedi cael eu tynnu i'w sylw.
- 5.7. Mae'r Tîm Ymchwil a Gwybodaeth wedi gwneud ymdrech sylweddol ers dyddiad cau'r ymgynghoriad ar 28 Hydref ddadansoddi'r canlyniadau. Mae canlyniad llawn eu gwaith i'w gael yn Atodiad 2.




## Nifer Ymatebion

- 5.8. Derbyniwyd **7,330** o ymatebion i'r holiadur. Roedd 7,277 o ymatebion i'r holiadur ar-lein a 53 o ymatebion papur. Dyma'r nifer fwyaf o ymatebion mae'r Cyngor wedi ei weld i unrhyw ymgynghoriad yn y blynyddoedd diwethaf.
- 5.9. Roedd 3,518 (48.0%) o'r rhai a atebodd yn datgan fod eu prif gartref yng Ngwynedd, a 2,690 (36.7%) yn datgan fod eu prif gartref y tu allan i Wynedd
- 5.10. O'r ymatebwyr:
- Roedd 3,646 (49.7%) yn dweud nad oeddynt yn berchen ar ail gartref nac annedd gwag hir dymor
  - Roedd 3,447 (47.0%) yn dweud eu bod yn berchen ar ail gartref
  - Roedd 201 (2.7%) yn dweud eu bod yn berchen ar annedd gwag hir dymor
  - Roedd 36 (0.5%) yn dweud eu bod yn berchennog ar ail gartref ac annedd gwag hir dymor
- 5.11. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr felly (50.3%) yn berchen ar un ai ail gartref neu annedd gwag hirdymor yng Ngwynedd (neu'r ddau).

## Dadansoddi'r Canlyniadau – Ail Gartrefi

- 5.12. Mewn cyfanswm roedd dros hanner yr ymatebwyr (58.7%) yn meddwl fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra fod 27.7% o'r farn eu bod yn cael effaith negyddol, gydag 8.2% yn meddwl eu bod yn cael dim effaith. Nid oedd gan 5.4% o'r ymatebwyr farn ar hyn.
- 5.13. Fodd bynnag drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn y farn a gwelir bod 80.5% o'r ymatebwyr sydd yn berchen ar ail gartref yn meddwl fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, ond roedd oddeutu 40% o'r ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor hefyd o'r farn yma.
- 5.14. Cwestiwn allweddol yn yr ymgynghoriad oedd ***Ar hyn o bryd mae Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi yn 100%. Mae'r Cyngor yn ystyried a ddylid cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor. A yw hyn yn briodol yn eich barn chi?***




- 5.15. Mewn cyfanswm roedd 75% o'r ymatebwyr o'r farn nad yw'n briodol cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi. Roedd 24.1% yn credu ei bod yn briodol ei gynyddu, gyda 0.9% heb farn.
- 5.16. Fodd bynnag drwy wahanu'r atebion rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir rhywfaint o wahaniaeth barn gyda mwyafrif llethol yr ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn gwrthwynebu cynyddu lefel y premiwm. Ymhlith ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref roedd y farn yn fwy rhanedig, ond gyda'r mwyafrif yma hefyd (54.1%) o'r farn na fyddai'n briodol cynyddu'r premiwm.
- 5.17. O'r 24% oedd o blaid cynyddu'r Premiwm, roedd 66% ohonynt eisiau ei gynyddu i 300% a hynny ar unwaith.
- 5.18. Tra'n pwysleisio eto nad refferendwm oedd y broses, ond ymgynghoriad sy'n chwilio am farn a sylwadau i gynorthwyo'r awdurdod i ddod at benderfyniad, mae'r ymatebion yn rhoi ymdeimlad o'r farn gyhoeddus am y cynnig.
- 5.19. Mewn cyfanswm roedd dros hanner yr ymatebwyr (59.0%) o'r farn na fyddai cynyddu lefel y premiwm ar ail gartrefi yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Roedd 73.9% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn credu na fyddai cynyddu lefel y premiwm yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg, gyda 18.7% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol. Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor mae'r farn rywfaint yn fwy rhanedig gyda 45.6% o'r farn na fyddai'n cael effaith ar y Gymraeg, 36.4% yn credu byddai'n cael effaith gadarnhaol ac 13.8% yn credu byddai'n cael effaith negyddol.

- 5.20. Mewn cyfanswm roedd mwyafrif yr ymatebwyr (62.3%) yn meddwl y byddai cynyddu lefel y premiwm treth cyngor ar ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol. Roedd 23.0% yn credu byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol a 12.3% yn meddwl na fyddai'n cael effaith.
- 5.21. Fodd bynnag, roedd mwyafrif llethol (81.4%) o'r ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn credu byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol. Roedd 13.7% yn credu na fyddai cynyddu'r premiwm yn cael unrhyw effaith.
- 5.22. Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor mae'r farn yn rhanedig iawn gyda 44.8% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol, 42.4% yn credu byddai'n cael effaith gadarnhaol a 10.6% o'r farn na fyddai yna effaith.
- 5.23. Un o'r dadleuon cyffredin iawn yn y sylwadau gan berchnogion ail gartrefi oedd y budd economaidd roeddynt yn ddweud maent yn ei gyfrannu i Wynedd, gan roi gwaith i adeiladwyr a masnachwyr lleol eraill, yn ogystal â'r gefnogaeth sy'n cael ei roi i siopau lleol. Mewn cyfanswm roedd mwyafrif yr ymatebwyr (70.9%) yn meddwl y byddai cynyddu lefel y premiwm treth cyngor ar ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar yr economi leol. Roedd 16.4% yn credu byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol a 9.6% yn meddwl na fyddai'n cael effaith.
- 5.24. Roedd mwyafrif llethol (90.8%) yr ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn credu byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol. Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor roedd 52.6% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol, 30.7% yn credu byddai'n cael effaith gadarnhaol a 12.9% o'r farn na fyddai yna effaith.

#### Dadansoddi'r Canlyniadau – Anheddau Gwag Hir-dymor

- 5.25. Mewn cyfanswm roedd 72.9% o'r ymatebwyr yn meddwl fod eiddo gwag hirdymor yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra fod 16.2% o'r farn nad ydynt yn cael effaith ac 1.3% yn meddwl eu bod yn cael effaith gadarnhaol. Nid oedd gan 9.6% o'r ymatebwyr farn ar y mater. Roedd ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn fwy tebygol nag ymatebwyr eraill i fod o'r farn nad yw yn cael effaith ar gymunedau lleol.

5.26. At ei gilydd roedd barn yr ymatebwyr os dylid cynyddu'r Premiwm ar eiddo gwag hir-dymor yn rhanedig iawn, gyda 43.8% yn meddwl na fyddai cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn briodol, a 43.4% yn credu y byddai yn briodol. Nid oedd gan 12.8% o'r ymatebwyr farn ar hyn. Roedd mwyafrif llethol (84.1%) yr ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn gwrthwynebu cynyddu lefel y premiwm ar yr eiddo yma, tra ymhlith yr ymatebwyr nad oedd yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor roedd mwyafrif (55.8%) o blaid cynyddu'r Premiwm.



5.27. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (55.1%) yn meddwl na fyddai cynyddu lefel y premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Roedd 21.7% yn meddwl y byddai yna effaith gadarnhaol a 10.2% yn meddwl y byddai yna effaith negyddol.

5.28. O ran effaith ar y gymuned leol, roedd y farn yn eithaf rhanedig gyda 40.0% o'r ymatebwyr yn meddwl byddai cynyddu lefel y premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol, 26.0% yn credu na fyddai effaith a 22.1% o'r farn y byddai yna effaith negyddol. Nid oedd gan 11.9% o'r ymatebwyr farn ar hyn.

5.29. At ei gilydd 'roedd cryn wahaniaeth barn yr effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor yn ei gael ar yr economi leol. Roedd 37.5% o'r holl ymatebwyr yn credu y byddai cynyddu lefel y premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol. Roedd 26.8% o'r farn na fyddai unrhyw effaith, a 23.7% yn credu y byddai effaith negyddol. Nid oedd gan 11.9% o'r ymatebwyr farn ar hyn.

5.30. Fodd bynnag drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor a'r rhai sydd ddim, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn y farn. Roedd 48.3% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn credu byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol.

### Gohebiaeth arall

5.31. Yn ogystal â'r 7,330 o ymatebion i'r holiadur ffurfiol, mae'r swyddogion ac aelodau'r Cyngor wedi derbyn sawl llythyr gan aelodau'r cyhoedd yn mynegi eu barn ar y Premiwm Treth Cyngor. Yn y tabl isod ceir crynodeb o'r pwyntiau oedd yn cael eu codi yn y llythyrau ac sy'n briodol eu hystyried pan fel rhan o'r broses hwn.

Mae'r eiddo mewn ystâd sydd wedi cael ei adeiladu'n bwrpasol fel cartrefi gwyliau ac yn anaddas fel cartrefi	25
Dylid eithrio "brodorion" / rhai sydd wedi magu'n lleol / Cymry Cymraeg / Rhai sydd wedi etifeddu / Eiddo sydd wedi bod yn y teulu ers blynyddoedd	11
Byddai'n rhaid gwerthu'r eiddo	8
Gwrthwynebu'r Premiwm yn gyffredinol	8
Bydd effaith negyddol ar yr economi lleol	7
Perchnogion yn cael eu targedu oherwydd blynyddoedd o ddiffyg tai addas	2
Dylid eithrio'r rhai sydd wedi prynu'r eiddo cyn i'r Premiwm ddod i mewn	2
Ni fydd posib parhau i ddod i'r ardal (rhai wedi dod ers dros 60 mlynedd)	2
Ceisiadau am eithriad oherwydd amgylchiadau personol	1
Dylid eithrio tai gwerth llai na £200,000	1
Bydd lleihad mewn twristiaeth	1
Mae'r Cyngor yn dwyn pensiynau'r henoed	1
Gwrthwynebu cwestiynau'r ymgynghoriad	1
Wedi gorfod gadael yr eiddo i roi gofal	1
Pobl mwy cyfoethog fyddai'n prynu'r eiddo petai rhaid gwerthu	1
Cymar wedi ei chladdu yn yr ardal	1
Mae'r Cyngor yn targedu'r bobl anghywir	1
Pam targedu pobl sydd wedi dod i'r ardal ers blynyddoedd?	1
Dylid eithrio Fairbourne oherwydd yr amgylchiadau yno	1

- 5.32. Dylid nodi fod perchnogion cartrefi gwyliau mewn un datblygiad yn benodol wedi cydweithio i ohebu i fynegi nad ddylid codi Premiwm ar eiddo mewn ystâd a adeiladwyd yn wreiddiol ac a farchnatwyd fel unedau gwyliau; mae'r perchnogion yn dweud nad yw eiddo fel hyn yn addas fel cartrefi.
- 5.33. Gwelir hefyd fod unigolion wedi gohebu i nodi y Premiwm yn targedu Cymry Cymraeg sydd wedi symud i fyw tu allan i Wynedd oherwydd gwaith ond yn cadw eiddo o fewn y sir gan eu bod eisiau dychwelyd i ymweld ag ardal eu magwraeth mor aml â phosib. Maent wedi nodi y byddai eu gorfodi i werthu yn golygu dirywiad yn y Gymraeg yn y pentrefi hyn, nid ei gryfhau.

## **6. TROSLWYDDIADAU UNEDAU GWYLIAU HUNAN-DDARPAR**

- 6.1. Pan wnaethpwyd y penderfyniad gwreiddiol i godi Premiwm, adnabuwyd y risg o gyflymiad yn y nifer o eiddo sy'n trosglwyddo i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar, sy'n destun ardrethi annomestig. Byddai hyn oherwydd fod Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr wedi dyfarnu eu bod yn cwrdd â'r trothwy i allu gwneud hynny.
- 6.2. Mae'r Cyngor ers sawl blwyddyn wedi bod yn pwysu ar Lywodraeth Cymru i newid Adran 66 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 er mwyn rheoli trosglwyddiad cartrefi domestig i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar sy'n destun ardrethi annomestig, a'r mwyafrif helaeth yn osgoi unrhyw drethiant lleol am eu bod yn derbyn ryddhad ardrethi busnesau bychain. Mae Cynllun y Cyngor yn nodi fod y Cyngor yn bwriadu parhau i gynnal ein pwysu yn y maes yma yn ystod y blynyddoedd nesaf, gan ddefnyddio tystiolaeth rydym yn ei gasglu yn barhaus, er mwyn cael Gweinidogion Cymru i ddeall maint y broblem sy'n bodoli yng Ngwynedd.
- 6.3. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno newid deddfwriaethol fydd yn cael effaith ar 1 Ebrill ymlaen ar unedau gwyliau hunan-ddarpar. Effaith *Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022 (SI 2022/563 (Cy. 129))* yw fod Adran 66 Deddf 1988 wedi cael ei addasu fel y bydd angen i annedd fod wedi bod ar gael i'w osod am 252 diwrnod yn y flwyddyn ddiwethaf, fod bwriad ei osod am 252 diwrnod yn y flwyddyn nesaf, ac fod eiddo wedi cael ei wir osod am 182 diwrnod yn y flwyddyn ddiwethaf (o'i gymharu â 70 diwrnod ar hyn o bryd).
- 6.4. Wrth ddod i benderfyniad ar y Premiwm mewn blynyddoedd blaenorol, rhoddwyd ystyriaeth i'r risg y byddai cynyddu'r Premiwm yn cymell mwy o berchnogion ail gartrefi i osod eu heiddo a'i drosglwyddo i'r rhestr ardrethi annomestig. Er fod y risg yma yn parhau i fodoli, mae'r cynnydd sylweddol yn y nifer o ddyddiau lle mae'n rhaid gosod eiddo yn debygol o arwain at arafu arwyddocaol yn y gyfradd drosglwyddo.

- 6.5. Mae'r ffigyrau diweddaraf (hyd at ddiwedd Hydref 2022) yn dangos fod cyfanswm o 2,908 eiddo yng Ngwynedd wedi trosglwyddo o'r rhestr Treth Cyngor i'r rhestr Ardrethi Annomestig, wedi i Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr ddynodi'r eiddo yn unedau gwyliau hunan-ddarpar, yn unol ag Adran 66(2BB) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mae oddeutu 90% o'r eiddo sy'n trosglwyddo yn derbyn Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bychain llawn, sy'n golygu nad oes unrhyw drethiant lleol yn daladwy arnynt:

Blwyddyn ariannol	Nifer eiddo'n trosglwyddo
2022-23 (hyd at 31/10/2022)	246
2021-22	469
2020-21	506
2019-20	397
2018-19	454
2017-18	282
2016-17	199
2015-16	167
2014-15	188
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,908</b>

- 6.6. Mae profiadau dros y dair blynedd diwethaf, e.e. wrth weinyddu grantiau busnes Covid-19 y Llywodraeth, wedi dangos fod nifer o unigolion a chwmnïau yn prynu eiddo yng Ngwynedd erbyn hyn yn benodol gyda'r bwriad o'u trosi i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar, yn hytrach na'u defnyddio fel ail gartref. Fel rhan o'r buddsoddiad yma maent yn ymdrechu i gadw'r eiddo o fewn y gyfundrefn Treth Cyngor am cyn lleied â phosib cyn gallu trosglwyddo.

## 7. EITHRIADAU

- 7.1. Mae Deddf 1992 yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi'r hawl i Weinidogion Cymru osod eithriadau penodol (mewn dosbarthiadau) lle na ellir gosod premiwm Treth Cyngor. Gwnaethant hynny trwy Mae'r tabl isod yn crynhoi'r eithriadau lle na allwn godi'r premiwm yn unol â [Rheoliadau'r Dreth Gyngor \(Eithriadau rhag Symiau Uwch\) \(Cymru\) 2015 \(SI 2015/2068\)](#). Mae'r tabl isod yn amlinellu'r eithriadau lle na ellir codi Premiwm:

Dosbarthiadau o Anheddau	Diffiniad	Y math o eiddo sy'n gymwys i'r eithriad rhag talu'r premiwm
Dosbarth 1	Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un	Cartrefi Gwag Hir dymor ac Ail Gartrefi
Dosbarth 2	Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn	
Dosbarth 3	Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o'r brif annedd	
Dosbarth 4	Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswyllo yn llety'r Lluoedd Arfog	
Dosbarth 5	Safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod.	Ail Gartrefi
Dosbarth 6	Cartrefi tymhorol lle gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn	
Dosbarth 7	Anheddau cysylltiedig â gwaith	

- 7.2. Tynnir sylw'r Cabinet i ddau fater yn benodol wrth ymdrin ag eithriadau. Yn gyntaf, ar 11 Tachwedd 2022 lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar addasiadau i Reoliadau 2015. Mae'r rheoliadau drafft yn argymhell addasu Dosbarth 6 yn y tabl uchod fel bod yr eiddo canlynol wedi eu heithrio o dalu'r Premiwm lle mae cyfyngiadau cynllunio:
- (a) yn atal meddiannaeth am gyfnod parhaus o 28 o ddiwrnodau o leiaf mewn unrhyw gyfnod o un flwyddyn;
  - (b) yn pennu na chaniateir defnyddio'r annedd ond ar gyfer llety gwyliau tymor byr; neu
  - (c) yn atal meddiannaeth fel unig neu brif breswylfa person.
- 7.3. Mae manylion am yr ymgynghoriad cyhoeddus, fydd yn cau ar 22 Rhagfyr 2022, i'w cael yma: [Rheoliadau drafft y Dreth Gyngor \(Eithriadau rhag Symiau Uwch\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2023 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)
- 7.4. Yr ail fater sydd angen ei ystyried yw y byddai angen defnyddio Adran 13A o Ddeddf 1992 i gyflwyno unrhyw eithriadau lleol, dewisol. Mater i'r Cabinet yw defnydd Adran 13A, nid yw'n fater sy'n rhaid cael penderfyniad Cyngor llawn.
- 7.5. Felly, gellir ymdrin ag eithriadau fel mewn adroddiad Cabinet ar wahân cyn diwedd Mawrth 2023.



## **8. DEFNYDD O'R PREMIWM**

- 8.1. Ers cyflwyno'r Premiwm ar gychwyn blwyddyn ariannol 2018/19, mae'r arian sy'n cael ei gasglu trwy'r Premiwm wedi cael ei osod mewn cronfa benodol, a hynny er mwyn ariannu prosiectau penodol sydd wedi cael eu hamlinellu yn y Cynllun Gweithredu Tai.
- 8.2. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn nodi'n glir pa gynlluniau unigol sydd i gael eu hariannu gydag arian y Premiwm.
- 8.3. Mae hyn yn gyson gyda dyhead aelodau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru, sy'n nodi disgwyliad, ond nid gorfodaeth, fod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn y maes tai.
- 8.4. Mae nifer o'r prosiectau yn y Cynllun Gweithredu Tai yn rhai gellir eu ehangu petai mwy o adnoddau ar gael iddynt. Ar y llaw arall, mae chwyddiant yn golygu fod costau prosiectau adeiladu wedi cynyddu yn sylweddol ers mabwysiadu'r Cynllun Gweithredu Tai yn 2020.
- 8.5. Dros y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn y pandemig Covid-19, dod â'r Grant Caledi Llywodraeth Cymru i ben, y pwysau ar deuluoedd yn sgil yr argyfwng costau byw a penderfyniad landlordiaid i ddod â thenantiaethau i ben, mae'r pwysau ar Wasanaeth Digartrefedd y Cyngor wedi cynyddu'n aruthrol.
- 8.6. Byddai pob 50% o gynnydd yn y Premiwm yn cyfrannu oddeutu £3m i'r Gronfa Premiwm Treth Cyngor.
- 8.7. Adroddwyd i'r Cabinet ar 25 Hydref bod disgwyl i wariant yn y maes Digartrefedd fod yn uwch na'r gyllideb o oddeutu £3.2 miliwn eleni. Ffigwr net oedd hwn, ar ôl trosglwyddo rhai cyllidebau am y flwyddyn. Mae'r gorwariant gros oddeutu £4.7m yn 2022/23, ac amcangyfrifir y bydd yn £6m yn 2023/24. Credwn fod ffactorau dros dro yn atebol am gyfran o'r gorwariant, ond mae oddeutu £3m o fwllch tymor hir yn y gyllideb yma hefyd.
- 8.8. Wrth ystyried lefel y Premiwm ar gyfer 2023/24 gofynnir i aelodau ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio unrhyw gynnyrch Premiwm ychwanegol i gynorthwyo i ymdrin â'r gorwariant sylweddol yn y maes digartrefedd, neu i ddargyfeirio peth o'r cynnyrch presennol at y pwrpasau hyn. Byddai modd dargyfeirio peth o arian y Premiwm at y pwrpas yma, gan ei fod yn amlwg o fewn y maes Tai, ond byddai hynny'n arian fyddai ddim wedyn ar gael i ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai.

- 8.9. Nid y nifer o ail gartrefi yng Ngwynedd sydd i gyfrif yn llwyr at y cynnydd sylweddol yng nghostau digartrefedd wrth gwrs, ond maent yn cyfrannu at y broblem. Os nad oes modd i bobl lleol brynu tai, nid ydynt yn gallu gadael tenantiaethau ac mae hynny yn ei dro yn achosi pwysau ar wasanaethau digartrefedd pan mae galw am denantiaethau newydd yn codi ond nid oes stoc dai ar gael i ddiwallu'r galw.
- 8.10. Nid oes rhaid gosod yr un gyfradd Premiwm ar ail gartrefi ag sydd ar eiddo gwag hir-dymor, ac er fod Gwynedd wedi codi'r un gyfradd ers cyflwyno'r Premiwm yn 2018, rydym yn cydnabod fod y dadleuon yn wahanol rhwng y ddau, yn enwedig o ran eiddo sy'n wag ac sy'n anaddas i'w osod heb waith atgyweirio pellach arno. Mae premiwm o 100% ar eiddo gwag hir-dymor ar hyn o bryd, a pwrpas y Premiwm hwn yw rhoi pwysau i adnewyddu'r eiddo pan fydd y cyfnod o ryddhad treth ar gyfer adfer wedi dod i ben. Mae perygl y byddai ei gynyddu'n uwch yn debygol o orfodi gwerthiant a'r eiddo wedyn yn dod yn ail gartrefi yn hytrach na dod yn ôl i'r stoc dai lleol.

## **9. ASESIAID EFFAITH CYDRADDOLDEB**

- 9.1. Fel gyda phob penderfyniad pellgyrhaeddol, rhaid i'r Cyngor roi'r ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru 2011 ac i'r holl ystyriaethau perthnasol eraill.
- 9.2. Gwnaed y penderfyniad cyntaf i gyflwyno Premiwm yn Rhagfyr 2016, yn dilyn ystyriaeth o Asesiad Effaith Cydraddoldeb oedd wedi ei gynnal yn unol â'r gofynion statudol sydd ar y Cyngor.
- 9.3. Cwblhawyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb cynhwysfawr wrth ystyried cynyddu'r Premiwm ym Mawrth 2021. Ers hynny, daeth y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021, sy'n berthnasol i Gyngor Gwynedd. Mae hyn yn golygu fod rhaid i'r Cyngor, wrth wneud "penderfyniadau strategol" megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, ystyried sut y gallai ei benderfyniadau helpu i leihau anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Ymddengys y byddai graddfa'r Premiwm ar ail gartrefi ac anheddau gwag hir-dymor yn "benderfyniad strategol" yn unol â'r ddyletswydd yma.
- 9.4. Fel nodir yn "Cefndir Deddfwriaethol" uchod, cyflwynwyd y grym i godi premiwm gan y Ddeddf Tai, gyda'r disgwyliad sylfaenol fod y rhai sy'n gallu fforddio mwy nag un eiddo yn cynorthwyo awdurdodau lleol yn ariannol i ymdrin â phroblemau tai yn eu hardaloedd, yn arbennig y rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas sy'n methu cael cartref o gwbl.

- 9.5. Wrth benderfynu yn Chwefror 2021 i argymhell i'r Cyngor llawn gynyddu lefel y Premiwm i 100%, nododd aelodau'r Cabinet fod argyfwng tai o fewn y sir. Pwysleisiwyd yr egwyddor fod y Cyngor yn awyddus i drigolion gael cartrefi yn eu cymunedau, i sicrhau cymunedau sydd yn ffynnu. Ategwyd fod tai yn flaenoriaeth ac fod gofyn i sicrhau adnoddau ychwanegol er mwyn gweithredu'r Strategaeth Dai.
- 9.6. Credwn mai nod greiddiol y Premiwm, felly, ydi lleihau anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.
- 9.7. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu gofynion a datblygiadau diweddar, amgylchiadau newidiol, a chanlyniadau'r ymgynghoriad diweddar. Mae'r asesiad addasedig wedi ei gynnwys yn yr Atodiad.
- 9.8. Canlyniad yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb yw fod ychydig o dystiolaeth y byddai cynyddu'r premiwm ar ail-gartrefi yn gwahaniaethau yn erbyn grŵp gwarchodedig, gyda data yn awgrymu fod perchnogion ail gartrefi yn tueddu i fod yn bobl hŷn ac yn adnabod eu hunain fel Saeson. Bwriad y polisi o safbwynt Premiwm Treth Cyngor yw cydnabod fod eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yn cynyddu rhai o broblemau cymdeithasol Gwynedd, a dylai'r perchnogion wneud cyfraniad ariannol i liniaru peth o'r anfantais maent yn eu hachosi.
- 9.9. Mae honiad wedi ei wneud fod y polisi o godi'r Premiwm yn un hiliol oherwydd lle mae perchnogion ail gartrefi yn byw, ond mae nifer o'r rhai sydd wedi ateb yr ymgynghoriad yn nodi mai Cymry sydd yn berchen ar eiddo yng Ngwynedd tra fod eu prif gartref y tu allan i Gymru. Bydd y Premiwm yn cael ei godi yn seiliedig ar nodweddion yr eiddo, nid nodweddion y perchennog, a bydd effaith bositif os ydi teuluoedd lleol yn gallu fforddio prynu eiddo yn eu hardal leol yn hytrach na gorfod symud i ffwrdd i gael cartref. Mae cydnabyddiaeth fod effaith ariannol negyddol ar bobl sy'n byw tu allan i Wunedd, gyda nifer helaeth ohonynt yn adnabod eu hunain fel Saeson. Yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 mae cynyddu lefel y Premiwm yn fodd cymesur o gyflawni nod ddilys, sef ariannu materion yn y maes Tai sy'n mynd i'r afael â peth o'r niwed mae ail gartrefi ac anheddau gwag yn eu hachosi i gymunedau Gwynedd.
- 9.10. Mae'r asesiad hefyd yn dod i gasgliad y byddai'r Premiwm yn cael effaith bositif ar gydbwysedd cymunedau gan fod cynnyrch y premiwm yn ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynorthwyo teuluoedd lleol i brynu tŷ fforddiadwy.

## 10. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

- 10.1. Mae dyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Wrth weithredu yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu a gweithredu'r cynnig gerbron.
- 10.2. Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu amcanion llesiant. Tynnir sylw penodol at yr amcanion canlynol:
- Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir-dymor
  - Trigolion sy'n iach ac yn Annibynnol gyda Safon Bywyd Da
- 10.3. Mae'r Premiwm presennol yn ariannu Cynllun Gweithredu Tai y Cyngor, sy'n ymgais ragweithiol i gryfhau cynladwyedd y cymunedau hynny o fewn Gwynedd sydd â nifer uchel o ail gartrefi a thai gwag hir dymor.
- 10.4. Mae Strategaeth Tai y Cyngor yn nodi'r weledigaeth o "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd".
- 10.5. Mae'r Strategaeth yn adnabod pum amcan yr oedd yn rhaid ceisio eu cyfarch os oedd y Cyngor am gyflawni'r weledigaeth hon:
1. Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
  2. Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
  3. Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
  4. Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
  5. Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.
- 10.6. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys nifer o brosiectau sydd, gyda'i gilydd, yn mynd ati i wireddu'r amcanion hyn.

## **11. CASGLIADAU**

- 11.1. Ar ôl ystyried yr wybodaeth uchod, gofynnir i'r Cabinet ddod i benderfyniad ar lefel y Premiwm y mae am ei argymell i'r Cyngor llawn. Rhoddwyd sylw i ofynion y Canllawiau Statudol a'r ffactorau a awgrymir wrth ddod i gasgliad ar lefel y Premiwm Treth Cyngor i'w argymell ar gyfer 2023/24. Wrth wneud hynny, rhoddwyd ystyriaeth benodol i ffactorau lleol sy'n effeithio ar y farchnad dai ac argaeledd cartrefi, ac yn benodol yr astudiaethau a darganfyddiadau y cyfeirir atynt yn Rhan 4 yr adroddiad hwn. Rhoddwyd sylw hefyd i ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r wybodaeth a chasgliadau yn deillio o'r elfennau yma o'r adroddiad.**
- 11.2. Gellir crynhoi'r prif gasgliadau fel a ganlyn.**
- 11.3. O gadw'r premiwm ar ei lefel bresennol bydd modd parhau i glustnodi swm blynyddol oddeutu £6m i'r gronfa sy'n cyllido'r amrediad eang o brosiectau yng Nghynllun Gweithredu Tai y Cyngor. Ers sefydlu'r cynllun hwnnw, mae chwyddiant wedi cael effaith ar hyfywdra achos busnes sawl prosiect unigol gyda chostau adeiladu wedi cynyddu'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn ogystal â hynny mae prisiau tai wedi cynyddu yn yr un modd hefyd wrth gwrs. Ond, gan fod costau'n Cynllun wedi eu seilio ar yr adeg lle roedd y premiwm ar gyfradd o 50%, dylai'r incwm ychwanegol o bremiwm 100% fod yn ddigonol i ymdopi gyda'r cynnydd prisiau.**
- 11.4. Fodd bynnag, fel y mae'r adroddiad hwn yn ei amlinellu, mae'r sefyllfa ail gartrefi (ymysg ffactorau eraill) hefyd yn cael effaith ar ddigartrefedd erbyn hyn gan greu pwysau ariannol tebygol oddeutu £6m y flwyddyn. Ni allwn osgoi cyfarch y gost yma ac nid oes gennym adnoddau ar gael o fewn cyllidebau sylfaenol y Cyngor ar ei gyfer. Ni fyddai cadw'r premiwm ar gyfradd o 100% yn cynnig unrhyw gymorth tuag at ymdopi gyda'r pwysau ariannol hwnnw heb i ni leihau'r cyllid sydd ar gael i gyfarch elfennau eraill ein Cynllun Gweithredu Tai, ac felly cyflawni llai o gynlluniau.**
- 11.5. Ar y llaw arall, byddai cynyddu'r premiwm i gyfradd o 150% yn ychwanegu oddeutu £3m o incwm blynyddol ychwanegol a byddai hynny'n gyfraniad tuag at ariannu'r pwysau ariannol sy'n ein hwynebu yn y maes digartrefedd. Golyga hynny y byddai modd parhau i glustnodi'r incwm a gesglir ar hyn o bryd ar gyfer cyllido'r Cynllun Gweithredu Tai a chyflawni popeth sydd ynddo heb orfod cwtogi uchelgais y Cyngor yn y maes hwn.**

- 11.6. Ar hyn o bryd, nid oes modd sefydlu cyfiawnhad cyffelyb i gynyddu'r premiwm uwchlaw cyfradd o 150%. Nid yw nifer o'r camau pellach hyn megis newidiadau i'r gyfundrefn cynllunio na threth busnes wedi dod yn weithredol eto a felly nid ydym wedi cael cyfle i asesu ardrawiad y polisiâu hyn yng ngwyneb newid sylweddol iawn yn y Premiwm, na'r oblygiadau ymarferol.
- 11.7. Atgoffir y Cabinet hefyd nad oes rhaid gosod yr un gyfradd Premiwm i eiddo gwag hir-dymor ac ail gartrefi. Nodir ym mharagraff 8.11 uchod fod cyfiawnhad rhesymegol yn bodoli dros gadw'r dreth ar eiddo gwag hir-dymor heb ein newid (h.y. ar 100%) er mwyn galluogi perchnogion i atgyweirio eu heiddo petai angen a dod â'r eiddo yn ôl i ddefnydd.

## **12. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

- 12.1. Bydd angen i'r Cyngor llawn ddod i benderfyniad ar y Premiwm ar 1 Rhagfyr 2022 er mwyn gosod y Dreth Cyngor ar gyfer 2023/24.

## **13. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

- 13.1. Mae'r adroddiad yn disgrifio canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus.
- 13.2. Mae'r mater hwn wedi cael ei flaen-graffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Tachwedd. Bydd unrhyw faterion a godwyd gan y Pwyllgor yn cael ei adrodd i'r Cabinet yn y cyfarfod. Pwysleisir nad rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw rhoi barn ar lefel y Premiwm ar gyfer 2023/24 ond yn hytrach roi ystyriaeth i'r tystiolaeth sydd wedi gasglu a dod i gasgliad os yw'n ddigonol i alluogi'r Cabinet wneud argymhelliad a'r Cyngor llawn ddod i benderfyniad rhesymegol.

## **DOGFENNAU CEFNDIR**

1. Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau (Rhagfyr 2020)
2. Strategaeth Tai
3. Cynllun Gweithredu Tai
4. Ail Gartrefi – Datblygu Polisiâu Newydd yng Nghymru (Dr Simon Brooks)
5. Ymateb y Cyngor i adroddiad Brooks
6. Ymatebion i'r Ymgynghoriad (gan eithrio dogfennau sydd yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am unigolion)

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:**

### **Swyddog Monitro:**

Fel yr esbonnir ac amlygir yn yr adroddiad mae ystod o ffactorau sydd angen eu cloriannu wrth ddod ar farn a ffurfio argymhelliad I'r Cyngor Llawn ar y mater yma. Fe nodir yn gywir yn yr adroddiad fod y grym statudol ar gyfer gosod premiwm treth cyngor ar "ail gartrefi" ac eiddo gwag tymor hir wedi ei gynyddu i hyd at 300% drwy addasiadau i Ddeddf Cyllid Lywodraeth Leol 1992 ddaeth yn weithredol ar y 1af o Ebrill 2022. Wrth ystyried adolygu y premiwm a chynnydd posib o'r uchafswm statudol blaenorol (100%) mae'n bwysig fod y Cabinet yn ystyriaeth llawn i'r cyd destun a heriau yng Ngwynedd, canlyniadau yr ymgynghoriad a'r wybodaeth a barn sydd wedi ei dderbyn a chanlyniadau yr Aseiad Ardrawiad Cydraddoldeb. Mae'r adroddiad yn esbonio y materion sydd yn berthnasol I'r penderfyniad a chanlyniadau y prosesau.

### **Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.



---

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## **Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru**



## Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Y Fframwaith Cyfreithiol ar gyfer Premiymau'r Dreth Gyngor.....	3
Adran 12A: Swm uwch ar gyfer anheddau gwag hirdymor.....	4
Adran 12B: Swm uwch ar gyfer ail gartrefi.....	5
Gwneud Penderfyniad i godi Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi.....	5
Eithriadau i Breimiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi.....	6
Dosbarth 1: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth.....	7
Dosbarth 2: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod.....	8
Dosbarth 3: Eithriad ar gyfer anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o'r brif annedd.....	8
Dosbarth 4: Eithriad ar gyfer anheddau, fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswyllo yn llety'r Lluoedd Arfog.....	8
Dosbarth 5: Eithriad ar gyfer safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod .....	8
Dosbarth 6: Eithriad ar gyfer cartrefi tymhorol lle y gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn.....	9
Dosbarth 7: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n gysylltiedig â gwaith.....	9
Lleihau Atebolrwydd am Breimiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi.....	10
Apeliadau.....	11
Y Camau Nesaf.....	11
Diwygiadau i Ddeddfwriaeth Gysylltiedig.....	11
Gweinyddu a Gorfodi.....	11
Defnydd o'r Refeniw Ychwanegol a gynhyrchir o Breimiymau'r Dreth Gyngor.....	11
Monitro ac Adrodd.....	12

# **Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru**

## **Cyflwyniad**

1. O 1 Ebrill 2017, bydd Awdurdodau Lleol yn cael codi premiwm o hyd at 100% o raddfa safonol y Dreth Gyngor ar gartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi yn eu hardal. Gwnaed y newidiadau i'r ddeddfwriaeth gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac mae'r pwerau a roddwyd i awdurdodau lleol yn rhai dewisol. Mae dewis codi premiwm ar gartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi (neu'r ddau) felly yn benderfyniad sydd i gael ei wneud gan bob awdurdod lleol.
2. Pwrpas y canllawiau hyn yw cynorthwyo awdurdodau lleol wrth iddynt benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio yn eu hardal.
3. Cynhyrchwyd y canllawiau hyn er mwyn sicrhau bod y premiymau a'r eithriadau yn cael eu gweithredu'n deg ac yn gyson ledled Cymru.
4. Mae'r canllawiau yn statudol ac fe'u cyhoeddir dan bwerau yn adrannau 12A (3) a 12B (4) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") fel y'u mewnosodwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Maent yn berthnasol i'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru.
5. Ni ddylid trin y canllawiau hyn fel dehongliad o'r ddeddfwriaeth. Mater i'r awdurdod lleol yn y lle cyntaf yw dehongli deddfwriaeth, gyda'r dehongliad terfynol yn gyfrifoldeb y llysoedd.

## **Y Fframwaith Cyfreithiol ar gyfer Premiymau'r Dreth Gyngor**

6. Mae paragraffau 7 - 14 yn disgrifio'r fframwaith cyfreithiol sy'n gyffredin i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'r gofynion sy'n benodol i gartrefi gwag hirdymor wedi eu hesbonio ym mharagraffau 15-17, ac mae'r rheiny sy'n benodol i ail gartrefi wedi eu disgrifio ym mharagraffau 18-19.
7. Mae Deddf 2014 yn diwygio Deddf 1992 drwy osod adrannau newydd 12A a 12B i mewn er mwyn galluogi awdurdod trethu (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) yng Nghymru i ddatgymhwyso unrhyw ddisgownt a ganiatawyd i anheddau gwag hirdymor ac anheddau lle mae rhywun yn byw yn achlysurol a chymhwyso swm uwch o dreth gyngor (premiwm).
8. Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i benderfynu ar swm y premiwm hyd at uchafswm o 100% o raddfa safonol y dreth gyngor sy'n berthnasol i'r annedd.

9. Pan benderfynir codi premiwm, rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi rhybudd o'r penderfyniad mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn ei ardal o fewn 21 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad.
10. Bydd penderfyniad gan awdurdod trethu i godi premiwm hefyd yn datgymhwyso unrhyw ddisgownt a ganiatawyd dan adran 11(2)(a) o Ddeddf 1992 ar gyfer anheddau lle nad oes preswylwyr.
11. Gall awdurdod trethu wneud, amrywio neu ddirymu penderfyniad a wnaed dan adrannau 12A a 12B o Ddeddf 1992, ond dim ond cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r penderfyniad yn berthnasol iddi.
12. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd bwerau dan adrannau 12A(4) a 12A(5), a 12B(5) a 12B(6) o Ddeddf 1992 i ragnodi drwy reoliadau rai dosbarthiadau o anheddau na fyddant o bosibl yn destun premiwm. Gwnaed Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau i Symiau Uwch Cymru) 2015 dan y pwerau hyn ac mae'r eithriadau y maent yn eu rhagnodi yn cael eu disgrifio yn ddiweddarach yn y canllawiau hyn.
13. Mae system y dreth gyngor eisoes yn darparu nifer o eithriadau penodol i'r dreth gyngor. Mae'r grwpiau sydd wedi eu heithrio wedi eu rhestru yng Ngorchymyn Treth Gyngor (Anheddau wedi eu Heithrio) 1992. Mae nifer o eithriadau yn eu lle ar gyfer anheddau gwag, megis, er enghraifft:
  - lle mae'r preswlydd mewn gofal preswyl tymor hir neu yn yr ysbyty,
  - lle mae adeiladwaith annedd yn cael ei drwsio (am hyd at flwyddyn),
  - lle mae'r preswlydd wedi marw (am hyd at chwe mis ar ôl rhoi profiant neu lythyrau gweinyddu).
14. Nid yw annedd sydd wedi ei heithrio o'r dreth gyngor yn agored i bremiwm. Fodd bynnag, pan na fydd annedd bellach yn gymwys i gael ei heithrio, ond yn parhau'n wag, bydd yn dod yn agored i'r premiwm. Yn achos cartref gwag, bydd yn agored i bremiwm ar ôl iddo fod yn wag am gyfnod di-dor o flwyddyn.

### **Adran 12A: Swm uwch ar gyfer anheddau gwag hirdymor**

15. Diffinnir annedd wag hirdymor fel annedd sydd wedi bod yn wag a heb ei dodrefnu i raddau helaeth am gyfnod di-dor o flwyddyn o leiaf.
16. Wrth benderfynu a yw annedd wedi bod yn wag am flwyddyn, nid yw unrhyw gyfnod cyn 1 Ebrill 2016 i gael ei gymryd i ystyriaeth. At hynny, ni fydd dodrefnu neu fyw mewn annedd am un neu fwy o gyfnodau o chwe wythnos neu lai yn ystod y flwyddyn yn effeithio ar ei statws fel annedd wag hirdymor. Mewn geiriau eraill, ni all person newid statws annedd fel annedd wag hirdymor drwy fyw ynddi neu osod dodrefn am gyfnod byr.

17. Pan fydd awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad i godi premiwm ar anheddau gwag hirdymor, efallai y bydd yn pennu gwahanol ganrannau (hyd at uchafswm o 100 y cant) ar gyfer gwahanol anheddau ar sail yr hyd o amser y maent wedi bod yn wag. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i fabwysiadu dull graddedig gyda chynyddiadau bychain yn cael eu cymhwyso dros gyfnod.

### **Adran 12B: Swm uwch ar gyfer ail gartrefi**

18. Diffinnir ail gartref fel annedd nad yw yn unig nac yn brif gartref person ac sydd wedi ei dodrefnu'n sylweddol. Cyfeirir at yr anheddau hyn yn Neddf 1992 fel anheddau y mae rhywun yn byw ynddynt o dro i dro ond y cyfeirir atynt yn gyffredin fel "ail gartrefi".

19. Er mwyn i bremiwm fod yn berthnasol i anheddau y mae rhywun yn byw ynddynt o dro i dro, rhaid i'r awdurdod trethu wneud ei benderfyniad cyntaf dan adran 12B o leiaf flwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r premiwm yn perthyn iddi. Mae hyn yn golygu er mwyn codi premiwm o 1 Ebrill 2017 bod rhaid i'r awdurdod trethu wneud penderfyniad cyn 1 Ebrill 2016. Rhaid gwneud penderfyniad i godi premiwm yn 2018 cyn 1 Ebrill 2017 ac felly ymlaen.

### **Gwneud penderfyniad i godi Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi**

20. Bwriadwyd i'r disgrisiwn a roddir i awdurdodau lleol i godi premiwm fod yn gyfrwng i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y canlynol:

- adfer defnydd cartrefi gwag hirdymor er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a
- chynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaladwyedd cymunedau lleol.

21. Wrth benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio, dylid talu sylw i'r nodau hyn. Dylai awdurdodau gymryd i ystyriaeth yr angen am dai a'r amgylchiadau neilltuol yn eu hardal.

22. Mae yna ystod o ffactorau a allai fod o gymorth i awdurdodau lleol i benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio. Tra y bydd rhai ffactorau yn benodol naill ai i gartrefi gwag hirdymor neu i ail gartrefi, bydd eraill yn gyffredin i'r ddau. Rhestrir y ffactorau hyn isod i fod o gymorth i awdurdodau lleol. Ni fwriadwyd i'r rhestr fod yn un derfynol.

- Niferoedd a chanrannau o gartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi yn yr ardal;
- Dosbarthiad cartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi a thai eraill ledled yr awdurdod ac asesiad o'u heffaith ar werthoedd eiddo mewn ardaloedd neilltuol;
- Yr effaith bosibl ar economïau lleol a'r diwydiant twristiaeth;

- Patrymau'r galw am gartrefi fforddiadwy a faint sydd ar gael;
- Yr effaith bosibl ar wasanaethau cyhoeddus lleol;
- Yr effaith bosibl ar y gymuned leol;
- Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau i gynyddu'r cyflenwad tai;
- Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau i fod o gymorth i adfer defnydd eiddo gwag.

23. Rhaid i'r penderfyniad gan awdurdod lleol i godi premiwm dan adrannau 12A neu 12B o Ddeddf 1992 gael ei wneud gan y Cyngor llawn. Cyn gwneud hynny, rhaid i'r awdurdod lleol roi'r ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru 2011 ac i'r holl ystyriaethau perthnasol eraill. Dylai'r awdurdod lleol hefyd ystyried ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr etholwyr lleol, a chynnal ymgynghoriad cyn penderfynu p'un ai codi un neu'r ddau bremiwm ynteu peidio.

24. Ar ôl penderfynu codi premiwm, yn ychwanegol at yr angen i gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol o fewn 21 diwrnod, dylai awdurdod lleol ystyried sut i gyfleu ei benderfyniad yn ehangach, yn enwedig i'r rheiny y gallai'r penderfyniad effeithio arnynt. Gall wneud hyn drwy gyhoeddi hysbysiadau yn y wasg, rhoi gwybodaeth ar dudalennau gwefan neu ddulliau eraill o godi ymwybyddiaeth megis, er enghraifft, cyfathrebu uniongyrchol â threthdalwyr y cyngor sy'n debygol o fod yn agored i'r premiwm. Efallai y bydd yr awdurdod lleol hefyd yn dymuno rhoi ystyriaeth i'r modd y mae'n rhoi gwybod ac yn hysbysu'r rheiny y gall y premiwm effeithio arnynt ond sydd fel rheol yn byw y tu allan i'r ardal leol.

### **Eithriadau i Breimymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi**

25. Mae adrannau 12A a 12B o Ddeddf 1992 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru iddynt wneud rheoliadau i ragnodi un neu ragor o ddsbarthiadau o anheddau na chaiff awdurdod trethu wneud penderfyniad i godi premiwm mewn perthynas â hwy. Gwnaed Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau i Symiau Uwch) (Cymru) 2015 dan y pwerau hyn - ni cheir codi premiwm ar annedd sy'n dod o fewn eithriad. Rhaid i awdurdod lleol gymryd yr eithriadau hyn i ystyriaeth cyn penderfynu gweithredu premiwm.

26. Mae'r rheoliadau yn rhagnodi saith dosbarth o anheddau sydd wedi eu heithrio. Mae Dosbarthiadau 1,2,3 a 4 yn ymwneud â chartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi. Ag ail gartrefi yn unig y mae a wnelo Dosbarthiadau 5,6 a 7. Mae'r dosbarthiadau o anheddau wedi eu hamlinellu yn y tabl isod a rhoddir mwy o fanylion yn eu cylch ym mharagraffau 28 - 46.

Dosbarthiadau o Anheddau	Diffiniad	Cymhwysiad
Dosbarth 1	Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un flwyddyn	Cartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi
Dosbarth 2	Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn	
Dosbarth 3	Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o'r brif annedd	
Dosbarth 4	Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswyllo yn llety'r Lluoedd Arfog	
Dosbarth 5	Safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod.	Ail Gartrefi
Dosbarth 6	Cartrefi tymhorol lle y gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn	
Dosbarth 7	Anheddau cysylltiedig â gwaith	

27. Disgrifir pob eithriad ymhellach yn yr adran nesaf. Darperir arweiniad ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriadau ar gyfer:

- anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth
- anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod
- anheddau cysylltiedig â gwaith.

### **Dosbarth 1: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth**

28. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n eithrio anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth. Mae hefyd yn cynnwys anheddau lle mae cynnig i brynu'r annedd wedi cael ei dderbyn ond bod y gwerthiant heb ei gwblhau eto.

29. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer yr eithriad hwn rhaid i annedd fod ar y farchnad i'w gwerthu am bris rhesymol. Wrth ystyried a yw pris yn rhesymol, dylid ystyried prisiau gwerthu anheddau tebyg yn yr ardal. Darperir arweiniad ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.

30. Mae'r cyfnod eithrio yn rhedeg am hyd at un flwyddyn o'r amser y caniatwyd yr eithriad. Wedi i'r eithriad ddod i ben, ni fydd annedd sy'n

cael ei marchnata fel annedd ar werth yn gymwys i gyfnod eithrio pellach oni fydd wedi cael ei gwerthu.

### **Dosbarth 2: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod**

31. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n eithrio anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod. Mae hefyd yn cynnwys anheddau lle mae cynnig rhentu wedi cael ei dderbyn ond nad oes gan y tenant hawl eto i fyw yn yr eiddo am nad yw'r denantiaeth wedi cychwyn eto.
32. Er mwyn bod yn gymwys i'r eithriad hwn, rhaid i annedd fod ar y farchnad i'w gosod am rent rhesymol, sef y rhent y disgwylid i'r eiddo ei ennill o ystyried y rhent a godir am anheddau cyffelyb. Darperir arweiniad ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.
33. Mae'r cyfnod eithrio yn rhedeg am hyd at un flwyddyn o'r amser y caniatawyd yr eithriad. Wedi i'r cyfnod eithrio ddod i ben, ni fydd annedd sy'n cael ei marchnata fel annedd ar osod yn gymwys i gyfnod eithrio pellach oni fydd wedi bod yn destun tenantiaeth a roddwyd am gyfnod o chwe mis neu ragor.

### **Dosbarth 3: Eithriad ar gyfer anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o'r brif annedd**

34. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi.
35. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol lle mae perchennog wedi addasu ei annedd i ddarparu anecs ac mae'r anecs bellach yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r brif annedd.

### **Dosbarth 4: Eithriad ar gyfer anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswyllo yn llety'r Lluoedd Arfog**

36. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi.
37. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun ond sy'n wag oherwydd bod y person hwnnw yn preswyllo yn llety'r Lluoedd Arfog.
38. Bwriedir i'r eithriad hwn hefyd gynnwys personél y lluoedd arfog y mae eu cartrefi'n wag oherwydd eu bod yn byw yn llety'r lluoedd arfog dramor.

### **Dosbarth 5: Eithriad ar gyfer safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod sy'n cael eu defnyddio.**

39. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n cynnwys safle lle mae carafán yn sefyll neu angorfa lle mae cwch wedi ei angori, lle nad oes neb yn preswyllo yn y cwch neu'r garafán, ond pan fydd yn cael ei defnyddio nesaf fydd yn unig neu'n brif breswylfa person.

### **Dosbarth 6: Eithriad ar gyfer cartrefi tymhorol lle y gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn**

40. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n berthnasol i anheddau sy'n destun amodau cynllunio sy'n atal preswyllo am gyfnod di-dor o 28 diwrnod o leiaf yn unrhyw gyfnod o 12 mis.

41. Bwriadwyd yr eithriad hwn i gynnwys cartrefi gwyliau pwrpasol neu hafotai sy'n destun amodau cynllunio sy'n atal preswyllo ar hyd y flwyddyn. Mae'r eithriad yn seiliedig ar ddiffiniad y disgownt dewisol presennol ar gyfer cartrefi tymhorol (Dosbarth A) yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) 1998<sup>1</sup>.

### **Dosbarth 7: Eithriad ar gyfer anheddau sy'n gysylltiedig â gwaith**

42. Nid yw'r eithriad hwn yn berthnasol ond i'r premiwm ar ail gartrefi ac mae'n ymwneud ag annedd lle mae person yn byw sydd:

- yn berson cymwys mewn perthynas â'r annedd, ond sy'n preswyllo mewn annedd arall sy'n gysylltiedig â gwaith (fel y'i diffiniwyd yn Atodlen 1 y Rheoliadau); neu
- yn berson cymwys mewn perthynas ag annedd sy'n gysylltiedig â gwaith.

43. Diffinnir person cymwys fel:

- person sy'n agored i dreth gyngor o ran annedd ar ddiwrnod arbennig, p'un a yw hynny ar y cyd gyda pherson arall neu beidio; a
- pherson fyddai'n agored i'r dreth gyngor o ran annedd ar ddiwrnod arbennig, p'un a fyddai hynny ar y cyd gyda pherson arall neu beidio, os nad oedd yr annedd honno yn dod o fewn:
  - i. Dosbarth O Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau sydd wedi eu heithrio) 1992; neu
  - ii. Dosbarth E Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd Perchnogion) 1992.

44. Mae'r eithriad hwn yn berthnasol lle mae gofyn i berson breswyllo mewn annedd gysylltiedig â gwaith. Mae'n berthnasol i ail gartref lle mae rhywun yn byw'n achlysurol oherwydd bod angen i berson fyw mewn llety

---

<sup>1</sup> SI 1998 Rhif 105



cysylltiedig â gwaith yn rhywle arall. Mae hefyd yn berthnasol lle mae'r llety cysylltiedig â gwaith yn ail gartref person.

45. Rhoddir diffiniad o annedd gysylltiedig â gwaith yn yr Atodlen i'r Rheoliadau. Er bod yr eithriad hwn yn debyg i'r disgownt cysylltiedig â gwaith dan Reoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) 1998, mae'n wahanol oherwydd nad yw'r disgownt yn berthnasol ond os yw'r annedd gysylltiedig â gwaith yn unig neu brif breswylfa person.
46. Gwahaniaeth arall i'r disgownt ar gyfer annedd gysylltiedig â gwaith yw nad oes gofyn i'r trethdalwr fod yn atebol am y dreth gyngor o ran dwy annedd, sy'n golygu y gall person sydd â phrif gartref dramor neu annedd gysylltiedig â gwaith dramor hefyd elwa o'r eithriad. Darperir arweiniad ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.

### **Lleihau Atebolrwydd am Bremiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag-Hirdymor ac Ail Gartrefi**

47. O dan adran 13A o Ddeddf 1992, mae gan awdurdod trethu bwerau dewisol i leihau atebolrwydd am dreth gyngor i'r cyfryw raddau ag y mae'r awdurdod trethu yn meddwl sy'n addas. Gellir arfer y grym mewn achosion neilltuol neu drwy benderfynu dosbarth neu achos. Gellir defnyddio'r grym i leihau atebolrwydd am dreth gyngor mewn amgylchiadau lle y byddai awdurdod lleol fel arall yn codi premiwm.
48. Mae rhai enghreifftiau i ddarlunio lle y gallai awdurdod lleol ystyried defnyddio'r pwerau hyn yn cynnwys:
- lle mae rhesymau pam na ellid byw yn yr annedd;
  - lle mae rhesymau pam na ellid gwerthu neu osod yr annedd;
  - lle mae cynnig wedi cael ei dderbyn ar eiddo ond nad yw'r gwerthiant wedi cael ei gwblhau eto ac mae'r cyfnod eithrio wedi dod i ben;
  - lle y gallai codi premiwm achosi caledi.
49. Nid yw'r rhestr uchod yn derfynol a bydd ar awdurdodau trethu eisiau ystyried yr holl ffactorau y maent yn meddwl eu bod yn berthnasol.
50. Mater i awdurdod lleol yw p'un a yw pwerau dewisol 13A yn cael eu defnyddio i leihau atebolrwydd am dreth gyngor o ran y premiwm. Er mwyn tegwch a thryloywder, dylai fod gan awdurdod lleol bolisi clir ar p'un a ddefnyddir y pwerau hyn ai peidio a sut. Dylai'r awdurdod, fodd bynnag, ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod ar ôl cymryd amgylchiadau'r achos i ystyriaeth.
51. Dylid nodi y bydd trafodaethau ynghylch defnyddio pwerau dewisol 13A yn debygol o fod yn wahanol pan gânt eu hystyried i leihau atebolrwydd am dreth gyngor sy'n ganlyniad premiwm o gymharu â lleihau atebolrwydd am raddfa safonol y dreth gyngor. Mae hyn oherwydd bod anheddau sy'n agored i bremiwm eisoes yn agored i'r raddfa safonol o dreth gyngor.

## **Apeliadau**

52. Os bydd person yn teimlo ei fod wedi cael cam drwy gyfrifiad yr awdurdod lleol o swm y dreth gyngor y mae'n atebol amdano, gan gynnwys ei atebolrwydd i dalu premiwm, rhaid iddo, yn y lle cyntaf, apelio at ei awdurdod lleol.
53. Os bydd yn teimlo ei fod wedi cael cam drwy benderfyniad yr awdurdod lleol neu os na fydd yr awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad o fewn y cyfnod o amser sy'n ofynnol, gall apelio at Dribiwnlys Priso Cymru ond dim ond ar ôl dihysbyddu proses apelio'r awdurdod lleol.
54. Ceir gwybodaeth bellach am y broses apelio ar wefan Tribiwnlys Priso Cymru drwy'r cyswllt isod:
- <http://www.valuation-tribunals-wales.org.uk/home.html>

## **Y Camau Nesaf**

### **Diwygiadau i Ddeddfwriaeth Gysylltiedig**

55. Er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu gweinyddu a gorfodi'r premiwm, bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol i adlewyrchu cyflwyno'r premiwm, er enghraifft, newidiadau i gyfrifiad sylfaen y dreth ac i'r broses apelio.

### **Gweinyddu a Gorfodi**

56. Er mwyn bod o gymorth i awdurdodau lleol gyda gweinyddu a gorfodi'r premiymau, yn enwedig cymhwyso'r eithriadau, darperir arweiniad ychwanegol.
57. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan rai awdurdodau ynglŷn ag anawsterau gweinyddol a ffyrdd posibl o gamddefnyddio, bydd yr arweiniad hwn hefyd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriadau ar gyfer:
- anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth;
  - anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod; ac
  - anheddau cysylltiedig â gwaith.

### **Defnydd o'r Refeniw Ychwanegol a gynhyrchir o Bremiymau'r Dreth Gyngor**

58. Bydd awdurdod lleol yn cael cadw unrhyw gyllid ychwanegol a gynhyrchir drwy weithredu'r premiwm a gwneir diwygiadau i gyfrifiad sylfaen y dreth er mwyn hwyluso hyn. Fodd bynnag, anogir awdurdodau i ddefnyddio unrhyw refeniw ychwanegol a gynhyrchir i gynorthwyo i ddiwallu anghenion tai lleol, yn unol â bwriadau polisi'r premiymau.

59. Caiff gofynion penodol o ran adrodd am y refeniw ychwanegol a gynhrychwyd, a'r defnydd ohono yn ddiweddarach, eu hegluro mewn arweiniad pellach. Rhoddir rhagor o fanylion ynglŷn â hyn yn yr adran nesaf.

### **Monitro ac Adrodd**

60. Er mwyn monitro pa mor effeithiol yw'r premiymau ac er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ynghylch y defnydd a wneir ohonynt ar gael yn glir i drethdalwyr lleol, bydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fonitro ac adrodd am weithrediad y premiymau.

61. Caiff y gofynion penodol mewn perthynas â hyn eu hesbonio mewn arweiniad pellach a gyhoeddir cyn Ebrill 2017. Mae hwn yn debygol o gynnwys:

- Nifer yr adeiladau sy'n agored i'r premiwm;
- Yr incwm ychwanegol a godwyd drwy weithredu'r premiymau;
- Sut y cafodd unrhyw incwm ychwanegol ei ddefnyddio;
- Nifer y cartrefi gwag yr adferwyd eu defnydd.

62. Mae modiwl newydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar Datatank i awdurdodau lleol ei ddefnyddio wrth fodelu, monitro ac adrodd ar y premiymau. Bydd hwn ar gael i'r holl awdurdodau lleol yn y Flwyddyn Newydd.

Tîm Trethi Lleol  
Llywodraeth Cymru  
Rhagfyr 2015

# Canlyniadau Ymgynghoriad Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor – Hydref 2022

**Dyddiad Cyflwyno:** 2022-11-04

**Awduron:** Tîm Ymchwil a Dadansoddeg

# Cynnwys

## Tudalen

1. Cyflwyniad	3
2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad	4
3. Ymatebion ar Ail Gartrefi	5
4. Ymatebion ar Eiddo Gwag Hirdymor	22
5. Atodiad : Cwestiynau Cydraddoldeb	40

# 1. Cyflwyniad

Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar 30ain Medi ac roedd yn agored tan 28ain Hydref. Rhoddwyd yr holiadur ar wefan y Cyngor gyda llythyrau wedi cael eu gyrru i holl berchnogion ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor, a negeseuon atgoffa yn cael eu rhoi ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor.

Derbyniwyd 7,330 o ymatebion i'r holiadur. Roedd 7,277 o ymatebion i'r holiadur ar-lein a 53 o ymatebion papur. Dyma'r nifer fwyaf o ymatebion mae'r Cyngor wedi ei weld i unrhyw ymgynghoriad yn y blynyddoedd diwethaf.

Cafodd yr ymgynghoriad ei rannu yn ddwy ran, sef rhan ar gyfer ail gartrefi a rhan ar gyfer eiddo gwag hirdymor.

## 2. Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cafwyd 7,330 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

### 2.1 Eich sefyllfa chi?

Roedd cwestiwn cyntaf yr holiadur yn gofyn i ymatebwyr ddewis un neu fwy o ddatganiadau oedd yn disgrifio'u sefyllfa hwy. Dyma'r nifer, a'r canran, o ymatebwyr a ddewisodd y gwahanol ddatganiadau:

Sefyllfa	Nifer	Canran
Mae fy mhrif gartref yng Ngwynedd	3,518	48.0%
Mae fy mhrif gartref y tu allan i Wynedd	2,690	36.7%
Mae gen i ail gartref yng Ngwynedd	3,483	47.5%
Mae gen i eiddo gwag hirdymor yng Ngwynedd	237	3.2%

Gan y byddai modd i ymatebwyr unigol fod mewn mwy nag un o'r sefyllfaoedd uchod, mae'n haws cangoreiddio'r ymatebwyr fel â ganlyn:

Categori	Nifer	Canran
Heb ail gartref na eiddo gwag yng Ngwynedd*	3,646	49.7%
Perchen ail gartref yng Ngwynedd (ond dim eiddo gwag hirdymor)	3,447	47.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor yng Ngwynedd (ond dim ail gartref)	201	2.7%
Perchen ail gartref ac eiddo gwag hirdymor yng Ngwynedd	36	0.5%
<b>Cyfanswm Ymatebwyr</b>	<b>7,330</b>	<b>100.0%</b>

*\*Mae'r categori yma yn gallu cynnwys ymatebwyr sydd yn byw yng Ngwynedd a thu allan i Wynedd, sydd heb ail gartref na eiddo gwag hirdymor yng Ngwynedd*

Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr felly (50.3%, N=3,684) yn berchen ar un ai ail gartref neu annedd gwag hirdymor yng Ngwynedd (neu'r ddau).

O fewn y ffigwr yma roedd 47.0% yn berchen ar ail gartref, 2.7% yn berchen ar annedd gwag hirdymor, a 0.5% yn berchen ar y ddau (h.y. annedd gwag hirdymor ac ail gartref yng Ngwynedd).

Doedd 49.7% o'r ymatebwyr ddim yn berchen ar ail gartref nag annedd gwag hirdymor yng Ngwynedd. O fewn y ffigwr yma, roedd 8.5% (N=625) wedi nodi hefyd bod eu prif gartref y tu allan i Wynedd.


### 3. Canlyniadau ar gyfer Ail Gartrefi

Mae'r rhan yma yn edrych yn benodol ar ganlyniadau'r cwestiynau ynglŷn ag ail gartrefi.

#### 3.1 Pa effaith mae ail gartrefi yn ei gael ar gymunedau lleol yng Gwynedd ar hyn o bryd?

Mewn cyfanswm roedd dros hanner yr ymatebwyr (58.7%, N=4,304) yn meddwl fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra fod 27.7% (N=2,030) o'r farn eu bod yn cael effaith negyddol, gydag 8.2% (N=603) yn meddwl eu bod yn cael dim effaith. Nid oedd gan 5.4% (N=393) o'r ymatebwyr farn ar hyn.

Fodd bynnag drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.



*“Ddim yn berchen ail gartref” yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*“Perchen ail gartref” yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p'run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio*



Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymatebion fesul categori, ac yn dangos bod 80.5% o'r ymatebwyr sydd yn berchen ar ail gartref yn meddwl fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra mai llai na hanner (39.4%) o'r ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor sydd o'r farn yma. Mae 48.7% o'r ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref nac eiddo gwag hirdymor yn meddwl bod ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra mai dim ond 5.3% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref sydd o'r farn yma.

Gwelir fod ymatebion y rhai sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn eithaf cyfartal, gyda ychydig mwy ohonynt (35.3%) yn teimlo fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd.


Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref mae'r farn eto yn fwy rhanedig ond gyda'r mwyafrif (55.6%) o'r farn fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar hyn o bryd.

	Effaith gadarnhaol		Dim effaith		Effaith negyddol		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	1,437	39.4%	275	7.5%	1,776	48.7%	158	4.3%	3,646	100.0%
Perchen ar ail gartref	2,776	80.5%	298	8.6%	184	5.3%	189	5.5%	3,447	100.0%
Perchen ar eiddo gwag hirdymor	71	35.3%	27	13.4%	64	31.8%	39	19.4%	201	100.0%
Perchen ar eiddo gwag hirdymor ac ar ail gartref	20	55.6%	3	8.3%	6	16.7%	7	19.4%	36	100.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>4,304</b>	<b>58.7%</b>	<b>603</b>	<b>8.2%</b>	<b>2,030</b>	<b>27.7%</b>	<b>393</b>	<b>5.4%</b>	<b>7,330</b>	<b>100.0%</b>

### 3.2 Ar hyn o bryd mae Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi yn 100%. Mae'r Cyngor yn ystyried a ddylid cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor. A yw hyn yn briodol yn eich barn chi?

Mewn cyfanswm roedd tri-chwarter yr ymatebwyr (75.0%, N=5,497) o'r farn nad yw'n briodol cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi. Roedd 24.1% (N=1,764) yn credu ei bod yn briodol ei gynyddu, gyda 0.9% (N=69) heb farn.

Fodd bynnag drwy wahanu'r atebion rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim (siart isod), gwelir rhywfaint o wahaniaeth barn gyda mwyafrif llethol yr ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn gwrthwynebu cynyddu lefel y premiwm. Ymhlith ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref roedd y farn yn fwy rhanedig, ond gyda'r mwyafrif yma hefyd o'r farn na fyddai'n briodol cynyddu'r premiwm.



*"Ddim yn berchen ail gartref" yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*"Perchen ail gartref" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p'run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio*

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymatebion fesul categori, ac yn dangos bod mwyafrif llethol (96.9%) yr ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn gwrthwynebu cynyddu lefel y premiwm ar ail gartrefi, gyda mwyafrif llai (54.1%) o'r ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor yn rhannu'r un farn. Roedd 44.6% o'r ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref nac eiddo gwag hirdymor o'r farn y byddai cynyddu lefel y premiwm ar ail gartref yn briodol, ond dim ond 2.7% o berchnogion ail gartrefi oedd o'r un farn.


Roedd mwyafrif (76.1%) o'r ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor hefyd yn gwrthwynebu cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi. Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd 88.9% yn gwrthwynebu cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi.

	Ydi		Nac Ydi		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	1,626	44.6%	1,973	54.1%	47	1.3%	3,646	100.0%
Perchen ail gartref	94	2.7%	3,339	96.9%	14	0.4%	3,447	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	42	20.9%	153	76.1%	6	3.0%	201	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	2	5.6%	32	88.9%	2	5.6%	36	100.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,764</b>	<b>24.1%</b>	<b>5,497</b>	<b>75.0%</b>	<b>69</b>	<b>0.9%</b>	<b>7,330</b>	<b>100.0%</b>

### 3.3 Ar ba lefel rydych chi'n credu dylai'r Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi gael ei osod?

Roedd cyfle i'r 1,764 o ymatebwyr oedd o'r farn y byddai'n briodol cynyddu'r lefel premiwm treth cyngor ar ail gartrefi, roi eu barn wedyn ar y lefel y dylid ei osod.

Ymhlith yr ymatebwyr yma, roedd tua dau-draean (66.1%, N=1,166) yn credu dylid cynyddu'r premiwm hyd at 300% gydag 16.6% arall (N=292) yn credu y dylid ei osod hyd at 200% (siart isod).



Dangosir y canlyniadau llawn fesul categori ymatebwyr yn y tabl isod ond dylid nodi, gan nad oedd llawer o ymatebwyr sy'n berchen ail gartref / eiddo gwag hirdymor o blaid cynyddu'r premiwm o gwbl, bod y canrannau yn y categorïau yma yn seiliedig ar niferoedd bychan.

	Hyd at 150%		Hyd at 200%		Hyd at 250%		Hyd at 300%		Dim barn		C'swm
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	124	7.6%	268	16.5%	82	5.0%	1,119	68.8%	33	2.0%	1,626
Perchen ail gartref	44	46.8%	19	20.2%	1	1.1%	20	21.3%	10	10.6%	94
Perchen eiddo gwag hirdymor	3	7.1%	5	11.9%	2	4.8%	26	61.9%	6	14.3%	42
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	-	-	-	-	-	-	1	50.0%	1	50.0%	2
<b>Cyfanswm</b>	<b>171</b>	<b>9.7%</b>	<b>292</b>	<b>16.6%</b>	<b>85</b>	<b>4.8%</b>	<b>1,166</b>	<b>66.1%</b>	<b>50</b>	<b>2.8%</b>	<b>1,764</b>


*Cwestiwn ddim ond yn berthnasol i ymatebwyr oedd o blaid cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi*

### 3.4 Sut ddylai'r cynnydd yn y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi gael ei gyflwyno?

Roedd hefyd cyfle i'r 1,764 o ymatebwyr oedd o blaid cynyddu'r lefel premiwm treth cyngor ar ail gartrefi roi eu barn ar sut ddylai'r cynnydd gael ei gyflwyno.

Ymhlith yr ymatebwyr yma, roedd tua tri-chwarter (74.1%, N=1,308) yn credu dylid cynyddu'r premiwm ar unwaith mewn un cam, gyda 22.5% (N=397) yn credu dylid ei gyflwyno'n raddol dros sawl blwyddyn (siart isod).

Sut ddylai'r cynnydd yn y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi gael ei gyflwyno?  
(Ymhlith ymatebwyr oedd o'r farn ei bod yn briodol cynyddu'r premiwm yn unig)



Unwaith eto dangosir y canlyniadau llawn fesul categori ymatebwyr isod ond gan nodi eto, gan nad oedd llawer o ymatebwyr sy'n berchen ail gartref / eiddo gwag hirdymor o blaid cynyddu'r premiwm o gwbl, bod y canrannau o fewn y categorïau yma yn seiliedig ar niferoedd bychan.


	Ar unwaith mewn un cam		Yn raddol, dros sawl blwyddyn		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	1,256	77.2%	320	19.7%	50	3.1%	1,626	100.0%
Perchen ail gartref	26	27.7%	61	64.9%	7	7.4%	94	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	25	59.5%	15	35.7%	2	4.8%	42	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	1	50.0%	1	50.0%	-	-	2	100.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,308</b>	<b>74.1%</b>	<b>397</b>	<b>22.5%</b>	<b>59</b>	<b>3.3%</b>	<b>1,764</b>	<b>100.0%</b>

*Cwestiwn ddim ond yn berthnasol i ymatebwyr oedd o blaid cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi*

### 3.5 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi yn ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Mewn cyfanswm roedd dros hanner yr ymatebwyr (59.0%, N=4,327) o'r farn na fyddai cynyddu lefel y premiwm ar ail gartrefi yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Roedd gweddill yr ymatebion yn eithaf cyfartal gyda 19.5% (N=1,432) yn meddwl byddai'n cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a 16.5% (N=1,207) o'r farn y byddai'n cael effaith negyddol.

Fodd bynnag o edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir tipyn o wahaniaeth yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.



*“Ddim yn berchen ail gartref” yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*“Perchen ail gartref” yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p'run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio*

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod 73.9% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn credu na fyddai cynyddu lefel y premiwm yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg, gyda 18.7% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol.

Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor mae'r farn rywfaint yn fwy rhanedig gyda 45.6% o'r farn na fyddai'n cael effaith ar y Gymraeg, 36.4% yn credu byddai'n cael effaith gadarnhaol ac 13.8% yn credu byddai'n cael effaith negyddol.

Ymhlith y rhai sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor roedd y mwyafrif (52.2%) yn teimlo na fyddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith ar y Gymraeg.

Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd eu hanner (50.0%) yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg a thraean (33.3%) yn credu na fyddai'n cael unrhyw effaith.


	Effaith gadarnhaol		Dim effaith		Effaith negyddol		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	1,328	36.4%	1,661	45.6%	502	13.8%	155	4.3%	3,646	100.0%
Perchen ail gartref	68	2.0%	2,549	73.9%	646	18.7%	184	5.3%	3,447	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	33	16.4%	105	52.2%	41	20.4%	22	10.9%	201	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	3	8.3%	12	33.3%	18	50.0%	3	8.3%	36	100.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,432</b>	<b>19.5%</b>	<b>4,327</b>	<b>59.0%</b>	<b>1,207</b>	<b>16.5%</b>	<b>364</b>	<b>5.0%</b>	<b>7,330</b>	<b>100.0%</b>

### 3.6 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi yn ei gael ar y gymuned leol?

Mewn cyfanswm roedd mwyafrif yr ymatebwyr (62.3%, N=4,566) yn meddwl y byddai cynyddu lefel y premiwm treth cyngor ar ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol. Roedd 23.0% (N=1,685) yn credu byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol a 12.3% (N=902) yn meddwl na fyddai'n cael effaith.

Fodd bynnag drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir peth gwahaniaeth yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.





*“Ddim yn berchen ail gartref” yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o’r ddau*

*“Perchen ail gartref” yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p’run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio*

Mae’r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod y mwyafrif llethol (81.4%) o’r ymatebwyr sy’n berchen ar ail gartref yn credu byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol. Roedd 13.7% yn credu na fyddai cynyddu’r premiwm yn cael unrhyw effaith.

Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor mae’r farn yn rhanedig iawn gyda 44.8% yn credu y byddai cynyddu’r premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol, 42.4% yn credu byddai’n cael effaith gadarnhaol a 10.6% o’r farn na fyddai yna effaith.

Ymhlith y rhai sy’n berchen ar eiddo gwag hirdymor roedd y mwyafrif (51.2%) yn teimlo y byddai cynyddu’r premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol.


Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy’n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd y mwyafrif (63.9%) yn credu y byddai cynyddu’r premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol.

	Effaith gadarnhaol		Dim effaith		Effaith negyddol		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	1,547	42.4%	386	10.6%	1,634	44.8%	79	2.2%	3,646	100.0%
Perchen ail gartref	96	2.8%	472	13.7%	2,806	81.4%	73	2.1%	3,447	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	39	19.4%	37	18.4%	103	51.2%	22	10.9%	201	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	3	8.3%	7	19.4%	23	63.9%	3	8.3%	36	100.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,685</b>	<b>23.0%</b>	<b>902</b>	<b>12.3%</b>	<b>4,566</b>	<b>62.3%</b>	<b>177</b>	<b>2.4%</b>	<b>7,330</b>	<b>100.0%</b>

### 3.7 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi yn ei gael ar yr economi leol?

Mewn cyfanswm roedd mwyafrif yr ymatebwyr (70.9%, N=5,200) yn meddwl y byddai cynyddu lefel y premiwm treth cyngor ar ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar yr economi leol. Roedd 16.4% (N=1,203) yn credu byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol a 9.6% (N=703) yn meddwl na fyddai'n cael effaith.

Drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir rhywfaint o wahaniaeth yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.



*“Ddim yn berchen ail gartref” yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o’r ddau*

*“Perchen ail gartref” yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p’run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio*

Mae’r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod mwyafrif llethol (90.8%) yr ymatebwyr sy’n berchen ar ail gartref yn credu byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol. Roedd 5.8% yn credu na fyddai cynyddu’r premiwm yn cael unrhyw effaith.

Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor roedd 52.6% yn credu y byddai cynyddu’r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol, 30.7% yn credu byddai’n cael effaith gadarnhaol a 12.9% o’r farn na fyddai yna effaith.

Ymhlith y rhai sy’n berchen ar eiddo gwag hirdymor roedd y mwyafrif (61.7%) yn teimlo y byddai cynyddu’r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol.

Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy’n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd y mwyafrif (75.0%) yn credu y byddai cynyddu’r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol.

	Effaith gadarnhaol		Dim effaith		Effaith negyddol		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	1,119	30.7%	469	12.9%	1,918	52.6%	140	3.8%	3,646	100.0%
Perchen ail gartref	59	1.7%	201	5.8%	3,131	90.8%	56	1.6%	3,447	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	24	11.9%	29	14.4%	124	61.7%	24	11.9%	201	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	1	2.8%	4	11.1%	27	75.0%	4	11.1%	36	100.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,203</b>	<b>16.4%</b>	<b>703</b>	<b>9.6%</b>	<b>5,200</b>	<b>70.9%</b>	<b>224</b>	<b>3.1%</b>	<b>7,330</b>	<b>100.0%</b>


### 3.8 Oes yna ail gartrefi eraill rydych chi'n credu y dylid eu heithrio rhag talu'r Premiwm Treth Cyngor?

Mae'r ail gartrefi canlynol wedi eu heithrio'n statudol rhag bod yn destun y Premiwm:

- Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un flwyddyn
- Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn
- Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan o'r brif annedd
- Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswyllo yn llety'r Lluoedd Arfog
- Safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod
- Cartrefi tymhorol lle gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn
- Anheddau cysylltiedig â gwaith

Roedd gan yr ymatebwyr gyfle i ystyried a oedd angen ychwanegu unrhyw fath o ail gartref arall ar y rhestr. Bu i 43.6% (N=3,195) o'r ymatebwyr nodi bod angen gwneud hyn, gyda 32.4% (N=2,375) yn nodi nad oedd angen ychwanegu at y rhestr a 24.0% (N=1,760) heb farn.

Fel ddangosir yn y siart isod roedd ymatebwyr sy'n berchen ail gartref yn fwy tebygol nag ymatebwyr eraill o awgrymu eithriadau i'r premiwm, gyda 57.2% (N=1,994) o holl berchnogion ail gartrefi yn nodi hyn o'i gymharu â 31.2% (N=1,201) o'r holl ymatebwyr eraill.



*“Ddim yn berchen ail gartref” yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*“Perchen ail gartref” yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p'run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio*

### 3.9 Nodwch unrhyw ail gartrefi eraill rydych chi'n credu y dylid eu heithrio rhag talu'r Premiwm Treth Cyngor

Roedd gan y rhai nododd bod angen ychwanegu at y rhestr eithrio gyfle i fanylu ar hyn. O'r 3,195 nododd “Oes” bu i 97.7% (N=3,122) fanylu ar hynny mewn sylwadau.

Sylwad	Nifer sylwadau	% o'r nifer roddodd sylwadau
Ail gartrefi sy'n cael eu gosod ar gyfer gwyliau neu fusnesau neu at ddibenion twristiaeth	523	16.8%
Ail gartrefi sydd yn cael eu defnyddio yn aml	373	11.9%
Pob ail gartref	366	11.7%
Cartrefi wedi eu hetifeddu a nawr yn cael eu defnyddio fel ail gartrefi / etifeddu ac yn bwriadu cadw / cartrefi sydd wedi bod 'yn y teulu' am gyfnod	268	8.6%
Ail gartref sydd wedi cael eu perchnogi am gyfnod penodol o amser neu a brynwyd cyn dyddiad penodedig	191	6.1%

Eiddo adeiladwyd fel Cartrefi Gwyliau neu lle gwaherddir preswylfa barhaol	152	4.9%
Ail gartrefi unigolion gyda cysylltiad lleol (ee teulu, wedi byw yng Ngwynedd neu Cymru ac ati) neu y mae eu prif gartref yn lleol	146	4.7%
Anheddau ar yr un safle â phreswylfa barhaol ee anecs, adeiladau fferm	108	3.5%
Lleoliad annymunol / Anheddau anghysbell / Mynediad cyfyngedig / Cyfleusterau cyfyngedig / Defnydd cyfyngedig o gyfleusterau'r Cyngor	105	3.4%
Defnydd personol yn unig neu ddim yn cynhyrchu incwm	101	3.2%
Yn cael ei adnewyddu neu yn aros am ganiatâd cynllunio	92	2.9%
Eiddo sydd ddim yn addas i fyw ynddo drwy'r flwyddyn oherwydd maint neu cyflwr y tŷ, neu ei fod yn gartref tymhorol, carafán, cabanau gwyliau ac ati	88	2.8%
Yn dibynnu ar amgylchiadau'r perchennog ee pensiywyr, salwch, lle mae'r perchennog mewn cartref gofal neu berson sengl	85	2.7%
Cysylltiedig â swydd neu prifysgol - gweithio yn rhywle arall neu byw yn rhywle arall a gweithio yng Ngwynedd	76	2.4%
Eiddo a brynwyd cyn y premiwm	70	2.2%
Cartrefi anaddas i bobl leol neu brynwyr tro cyntaf	63	2.0%
Eiddo sydd wedi neu am gael eu osod ar gyfer rent tymor hir	59	1.9%
Bydd yr ail gartref yn dod yn brif breswylfa yn y dyfodol	58	1.9%
Cyfnod i feddwl ar ôl colled ag etifeddu cartref	55	1.8%
Defnydd elusennol, cymdeithasol ddefnyddiol neu galluogi gwaith elusennol ee Wcrain, gwirfoddoli tra yna, cartefu gweithwyr allweddol ac ati	53	1.7%
Cartrefi gwyliau	42	1.3%
Eiddo sydd ar werth neu am gael ei werthu	41	1.3%
Ail gartref sydd wedi neu sydd am gael ei adeiladu, datblygu neu gwella gan y perchennog	25	0.8%
Ail gartrefi o dan brydles sy'n gwahardd gosod neu isosod eiddo neu gyfyngu ar gyfer defnydd personol yn unig	22	0.7%
Lleoliad - Cartrefi mewn ardaloedd lle nad oes galw mawr neu mewn ardaloedd lle nad oes llawer o ail gartrefi	22	0.7%
Adeiladau mewn cyflwr gwael	18	0.6%
Ail dai sydd o fudd i'r economi neu leol (ag eithrio twristiaeth neu categori arall) ee cyflogi staff	17	0.5%
Adeiladau rhestredig	12	0.4%
Ail gartref sydd yn ran o fusnes arall (dim yn gysylltiedig a twristiaeth) ee fferm	9	0.3%
Cartrefi gwerth uchel	7	0.2%
Ail gartrefi sydd ddim yn cael eu defnyddio yn aml	7	0.2%
Cartrefi gwerth isel	6	0.2%
Eiddo gwag	6	0.2%
Wedi cofrestru i bleidleisio yn eu ail dai	5	0.2%

Ail dai yn eu unig eiddo yn y DU	2	0.1%
Eiddo prydles	1	0.0%
Yn eiddo i unigolyn nid cwmni eiddo	1	0.0%
Lle mae un cartref o'r ddau gartref yn cael ei rentu gan yr unigolyn	1	0.0%
Eiddo sydd ddim yn wag am gyfnod hir	1	0.0%

*Gan fod nifer o ymatebwyr wedi gwneud mwy nag un sylwad mae'r niferoedd yn adio i fwy na 100%*

### 3.10 Unrhyw sylwadau eraill sydd gennych am ail gartrefi

Bu i 72.7% (N=5,329) o'r ymatebwyr wneud sylw pellach am ail gartrefi.

Sylwad	Nifer sylwadau	% o'r nifer roddodd sylwadau
Perchnogion ail gartrefi yn cyfrannu i'r economi leol / cymuned leol. Byddai cyfyngu ar ail gartrefi yn niweidio'r economi	2731	51.2%
Byddai premiwm TC uwch yn targedu pobl sydd ag ail gartref, yn annheg / afresymol	892	16.7%
Mae ail gartrefi yn rhwystr i farchnad dai fforddiadwy i bobl leol / i gymunedau hyfyw	548	10.3%
Annheg ar deuluoedd sydd wedi etifeddu cartref (yn cynnwys pobl lleol) / Annheg ar deuluoedd sydd wedi buddsoddi yng Ngwynedd am ddegawdau / Annheg ar pob sydd wedi cynilo am flynyddoedd i brynu ail dŷ	508	9.5%
Pobl lleol ddim eisiau prynu'r tai / Y tŷ yn anaddas i deulu (cyflwr/lleoliad) / Y tŷ wedi bod ar y farchnad ers sbel cyn iddyn nhw ei brynu / Wedi gwario miloedd yn gwneud tŷ anaddas i fyny	459	8.6%
Dylai'r Cyngor wneud mwy i ddarparu a hybu tai fforddiadwy	426	8.0%
Byddwn i / pobl rwy'n eu hadnabod yn gwerthu eu ail gartref pe bai'r premiwm yn cynyddu	384	7.2%
Ni fyddai cynnydd yn y premiwm yn helpu gwneud tai yn fforddiadwy	371	7.0%
Pobl lleol hefyd yn berchen ar ail dŷ / Cosbi pobl lleol sydd wedi buddsoddi oherwydd twristiaeth	235	4.4%
Creu swyddi / economi hyfyw ydi'r ateb yn hytrach na chodi premiwm	216	4.1%
Angen cynyddu premiwm TC ar ail gartrefi cyn gynted â phosib	206	3.9%
Dim ond codi premiwm ar berchnogion ail dai sydd efo'i prif dŷ y tu allan i Wynedd / Gogledd Cymru / Cymru - dim cosbi trigolion Gwynedd	160	3.0%
Angen cau unrhyw 'loopholes' o ran trethiant (gan gynnwys trethiant llety gwyliau)	157	2.9%

Dylid delio efo problem tai fforddiadwy mewn ffyrdd eraill, e.e. rheoliadau cynllunio / cyfyngiadau ar brynu	156	2.9%
Byddai cynnydd yn y premiwm yn targedu pobl o Loegr / yn hiliol / yn erbyn hawliau dynol	131	2.5%
Dylid dim ond cyflwyno newidiadau Treth Cyngor mewn rhai ardaloedd, yn dibynnu ar amgylchiadau lleol	122	2.3%
Ddim yn deg talu mwy o dreth, pan yn defnyddio llai o wasanaethau na thrigolion lleol	121	2.3%
Angen cyfyngiadau ar, a rheoli'n well, y farchnad llety gwyliau tymor-byr	118	2.2%
Y rheol '182 dydd' i lety gwyliau gael eu cyfrif fel busnes yn afrealistig / annheg ac yn golygu bydd mwy yn gorfod talu y premiwm	110	2.1%
Byddai cynnydd mewn premiwm yn achosi cynnydd yn nifer y llety gwyliau	98	1.8%
Ddim yn eglur sut byddai'r arian o unrhyw gynnydd (a / neu y cynnydd blaenorol) yn cael ei ddefnyddio	77	1.4%
Byddai cynyddu'r premiwm yn arwain at newid yn natur perchnogaeth ail gartrefi, gyda buddsoddwyr a phobl gyfoethog yn unig yn gallu eu fforddio	71	1.3%
Dylai unrhyw breimiwm gael ei gyfyngu i bryniannau newydd, nid i bobl oedd wedi prynu tai cyn hyn	57	1.1%
Byddai cynyddu premiwm yn achosi cwmp ym mhrisiau tai yn lleol, efo canlyniadau sylweddol / niweidiol	44	0.8%
Ail gartrefi ddim yn cael effaith ar y iaith Gymraeg (neu'n llai niweidiol na pe baent yn mynd i drigolion parhaol nad ydynt yn siarad Cymraeg)	27	0.5%
Mae ail gartrefi yn broblem gymhleth, ac angen cymryd unrhyw gamau gyda gofal / ar sail tystiolaeth fanwl	26	0.5%
Dylai tai sydd yn y broses o gael eu atgyweirio gael eu eithrio / Tai sydd ddim mewn cyflwr i gael eu gwerthu neu rhentu	23	0.4%
Rhai tai wedi cael eu hadeiladu yn benodol fel ail gartrefi a /neu cyfyngiadau ar faint o amser ellir bod yno	19	0.4%
Ni fyddai'n 'edrych yn dda' i Wynedd fod yn cynyddu premiwm TC - delwedd anghroesawgar / mewnblyg	18	0.3%
Ddim yn adeg da i wneud unrhyw newid, oherwydd cyflwr yr economi	8	0.2%
Ni fyddai cynyddu'r premiwm ddim ond yn symud y broblem i ran arall o Gymru	7	0.1%
Dylid eithrio mentrau cymdeithasol nid er elw sy'n rhedeg unedau gwyliau	1	0.0%

*Gan fod nifer o ymatebwyr wedi gwneud mwy nag un sylwad mae'r niferoedd yn adio i fwy na 100%*




## 4. Canlyniadau ar gyfer Eiddo Gwag Hirdymor

Mae'r rhan yma yn edrych yn benodol ar ganlyniadau'r cwestiynau ynglŷn ag eiddo gwag hirdymor.

### 4.1 Pa effaith mae eiddo gwag hirdymor yn ei gael ar gymunedau lleol yng Gwynedd ar hyn o bryd?

Mewn cyfanswm roedd mwyafrif yr ymatebwyr (72.9%, N=5,342) yn meddwl fod eiddo gwag hirdymor yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra fod 16.2% (N=1,191) o'r farn nad ydynt yn cael effaith ac 1.3% (N=96) yn meddwl eu bod yn cael effaith gadarnhaol. Nid oedd gan 9.6% (N=701) o'r ymatebwyr farn ar hyn.

Fodd bynnag drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor a'r rhai sydd ddim, gwelir rhywfaint o wahaniaeth yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.



*“Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor” yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*“Perchen eiddo gwag hirdymor” yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p'run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio.*

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymatebion fesul categori o ymatebwyr. Y prif wahaniaeth amlwg ydi bod ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn fwy tebygol nag ymatebwyr eraill i fod o'r farn nad yw yn cael effaith ar gymunedau lleol: roedd 37.3% o'r rhai sydd ag eiddo gwag hirdymor, a 30.6% o'r rhai sydd ag eiddo gwag hirdymor ac ailgartref, yn meddwl nad oes effaith. Mae hyn yn cymharu ag 13.4% o'r ymatebwyr oedd heb eiddo gwag hirdymor nag ail gartref, ac 17.9% o ymatebwyr sydd ag ail gartref.


	Effaith gadarnhaol		Dim effaith		Effaith negyddol		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	45	1.2%	487	13.4%	2,886	79.2%	228	6.3%	3,646	100.0%
Perchen ail gartref	48	1.4%	618	17.9%	2,341	67.9%	440	12.8%	3,447	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	3	1.5%	75	37.3%	95	47.3%	28	13.9%	201	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	-	-	11	30.6%	20	55.6%	5	13.9%	36	100.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>96</b>	<b>1.3%</b>	<b>1,191</b>	<b>16.2%</b>	<b>5,342</b>	<b>72.9%</b>	<b>701</b>	<b>9.6%</b>	<b>7,330</b>	<b>100.0%</b>

#### 4.2 Ar hyn o bryd mae Premiwm Treth Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn 100%. Mae'r Cyngor yn ystyried a ddylid cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor. A yw hyn yn briodol yn eich barn chi?

At ei gilydd roedd barn yr ymatebwyr yn rhanedig iawn gyda 43.8% (N=3,210) yn meddwl na fyddai cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn briodol, a 43.4% (N=3,181) yn credu y byddai yn briodol. Nid oedd gan 12.8% (N=939) o'r ymatebwyr farn ar hyn.

Fodd bynnag o edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor a'r rhai sydd ddim, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.

A yw yn briodol yn eich barn chi i gynyddu lefel y premiwm treth cyngor ar eiddo gwag hirdymor?



*“Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor” yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o’r ddau*

*“Perchen eiddo gwag hirdymor” yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p’run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio.*

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymatebion fesul categori, ac yn dangos bod mwyafrif llethol (84.1%) yr ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn gwrthwynebu cynyddu lefel y premiwm ar yr eiddo yma, tra ymhlith ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref nac eiddo gwag hirdymor roedd y mwyafrif (55.8%) o blaid cynyddu'r premiwm.


Ymhlith perchnogion ail gartrefi roedd yr ymateb yn fwy cymysg gyda 48.9% yn gwrthwynebu cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor a 32.4% o blaid ei gynyddu. O ran y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref, roedd 69.4% yn gwrthwynebu cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor.

	Ydi		Nac Ydi		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	2,035	55.8%	1,330	36.5%	281	7.7%	3,646	100.0%
Perchen ail gartref	1,116	32.4%	1,686	48.9%	645	18.7%	3,447	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	23	11.4%	169	84.1%	9	4.5%	201	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	7	19.4%	25	69.4%	4	11.1%	36	100.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>3,181</b>	<b>43.4%</b>	<b>3,210</b>	<b>43.8%</b>	<b>939</b>	<b>12.8%</b>	<b>7,330</b>	<b>100.0%</b>

### 4.3 Ar ba lefel rydych chi'n credu dylai'r Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor gael ei osod?

Roedd cyfle i'r 3,181 o ymatebwyr oedd o'r farn bod cynyddu'r lefel premiwm treth cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn briodol, roi eu barn wedyn ar y lefel dylid ei osod.

Ymhlith yr ymatebwyr yma, roedd 42.4% (N=1,350) yn credu dylid cynyddu'r premiwm hyd at 300%, gyda 25.4% arall (N=808) yn credu y dylid ei gynyddu hyd at 200% a 20.3% (N=645) am ei gynyddu hyd at 150% (siart isod).



Dangosir y canlyniadau llawn fesul categori ymatebwyr yn y tabl isod ond gan nodi, gan nad oedd llawer o ymatebwyr sy'n berchen eiddo gwag hirdymor o blaid cynyddu'r premiwm o gwbl, bod y canrannau yn y categorïau yma yn seiliedig ar niferoedd bychan.

	Hyd at 150%		Hyd at 200%		Hyd at 250%		Hyd at 300%		Dim barn		C'swm
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	320	15.7%	462	22.7%	70	3.44%	1,083	53.2%	100	4.9%	2,035
Perchen ail gartref	317	28.4%	338	30.3%	25	2.2%	259	23.2%	177	15.9%	1,116
Perchen eiddo gwag hirdymor	6	26.1%	8	34.8%	-	-	7	30.4%	2	8.7%	23
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	2	28.6%	-	-	-	-	1	14.3%	4	57.1%	7
<b>Cyfanswm</b>	<b>645</b>	<b>20.3%</b>	<b>808</b>	<b>25.4%</b>	<b>95</b>	<b>3.0%</b>	<b>1,350</b>	<b>42.4%</b>	<b>283</b>	<b>8.9%</b>	<b>3,181</b>

*Cwestiwn ddim ond yn berthnasol i ymatebwyr oedd o blaid cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor*


#### 4.4 Sut ddylai'r cynnydd yn y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor gael ei gyflwyno?

Roedd hefyd cyfle i'r 3,181 o ymatebwyr oedd o'r farn bod cynyddu'r lefel premiwm treth cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn briodol, roi eu barn ar sut dylai'r cynnydd gael ei gyflwyno.

Ymhlith yr ymatebwyr yma, roedd tua'u hanner (52.9%, N=1,684) yn credu dylid cynyddu'r premiwm ar unwaith mewn un cam, gyda 40.6% (N=1,290) yn credu dylid ei gyflwyno'n raddol dros sawl blwyddyn (siart isod).

Sut ddylai'r cynnydd yn y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor gael ei gyflwyno?

*(Ymhlith ymatebwyr oedd o'r farn ei bod yn briodol cynyddu'r premiwm yn unig)*



Unwaith eto dangosir y canlyniadau llawn fesul categori ymatebwyr isod ond gan nodi eto, gan nad oedd llawer o ymatebwyr sy'n berchen eiddo gwag hirdymor o blaid cynyddu'r premiwm o gwbl, bod y canrannau o fewn y categorïau yma yn seiliedig ar niferoedd bychan.


	Ar unwaith mewn un cam		Yn raddol, dros sawl blwyddyn		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	1,313	64.5%	645	31.7%	77	3.8%	2,035	100.0%
Perchen ail gartref	365	32.7%	623	55.8%	128	11.5%	1,116	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	5	21.7%	17	73.9%	1	4.3%	23	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	1	14.3%	5	71.4%	1	14.2%	7	100.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,684</b>	<b>52.9%</b>	<b>1,290</b>	<b>40.6%</b>	<b>207</b>	<b>6.5%</b>	<b>3,181</b>	<b>100.0%</b>

**Cwestiwn ddim ond yn berthnasol i ymatebwyr oedd o blaid cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor**

## 4.5 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor yn ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Mewn cyfanswm roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (55.1%, N=3,433) yn meddwl na fyddai cynyddu lefel y premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Roedd 21.7% (N=1,588) yn meddwl y byddai yna effaith gadarnhaol a 10.2% (N=748) yn meddwl y byddai yna effaith negyddol.

O edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor a'r rhai sydd ddim, fe welir (siart isod) bod perchnogion eiddo gwag hirdymor rywfaint yn fwy tueddol i gredu y byddai effaith negyddol ar y Gymraeg pe cynyddid y premiwm (a llai tueddol i gredu y byddai yna effaith gadarnhaol).



*“Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor” yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau*

*“Perchen eiddo gwag hirdymor” yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p'run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio.*

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod 58.7% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn credu na fyddai cynyddu lefel y premiwm yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg, gyda 21.4% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol.

Roedd mwyafrif perchnogion ail gartrefi (67.3%) o'r farn na fyddai cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Ond ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor, roedd y farn rywfaint yn fwy rhanedig gyda 45.3% o'r farn na




fyddai'n cael effaith ar y Gymraeg, 36.7% yn credu byddai'n cael effaith gadarnhaol a 9.5% yn credu byddai'n cael effaith negyddol.

	Effaith gadarnhaol		Dim effaith		Effaith negyddol		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	1,339	36.7%	1,650	45.3%	346	9.5%	311	8.5%	3,646	100.0%
Perchen ail gartref	234	6.8%	2,321	67.3%	349	10.1%	543	15.8%	3,447	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	14	7.0%	118	58.7%	43	21.4%	26	12.9%	201	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	1	2.8%	18	50.0%	10	27.8%	7	19.4%	36	100.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,588</b>	<b>21.7%</b>	<b>4,107</b>	<b>56.0%</b>	<b>748</b>	<b>10.2%</b>	<b>887</b>	<b>12.1%</b>	<b>7,330</b>	<b>100.0%</b>

#### 4.6 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor yn ei gael ar y gymuned leol?

Mewn cyfanswm roedd y farn ar y cwestiwn yma yn eithaf rhanedig gyda 40.0% (N=2,935) o'r ymatebwyr yn meddwl byddai cynyddu lefel y premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol, 26.0% (N=1,905) yn credu na fyddai effaith a 22.1% (N=1,619) o'r farn y byddai yna effaith negyddol. Nid oedd gan 11.9% (N=871) o'r ymatebwyr farn ar hyn.

Fodd bynnag drwy edrych ar wahân ar ymatebion y rhai sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor a'r rhai sydd ddim, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.



*“Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor” yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o’r ddau*

*“Perchen eiddo gwag hirdymor” yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p’run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio*

Mae’r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod 42.3% o’r ymatebwyr sy’n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn credu y byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol, gyda 34.8% yn credu na fyddai’n cael unrhyw effaith.

Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor roedd y mwyafrif (53.6%) yn credu y byddai cynyddu’r premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol, 21.5% o’r farn na fyddai yna unrhyw effaith, ac 17.7% yn credu y byddai yna effaith negyddol.

Ymhlith y rhai sy’n berchen ar ail gartref roedd y farn yn rhanedig iawn gyda 30.1% o’r farn na fyddai unrhyw effaith, 27.6% o’r farn y byddai effaith gadarnhaol a 25.4% yn credu y byddai effaith negyddol.


Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy’n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd 38.9% yn meddwl na fyddai effaith ar y gymuned leol, a 33.3% yn credu y byddai effaith negyddol.

	Effaith gadarnhaol		Dim effaith		Effaith negyddol		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	1,954	53.6%	783	21.5%	645	17.7%	264	7.2%	3,646	100.0%
Perchen ail gartref	952	27.6%	1,038	30.1%	877	25.4%	580	16.8%	3,447	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	27	13.4%	70	34.8%	85	42.3%	19	9.5%	201	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	2	5.6%	14	38.9%	12	33.3%	8	22.2%	36	100.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,935</b>	<b>40.0%</b>	<b>1,905</b>	<b>26.0%</b>	<b>1,619</b>	<b>22.1%</b>	<b>871</b>	<b>11.9%</b>	<b>7,330</b>	<b>100.0%</b>

#### 4.7 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor yn ei gael ar yr economi leol?

At ei gilydd 'roedd cryn wahaniaeth barn ar y cwestiwn yma hefyd gyda 37.5% (N=2,752) o'r holl ymatebwyr yn credu y byddai cynyddu lefel y premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol. Roedd 26.8% (N=1,964) o'r farn na fyddai unrhyw effaith, a 23.7% (N=1,740) yn credu y byddai effaith negyddol. Nid oedd gan 11.9% (N=874) o'r ymatebwyr farn ar hyn.

Fodd bynnag drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor a'r rhai sydd ddim, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.



*“Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor” yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o’r ddau*

*“Perchen eiddo gwag hirdymor” yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p’run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio*

Mae’r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod 48.3% o’r ymatebwyr sy’n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn credu byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol. Roedd 29.4% yn credu na fyddai cynyddu’r premiwm yn cael unrhyw effaith.

Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor roedd 49.3% yn credu y byddai cynyddu’r premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol, 23.4% yn credu byddai’n cael unrhyw effaith ac 19.6% o’r farn y byddai’n cael effaith negyddol.

Ymhlith y rhai sy’n berchen ar ail gartref roedd y farn yn rhanedig gyda 30.2% yn teimlo na fyddai cynyddu’r premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael unrhyw effaith ar yr economi leol, 26.8% yn meddwl y byddai yna effaith gadarnhaol a 26.5% yn credu y byddai yna effaith negyddol.

Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy’n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd 41.7% yn credu y byddai cynyddu’r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol, a 25.0% yn credu na fyddai’n cael unrhyw effaith.

	Effaith gadarnhaol		Dim effaith		Effaith negyddol		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	1,799	49.3%	854	23.4%	714	19.6%	279	7.7%	3,646	100.0%
Perchen ail gartref	924	26.8%	1,042	30.2%	914	26.5%	567	16.4%	3,447	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	24	11.9%	59	29.4%	97	48.3%	21	10.4%	201	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	5	13.9%	9	25.0%	15	41.7%	7	19.4%	36	100.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,752</b>	<b>37.5%</b>	<b>1,964</b>	<b>26.8%</b>	<b>1,740</b>	<b>23.7%</b>	<b>874</b>	<b>11.9%</b>	<b>7,330</b>	<b>100.0%</b>


#### 4.8 Oes yna eiddo gwag hirdymor eraill rydych chi'n credu y dylid eu heithrio rhag talu'r Premiwm Treth Cyngor?

Mae'r eiddo gwag hirdymor canlynol wedi eu heithrio'n statudol rhag bod yn destun y Premiwm:

- Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un flwyddyn
- Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn
- Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan o'r brif annedd
- Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswyllo yn llety'r Lluoedd Arfog

Roedd gan yr ymatebwyr gyfle i ystyried a oedd angen ychwanegu unrhyw fath o eiddo gwag hirdymor arall ar y rhestr. Bu i 16.3% (N=1,196) o'r ymatebwyr nodi bod angen gwneud hyn, gyda 45.4% (N=3,329) yn nodi nad oedd angen ychwanegu at y rhestr a 38.3% (N=2,805) heb farn.

Fel ddangosir yn y siart isod roedd ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn fwy tebygol nag ymatebwyr eraill i awgrymu eithriadau i'r premiwm, gyda 65.8% (N=156) o holl berchnogion eiddo gwag hirdymor yn nodi hyn o'i gymharu ag 14.7% (N=1,040) o'r holl ymatebwyr eraill.



“Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor” yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o’r ddau

“Perchen eiddo gwag hirdymor” yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p’run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio

#### 4.9 Nodwch unrhyw eiddo gwag hirdymor eraill rydych chi’n credu y dylid eu heithrio rhag talu’r Premiwm Treth Cyngor

Roedd gan y rhai nododd bod angen ychwanegu at y restr eithrio gyfle i fanylu ar hyn. O’r 1,196 nododd “Oes” bu i 92.7% (N=1,109) fanylu ar hynny mewn sylwadau.

Sylwad	Nifer sylwadau	% o'r nifer roddodd sylwadau
Eiddo sydd yn cael gwaith adnewyddu sylweddol (anodd cael gweithwyr)	230	20.7%
Eiddo wedi eu hetifeddu/"probate"	188	17.0%
Gwag oherwydd wedi gorfod mynd i ofal/ysbyty	111	10.0%
Eiddo sydd wedi bod ar werth/i'w rentu am gyfnod hir	95	8.6%
Angen cynyddu'r cyfnod eithriad i fwy na 12mis	89	8.0%
Eiddo sydd ddim ffit i fyw ynddynt	79	7.1%
Pob eiddo gwag hirdymor	78	7.0%
Llety gwyliau	49	4.4%
Ail gartrefi sydd yn cael eu defnyddio	48	4.3%
Cytuno gyda'r rhestr	39	3.5%

Eiddo gwag sydd yn rhan o'r prif gartref ac yn anodd ei wahanu i'w werthu/rhentu e.e. eiddo ar ffermydd	36	3.2%
Eiddo wedi bod ym mherchnogaeth y teulu ers cenedlaethau	34	3.1%
Eiddo yn aros am ganiatad cynllunio/newid defnydd / trwy'r llysoedd	32	2.9%
Eiddo mewn perchnogaeth Cymry Cymraeg/person lleol	30	2.7%
Eiddo ble mae'r perchennog wedi gorfod mynd i ffwrdd i weithio ond yn bwriadu dychwelyd yn y dyfodol	26	2.3%
Eiddo gyda gwerth hanesyddol/rhestredig	26	2.3%
Eiddo gwag gyda busnes yn rhan ohono	16	1.4%
Eiddo sydd ddim yn derbyn gwasanaethau gan y Cyngor	15	1.4%
Ni ddylid codi mwy o dreth ar unrhyw eiddo boed yn wag neu beidio	14	1.3%
Angen gwell diffiniad o "hirdymor"	12	1.1%
Eiddo gwag ble mae'r perchennog yn bwriadu dod i fyw yn barhaol iddo yn y dyfodol	12	1.1%
Eiddo gwag yn berchen elusen/y gymuned	10	0.9%
Pwerau i'r Cyngor i orfodi rhywun werthu yr eiddo iddynt os ydi o wedi bod yn wag am gyfnod penodol	9	0.8%
Eiddo gyda cyfyngiadau neu weithredoedd cyfamod	9	0.8%
Eiddo gwag yn berchen i bensynwyr	8	0.7%
Eiddo ble mai cartref gwyliau oedd y pwrpas gwreiddiol	7	0.6%
Carafanau statig / chalet / annex	5	0.5%
Eiddo gwag oherwydd bod y perchennog yn y carchar	3	0.3%
Tai amlfeddiannaeth (HMO) gwag	3	0.3%
Angen edrych ar pob cais yn unigol	3	0.3%
Eiddo sydd wedi bod yn wag am llai na 5 mlynedd	2	0.2%
Eiddo ble mae pobl yn berchen arnynt ers blynyddoedd e.e. 10 mlynedd	2	0.2%
Perchennog eiddo hefo anabledd neu yn sâl hirdymor	1	0.1%
Eiddo masnachol	1	0.1%
Angen codi premiwm ar adeiladau masnachol gwag	1	0.1%
Ddim yn cytuno hefo'r rhestr - ddylai annex ddim cael eu heithrio	1	0.1%

*Gan fod nifer o ymatebwyr wedi gwneud mwy nag un sylwad mae'r niferoedd yn adio i fwy na 100%*

## 4.10 Unrhyw sylwadau eraill sydd gennych am eiddo gwag hirdymor

Bu i 32.9% (N=2,415) o'r ymatebwyr wneud sylw pellach am eiddo gwag hirdymor.

Sylwad	Nifer sylwadau	% o'r nifer roddodd sylwadau
Gyda gymaint o brinder tai yn yr ardal angen annog/cymhell perchnogion eiddo gwag hirdymor i'w gwerthu/rhentu i bobl leol	477	19.8%
Prynu Gorfodol gan y Cyngor ar ôl cyfnod penodol o eiddo fod yn wag - datblygu i fod yn gartrefi i bobl leol	306	12.7%
Ydi'r Cyngor wedi siarad efo perchnogion eiddo gwag i ddeall pam ei fod yn wag yn hytrach na chodi y premiwm - angen penderfynu lefel premiwm achos wrth achos	274	11.3%
Eiddo gwag hirdymor yn gallu bod yn fler a chael effaith ar eiddo cyfagos/delwedd yr ardal/fandaliaeth	260	10.8%
Eiddo gwag hirdymor yn llawer mwy o broblem i gymunedau na ail gartrefi	259	10.7%
Premiwm yn syniad da ond rhaid cael eithriadau e.e. pan mae rhywun yn gorfod mynd i gartref gofal/mynd drwy "probate"/gwaith adnewyddu sylweddol	238	9.9%
Eiddo gwag hirdymor yn ddim help i'r economi leol	200	8.3%
Dylai'r premiwm orfodi perchnogion wneud rhywbeth efo nhw	152	6.3%
Angen cynyddu'r cyfnod eithrio - mwy na 12 mis	127	5.3%
Grantiau i bobl leol ddatblygu eiddo gwag	122	5.1%
Ffordd ddiog gan y Cyngor i godi arian yn lle edrych ar eu gwariant	98	4.1%
Angen gwell diffiniad o "hirdymor" a'r gwahaniaeth rhwng ail gartref/llety gwyliau ac eiddo gwag	97	4.0%
Eiddo gwag hirdymor yn cael effaith ar y gymuned leol a'r iaith Gymraeg	93	3.9%
Byddai ffigyrau am nifer yr eiddo gwag sydd yng Ngwynedd wedi bod yn ddefnyddiol wrth ateb yr ymgynghoriad	80	3.3%
Bydd hyn yn arwain at fwy o eiddo gwag gael eu rhoi ar y farchnad	78	3.2%
Nid dyma'r amser i godi treth cyngor - costau byw ddigon uchel yn barod	77	3.2%
Eiddo gwag yn mynd yn anoddach i'w gwerthu/rhentu oherwydd sefyllfa'r economi	71	2.9%
Fe gaiff effaith negyddol ar dwristiaeth	69	2.9%
Caiff codi y premiwm o bosib yr effaith groes i'r hyn mae'n bwriadu ei gael	64	2.7%
Byddai premiwm yn rwystr i fuddsoddiad/gwariant yn yr ardal	59	2.4%
Nifer o'r eiddo gwag yma ddim yn mynd i fod yn addas ar gyfer anghenion tai yn y gymuned, gan gynnwys teuluoedd ifanc	56	2.3%



Angen sicrhau nad oes rhai yn cymryd mantais o'r eithriadau i osgoi talu treth ychwanegol	49	2.0%
Angen i Gyngor Gwynedd ganolbwyntio ar greu mwy o swyddi yn yr ardal	46	1.9%
Dylai eiddo gwag hirdymor ble nad oes unrhyw fwriad gwella neu werthu dalu y premiwm	45	1.9%
Dylai'r Cyngor fod wedi adeiladu llawer iawn mwy o dai fforddiadwy nac maent wedi ei wneud	42	1.7%
Oes tystiolaeth fod y premiwm 100% yn cael ei fuddsoddi yn y cymunedau?	41	1.7%
Angen edrych ar reolau cynllunio - gwneud hi yn haws dod a eiddo gwag yn ôl i ddefnydd / rheoliadau sydd ddim ond caniatáu pobl leol	40	1.7%
Dylai'r premiwm aros yn 100%	39	1.6%
Holiadur yn rhagfarnllyd a chul a ddim yn ddiuedd	34	1.4%
Angen deddfwriaethau pellach i warchod eiddo er lles cymunedau ac unigolion lleol ac nid eu cosbi	33	1.4%
Rhai eiddo gwag wedi bod ym mherchnogaeth y teulu ers canrifoedd	31	1.3%
Y premiwm yn mynd yn erbyn hawliau dynol/hiliol	31	1.3%
Dylid helpu pobl i adnewyddu adfeilion	29	1.2%
Angen canolbwyntio ar eiddo masnachol gwag yn gyntaf	27	1.1%
Rhai eiddo gwag wedi eu prynu er mwyn dod i fyw iddynt yn y dyfodol	26	1.1%
Dylai eiddo gwag dalu llai o dreth cyngor ac nid mwy - ddim yn derbyn dim gwasanaethau	20	0.8%
Dylai'r Cyngor helpu perchnogion i ddod ag eiddo i ddefnydd yn hytrach na'u cosbi: cydweithredu	20	0.8%
Ni ellid rhoi bai ar eiddo gwag am ddirywiad yn yr iaith Gymraeg	17	0.7%
Premiwm ddim yn deg os nad ydi o yn cael ei ddefnyddio yr un fath drwy'r wlad	16	0.7%
Angen gwneud yn glir/digon o rybudd pryd fydd y newidiadau yn digwydd	15	0.6%
Dylai premiwm fod yn daladwy gan bobl leol yn union yr un fath	13	0.5%
Rheolau llym ar gyfer landlordiaid yn stopio nhw rentu y tai i bobl	12	0.5%
Ni ddylid cynnwys eiddo sydd wedi eu dodrefnu er nad oes neb yn byw ynddynt	11	0.5%
Byddai codi'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi	10	0.4%
Dylid codi treth cyngor ar garafanau sydd yn ail-gartrefi	7	0.3%
Bydd hyn yn arwain at fwy o eiddo gwag droi yn lety gwyliau	7	0.3%
Ni fyddai codi'r premiwm yn cael llawer o effaith ynddo'i hun ar y defnydd o eiddo gwag	6	0.2%
Bydd codi y premiwm yn creu mwy o waith i staff y Cyngor e.e. mynd ar ôl rhai sydd ddim yn talu	4	0.2%
Eiddo gwag ddim yn broblem anferth yn yr ardal	4	0.2%
Cynnig canran premiwm gwahanol	2	0.1%

Ni ddylai neb o du allan i Wynedd gael ymgynghori ar y polisi Treth Cyngor	1	0.0%
Ni ddylid caniatau newid enwau eiddo i enwau Saesneg	1	0.0%
Dylai'r premiwm fod yn ddibynnol ar brofi incwm	1	0.0%

*Gan fod nifer o ymatebwyr wedi gwneud mwy nag un sylwad mae'r niferoedd yn adio i fwy na 100%*

## Atodiad : Cwestiynau Cydraddoldeb

### 1. Rhyw

Categori	Nifer	Canran
Dynes / Benyw	3,162	43.1%
Dyn / Gwryw	3,491	47.6%
Dwi'n uniaethu mewn ffordd wahanol	25	0.3%
Gwell gennyf beidio â dweud	652	8.9%
<b>Cyfanswm Ymatebwyr</b>	<b>7,330</b>	<b>100.0%</b>

### 2. Oedran

Categori	Nifer	Canran
15 oed neu'n iau	1	0.0%
16 - 24 oed	106	1.4%
25 - 34 oed	428	5.8%
35 - 44 oed	772	10.5%
45 - 54 oed	1,474	20.1%
55 - 64 oed	1,806	24.6%
65 - 74 oed	1,405	19.2%
75 - 84 oed	626	8.5%
85 + oed	101	1.4%
Gwell gennyf beidio â dweud	611	8.3%
<b>Cyfanswm Ymatebwyr</b>	<b>7,330</b>	<b>100.0%</b>

### 3. Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol

Categori	Nifer	Canran
Albanaidd	41	0.6%
Cymreig	2,556	34.9%
Gwyddelig o Ogledd Iwerddon	20	0.3%
Prydeinig	2,111	28.8%
Seisnig	1,702	23.2%
Arall	249	3.4%
Gwell gennyf beidio â dweud	651	8.9%
<b>Cyfanswm Ymatebwyr</b>	<b>7,330</b>	<b>100.0%</b>

#### 4. Hil

Categori	Nifer	Canran
Asiaidd	15	0.2%
Cymysg / sawl grŵp ethnig	50	0.7%
Du / Affricanaidd / Caribiaidd	7	0.1%
Gwyn	6,319	86.2%
Sipsiwn / teithiwr Gwyddelig	1	0.0%
Arall	52	0.7%
Gwell gennyf beidio â dweud	886	12.1%
<b>Cyfanswm Ymatebwyr</b>	<b>7,330</b>	<b>100.0%</b>

#### 5. Crefydd

Categori	Nifer	Canran
Bwdhaidd	15	0.2%
Cristion	3,744	51.1%
Hindw	3	0.0%
Iddewig	9	0.1%
Mwslim	8	0.1%
Sic	2	0.0%
Dim crefydd	2,249	30.7%
Arall	115	1.6%
Gwell gennyf beidio â dweud	1,185	16.2%
<b>Cyfanswm Ymatebwyr</b>	<b>7,330</b>	<b>100.0%</b>

#### 6. Rhywioldeb

Categori	Nifer	Canran
Deurywiol	49	0.7%
Dyn hoyw	61	0.8%
Dynes hoyw / lesbiaidd	28	0.4%
Heterorywiol / Strêt	5,660	77.2%
Arall	109	1.5%
Gwell gennyf beidio â dweud	1,377	18.8%
Heb ateb	46	0.6%
<b>Cyfanswm Ymatebwyr</b>	<b>7,330</b>	<b>100.0%</b>

## 7. Hunaniaeth rhywedd wedi newid?

Categori	Nifer	Canran
Nac ydi	6,086	83.0%
Ydi	89	1.2%
Gwell gennyf beidio â dweud	1,076	14.7%
Heb ateb	79	1.1%
<b>Cyfanswm Ymatebwyr</b>	<b>7,330</b>	<b>100.0%</b>

## 8. Anabledd

Categori	Nifer	Canran
Nac ydw	5,989	81.7%
Ydw	366	5.0%
Gwell gennyf beidio â dweud	975	13.3%
<b>Cyfanswm Ymatebwyr</b>	<b>7,330</b>	<b>100.0%</b>

## 9. Sgiliau Cymraeg

Categori*	Nifer	Canran
Siarad Cymraeg	2,593	35.4%
Deall Cymraeg ar lafar	2,591	35.3%
Darllen Cymraeg	2,024	27.6%
Ysgrifennu'n Gymraeg	1,670	22.8%
Ddim yn deall Cymraeg	1,741	23.8%
Gwell gennyf beidio â dweud	1,580	21.6%
Arall	229	3.1%

\*modd dewis mwy nac un categori

## Paratowyd yr adroddiad yma gan

### Tîm Ymchwil

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol  
Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

E-bost: [ymchwil@gwynedd.llyw.cymru](mailto:ymchwil@gwynedd.llyw.cymru)

Ffôn: 01286 679619

[www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil](http://www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil)

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu [DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru](mailto:DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru), am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## I) Manylion

### I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Premiwm Treth Cyngor ar Eiddo Gwag Hir Dymor ac Ail Gartrefi

### I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2021 roedd y Cyngor wedi bod yn codi premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir-dymor, ac ers 1 Ebrill 2021 cynyddwyd lefel y Premiwm i 100%. O 1 Ebrill 2023 bydd y ddeddfwriaeth wedi newid a bydd gan y Cyngor yr hawl i gynyddu lefel y Premiwm i 300%

Bydd angen i'r Cyngor llawn wneud ei benderfyniad ar y lefel Premiwm ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 yn ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr 2022 a hynny ar sail argymhelliad sydd i'w benderfynu gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd.

Yn ei gyfarfod ar 27 Medi 2022, cytunodd y Cabinet i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar sut dylai ymateb i'r newid deddfwriaeth sy'n galluogi'r Cyngor i gynyddu lefel y Premiwm y tu hwnt i'r 100% presennol.

### **I.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?**

Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

### **I.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?**

15 Rhagfyr 2020. Dechreuodd yr asesiad hwn ar ôl i'r Cabinet benderfynu y byddai'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn darganfod barn y cyhoedd ar y cynnig i newid graddfa'r Premiwm.

Mae'r asesiad wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn Tachwedd 2021 er mwyn cymryd ystyriaeth o'r Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

Mae wedi cael ei addasu a'i ddiweddarau ymhellach yn Hydref / Tachwedd 2022 er mwyn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a lansiwyd ym Medi 2022



## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Mae gan y Cyngor y grym o dan Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd) i addasu lefel y Premiwm hyd at 300% o 1 Ebrill 2023 ymlaen, wedi i'r Ddeddf gael ei addasu gan *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022 (SI 2022/370 Cy.90)*. Yr uchafswm blaenorol oedd 100%. Fodd bynnag, mae'n ddisgwyliad echblyg i ni ymgynghori hefo'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus, gyda sylw wedi ei roi yn y wasg lleol ac ar wefannau cymdeithasol, ac ysgrifennodd y Cyngor at berchnogion eiddo sy'n destun y Premiwm.

Y partneriaid a rhanddeiliaid allweddol oedd:

Trigolion Gwynedd  
Trethdalwyr ar eiddo gwag ac ail gartrefi

Bu cydweithio gyda nifer o bartneriaid mewnol, e.e.:

Adran Cyllid  
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol  
Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd  
Y Cyngor Llawn

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig, ynglŷf n â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Rydym wedi ymdrechu i adnabod unigolion gyda nodweddion gwarchoddedig gan fod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn gofyn i'r ymatebwyr ein hysbysu o unrhyw nodweddion gwarchoddedig fel bod modd ystyried rhain wrth ddatblygu'r polisi.

Roedd yr ymgynghoriad yn un cyhoeddus ac roedd yr holiadur ar gael i unrhyw un i'w lenwi ar-lein. Cyhoeddwyd dau ddatganiad i'r wasg yn codi ymwybyddiaeth ohono, a defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth.

Ysgrifennodd y Cyngor at bob aelwyd oedd yn destun y Premiwm gyda llythyr yn tynnu eu sylw at yr ymgynghoriad. Lle roedd y cyfeiriad gohebiaeth gwahanol wedi ei gofnodi yn y system Treth Cyngor, defnyddiwyd hwnnw. Roedd y llythyr yn cyfeirio at wefan y Cyngor a'r cyfle i lenwi'r holiadur yno, ond roedd gwefan y Cyngor yn nodi y gallai unrhyw un gysylltu gyda'r Cyngor os oeddynt yn dymuno derbyn copi papur o'r ymgynghoriad.

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 30 Medi a 28 Hydref 2022. Derbyniwyd 7,330 o ymatebion ar yr holiadur ffurfiol, yn ogystal ag oddeutu 100 o lythyrau a negeseuon ar wahân yn mynegi anffodlonrwydd gyda'r cynnig. Roedd 7,277 o ymatebion i'r holiadur ar-lein a 53 o ymatebion papur. Dyma'r nifer fwyaf o ymatebion mae'r Cyngor wedi ei weld i unrhyw ymgynghoriad yn y blynyddoedd diwethaf

Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (50.3%, N=3,684) yn berchen ar un ai ail gartref neu annedd gwag hirdymor yng Ngwynedd (neu'r ddau).

Mewn cyfanswm roedd tri-chwarter yr ymatebwyr (75.0%, N=5,497) o'r farn nad yw'n briodol cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi. Roedd 24.1% (N=1,764) yn credu ei bod yn briodol ei gynyddu, gyda 0.9% (N=69) heb farn. Fodd bynnag drwy wahanu'r atebion rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir rhywfaint o wahaniaeth barn gyda mwyafrif llethol yr ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn gwrthwynebu cynyddu lefel y premiwm. Ymhlith ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref roedd y farn yn fwy rhanedig, ond gyda'r mwyafrif yma hefyd o'r farn na fyddai'n briodol cynyddu'r premiwm

Gofynnwyd am sylwadau ymatebwyr ar effaith y Premiwm ar nifer o agweddau o faterion cymdeithasol. Roedd nifer o'r rhai oedd yn gwrthwynebu'r cynnydd yn nodi eu bod yn berchen ar eu heiddo yng Ngwynedd ers sawl blwyddyn, ac yn hoff iawn o'r ardal. Ar y llaw arall, roedd rhai o'r rhai oedd yn ymateb yn honni fod cymhelliad hiliol tu ôl i'r bwriad i godi Premiwm gan fod y Cyngor yn erbyn pobl o'r tu allan i Wynedd a'i fod yn hiliol. Ni gyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r farn yma.

Mae dau gategori gwahanol o eiddo sy'n destun y Premiwm, sef ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor.

Ychydig iawn o bobl sydd eisiau talu mwy o dreth, ac roedd gwrthwynebiad chwyrn gan berchnogion ail gartrefi yn arbennig. Mae'n sefyll i reswm byddai cynyddu lefel y Premiwm yn cael effaith ariannol ar yr unigolion yma, ond ni welwyd dystiolaeth y byddai unrhyw grŵp gwarchoddedig yn cael eu heffeithio. Serch hynny, mae nifer o'r rhai sydd wedi ymateb i'r ymholiad yn honni fod y polisi o godi'r Premiwm yn un hiliol, gwrth-Seisnig, er nad oes unrhyw wahaniaethu yn bodoli pan yn gosod y premiwm.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys holiadur cydraddoldeb. Roedd hyn yn awgrymu fod cyfran uwch o berchnogion ail gartrefi na'r boblogaeth gyffredinol yn bobl hŷn.

### 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatáu i'r Cyngor weithredu'n bositif tuag at rhai carfannau os oes dystiolaeth o angen ("cymryd camau i fodloni anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig ble mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill"). Mae sawl astudiaeth gan

y Cyngor wedi adnabod fod problem yn bodoli gyda argaeledd tai i deuluoedd ifanc Gwynedd, felly rydym wedi adnabod problem ac yn cymryd camau i ddelio gyda hynny. Mae pobl ifanc wedi ei prasio allan o'r farchnad dai leol.

Ar 9 Tachwedd 2022 roedd:

**4,564** eiddo yn destun y Premiwm ar ail-gartrefi (Dosbarth B)

**229** o ail gartrefi pellach yn Dosbarth B ond ddim yn talu'r Premiwm gan eu bod yn destun un o'r eithriadau a amlinellir yn Rhan 8 isod.

**753** eiddo o fewn Dosbarth A lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.

Ar yr un adeg, roedd **1,099** eiddo yn destun y Premiwm ar annedd gwag hirdymor.

#### Astudiaeth Effaith Tai Gwyliau

Ystyriaeth allweddol gan y Cyngor wrth pan yn gosod Premiwm 2023/24 fydd yr adroddiad manwl Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau a gyflwynwyd i gyfarfod y Cabinet ar 15 Rhagfyr 2020:

[https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27960/Eitem%20%20-%20Adroddiad\\_GwaithYmchwilTaiGwyliau.pdf?LLL=1](https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27960/Eitem%20%20-%20Adroddiad_GwaithYmchwilTaiGwyliau.pdf?LLL=1)

Mae hyn yn dilyn astudiaeth debyg a gynhaliwyd yn 2013.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos fod cyfanswm nifer y cartrefi gwyliau (ail gartrefi ac unedau gwyliau hunan-ddarpar) o fewn Gwynedd yn parhau i gynyddu, ac yn gofyn am ymrwymiad y Cabinet i gymryd camau pendant i ymdrin â'r sefyllfa.

Mae'r astudiaeth yn ganlyniad gwaith ymchwil manwl sydd wedi cael ei gynnal dros y misoedd diwethaf, ac mae'n amlygu fod nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar stoc dai Gwynedd. Mae'n adeiladu ar astudiaethau sydd wedi cael eu cynnal yn y gorffennol ac yn amlygu fod materion dybryd sy'n parhau angen sylw, a fod y sefyllfa o fewn cymunedau Gwynedd, yn enwedig y rhai sy'n denu ymwelwyr, yn dwysau.

Tra fod sgôp yr astudiaeth yn ymestyn i faterion cynllunio hefyd, rhoddir sylw blaenllaw i'r cymhelliad ariannol sydd yn bodoli o fod yn berchennog tŷ gwyliau yn ogystal â'r fantais trethiannol sy'n bodoli o fod yn cwrdd â'r trothwyon cyfreithiol ar gyfer trosglwyddo eiddo i'r gyfundrefn ardrethi annomestig (nid yw'r eiddo hyn yn destun y Premiwm).

#### Gwerth eiddo

Mae bandiau Treth Cyngor ail gartrefi yn gyffredinol uwch nag eiddo Gwynedd yn gyffredinol. Yn Hydref 2022, roedd 32.1% o ail gartrefi Gwynedd ym Mand Treth Cyngor E neu uwch, o'i gymharu â 22.1% o eiddo Gwynedd yn gyffredinol. Ar y llaw arall, mae bandiau eiddo gwag hir dymor yn is. Dim ond 17.6% o'r eiddo yma sydd yn mand E neu uwch.

Un o'r themâu oedd yn dod o'r ymgynghoriad oedd fod nifer o ail gartrefi yn gartref teuluol oedd wedi cael eu hetifeddu a'u cadw gan y teulu, neu fod yr eiddo wedi bod ym mherchnogaeth y teulu fel ail gartref ers nifer o flynyddoedd.

## 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Ar wahân i ymdeimlad rhai ymatebwyr fod Cyngor Gwynedd yn gyffredinol hiliol am ystyried codi'r Premiwm ac yna ei gynyddu, nid oes tystiolaeth wedi ei dderbyn i gefnogi hynny gan fod astudiaethau wedi cael eu cynnal sy'n awgrymu fod angen cymryd camau i weithredu i fynd i'r afael â phroblemau tai mewn ardaloedd gwledig o Wynedd.

### 3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
<b>Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)</b>	Positif	Bwriad y polisi o godi premiwm yw i fynd i'r afael â'r sefyllfa nad oes tai ar gael i bobl leol, ac mae'r effaith yn positif ar y garfan yma.
	Negyddol	<p>Bydd y polisi yn effeithio ar bobl o'r tu allan i Wynedd ac mae rhai o ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn honni y byddai'r Polisi yn hiliol gan ei fod yn targedu pobl o'r tu allan i Gymru. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ystyriaeth o hil perchnogion yr eiddo pan fydd premiwm yn cael ei godi ar ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor.</p> <p>Codir y Premiwm ar bob ail gartref ac eiddo gwag hirdymor heb wahaniaethu mewn unrhyw fodd ar lle mae'r perchnogion yn byw na beth yw eu hil neu genedligrwydd. Er hynny, rydym yn cydnabod fod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn dangos fod cyfran arwyddocaol o berchnogion ail gartrefi yn adnabod eu hunain fel Saeson ac felly mae'n debyg y bydd y polisi yn cael effaith ariannol negyddol ar y garfan yma. Serch hynny, bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r farchnad dai ar gyfer pobl leol, sy'n ddeiliant positif.</p>
<b>Anabledd</b>	Ansylweddol	Mae posibilrwydd bychan o wahaniaethau yn anuniongyrchol ar sail anabledd o oes rhywun anabl yn cadw eiddo sydd

		wedi ei addasu yng Ngwynedd gan nad oes modd iddynt gael gwyliau mewn man arall.
<b>Rhyw</b>	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
<b>Oedran</b>	Positif	<p>Dangosodd astudiaeth yn 2013 fod gwneuthuriad demograffig y cymunedau sydd â chyfrannau uchel o ail gartrefi yn wahanol; yn gyffredinol, mae'r boblogaeth breswyl yn 'hîn'. Mae hyn yn effeithio ar gydbwysedd y cymunedau a bydd yn cael effaith ar wydnwch a chynladwyedd yr ardaloedd hyn yn y dyfodol.</p> <p>Aethpwyd ymlaen i nodi fod proffiliau perchnogion ail gartrefi eu hunain yn awgrymu eu bod yn gyffredinol yn ganol oed neu wedi ymddeol, ac yn gyfoethocach na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fe wnaeth Shelter (2011) (<i>Taking Stock, an assessment of under utilisation of housing stock in England</i>) amcangyfrif fod 60% o berchnogion ail gartrefi yn genedlaethol rhwng 45 a 60 mlwydd oed o gymharu â 40% ar draws yr holl perchen-feddiant yn y grŵp oedran hwn. Mae ymatebion yr ymgynghoriad cyhoeddus cyfredol wedi awgrymu yr un peth.</p> <p>Felly, mae tystiolaeth fod y rhai fydd ar eu colled yn ariannol yn hîn, ond disgwylir y bydd y bobl hîn sy'n byw yn yr ardaloedd perthnasol trwy'r flwyddyn ar eu hennill gan y bydd y gymdeithas leol yn fwy gwydn a chynaliadwy.</p> <p>Serch hynny, mae tystiolaeth gryf fod darparwyr gofal yn wynebu trafferthion recriwtio dybryd. Mae sicrhau cydbwysedd cymunedol yn hollbwysig er mwyn cael digon o bobl ieuengach i warchod a rhoi gofal i bobl hîn, a bwriad y polisi o godi Premiwm ydi helpu pobl ifanc i aros yn yr ardal leol trwy allu darparu cartrefi lleol iddynt. Ar y cyfan, felly, bydd y polisi yn cael effaith positif gan ei fod yn helpu teuluoedd ifanc i gael cartref. Bydd hyn wedyn yn rhoi effaith mwy positif na negyddol ar gydbwysedd cymunedol.</p>
<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
<b>Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)</b>	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
<b>Ailbennu rhywedd</b>	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
<b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b>	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod

<b>Priodas a phartneriaeth sifil</b>	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
<b>Yr iaith Gymraeg</b>	Positif	<p>Bydd effaith anuniongyrchol ar yr iaith gan mai pwrpas codi premiwm yw i annog perchnogion eiddo gwag hir dymor ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i'r stoc dai lleol, neu i dalu Treth Cyngor ychwanegol. Mae cynnyrch y Premiwm hyd yma wedi ei ddefnyddio i diwallu anghenion tai lleol. Mae cefnogi'r iaith Gymraeg, felly, yn rhan greiddiol o'r polisi yma.</p> <p>Yn benodol, bydd effaith positif ar gydbwysedd cymunedau gan fod cynnyrch y premiwm yn ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynorthwyo teuluoedd lleol i brynu tŷ fforddiadwy.</p>
<b>Anfantais Economaidd-Gymdeithasol</b>	Positif	<p>Wrth benderfynu yn Chwefror 2021 i argymhell i'r Cyngor llawn gynyddu lefel y Premiwm i 100%, nododd aelodau'r Cabinet fod argyfwng tai o fewn y sir. Pwysleisiwyd yr egwyddor fod y Cyngor yn awyddus i drigolion gael cartrefi yn eu cymunedau, i sicrhau cymunedau sydd yn ffynnu. Ategwyd fod tai yn flaenoriaeth ac fod gofyn i sicrhau adnoddau ychwanegol er mwyn gweithredu'r Strategaeth Dai.</p> <p>Mae'r y grym i godi premiwm wedi ei gyflwyno trwy Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac mae'r canllawiau statudol yn nodi:</p> <p><i>Bwriadwyd i'r disgrisiwn a roddir i awdurdodau lleol i godi premiwm fod yn gyfrwng i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y canlynol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>adfer defnydd cartrefi gwag hirdymor er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a</i></li> <li>• <i>chynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynladwyedd cymunedau lleol.</i></li> </ul>

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

<b>Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb</b>	<b>A yw'n cael effaith?*</b>	<b>Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?</b>
<b>Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth</b>	Nac ydi	
<b>Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal</b>	Ydi	Bydd hyn yn rhoi cyfle cyfartal i bobl leol sy'n methu fforddio cartref ar hyn o bryd. Mae'r sefyllfa tai ar hyn o bryd yn anghyfartal a bwriad y penderfyniad ydi sefydlogi ac unioni'r sefyllfa yma.
<b>Meithrin perthnasau da</b>	Ydi	<p>Gall y polisi o godi Premiwm hyrwyddo perthnasau da gyda pobl o fewn cymunedau Gwynedd os ydi'r Polisi yn rhoi cyfle iddynt cael gwell cartref, neu gartref cyntaf, gan fod nifer y tai gwyliau ac anheddau gwag yn cael ei ganfod fel cael effaith andwyol ar allu pobl lleol i gael lle i fyw. Gall polisi o godi Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi ac anheddau gwag wella'r perthnasau os ydi trigolion Gwynedd yn teimlo fod y polisi'n gymorth iddynt fod â gwell cyfle i gael cartref yn eu hardal leol.</p> <p>Mae rhai perchnogion ail gartrefi wedi honni yn eu hymateb i'r ymgynghoriad y bydd cynyddu lefel y Premiwm yn achosi drwg-deimlad cymunedol, ond nid oes unrhyw dystiolaeth i law gefnogi'r honiad yma. Mae'r anghyfartaledd presennol yn fwy tebygol o greu drwgdeimlad.</p>



**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Fel nodir yn 3.1 uchod, bydd effaith bositif ar gydbwysedd cymunedau gan fod cynnyrch y premiwm yn ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynorthwyo teuluoedd lleol i brynu tŷ fforddiadwy.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Polisi trethiant yw hwn, a credwn fod y polisi cyfredol yn mynd hyd eithaf ein gallu cyfreithiol a statudol yn hynny o beth o safbwynt cael effaith bositif ar yr iaith.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu Tai yn Rhagfyr 2020 sy'n cynnwys ystod o brosiectau yn eu lle i wneud y defnydd o gynnyrch y Premiwm er mwyn mynd i'r afael ag achosion o anfantais economaidd-gymdeithasol. Yr egwyddor sylfaenol yw fod y rhai sy'n gallu fforddio sawl eiddo yn cynorthwyo'r rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas sy'n methu cael cartrefi o gwbl. Y prosiectau yn y Cynllun Gweithredu Tai sy'n gwneud defnydd o arian y Premiwm yw:

- Cynlluniau tai â chefnogaeth i'r digartref
- Llety â chefnogaeth i ieuencid digartref
- Unedau hunan-gynhaliol ar gyfer unigolion ag anghenion cymdeithasol dwys
- Pecynnau cefnogaeth i landlordiaid preifat
- Llety a chefnogaeth ychwanegol yn Arfon
- Adeiladu mwy o dai cymdeithasol na'r hyn y gellir ei ariannu drwy'r grant tai cymdeithasol
- Datblygu tai ein hunain er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gystadlu yn y farchnad dai.
- Ymgynghori gyda chymunedau er mwyn sefydlu eu anghenion tai

- Plotiau hunan adeiladu
- Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf i adnewyddu tai gwag
- Eithriad Treth Cyngor ar dai gwag i brynwyr tro cyntaf
- Cynllun cymorth prynu
- Prynu tir adeiladu ar gyfer y dyfodol
- Elfen trigiannol mewn cynlluniau adfywio cymunedol
- Sefydlu gwasanaeth Cadwraeth Ynni newydd i berchnogion tai er mwyn cyfrannu tuag at ein dyhead i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd
- Cynllun peilot Tai Arloesol
- Ariannu'r diffyg ariannol yn achosion busnes tai arloesol
- Tai gyda chefnogaeth – ieuencid
- Tai gofal estynedig – henoed
- Tai gyda chefnogaeth – oedolion gydag anghenion dwys
- Cartrefi addas i blant gyda anghenion corfforol dwys
- Frondeg, Caernarfon
- Benthyciadau di log i wella cyflwr tai
- Siop un stop i faterion Tai

### **3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

Credwn fod y polisi eisoes yn dangos ymrwymiad llwyr i roi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol ac nad oes angen mesurau neu newidiadau eraill.

## **4) Dadansoddi'r canlyniadau**

### **4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Un o'r prif ganlyniadau'r Premiwm ydi ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai. Bydd y cynllun hwn yn mynd i'r afael ag anghysondeb cymdeithasol o fewn Gwynedd. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gwblhawyd wrth baratoi'r Cynllun Gweithredu Tai yn nodi'r camau positif iawn fydd yn deillio o weithredu'r Cynllun, gyda chymorth ariannol y Premiwm:

[Microsoft Word - 0.2Asesiad Effaith Cydraddoldeb CGT.doc \(llyw.cymru\)](#)

Bwriad y Premiwm yw anelu i leihau anghydraddoldeb o fewn cymunedau Gwynedd, ac mae'n cyfrannu at hynny drwy ariannu prosiectau penodol.

Mae manylion am asesiad o safbwynt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'w gael yng nghorff yr adroddiad i'r Cabinet.

#### **4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Dau garfan benodol o'r boblogaeth fydd yn destun y premiwm, sef perchnogion ail gartrefi, a perchnogion tai gwag hir dymor.

Dylid nodi fod ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd ag astudiaethau cenedlaethol yn awgrymu'n gryf fod perchnogion ail gartrefi yn dueddol o fod yn bobl hŷn. Mae nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu fod rhai o'r perchnogion hŷn yma yn "asset rich / cash poor". Hynny yw, maent wedi prynu'r eiddo ers sawl blwyddyn neu wedi ei etifeddu, ond nid yw eu hincwm o reidrwydd yn uchel. Mae hyn yn y pen draw yn codi gronyn o amheuaeth os yw'r Cyngor yn gwireddu ei ddyletswyddau statudol, ond rhaid pwysu hynny yn erbyn y tlodi, diweithdra a digartrefedd sydd yng nghefn gwlad Gwynedd. Yn ôl y Cynllun Gweithredu Tai, mae 59% o drigolion Gwynedd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad yng Ngwynedd.

Mae nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi datgan fod y Polisi yma yn un hiliol gan ei fod yn targedu unigolion sydd yn byw y tu allan i Gymru. Fodd bynnag, mae'r Premiwm yn cael ei godi ar bob eiddo sy'n ail gartref neu'n eiddo gwag hirdymor heb ystyried y perchnogaeth. Mae cyfran arwyddocaol o berchnogion ail gartrefi yn adnabod eu hunain fel Saeson, a byddai cynyddu'r Premiwm yn cael effaith ariannol negyddol ar y garfan yma.

Mae cyfraith achos wedi sefydlu y bydd gwahaniaethu anuniongyrchol yn cael ei gymryd fel bod wedi digwydd pan fyddai darpariaeth, maen prawf neu arfer sy'n ymddangos yn niwtral, yn rhoi personau o darddiad hiliol neu ethnig o dan anfantais benodol o'i gymharu â phersonau eraill, oni bai bod darpariaeth, maen prawf neu arfer yn cael ei gyfiawnhau'n wrthrychol gan nod cyfreithlon a'r modd o gyflawni'r nod hwnnw yn briodol ac angenrheidiol.

Wrth wneud penderfyniad ar y Premiwm, felly, rhaid bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd fod gwahaniaethu anuniongyrchol yn bodoli. Er mai defnydd eiddo sy'n golygu os yw Premiwm yn daladwy arno neu beidio, nid ei berchnogaeth, mae canlyniad yr ymgynghoriad yn awgrymu fod perchnogion eiddo o'r fath yn dueddol o fod yn Saeson ac yn bobl hŷn ac mae angen bod yn ymwybodol o'r risg o wahaniaethu anuniongyrchol yn erbyn y carfannau hyn.

Fodd bynnag, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan fod hyn yn gyfreithiol os yw'r polisi yn fodd cymesur o gyflawni nod ddilys, ac yn yr achos hwn mae'n fodd o wireddu gweithrediad gadarnhaol, sef mynd i'r afael ag argyfwng tai i bobl leol.

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	✓
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	

### 4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae ychydig o dystiolaeth y byddai cynyddu'r premiwm ar ail-gartrefi yn gwahaniaethau yn erbyn grŵp gwarchodedig, gyda data yn awgrymu fod perchnogion ail gartrefi yn tueddu i fod yn bobl hŷn ac yn adnabod eu hunain fel Saeson. Bwriad y polisi o safbwynt Premiwm Treth Cyngor yw cydnabod fod eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yn cynyddu rhai o broblemau cymdeithasol Gwynedd, a dylai'r perchnogion wneud cyfraniad ariannol i liniaru peth o'r anfanteision maent yn eu hachosi.

Mae honiad fod y polisi o godi'r Premiwm yn un hiliol oherwydd lle mae perchnogion ail gartrefi yn byw, ond mae nifer o'r rhai sydd wedi ateb yr ymgynghoriad yn nodi mai Cymry sydd yn berchen ar eiddo yng Ngwynedd tra fod eu prif gartref y tu allan i Gymru. Bydd y Premiwm yn cael ei godi yn seiliedig ar nodweddion yr eiddo, nid nodweddion y perchennog, a bydd effaith bositif os ydi teuluoedd lleol yn gallu fforddio prynu eiddo yn eu hardal leol yn hytrach na gorfod symud i ffwrdd i gael cartref. Mae cydnabyddiaeth fod effaith ariannol negyddol ar bobl sy'n byw tu allan i Wynedd, gyda nifer helaeth ohonynt yn adnabod eu hunain fel Saeson. Yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 mae cynyddu lefel y Premiwm yn fodd cymesur o gyflawni nod ddilys, sef ariannu Cynllun Gweithredu Tai sy'n mynd i'r afael â peth o'r niwed mae ail gartrefi ac anheddau gwag yn eu hachosi i gymunedau Gwynedd.

### 4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

--

Mater gwleidyddol yn y pen draw yw lefel y Premiwm, wedi ei gymryd ar sail y dystiolaeth sydd i law. Bydd yr aelodau etholedig yn dod i benderfyniad ar y balans briodol i'w gael rhwng y gost ychwanegol i berchnogion ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor a'r cymhelliant cysylltiedig o ddod ag eiddo yn ôl i ddefnydd, yn erbyn y lles cymdeithasol fyddai'n deillio o'r gallu i wireddu cynlluniau penodol i fynd i'r afael ag anghysondeb cymdeithasol.

## **5) Monitro**

### **5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Bydd rhaid cael penderfyniad y Cyngor llawn yn flynyddol ar gyfer gosod lefel y Premiwm. Bydd yr Adran Gyllid yn parhau i gadw golwg ar newidiadau ar statws eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi, ac yn gweithredu fel bo'r angen i asesu os oes materion cydraddoldeb tu ôl i'r trosglwyddo i ardrethi annomestig.

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	22 Tachwedd 2022
<b>Aelod Cabinet:</b>	Y Cynghorydd Dafydd Meurig- Aelod Cabinet Amgylchedd
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	Dafydd Williams, Pennaeth Amgylchedd
<b>Pwnc:</b>	Mabwysiadu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

#### Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Fod y Cabinet yn:

- Penderfynu mabwysiadu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- Dirprwyo'r hawl i Bennaeth Adran Amgylchedd i wneud addasiadau ansylweddol i'r ddogfen cyn ei chyhoeddi.

#### RHESYMAU DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi a chyhoeddi ac adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT). Pwrpas y CGHT yw gosod fframwaith ar gyfer blaenoriaethu, rheoli a gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy.

##### 1. CEFNDIR

- 1.1 Mabwysiadwyd CGHT gwreiddiol Cyngor Gwynedd yn 2007 ac yn 2016 cyhoeddwyd canllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol ar gyfer adolygu'i CGHT. Mae cefndir i'w gael yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu, Atodiad A.
- 1.2 Mae gofyn statudol i ymgynghori ar yr adolygiad ac mae hyn yn cynnwys ystod o fudd-ddeiliaid, awdurdodau a'r cyhoedd. Er bod peth oedi gyda'r gwaith o baratoi'r adolygiad cafodd drafft terfynol ei gymeradwyo gan Bwyllgor Craffu Cymunedau ar 4ydd o Dachwedd 2021 i'w ddefnyddio ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.
- 1.3 Adroddwyd ar ganlyniad yr ymgynghoriad i'r Pwyllgor Craffu ar y 27ain o Hydref 2022. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad wedi eu crynhoi yn yr Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ac yn cael eu dadansoddi yn gyflawn yn Atodiad 2 -Adroddiad Canlyniadau Ymgynghoriad Cyhoeddus ac yn Atodiad 3 - Ymatebion ac argymhellion yn dilyn ymatebion i'r holiadur.
- 1.4 Penderfyniad y Pwyllgor Craffu oedd i:
  - Dderbyn yr adroddiad ac i ymgorffori mwy o wybodaeth yn y CGHT o ran gwirfoddolwyr a materion mynediad i bawb.
  - Argymhell i'r Cabinet i fabwysiadu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.
- 1.5 Mewn ymateb i sylwadau'r Pwyllgor Craffu addaswyd yr Adrannau perthnasol mewn perthynas â Gwirfoddolwyr (Adran 2.13 ) a "Mynediad i bawb" ( Adran 4.5)

## 2. Adnoddau

- 2.1 Mae llawer o'r meysydd gwaith y cyfeirir atynt yn y Datganiadau Gweithredu eisoes yn derbyn sylw gan y Gwasanaeth o fewn cyllidebau ac adnoddau presennol. Ychwanegir at gyllidebau craidd drwy sicrhau grantiau a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau ac asiantaethau eraill. Rhagdybir bydd y CGHT yn cael ei weithredu o fewn lefelau adnoddau presennol ynghyd a grantiau.
- 2.2 Mae cymal 3.3 o'r Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu yn argymhell dylid blaenoriaethu'r Datganiadau Gweithredu isod gan mae'r meysydd hyn sy'n gosod sylfaen i weithdrefnau'r Gwasanaeth.

Datganiad Gweithredu Blaenoriaeth uchel	Cyfnod
3b . Diweddarau dogfen Polisiâu Hawliau Tramwy er mwyn adlewyrch lefelau adnoddau presennol a newidiadau mewn defnydd tir.	Erbyn Hydref 23
c. "Ail asesu categorïau llwybrau i greu rhwydwaith sy'n adlewyrchu'n well anghenion cymunedau'r Sir. "	Y cam cyntaf fydd sefydlu a threalu trefn weithio cyn diwedd 2023

## 3. Deddf Cydraddoldeb 2010

- 3.1 Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried canfyddiadau asesiad o effaith o safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi'r Cynllun yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Rhaid talu sylw dyledus i'r angen i :
- diddymu gwahaniaethau anghyfreithiol
  - hyrwyddo cyfle cyfartal
  - meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchoddedig.
- 3.2 Gan fod gosod cyllideb yn disgyn o fewn penderfyniadau all eu hystyried yn strategol, maen ddyletswydd i roi sylw dyledus i weithredu mewn modd sydd wedi ei ddylunio i leihau anghydraddoldebau sydd yn deillio o anfantais economaidd -gymdeithasol.
- 3.3 Paratowyd asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac anfantais Economaidd -Gymdeithasol. Atodir yr asesiad yn Atodiad B.
- 3.4 Nid yw'r asesiad ar y Cynllun yn canfod unrhyw effaith fyddai'n cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith positif.

## 4. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)2015

- 4.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn glŷn â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyffwrdd cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn llewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda chymunedau cydynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ac sy'n gyfrifol a lefel bud eang. Gan ddal sylw at y cyd-destun, mae'r argymhellion yn gydnaws a'r dyletswyddau yma.

## 5. Crynodeb

- 5.1 Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn arf pwysig yn y gwaith o gynnal a gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy ac asedau mynediad eraill mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt.
- 5.2 Mae'r Cynllun wedi ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau ac wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Ystyrir felly bod y CGHT wedi ei baratoi yn unol â'r gofynion statudol ac argymhellir ei fod yn gymwys i fabwysiadu.

## Barn y swyddogion statudol

**Y Swyddog Monitro:** Mae'n amlwg fod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn deillio o broses drylwyr o ymgynghori a chraffu er cyrraedd y Cabinet. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr adroddiad

**Y Pennaeth Cyllid:** Mae gofyn statudol i baratoi a mabwysiadu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ac rwyf yn fodlon fod yr adroddiad a'r cynllun drafft yn cwrdd â'r gofyn. Er fod y Cynllun yn amlygu'r anghenion ariannol er mwyn cyflawni'r dyheadau'r Cynllun, rwyf yn fodlon na fyddai mabwysiadu'r cynllun yn creu ymrwymiad gwario uniongyrchol ychwanegol. Wrth gwrs, os bydd angen adnoddau ychwanegol er mwyn gwireddu rhai o'r camau gweithredu, bydd rhaid unai chwilio am grantiau ychwanegol neu ail-gyfeirio adnoddau o fewn yr Adran.

---

### Atodiadau

**Atodiad A:** Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu 27 Hydref 2022 yn cynnwys yr Atodiadau canlynol :

- Atodiad 1 - Y CGHT (gydag addasiadau yn unol â chais y Pwyllgor Craffu)
- Atodiad 2 - Adroddiad canlyniad ymgynghoriad cyhoeddus, Haf 2022
- Atodiad 3 - Ymatebion yr holiadur i'r 7 cwestiwn a ofynnwyd

**Atodiad B:** Asesiad Effaith Cydraddoldeb.



<b>PWYLLGOR</b>	<b>PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>27 Hydref 2022</b>
<b>TEITL</b>	<b>CYFLWYNO CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY</b>
<b>AELOD CABINET</b>	<b>Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Adran Amgylchedd</b>
<b>AWDUR</b>	<b>Dafydd Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd</b>
<b>PWRPAS</b>	<b>Cymeradwyo'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer ei fabwysiadu gan Gabinet Y Cyngor</b>

## 1. CEFNDIR

- 1.1 Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Craffu yng nghyfarfod 4 Tachwedd 2021 cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) yn ystod haf eleni. Atodir y ddogfen a ddefnyddiwyd i bwrpas yr ymgynghoriad, gweler Atodiad 1.
- 1.2 Pwrpas y CGHT yw gosod arweiniad lefel uchel ar gyfer gwaith y Cyngor ym maes mynediad i gefn gwlad, er bod pwyslais ar y rhwydwaith hawliau tramwy rhaid hefyd ystyried asedau mynediad eraill sydd o dan reolaeth Y Cyngor.
- 1.3 Pwrpas yr adroddiad yma yw :
- Adrodd yn nol i'r Pwyllgor ar ganlyniad y broses ymgynghori
  - Derbyn sylwadau pellach y Pwyllgor Craffu
  - Derbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Craffu i'r CGHT cael ei gyflwyno i Gabinet Y Cyngor ar gyfer ei fabwysiadu'n ffurfiol.

## 2. YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

- 2.1 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o 14 wythnos rhwng Mehefin 27 a Medi 30, 2022. Rhoddwyd y ddogfen drafft ynghyd a holiadur ar dudalen Dweud Eich Dweud ar safle we'r Cyngor ac argraffwyd copïau caled ar gyfer llyfrgelloedd a swyddfeydd Y Cyngor. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad ar gyfryngau cymdeithasol Y Cyngor, sef Facebook a Thrydar. Cysylltwyd yn uniongyrchol a sefydliadau megis Y Cynghorau Cymuned a Thref, Y Parc Cenedlaethol, yr Undebau Amaethyddol a chynrychiolwyr mudiadau sy'n cynrychioli gwahanol garfannau defnyddwyr.
- 2.2 Derbyniwyd cyfanswm o 294 o ymatebion dilys i'r holiadur. Roedd y rhan fwyaf (92.2%) o'r ymatebwyr yn ateb fel unigolyn, gyda 5.8% yn ateb ar ran sefydliad, grŵp neu fusnes.
- 2.3 Mae canlyniadau llawn yr ymgynghoriad i'w gweld yn adroddiad Atodiad 2. "Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd" sydd wedi ei baratoi gan y Tîm Ymchwil a Dadansoddi.
- 2.4 Mae'r canlyniadau yn disgyn i ddau gategori sef :
- a. Ymateb i'r 7 cwestiwn a ofynnwyd yn yr holiadur, seliwyd y cwestiynau ar y Datganiadau Gweithredu a ystyriwyd gan y Gwasanaeth fel y rhai mwyaf cynhennus ag sydd a'r oblygiadau mwyaf o safbwynt adnoddau staff a chyllidebau gwaith  
Mae Atodiad 3 yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i'r 7 cwestiwn, gwelir bod y mwyafrif o'r ymatebion yn cyd-fynd a'r Datganiadau Gweithredu.

b. Sylwadau gan yr ymatebwyr, mae'n galonogol bod cynifer o sylwadau wedi eu derbyn a gwelir detholiad ohonynt yn Adroddiad Atodiad 2. Mae rhai themâu yn amlwg :

- Sylwadau am achosion penodol er enghraifft llwybrau wedi cau neu wedi rhwystro.
- Awgrymiadau ar gyfer llwybrau gellir eu datblygu yn enwedig llwybrau aml ddefnydd.
- Diffyg adnoddau i gynnal y rhwydwaith a methiant Y Cyngor i gwrdd â'i ddyletswydd statudol i gynnal a gwarchod hawliau tramwy.
- Unigolion a chyrrff yn awyddus i wirfoddoli i gynnal a gwella llwybrau.

2.5 Bydd y Gwasanaeth yn ystyried y sylwadau a rhagwelir gellir eu defnyddio i gynorthwyo gyda'r gwaith o lunio rhaglenni gwaith.

### 3. CASGLIADAU

3.1 Credaf fod yr ymateb i'r ymgynghoriad yn adlewyrchu dyhead ymysg pobl Gwynedd i gael rhwydweithiau mynediad sy'n ddiogel a hygyrch at ddefnydd pob carfan o ddefnyddwyr.

3.2 Mae'r ymateb, er ddim yn unfrydol yn dangos bodlonrwydd cyffredinol gyda chyfeiriad a chynnwys y CGHT. Mae yna le i addasu geiriad ambell gymal ac i wella gosodiad a diwyg y ddogfen ond rwyf o'r farn nad oes angen newidiadau pellach oni bai bod gan y Pwyllgor Craffu argymhellion ar faterion penodol.

3.3 Rhaid cydnabod yr her sy'n wynebu'r Adran wrth fynd ati i weithredu'r CGHT ac mae'n anorfod y bydd rhaid blaenoriaethu ymdrech ac adnoddau dros y blynyddoedd nesaf. Rhaid serch hynny sicrhau bod y Datganiadau Gweithredu canlynol yn cael eu blaenoriaeth er mwyn sicrhau bod amcanion craidd y CGHT yn cael eu gwireddu.

<b>Datganiad Gweithredu Blaenoriaeth uchel</b>	<b>Cyfnod</b>
3b . Diweddarau dogfen Polisiâu Hawliau Tramwy er mwyn adlewyrchu lefelau adnoddau presennol a newidiadau mewn defnydd tir.	Erbyn Hydref 23
c. "Ail asesu categorïau llwybrau i greu rhwydwaith sy'n adlewyrchu'n well anghenion cymunedau'r Sir. "	Y cam cyntaf fydd sefydlu a threialu trefn weithio cyn diwedd 2023

### 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu gymeradwyo'r

- Adran Amgylchedd i baratoi fersiwn terfynol o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ac i ymgorffori unrhyw argymhellion a wneir gan y Pwyllgor Craffu.
- Cymeradwyo Cabinet y Cyngor i fabwysiadu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

## **ATODIADAU**

Atodiad 1: Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Gwynedd (Dogfen Ymgynghoriad Cyhoeddus) )

Atodiad 2: Adroddiad Canlyniadau Ymgynghoriad Cyhoeddus

Atodiad 3: Ymatebion yr holiadur



**ADOLYGIAD CYNLLUN**

**GWELLA**

**HAWLIAU TRAMWY**

**Cyngor Gwynedd**

*Fersiwn terfynol i'w gyflwyno i'r Cabinet*

*22 Tachwedd 2022*

## **Cynnwys**

### **Rhagair**

#### **Rhan 1. Cefndir**

- 1.1 Pwrpas y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- 1.2 Parato'i'r CGHT newydd a cyflwyno'r Themau
- 1.3 Disgrifiad o ardal Gwynedd
- 1.4 Cyngor Gwynedd
- 1.5 Cyd-destun strategol
- 1.6 Gwasanaeth Cefn Gwlad a Ffordd Gwynedd
- 1.7 Gwerthusiad i ba raddau y cyflawnwyd y CGHT blaenorol
- 1.8 Rhaglen Diwygio Mynediad
- 1.9 Newid Hinsawdd

#### **Rhan 2. Thema A: Cynnal a rheoli'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy**

- 2.1 Rhwydwaith Hawliau Tramwy Gwynedd
- 2.2 Cyfrifoldebau
- 2.3 Cyflwr y rhwydwaith
- 2.4 Categoriadau
- 2.5 Problemau ar Hawliau Tramwy
- 2.6 Adnoddau ar gyfer Hawliau Tramwy
- 2.7 Polisiâu
- 2.8 Gorfodaeth
- 2.9 Cerbydau Modur
- 2.10 Cynnal y Llwybr Arfordir
- 2.11 Systemau Gwybodaeth
- 2.12 Gweithio gyda Phartneriaid
  - 2.12.1 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
  - 2.12.2 Cyngorau Cymuned a Thref
  - 2.12.3 Tirfeddianwyr
  - 2.12.4 Cyfoeth Naturiol Cymru
  - 2.12.5 Grwpiau Defnyddwyr
- 2.13 Gwirfoddolwyr
- 2.14 Fforymau Mynediad Lleol

### **Rhan 3. Thema B: Y Map a'r Datganiad Swyddogol**

- 3.1 Beth yw'r Map a'r Datganiad Swyddogol?
- 3.2 Defnydd a phwysigrwydd y Map a'r Datganiad Swyddogol
- 3.3 Gorchmynion Diwygio'r Map Swyddogol
- 3.4 Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus
- 3.5 Gorchmynion Cam Cyfreithiol
- 3.6 Gwallau ac anghysondebau cartograffig
- 3.7 Cydgrynhoi
- 3.8 Ffyrdd Coll

### **Rhan 4. Thema C: Cwrdd ag anghenion defnyddwyr**

- 4.1 I ba raddau y mae hawliau tramwy lleol yn bodloni'r cyhoedd nawr ac yn y dyfodol?
- 4.2 Cerddwyr
- 4.3 Beicwyr
- 4.4 Marchogwyr
- 4.5 Asesu anghenion pobl gyda nam ar eu synhwyrâu a'u symudedd
- 4.6 Y galw am lwybrau aml-ddefnydd
- 4.7 Teithiau a hyrwyddir gan Gyngor Gwynedd ac eraill
- 4.8 Bioamrywiaeth a mynediad at natur
- 4.9 Cynlluniau Amaeth Amgylcheddol ar ôl Brexit

**Atodiad 1 :** Crynodeb o'r camau gweithredu a nodwyd yn y CGHT gwreiddiol fel rhai y gellir eu cyflawni gyda'r adnoddau oedd ar gael ar y pryd.

**Atodiad 2:** Crynodeb o'r broses arweiniodd at gynhyrchu'r Map a'r Datganiad Swyddogol ac adolygiadau dilynol.

## Rhagair

Mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn galluogi pobl gael mynediad, i ddarganfod a mwynhau cefn gwlad ac arfordir Gwynedd. Mae'r rhwydwaith hefyd yn darparu cyfleoedd i deithio i gyfleusterau lleol a mannau gwaith.

Mae'r rhwydwaith sydd gennym heddiw wedi esblygu dros ganrifoedd lawer i ddiwallu anghenion cymunedau a diwydiannau lleol. Fodd bynnag, gyda newidiadau mewn cymdeithas ac economi Gwynedd mae'r defnydd o hawliau tramwy hefyd wedi newid yn sylweddol. Heddiw defnyddir Hawliau Tramwy yn bennaf ar gyfer hamdden ac maent yn ased economaidd allweddol.

Mae manteision iechyd cerdded, beicio neu farchogaeth yn rheolaidd wedi'u cydnabod ers tro byd a byth yn fwy nag yn ystod pandemig Covid 19. Roedd y cyfnod hwn yn dangos pwysigrwydd rhwydweithiau mynediad o ran cynnal lles meddyliol a chorfforol pobl a ysgogodd ddiddordeb mewn llwybrau lleol a'r amgylchedd ehangach.

Pwrpas y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd yw adlewyrchu'r newidiadau mewn adnoddau a deddfwriaeth sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r Cynllun gwreiddiol yn 2007. Ar yr un pryd, bydd yn nodi sut y gellir cynnal a gwella'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus i gwrdd â dyheadau a disgwyliadau cymunedau lleol a'r holl grwpiau defnyddwyr tra'n cydnabod pwysau parhaus ar adnoddau a heriau megis newid hinsawdd.



### 1.1 Pwrpas y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Deddf 2000) yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i baratoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) sef cynllun strategol ar gyfer rheoli, datblygu a hyrwyddo hawliau tramwy yn eu hardaloedd.

Cafodd y CGHT cyntaf ei baratoi yn y cyfnod rhwng 2003 a 2007 ac fe'i mabwysiadwyd ym mis Tachwedd 2007.

### 1.2 Paratoi'r CGHT newydd a chyflwyno'r Themâu

Yn 2016 cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i Awdurdodau Lleol ar baratoi CGHT newydd. Wrth baratoi'r CGHT, mae'n ofynnol yn ôl y Ddeddf i roi sylw i'r hyn a ganlyn:

- Y graddau y mae'r hawliau tramwy yn diwallu gofynion y cyhoedd yn awr ac yn y dyfodol.
- Y cyfleoedd y mae'r hawliau tramwy cyhoeddus yn eu darparu i bobl wneud ymarfer corff a mwynhau mathau eraill o weithgareddau hamdden awyr agored.
- Pa mor hygyrch yw'r hawliau tramwy cyhoeddus i bobl ddall neu rannol ddall a phobl â phroblemau symudedd?

Yn ychwanegol, dylai'r CGHT diwygiedig sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â'r hyn a ganlyn:

- Gwerthuso i ba raddau y cyflawnwyd y CGHT blaenorol.
- Gwerthusiad o gyflwr y rhwydwaith ar hyn o bryd a'i hanes
- Cyfleoedd i gyfrannu at amcanion Teithio Llesol
- Cyfleoedd i gyfrannu at amcanion Llesiant
- Cyfleoedd i gyfrannu at gyflawni cynlluniau a blaenoriaethau eraill.

Yn amodol ar unrhyw newid yng nghanllawiau'r Llywodraeth bydd cyfnod y CGHT newydd yn ymestyn hyd at 2028 / 29.

#### Cynhaliwyd yr ymgynghoriadau canlynol wrth baratoi'r CGHT newydd

- Holiadur Hawliau Tramwy 2017 (derbyniwyd 1,386 o ymatebion dilys)
- Holiadur Cynnal Llwybrau, Cynghorau Tref a Chymuned 2018 (derbyniwyd ymateb gan 39 Cyngor)
- Ymgynghoriadau gyda'r Fforymau Mynediad Lleol.
- Ymgynghoriad ar y CGHT Drafft 2022 (derbyniwyd 296 o ymatebion dilys)

Rhannir y CGHT i dair thema, sef

**Thema A: Cynnal a rheoli'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy a mynediad i gefn gwlad**

**Thema B: Y Map a'r Datganiad Swyddogol**

**Thema C: Aseu a chwrdd ag anghenion defnyddwyr**

Cyflwynir cyfres o Ddatganiadau Gweithredu ar gyfer pob thema fydd yn cael eu defnyddio i flaenoriaethu adnoddau ac i baratoi rhaglenni gwaith manwl dros oes y Cynllun.

### 1.3 Disgrifiad o ardal Gwynedd

**Tirwedd:** Mae gan Wunedd dirwedd odidog ac fe adlewyrchir ansawdd y dirwedd yn nynodiadau Parc Cenedlaethol Eryri ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Pen Llŷn. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig er mwyn gwarchod cynefinoedd, rhywogaethau a nodweddion daearegol.

**Pobl Gwynedd:** Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 121,874 o bobl yn byw yng Ngwynedd, sy'n gynnydd o 5,031 ers Cyfrifiad 2001, gyda 65.4% yn gallu siarad Cymraeg. Roedd 49.2% o'r boblogaeth yn ddynion a 50.8% yn ferched gyda 96.5% yn disgrifio'u grŵp ethnig fel gwyn ac yn bennaf yn Gymry neu o wledydd eraill y DU. Mae Llywodraeth Cymru yn amcanu y bydd poblogaeth Gwynedd yn parhau i dyfu'n raddol i 126,200 yn 2024 a 130,600 yn 2034. Amcanir hefyd mai twf yn y boblogaeth dros 75 oed fydd yn bennaf gyfrifol am y cynnydd yn y boblogaeth. Mae dwysedd poblogaeth Gwynedd yn isel, yn 0.5 person fesul hectar o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 1.5 person i bob hectar.

**Yr economi:** Yng nghyd-destun y CGHT, mae dau sector economaidd yn dylanwadu'n gryf ar fynediad i gefn gwlad, sef twristiaeth ac amaeth. Amcangyfrifir bod dros 7 miliwn o bobl yn ymweld â Gwynedd yn flynyddol, ac ar gyfartaledd, mae hyn yn cyfrannu at tua 1 biliwn y flwyddyn i economi'r Sir. Mae amrywiol fusnesau twristiaeth yn cyflogi tua 16,000 o swyddi. Dros y ddegawd 2010 – 2020, gwelwyd pwyslais cynyddol ar farchnata Gwynedd fel atyniad ar gyfer gwahanol weithgareddau awyr agored gyda cherdded yn cael ei nodi fel y gweithgaredd mwyaf poblogaidd ymysg ymwelwyr. Mae gweithgareddau yng nghefn gwlad megis beicio a beicio mynydd, dringo, gwylio bywyd gwylt a hwylio hefyd yn weithgareddau poblogaidd.

Yn draddodiadol, mae amaeth wedi bod yn gonglfaen i economi Gwynedd, er y bu newidiadau mawr ers yr Ail Ryfel Byd; mae'n parhau yn ddiwydiant allweddol sy'n cyflogi o leiaf 5,000 o bobl mewn 1,200 o fusnesau. Erbyn hyn, mae nifer fawr o fusnesau amaeth wedi arallgyfeirio i fod yn rhan o'r sector dwristiaeth.

### 1.4 Cyngor Gwynedd

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod lleol sy'n cwmpasu ardaloedd cyn-gynghorau Dosbarth Arfon, Dwyfor a Meirionnydd. Er nad yw'r rhaniadau daearyddol yma bellach gyda statws ffurfiol, mae'r ffaith fod prif swyddfeydd y Cyngor yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau yn golygu fod rhai gwasanaethau yn parhau i gael eu cyflawni yn seiliedig ar y tair ardal.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am holl wasanaethau llywodraeth leol sy'n cynnwys addysg, gofal, priffyrdd, cynllunio a rheolaeth datblygu.

Etholir 69 o gynghorwyr i gynrychioli etholwyr y Sir; mae'r Cyngor yn cael ei arwain gan y Cabinet sy'n gyfrifol am osod cyfeiriad strategol a pholisiau gweithredol.

## 1.5 Cyd-destun Strategol y CGHT

Mae'r CGHT yn torri ar draws ac yn gorgyffwrdd â strategaethau a chynlluniau lleol a chenedlaethol. Dyma'r rhai mwyaf perthnasol:

### Cynllun Cyngor Gwynedd 2018–23

Mae'r ddogfen hon yn adnabod 7 uchelgais ar gyfer Cyngor a phobl Gwynedd, sef

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel;
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud;
- Ennill cyflog digonol i ni fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd;
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau;
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg;
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosibl;
- Cael manteisio ar harddwch naturiol y Sir.

### Cynlluniau Llesiant

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i asesu a pharatoi cynllun llesiant sy'n cwrdd â saith nod a nodir yn y ddeddf, sef

- Cymru ffyniannus;
- Cymru fwy gwydn;
- Cymru iachach;
- Cymru fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynol;
- Cymru lle mae'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ffynnu;
- Cymru sy'n fyd-eang gyfrifol.

Prif negeseuon Asesiad Llesiant Gwynedd sy'n cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun Llesiant oedd:

- Yr angen i gynnal ysbryd cymunedol iach sydd mor bwysig i lesiant;
- Pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd naturiol;
- Deall effaith y newid yn nemograffig ein hardaloedd;
- Pwysigrwydd gwarchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg;
- Hybu defnydd adnoddau naturiol i wella iechyd a llesiant yn yr hirdymor;
- Gwellu cysylltiadau trafniadaeth i alluogi mynediad i wasanaethau a chyfleusterau;
- Yr angen am swyddi o safon uchel a chartrefi fforddiadwy i bobl leol;
- Effaith byw mewn tlodi ar lesiant;
- Sicrhau cyfle i bob plentyn lwyddo.

## **Iechyd**

Mae cyfnod yr argyfwng Cofid wedi tynnu sylw mwy nag eriod at bwysigrwydd mwynediad i gefn gwlad i gynnal a gwella iechyd a lles trigolion Gwynedd. Gwyddom fod gweithgarwch corfforol yn fanteisiol i iechyd meddwl a chorfforol, mae'n cyfranu at gynyddu stamina a lleihau straen.

Mae startegaeth Pwysau Iach, Cymru Iach yn nodi bod 60% o boblogaeth Cymru yn ordrwm neu'n ordew, gyda'r canran yn cynyddu'n flynyddol. Ymysg y mesuriadau i leihau'r broblem argymhellir:

- Cynyddu cyfleoedd Teithio Lesol
- Cynyddu gweithgaredd corfforol a chyfleoedd ymarfer corff.

Mae gan llwybrau a mannau gwyrdd ran bwysig i'w chwarae i wella iechyd pobl Gwynedd gan eu bod ar gael am ddim i'r defnyddiwr ac mewn cyrraedd i fwyafrif o'r boblogaeth.

### **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn**

Cynllun sy'n gosod cyfeiriad strategol i ddefnydd tir yng Ngwynedd a Môn.

Mae Polisi PS4 yn berthnasol i amcanion y CGHT.

Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd yn berthnasol i'r CGHT

Lle bo'n bosibl, gwarchod, gwneud ychwanegiadau, gwelliannau a hyrwyddo hawliau tramwy (llwybrau, llwybrau ceffyl a chilffyrdd) a llwybrau beicio er mwyn gwella diogelwch a hygyrchedd (gan gynnwys defnyddwyr anabl) drwy ddefnyddio'r dulliau yma o deithio ac i gynyddu buddion iechyd, hamdden, lles a thwristiaeth i'r gymuned leol ac ymwelwyr.

### **Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016**

Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn cyflwyno egwyddorion dull gweithio rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol sef sut mae anifeiliaid, planhigion, aer, dŵr, mwynau a'r tir yn rhyngweithio gyda'i gilydd a'u cysylltiad â llesiant pobl. Y dull ar gyfer cyflawni hyn yw drwy gynhyrchu Datganiadau Ardal. Bydd y Datganiadau yn nodi blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd i reoli ein hadnoddau naturiol. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n arwain ar y gwaith o baratoi saith Datganiad Ardal. Mae cynghorau Gwynedd, Môn a Conwy wedi'u cynnwys yn natganiad ardal y Gogledd Orllewin.

Mae'r Datganiadau yn ystyried darpariaeth mynediad cyhoeddus a disgwylir y byddant yn ddogfennau pwysig wrth weithredu ac ariannu amcanion y CGHT.

## **Deddf Teithio Lesol (Cymru) 2013**

Teithio llesol yw teithio ar droed neu ar feic i bwrpas gwaith, addysg i ddefnyddio cyfleusterau cyhoeddus, siopa. Yng nghyd-destun y Ddeddf, nid yw teithio yn benodol ar gyfer hamdden yn cael ei ystyried fel teithio llesol.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i greu mapiau Teithio Llesol ar gyfer cymunedau sydd wedi'u dynodi'n ganolfannau Teithio Llesol. Dyma ganolfannau teithio llesol Gwynedd:

Bangor, Caernarfon, Porthmadog, Abermaw, Bethesda a Rachub, Pwllheli, Dolgellau, Tywyn, Y Felinheli a Caeathro

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn 2016, paratowyd mapiau sydd i'w gweld ar safle we'r Cyngor (bydd y mapiau presennol yn cael eu adolygu).

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dweud-eich-dweud/Canlyniadau-ymgyngoriadau/Cynllun-Trafnidiaeth-Lleol-ar-y-Cyd.aspx>

Er bod y sylw pennaf yn cael ei roi i'r ardaloedd trefol, mae cynlluniau Teithio Llesol yn gyfle i greu gwell cysylltiadau o fewn 45 munud o bellter teithio i'r canolfannau. Mae'r rhwydwaith hawliau tramwy, yn ogystal â'r Lonydd Glas, yn allweddol i ddatblygiad a thwf teithio llesol yng Ngwynedd.

Lansiodd Llywodraeth Cymru Gynllun Trafnidiaeth Llwybr Newydd yn 2021 a oedd yn atgyfnerthu'r neges am yr angen am well isadeiledd i annog cerdded a beicio er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar gerbydau a lleihau ôl troed carbon Cymru.

## **Twristiaeth**

Mae'r sector twristiaeth yn rhan allweddol o economi Gwynedd gyda mwynhau cefn gwlad a thraethau yn cael ei nodi fel y prif reswm gan 63% o ymwelwyr dros ymweld â'r Sir (*Adolygiad Twristiaeth Gwynedd 2019*)

Dros y ddegawd ddiwethaf, Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd (2013 – 20) sydd wedi arwain gwaith y Cyngor ym maes Twristiaeth. Prif amcanion y cynllun oedd:

- ymestyn y tymor twristiaeth,
- cynyddu gwariant ymwelwyr,
- gwella ansawdd profiad yr ymwelydd,
- gwella integreiddiad twristiaeth ag agweddau eraill ar fywyd,
- gwella'r amgylchedd naturiol, adeiledig a diwylliannol

Mae'r cyfnod Covid wedi cael effaith sylweddol ar y sector yng Ngwynedd gyda gwestai ac atyniadau wedi bod ar gau am gyfnodau hir. Yn dilyn llacio cyfyngiadau teithio yn ystod haf 2020, amlygwyd rhai effeithiau negyddol twristiaeth ar gymunedau a'r amgylchedd sydd wedi ysgogi trafodaeth ynglŷn â sut fath o ddiwydiant twristiaeth sy'n briodol a chynaliadwy i Wynedd. Mewn ymateb, bydd y Cyngor yn ystyried y diwydiant yng nghyd-destun yr egwyddorion isod:

- Dathlu a pharchu ein cymunedau, iaith a diwylliant
- Cynnal a pharchu ein hamgylchedd
- Sicrhau bod y manteision i gymunedau Gwynedd yn fwy nac unrhyw anafanteision

### **Cynllun Rheoli AHNE Llŷn**

Mae'n ofynnol i baratoi ac adolygu Cynllun Rheoli ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn yn unol â gofynion y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Mae'r Cynllun presennol yn weithredol hyd at 2020.

Mae'r Cynllun yn trafod 8 testun sy'n berthnasol i'r AHNE, gan gynnwys Hawliau Tramwy a Mynediad.

Polisiâu perthnasol i hawliau tramwy a mynediad

**MP1 . Cynnal, gwarchod a hyrwyddo hawliau tramwy cyhoeddus allweddol yr ardal a sicrhau eu bod ar gael i'w defnyddio yn ddi-rwystr.**

**MP2. Cynnal a chadw'r Llwybr Arfordir Cenedlaethol a chreu cysylltiadau newydd yn unol â safonau a chanllawiau cenedlaethol.**

**MP3.** Hyrwyddo 'r defnydd o gylchdeithiau lleol a thir mynediad agored yn Llŷn.

**MP4.** Gwella darpariaeth ar gyfer defnyddwyr hawliau tramwy, gan gynnwys marchogwyr, beicwyr a phobl gydag anabledau.

Mae Swyddogion y Tîm AHNE yn gweithio'n agos gyda swyddogion hawliau tramwy a'r llwybr arfordir i weithredu cynlluniau a gwelliannau ar y ddaear.

### **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)**

Mae'n ofynnol i Barc Cenedlaethol Eryri baratoi Cynllun y Parc Cenedlaethol yn unol â gofynion Adran 61 Deddf yr Amgylchedd 1995 sy'n gosod dau bwrpas statudol ar gyfer y Parciau Cenedlaethol:

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol.
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.

Mae Polisi Strategol L yng Nghynllun Datblygu Lleol APCE (2016 - 2031) yn nodi :

- O fewn y Parc Cenedlaethol bydd cerdded a beicio yn cael ei annog pa bryd bynnag fo hynny bosibl
- Bydd y llwybrau hamdden a ddynodir ar y mapiau cynigion yn cael eu diogelu rhag datblygiadau eraill a fyddai'n rhwystro eu defnydd fel llwybrau hamdden

## 1. 6 Y Gwasanaeth Cefn Gwlad a Ffordd Gwynedd

Mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad yn un o Wasanaethau sy'n eistedd o fewn yr Adran Amgylchedd. Mae Gwasanaethau eraill yn cynnwys - Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Cludiant Cyhoeddus, Parcio a Gwaith Stryd, Traffig a Phrosiectau a Rheolaeth Adeiladu.

Mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad yn gweithio'n agos â Gwasanaethau hyn yn ogystal â'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, y Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Eiddo a Stadau.

Yn 2016, sefydlwyd strwythur sy'n cwmpasu'r meysydd gwaith a dyletswyddau isod:

- Cynnal a rheoli'r rhwydwaith hawliau tramwy a llwybrau eraill megis y Lonydd Glas
- Ymdrin â materion cyfreithiol a gorfodaeth yn gysylltiedig â'r rhwydwaith hawliau tramwy gan gynnwys diweddarau'r Map Swyddogol a'r datganiad swyddogol a'r Gofrestr Priffyrdd.
- Datblygu a chynnal y Llwybr Arfordir a chydweithio gyda mudiadau a chymunedau i wella cyfleoedd mynediad.
- Rhoi sylw i faterion cynllunio sy'n berthnasol i hawliau tramwy, bioamrywiaeth, diogelu coed ac ansawdd tirwedd Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn (AHNE)
- Gweithredu prosiectau, i wella mynediad, gwarchod cynefinoedd a rheoli tiroedd sydd dan ofal y Gwasanaeth.

Yn Nhachwedd 2022 roedd 21 aelod o staff yn y Gwasanaeth yn gweithio o fewn y timau canlynol :

- Rheolwr
- Mynediad - 9 swyddog
- Bioamrywiaeth a Phrosiectau Ecosystemau - 8 swyddog
- AHNE Llŷn – 3 swyddog

O'r 21 swyddog mae 10 yn swyddi dros dro sy'n bennaf ddibynnol a'r grantiau.

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu diwylliant Ffordd Gwynedd - Rhoi Pobl Gwynedd yn ganolog i bob dim rydym yn ei wneud. Bydd pob gwasanaeth yn ymgymryd ag adolygiad Ffordd Gwynedd sy'n golygu dadansoddi trefniadau a phrosesau gwaith gan adnabod rhwystrau, risgiau a chyfleon. Mae'r isod yn crynhoi'r prif risgiau a adnabuwyd mewn perthynas â gwaith mynediad y Gwasanaeth Cefn Gwlad:

- Llai o adnoddau oherwydd toriadau yn golygu dirywiad yn y gwasanaeth a faint mae'r tîm yn gallu ei gyflawni;



- Pwysau gwaith ychwanegol oherwydd lleihad mewn staff yn achosi mwy o bwysau gwaith a straen;
- Achosion blinderus yn cymryd amser anghyfartal y swyddogion;
- Diffyg cynnal a chadw yn cynyddu risg o ddamweiniau i ddefnyddwyr a hawliadau yswiriant yn erbyn y Cyngor;
- Methu delio â gorchmynion yn arwain at heriau gan ymgeiswyr drwy'r Arolygaeth Cynllunio.

## **1.7 Gwerthusiad i ba raddau y cyflawnwyd y CGHT blaenorol**

Wrth baratoi'r adolygiad, rhaid ail-edrych ar CGHT blaenorol Cyngor Gwynedd a baratowyd rhwng 2005 a 2007 ac a fabwysiadwyd fel Cynllun ym mis Tachwedd 2007.

Mae'r CGHT gwreiddiol yn cynnwys Datganiad Gweithredu wedi'i rannu'n 6 Thema, sef:

Thema 1 : Cyflwr y Rhwydwaith Hawliau Tramwy

Thema 2 : Y Map a'r Datganiad Swyddogol

Thema 3 : Rheoli'r Rhwydwaith

Thema 4 : Deall Anghenion Defnyddwyr

Thema 5: Darpariaeth Mynediad Presennol

Thema 6 : Hyrwyddo a Chyhoeddusrwydd

Mae'r 6 Thema Gweithredu yn cynnwys cyfanswm o 43 gweithred unigol neu opsiynau yn amodol ar argaeledd cyllid.

Ers ei fabwysiadau llwyddodd y CGHT blaenorol i osod arweiniad a chyfeiriad cadarn ar gyfer y gwaith o reoli a chynnal y rhwydwaith mynediad yng Ngwynedd. Oherwydd y lleihad mewn cyllid dros y ddeg mlynedd ddiwethaf mae'n anodd mesur yr hyn a gyflawnwyd yn llawn. Serch hynny, mae'r tabl Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r hyn a gyflawnwyd yn y CGHT blaenorol gyda'r adnoddau oedd ar gael ar y pryd.

## **1.8 Rhaglen Diwygio Mynediad**

Yn 2015, ac yn 2017, cynhaliwyd ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru i'r posibilrwydd o newid deddfwriaeth mynediad i gefn gwlad. Roedd ymgynghoriad 2017 yn edrych ar y meysydd isod:

- Sut y gellir cynyddu cyfleoedd ar gyfer hamdden yn yr awyr agored?
- Symleiddio prosesau ar gyfer cofnodi a chofrestru hawliau tramwy
- Edrych ar sut y gellir gwella cyfathrebu o ran hawliau tramwy ac ymddygiad cyfrifol yng nghefn gwlad.

- Yn dilyn ymgynghoriad 2017, cychwynnwyd i ystyried yn fanwl sut y gellir newid rhai agweddau o'r ddeddfwriaeth gyda'r bwriad o leihau'r byrdwn biwrocratiaeth ar awdurdodau lleol yn ogystal ag ymestyn cyfleoedd mynediad.

Yn 2019, cychwynnwyd ar y dasg o edrych yn fanwl ar nifer o argymhellion, sefydlwyd grwpiau tasg dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru fydd yn edrych ar:

1. diwygio darpariaethau technegol ynghylch creu, dargyfeirio a dileu hawliau tramwy
2. cael gwared ar yr anghysondeb sy'n atal digwyddiadau beicio wedi'u trefnu ar lwybrau ceffylau
3. diddymu rhai meysydd o Ddeddf CROW sy'n profi'n gostus ac yn aneffeithlon, megis dyddiad cau i gofrestru ffyrdd coll erbyn 2026
4. Creu llwybrau aml-ddefnydd : caniatáu beicio a marchogaeth ceffylau ar lwybrau troed
5. Ymestyn tir agored i'r arfordir a chlogwyni môr
6. Paratoi un map digidol statudol o bob hawl tramwy, tir mynediad a llwybrau cenedlaethol
7. Mesurau i reoli cwn yng nghefn gwlad
8. Rôl a swyddogaeth y Fforymau Mynediad Lleol

Bydd argymhellion y Grwpiau Tasg Diwygio Mynediad yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru all benderfynu ddiwygio deddfwriaeth bresennol neu i lunio deddfwriaeth newydd.

## 1.9 Newid Hinsawdd

Mae Cyngor Gwynedd wedi datgan Argyfwng Hinsawdd sy'n cyfleu bod yr Awdurdod yn cydnabod ac yn barod i weithredu'n uniongyrchol ac i ddylanwadu ar eraill i gymryd camau i liniaru effeithiau newid hinsawdd.

Mae'r effeithiau'n cynnwys

- Cynnydd mewn amllder digwyddiadau tywydd eithafol yn cael eu profi yn y sir yn barod.
- Cynnydd yn y perygl o orlifo, mae 23,244 o drigolion Gwynedd yn byw mewn ardal sydd dan fygythiad.
- Gall lefelau'r môr godi hyd at 1.9m erbyn y flwyddyn 2100; mae codi lefel y môr eisoes yn bygwth bodolaeth rhai cymunedau arfordirol megis Y Friog.

Mae tywydd eithafol eisoes yn cael effaith uniongyrchol ar isadeiledd llwybrau, o golli pontydd, erydu wyneb llwybrau, erydiad clogwyni ar yr arfordir a choed yn cwmpo. Nid yn unig mae'r digwyddiadau hyn yn gallu effaithio ar ddiogelwch y cyhoedd ond yn rhoi byrdwn ariannol ychwanegol ar yr Awdurdod cyfan.

Mae ymateb Y Cyngor i'r argyfwng hinsawdd yn cael ei gyfarch yn y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (2022/23 o 2029/30).

## Rhan 2 : Thema A

### Cynnal a rheoli'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy a mynediad i gefn gwlad

#### 2.1 Y Rhwydwaith Hawliau Tramwy yng Ngwynedd

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am rwydwaith Hawliau Tramwy sydd oddeutu 3800km o hyd. Diffinnir hawl tramwy cyhoeddus fel priffordd sydd ar gael at ddefnydd y cyhoedd i'w defnyddio yn unol â'i statws yn rhad ac am ddim ac ar unrhyw bryd.

Statws		Hyd (km)
Llwybr troed	cerddwyr	3398
Llwybr ceffyl	Cerddwyr, marchogwyr, beicwyr	353
Cilffordd Gyfyngedig	Cerddwyr, marchogwyr, beicwyr, ceffyl a throl	85
Cilffordd sy'n agored i bob traffig	Cerddwyr, marchogwyr, beicwyr, ceffyl a throl, cerbydau modur	50

Yn ychwanegol i'r rhwydwaith hawliau tramwy cofrestredig, mae darpariaeth mynediad sydd ar gael i'r cyhoedd yn cynnwys:

- Y Lonydd Glas a llwybrau drwy ganiatâd : dros 60km
- Tir agored (deddf CROW 2000) : 105,029ha (yn bennaf o fewn Ardal y Parc Cenedlaethol)

Ers 2007, mae oddeutu 50km o hawliau tramwy newydd wedi'u creu. Fe'u crëwyd er mwyn sefydlu Llwybr Arfordir Cymru yng Ngwynedd ac i ddatblygu llwybrau aml-ddefnydd newydd megis Lôn Gwryfai a Lôn Las Ogwen.

#### 2.2 Cyfrifoldebau

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod priffyrdd gyda dyletswydd statudol i warchod a chynnal y rhwydwaith. Mae'r cyhoedd, cynghorau cymuned ac eraill yn troi at y Cyngor i ddiogelu a datrys materion ymarferol a chyfreithiol sy'n codi.

Prif gyfrifoldebau cynnal y Cyngor yw:

- Arwyddo hawliau tramwy lle maent yn gadael y briffordd
- Cyfrifoldeb y Cyngor yw arwyneb y mwyafrif o hawliau tramwy
- Pontydd a strwythurau
- Rheoli tyfiant a chael gwared â rhwystrau

Nodir mai'r tirlfeddiannwr sy'n gyfrifol am gynnal a thrwsio dodrefn megis camfeydd a giatiau gan gynnwys dodrefn a osodir gan y Cyngor a'r Parc Cenedlaethol ar lwybrau categori 1 a 2 neu fel rhan o raglen gwella mynediad.

## 2.3 Cyflwr y Rhwydwaith

Nid yw Cyngor Gwynedd erioed wedi cynnal asesiad llawn o gyflwr holl hawliau tramwy'r sir. Cynhaliwyd yr arolwg mwyaf cynhwysfawr fel rhan o'r gwaith i baratoi'r CGHT gwreiddiol yn 2004/05 pan aseswyd tua 35% o'r rhwydwaith.

Hyd at 2012/13, cynhaliwyd asesiad blynyddol ar 5% o'r rhwydwaith; cynhaliwyd yr arolwg yn unol â chanllawiau cenedlaethol ar gyfer mesur perfformiad Awdurdodau Lleol Cymru.

Daeth yr arolygon hyn o ben oherwydd diffyg adnoddau staff i weinyddu a phrosesu'r data. Teimlwyd hefyd bod sampl mor fach, o ystyried maint rhwydwaith Gwynedd a'r ymdrech gysylltiedig, yn ddefnydd aneffeithiol o adnoddau prin.

Er mwyn ceisio cyfleu darlun o gyflwr y rhwydwaith a'r oblygiadau ariannol o'i gynnal, defnyddiwyd data a gasglwyd gan Gymdeithas y Cerddwyr fel rhan o'u hymgyrch Pathwatch, yn ogystal â data gan swyddogion y Cyngor a'r Parc Cenedlaethol. Gwelir crynodeb o'r wybodaeth yn nhabl 2.

Rhaid serch hynny cydnabod bod diffyg gwybodaeth graidd am gyflwr y rhwydwaith yn rhwystr i fesur pa mor effeithiol yw'r trefniadau gweithio a pholisïau presennol.

## 2.4 Categorioidio

Cyn ymhelaethu ar gyflwr y rhwydwaith, rhaid ystyried y drefn categorioidio. Mabwysiadwyd y drefn categorioidio gan y Cyngor oddeutu 15 mlynedd yn ôl er mwyn blaenoriaethu ei ymdrechion a'i adnoddau i gynnal a chadw llwybrau. Sefydlwyd y system ar y cyd â Chynghorau Cymuned a Thref; canlyniad y gwaith oedd gosod y mwyafrif o hawliau tramwy mewn un o 5 categori yn seiliedig ar asesiad o'u defnydd a'u pwysigrwydd o safbwynt cysylltedd a'r potensial i'w huwchraddio. Er hwylustod, lleihawyd nifer y categorïau yn 2010 i 4. Mae Tabl 1 yn nodi diffiniad o'r categorïau a chanran o'r rhwydwaith ym mhob categori.

**Tabl 1**

Categori	Diffiniad	% o'r rhwydwaith
1.	Llwybrau sy'n hwyluso symudiad pobl. Bydd y rhain fel arfer yn cael defnydd sylweddol neu'n ffurfio cyswllt mewn trefi, pentrefi neu rhwng cyfleusterau trafniadaeth gyhoeddus, meysydd parcio ac atyniadau hamdden.	15%

2.	Llwybrau poblogaidd a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer pleser gan gynnwys llwybrau o amgylch cymunedau, teithiau cylchol, mynediad at draethau neu lwybrau a hyrwyddir.	27%
3.	Llwybrau, er na chant eu defnyddio mor aml, sydd yn ffurfio cysylltiadau arwyddocaol rhwng y llwybrau yng nghategoriâu 1 a 2 neu rhwng cymunedau.	46%
4.(5)	Llwybrau â defnydd achlysurol yn unig ond yn parhau i ffurfio rhan o'r rhwydwaith lawn ac effeithiol. Gall y rhain gynnwys cysylltiadau posib rhwng cymunedau lle nad oes llawer i annog cerdded.	12%

Gan mai prif bwrpas categoreiddio oedd blaenoriaethu adnoddau, fe'i integreiddwyd ym Mholisiau Hawliau Tramwy'r Awdurdod (*trafodir Polisiâu Hawliau Tramwy yn rhan 2.7*)

- Polisi 1.3 sy'n ymdrin â Chynnal a chadw camfeydd a giatiau
- Polisi 1.4 sy'n ymdrin â chynnal yr arwyneb a rheoli llystyfiant
- Polisi 1.8 sy'n ymdrin ag arolygon ac amlder archwiliadau cyflwr hawliau tramwy.

Yn ystod y 2000au rhoddwyd blaenoriaeth i gynnal a chadw categorïau 1, 2 a 3 ond oherwydd llai o adnoddau, rhoddwyd blaenoriaeth ers 2014 i gategoriâu 1 a 2 yn unig, sef oddeutu 42% o'r rhwydwaith.

Byddai'n rhesymol tybio y byddai ymrwymiad i'r system categoreiddio ymhen amser yn cael ei amlygu yng nghyflwr ffisegol y llwybrau. Mae'r effaith yn amlwg wrth edrych ar sawl eitem o waith a weithredwyd ar lwybrau o fewn y categorïau unigol, er enghraifft am y flwyddyn 2017/18 cofnodwyd y canlynol:

**Tabl 2**

Eitemau gwaith ar lwybrau categori 1	650
Eitemau gwaith ar lwybrau categori 2	658
Eitemau gwaith ar lwybrau categori 3	582
Cyfanswm eitemau gwaith	1,890

Gellir gweld y duedd hon hefyd yn Nhabl 2, sef dadansoddiad o broblemau a nodwyd ar 1.021 km o hawliau tramwy yng nghategoriâu 1, 2 a 3, tua 27% o rwydwaith Gwynedd. (*ffynhonnell Pathwatch, wedi'i gofnodi gan staff Gwynedd ac APCE, 2018*)

**Tabl 3**

Prif broblemau / diffygion	Categori 1	Categori 2	Categori 3
<i>Math o broblem</i>	<i>Nifer y problemau</i>	<i>Nifer y problemau</i>	<i>Nifer y problemau</i>
Arwyddion ar ochr y lôn ar goll / wedi torri	24	22	86
Cyfeirbyst ar goll / wedi torri	23	23	35
Camfa ysgol /	1	4	19
Camfa un neu ddwy step	1	8	26
Camfa garreg	0	1	1
Giât fochyn	1	3	17
Giât < 1.2m	0	3	24
Giât 1.2m - 2m	2	7	21`
Giat /	0		10
Grisiau	2	1	1
Pontydd < 2m	2	10	31
Pontydd 2m - 5m	0	3	1
Pontydd > 5m	3	4	1
Wyneb mewn cyflwr gwael	36	69	46
Gordyfiant o'r ochr / planhigion ymledol	25	17	28
Tyfiant ar yr wyneb	6	22	34
Coed wedi syrthio	2	29	22
Defnydd tir / chwarel / coedwigaeth			17
Arall	10	10	29

Er mai ciplun o gyflwr y rhwydwaith yw'r wybodaeth hon, daw'n amlwg i'r casgliad bod cyflwr llwybrau yng nghategoriau 1 a 2 yn well ar y cyfan na'r rhai yng nghategoriau 3 a 4.

Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn 2017, bu peth beirniadaeth o'r system gategoreiddio gan ei bod yn anochel yn arwain at ddirywiad llwybrau yn y categorïau is.

## 2.5 Problemau ar Hawliau Tramwy

Gellir rhannu problemau ar hawliau tramwy yn dri phrif fath

**Mân broblemau** - gordyfiant tymhorol, canghennau coed wedi syrthio, gorlifo tymhorol, dodrefn wedi'u gosod a'u cynnal yn wael neu ddiffyg arwyddo. Bydd y problemau hyn yn anghyfleus i'r defnyddiwr ond nid ydynt o reidrwydd yn gwneud y llwybr yn amhosib ei ddefnyddio.

**Problemau mawr** - problemau llifogydd a draenio hirdymor, pontydd anniogel a pheryglus, tirlithriadau, coed wedi syrthio, dodrefn diffygiol a pheryglus, wyneb sydd wedi'i erydu'n wael. Mae'r problemau hyn yn debygol o wneud y llwybr yn amhosibl ei ddefnyddio ond yn y rhan fwyaf o achosion gellir eu datrys gydag adnoddau digonol.

**Rhwystro bwriadol** - llwybrau wedi'u rhwystro gan ffensys, waliau neu rwystrau eraill a chan gatiâu sydd wedi'u cloi. Efallai y bydd yn bosib datrys rhai o'r problemau hyn gyda dodrefn ac arwyddion gwell, gellir eu datrys hefyd gyda thrafodaethau rhwng swyddogion a'r tiffeddiannwr neu eu cynrychiolydd; os yw hyn yn methu, bydd rhaid i'r Cyngor gymryd camau gorfodi.

Mae'r problemau hyn hefyd yn amlwg yn yr ymatebion a dderbyniwyd i'r Holiadur Ymgynghori Cyhoeddus.

Nododd 61.2% o'r rhai a atebodd eu bod wedi dod ar draws problem wrth ddefnyddio hawliau tramwy. Crynodeb o'r ymateb

Tabl 4

Problem a wynebwyd	% o'r rhai a atebodd
Llwybrau wedi'u rhwystro'n fwriadol	54.3
Diffyg arwyddion neu arwyddion camarweiniol	29.3
Gordyfiant / coed wedi syrthio	28
Giatiau / camfeydd mewn cyflwr gwael	39.2
Pontydd mewn cyflwr gwael / peryglus	21.4
Cŵn bygythiol	26.5

#### DATGANIADAU GWEITHREDU - 1

##### 1a.Parhau i flaenoriaethu llwybrau yng nghategoriâu 1 a 2

Er bod beirniadaeth o'r drefn categoreiddio bresennol, yn y tymor byr dyma'r drefn fwyaf ymarferol sy'n caniatáu bod y llwybrau mwyaf poblogaidd mewn cyflwr boddhaol.

Dylid cydnabod nad oes modd rhoi sylw llawn i bob llwybr yng Nghategoriâu 1 a 2, a bod diffyg cynnal a chadw ar weddill y rhwydwaith yn arwain at ôl-groniad o waith a chostau os ydynt i'w hadfer i safon dderbyniol.



### **1b. Asesu cyflwr y rhwydwaith**

Bydd arolwg o gyflwr hawliau tramwy Gwynedd yn cael ei gynnal i'w ddefnyddio i sefydlu gwaelodlin y gellir ei defnyddio ar gyfer mesur perfformiad, cynorthwyo gyda'r gwaith o ail-gategoreiddio llwybrau ac i flaenoriaethu prosiectau ar gyfer cyllid grant. Bydd hyn yn ymrwymiad hir dymor a ni ellir ei gyflawni'n llawn gyda'r adnoddau staff presennol, ymdrechir i ddefnyddio gwirfoddolwyr neu staff dros i gyflymu'r gwaith.

### **1c Adolygu ac ailgategoreiddio**

Bwriedir ail asesu categorïau llwybrau a'i diweddarau os oes agen i greu rhwydwaith sy'n adlewyrchu'n well anghenion cymunedau'r Sir. Gwneir y gwaith ar y cyd a Cynghorau Cymuned a Thref gyda mewnbwn Y Parc Cenedlaethol, Fforymau Mynediad Lleol a grwpiau defnyddwyr.

## **2.6 Adnoddau ar gyfer hawliau tramwy**

Mae'r swyddogaeth i gynnal hawliau tramwy ynghyd â'r cyllid yn gyfrifoldeb i'r Gwasanaeth Cefn Gwlad. Dros oes y CGHT gwreiddiol, gwelwyd lleihad yn y gyllideb graidd flynyddol ar gyfer cynnal hawliau tramwy o £351k yn 2007 i £170k yn 2019. Yn ystod y cyfnod hwn, colodd y Gwasanaeth bum aelod o staff rheng-flaen, dau archwilydd Hawliau Tramwy a thri Warden Cefn Gwlad.

O'r gyllideb bresennol, mae oddeutu £32,000 yn cael ei glustnodi at ddefnydd y Cynghorau Cymuned a Thref i'w cefnogi i wneud gwaith cynnal a chadw (torri tyfiant blynyddol); sy'n gadael oddeutu £143,000 i ddelio â phopeth arall. Oherwydd y system categoreiddio, bydd mwyafrif y gwariant ar lwybrau yng nghategoriau 1 a 2, sef oddeutu 42% o'r rhwydwaith (tua 1,700 km).

Yn ychwanegol mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am gynnal a chadw y rhwydwaith Lonydd Glas; mae'r gyllideb graidd o £16,000 wedi aros yn sefydlog ers 2010.

Clustnodir £50,000 y flwyddyn yng nghyllideb strwythurau'r Cyngor tuag at bontydd a strwythurau hawliau tramwy. Nid yw'r swm yma yn ddigonol os am godi pontydd newydd sy'n aml mewn lleoliadau anodd i'w cyrraedd a dros afonydd gyda llif cyflym.

Yn ôl y CGHT gwreiddiol, byddai angen cyllideb flynyddol o **£380,586** er mwyn cynnal a chadw dodrefn a rheoli tyfiant blynyddol ar lwybrau categori 1, 2 a 3. Mae'r wybodaeth hon yn parhau'n berthnasol ac os ystyri'r llwybrau categori 1 a 2 yn unig, a chan ystyried chwyddiant (cyfartaledd o 3%), mae angen cyllideb sylfaenol o **£232k** os am gynnal a chadw llwybrau categori 1 a 2 mewn cyflwr boddhaol. Diffinnir cyflwr boddhaol fel llwybr di-rwystr gyda dodrefn sy'n ddiogel ac yn hawdd i'w ddefnyddio; bydd natur y dodrefn yn amrywio yn ôl statws yr hawl tramwy.

Yn sgil lleihad yn y gyllideb craidd ar gyfer staff a cynnal mae'r mwyafrif o'r gyllideb bellach yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith adweithiol, mewn ymateb i ymholadau a cwynion. Rhoddir blaenoriaeth i faterion iechyd a diogelwch a problemau ar lwybrau poblogaidd.

Yn aml nid yw'n bosibl gweithredu os oes problem sy'n golygu gwaith a chostau sylweddol, er enghraifft trwsio neu adnewyddu pont, ail wynebu llwybr neu ddiogelu wal gynnal. Mewn sefyllfaoedd o'r fath efallai does dim dewis ond i wneud gwaith dros dro neu hyd yn oed cau rhan o lwybr.

Er mwyn gwneud y gwelliannau mawr a gwella llwybrau sy'n creu cysylltiadau pwysig rhwng cymunedau neu atyniadau mae'r Gwasanaeth yn manteisio ar grantiau. Dyma enghreifftiau o rai o'r grantiau a dderbyniwyd rhwng 2010 a 2020:

- Derbyniwyd dros £900,000 drwy gronfa Gwella Hawliau Tramwy rhwng 2010 a 2017.
- £100k o gronfa Cymunedau'r Arfordir tuag at sefydlu 18 cylchdaith oddi ar y Llwybr Arfordir.
- Mae cyfraniad grantiau Teithio Lesol wedi galluogi gwelliannau i'r Lonydd Glas ac i lwybrau sydd wedi'u hadnabod yn llwybrau Teithio Llesol.
- Yn 2020 / 21 cafodd £243,446 ei sicrhau o raglen grant Gwella Mynediad Llywodraeth Cymru ac £145,976 yn 21/ 22.
- Rhwng 2017 a 2020, derbyniwyd £85,000 o gyllid grant tuag at welliannau mynediad o fewn ardal AHNE Llŷn.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae cyllid grant wedi dod ar gael ar gyfer diogelu a chreu cynefinoedd, er enghraifft menter Llywodraeth Cymru – Llefydd Lleol i Natur. Mae darparu mynediad cyhoeddus i bobl fwynhau a gwerthfawrogi natur yn bwysig ac mae cyfleoedd yn bodoli i ddatblygu cynlluniau bioamrywiaeth a mynediad ar y cyd.

Mae'r cyllid yma i'w groesawu ond rhaid bod yn wylidwrus nad yw'n faich ychwanegol ar staff sydd hefyd yn ymateb i faterion dydd i ddydd.

Rhagwelir pwysau ychwanegol ar gyllidebau yn sgil y cynnydd mewn cyfnodau o dywydd eithafol a dyfodiad clwyf yr onnen sydd am effeithio ar y mwyafrif o goed onnen yn y Sir.

## **DATGANIAD GWEITHREDU 2**

2.a Rhaid monitro effaith y cynnydd yn amllder tywydd eithafol a ffactorau amgylcheddol eraill fel clwyf yr onnen ac ymlediad rhywogaethau estron ar y gyllideb cynnal hawliau tramwy.

2.b Defnyddir grantiau ar gyfer gwelliannau i'r rhwydwaith gan flaenoriaethu:

- uwchraddio pontydd a strwythurau
- gwella hygyrchedd Llwybrau
- llwybrau aml ddefnydd.
- Prosiectau sy'n hwyluso mynediad at natur.

## 2.7 Polisiâu

Yn dilyn cyhoeddi'r CGHT gwreiddiol, paratowyd a chyhoeddwyd dogfen Polisiâu Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Mae'r ddogfen gyfredol i'w gweld ar safle we'r Cyngor

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Parcio,-ffyrdd-a-theithio/Polisiau-Hawliau-Tramwy.pdf>

Pwrpas y ddogfen yw crynhoi ac egluro cyfrifoldebau'r Cyngor a gosod arweiniad ar gyfer gwaith cynnal ffisegol ynghyd â'r prosesau cyfreithiol i warchod a diwygio hawliau tramwy cyhoeddus.

Mae'r ddogfen polisi yn rhoi pwyslais mawr ar y drefn Categoriiddio; serch hynny, pwysleisir mai trefn ar gyfer blaenoriaethu adnoddau yw Categoriiddio ac nid yw'n gwaredu'r Cyngor o'i ddyletswydd statudol i gynnal a gwarchod y rhwydwaith cyfan gan gynnwys cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch y cyhoedd, beth bynnag yw categori'r llwybr. Pan fydd y Gwasanaeth yn derbyn ymholiadau gan y cyhoedd, rhaid blaenoriaethu adroddiadau sydd ag oblygiadau ar iechyd a diogelwch y cyhoedd, gan gynnwys staff y Cyngor. Wrth ymateb i'r fath adroddiadau, rhaid i swyddogion y Gwasanaeth Cefn Gwlad asesu'r risg a phenderfynu pa gamau i'w cymryd. Os yw'r difrod yn sylweddol, er enghraifft pont wedi disgyn neu lwybr wedi'i golli i'r môr, ni fydd dewis ond i gau'r llwybr ac i geisio sicrhau adnoddau i'w adfer. Mewn achosion o'r fath, rhoddir blaenoriaeth i lwybrau o fewn categori 1 a 2.

Mae'r ddogfen yn parhau'n arf effeithiol ac yn gosod sail i waith y Gwasanaeth; serch hynny, oherwydd lleihad mewn adnoddau staff a chyllid, nid yw bellach yn bosib gweithredu rhai o argymhellion y ddogfen. Er enghraifft:

- Polisi 1.8 Arolygon ac Archwiliadau - nid yw'n ymarferol bosibcynnal y lefel o arolygon cyflwr yn unol â pholisi, sef 50% o rwydwaith categori 1 yn cael ei arolygu yn flynyddol.
- Nid yw'r gyllideb yn caniatáu rhaglen ragweithiol ar gyfer torri tyfiant a gwelliannau.

Ers cyhoeddi'r ddogfen Polisiâu gwelwyd rhai newidiadau mewn defnydd tir a dulliau ffermio sy'n effeithio ar hawliau tramwy.

- Polisi 2.11 Ffensys Trydan - mae gofyn adolygu'r polisi yma i adlewyrchu'r cynnydd yn y defnydd o ffensys trydan ar gyfer rheoli stoc.
- Dylid gosod canllawiau ar gyfer ymateb i glefyd coed onnen.

### **DATGANIAD GWEITHREDU 3**

**3a.** Rhoddir blaenoriaeth i ymateb i ymholiadau lle mae perygl i ddiogelwch y cyhoedd.

**3b.** Rhaid diweddarau'r ddogfen Polisiau Hawliau Tramwy er mwyn adlewyrchu lefelau adnoddau presennol a newidiadau mewn defnydd tir sydd wedi dylanwadu ar hawliau tramwy dros y ddegawd ddiwethaf.

## 2.8 Gorfodaeth

Mae'r Ddogfen Polisiau Hawliau Tramwy yn amlinellu sut fydd swyddogion yn gweithredu camau i orfodi perchnogion tir ac eraill i waredu rhwystrau a gwarchod hawliau'r cyhoedd. Gall y cyhoedd hefyd gyflwyno rhybudd ffurfiol i'r Awdurdod Priffyrdd i weithredu i agor hawl tramwy sydd wedi'i rwystro.

Yn y mwyafrif helaeth o achosion, ymdrechir i ddatrys anghydfod drwy geisio dwyn perswâd a chynnal trafodaeth gyda pherchnogion tir a defnyddwyr. Yn y pendraw, mae cymryd yr agwedd yma'n arwain at well perthynas rhwng gwahanol garfannau ac yn lleihau baich gwaith biwrocraidd. Ers 2015, dim ond 2 achos gorfodaeth ffurfiol sydd wedi'i wneud gan yr Uned Cefn Gwlad sy'n tystio i allu staff i negodi a chymryd camau teg a chymesur yn unol â'r amgylchiadau.

Yn unol â'r polisiau Categoriiddio, rhoddir blaenoriaeth i ymdrechion gorfodaeth i hawliau tramwy categori 1 a 2.

### DATGANIAD GWEITHREDU 4

**4a.** Ein nod yw agor ac arwyddo'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus

**4.b** Ymdrechir i ddatrys anghydfod drwy drafod a negodi gyda pherchnogion tir a budd ddeiliaid.

Os nad oes dewis ond i gymryd camau gorfodaeth ffurfiol, blaenoriaethir ymdrech ar lwybrau categori 1 a 2.

## 2.9 Cerbydau Modur

Mae gan ddefnyddwyr cerbydau modur 4x4, beiciau modur a cheir hawl cyfreithiol i ddefnyddio cilffyrdd sy'n agored i bob traffic ynghyd a'r mwyafrif o'r rhwydwaith ffyrdd diddosbarth. Er bod y statws yn caniatáu defnydd gan gerbydau yn aml nid yw'r wyneb yn addas i'w defnyddio gan gerbydau modern. Mae gordefnydd o gulffyrdd a rhai ffyrdd diddosbarth y gallu difrodir wyneb yn ogystal â chael effaith andwyol ar fioamrywiaeth a'r tirlun.

Mae costau sylweddol yn gysylltiedig â thrwsio culffyrdd sydd tu hwnt i gyllidebau'r Gwasanaeth Cefn Gwlad. Mae ffyrdd di-ddosbarth yn gyfrifoldeb i'r Adran Priffyrdd sydd hefyd yn ei chael yn anodd ysgwyddo'r costau.

Er bod yna achosion o gam ddefnydd gan gerbydau a beiciau modur yn digwydd drwy'r Sir gwelir yr effaith mwyaf yn yr ucheldir o fewn ardal y Parc Cenedlaethol. Mae'r Adrannau Amgylchedd a Phriffyrdd y Cyngor yn cydweithio a'r Parc Cenedlaethol i geisio rheoli'r broblem ac yn cefnogi ymdrechion i gydweithio gyda grwpiau defnyddwyr i sicrhau defnydd cyfrifol a cynaliadwy.

## 2.10 Cynnal Llwybr yr Arfordir

Mae Gwynedd wedi chware rhan allweddol yn natblygiad y Llwybr Arfordir Cenedlaethol, gyda 300km neu'n agos i 25% o'r Llwybr Arfordir yng Ngwynedd.

Sefydlwyd safonau cenedlaethol ar gyfer cynnal a chadw'r Llwybr ac i sicrhau cysondeb ar hyd arfordir Cymru. Ers 2015, mae Awdurdodau Lleol arfordir Cymru wedi derbyn cyllid blyneddol tuag at gynnal y Llwybr Arfordir. Dosrannir y cyllid yn unol â fformiwla genedlaethol; yn bresennol rhoddir £643 am bob km o lwybrau neu hawliau mynediad arall a £20 am bob km os yw'r Llwybr Arfordir yn dilyn ffyrdd, traeth neu bromenâd. Golyga hyn bod Gwynedd yn derbyn oddeutu £80,000 y flwyddyn tuag at gynnal a chadw'r Llwybr Arfordir.

### **DATGANIAD GWEITHREDU 5**

Bydd Gwynedd yn parhau i gynnal a chadw'r Llwybr Arfordir yn unol â safonau cenedlaethol yn ddarostyngedig i barhad y trefniant cyllido presennol.

## 2.11 Systemau gwybodaeth

Ers oddeutu 2005, mae swyddogion hawliau tramwy wedi defnyddio system ddigidol *Countryside Access Management System (CAMS)* ar gyfer casglu a chofnodi gwybodaeth am gyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy. Yn 2014/15, adolygwyd y system i gymryd mantais o dechnoleg oedd yn galluogi gweithio o bell. Ers 2015, mae swyddogion wedi bod yn defnyddio tabledi yn y maes i gofnodi gwaith a phroblemau ar y system. Profwyd gwerth cael technoleg symudol yn ystod cyfnod Covid.

Rhoddwyd sylw i system CAMS fel rhan o adolygiad Ffordd Gwynedd y Gwasanaeth a chasglwyd bod y system yr arf pwysig i waith y gwasanaeth yn enwedig y gallu i weithio o bell. Serch hynny, adnabuwyd nad oedd defnydd llawn yn cael ei wneud o rai agweddau o'r system megis cofnodi ymholiadau a chwynion.

Mae'r Cyngor yn derbyn nifer cynyddol o geisiadau am wasanaeth o'i safle we. Mae eisoes yn bosibl i'r cyhoedd adrodd neu wneud cwyn mewn perthynas â hawl tramwy oddi ar

dudalen Hawliau Tramwy. Gellir hefyd cysylltu drwy ymweld â haen llwybrau ar y map ar lein. Mae'n bwysig bod y wybodaeth ar y we yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i ddiweddarau fel bo'r angen.

Mae cyhoedd wedi dod i arfer cysylltu gyda Gwasanaethau'r Cyngor oddi ar y safle we. Dylid gwella ac ymestyn y ddarpariaeth ar lein er mwyn galluogi'r cyhoedd gael gwybodaeth gyfredol ac i adodd problemau am hawliau tramwy a'r rhwydwaith mynediad ehangach.

#### **DATGANIAD GWEITHREDU 6**

**6.** Mae'n angenrheidiol bod y Gwasanaeth yn gwneud defnydd o dechnoleg sy'n caniatáu i swyddogion i weithio'n effeithiol ac i ymateb yn effeithlon i gwynion gan y cyhoedd. Bydd systemau presenol gan gynnwys y wefan yn cael eu adolygu a'u diweddarau.

## **2.12 Gweithio gyda phartneriaid**

Mae llu o asiantaethau a chyrrff yn cyfrannu tuag at ddarparu mynediad i gefn gwlad yng Ngwynedd. Mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad wedi hen arfer gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni amcanion cyffredin er budd pawb.

### **2.12.1 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) yn chwarae rôl bwysig yn darpariaeth mynediad yn ardaloedd Cynghorau Gwynedd a Conwy sydd o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae ardal y Parc yn denu dros 4 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn. Yn 2018, roedd 557,991 wedi ymweld â'r Wyddfa a 66,241 â Chadair Idris.

Mae 2,409km (1,497 milltir) o hawliau tramwy yn ardal y Parc, sef bron i 64% o rwydwaith gyfan Gwynedd, mae 375km (233 milltir) yn llwybrau sy'n cael eu hyrwyddo gan APCE.

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod priffyrdd statudol sydd â chyfrifoldeb am holl faterion cyfreithiol yn ymwneud â hawliau tramwy o fewn ardal y Parc sydd yng Ngwynedd. Mae APCE yn gyfrifol am dir mynediad agored yn unol â Deddf Cefn Gwlad a Mynediad 2000.

Dros y blynyddoedd mae'r Parc wedi canolbwyntio ymdrech ac adnoddau i gynnal y llwybrau hynny sy'n cael y defnydd mwyaf ac i ddatblygu llwybrau cylch sy'n gwasanaethu cymunedau lleol yn ogystal ag ymwelwyr. Maent hefyd wedi sicrhau cyllid ar gyfer datblygu llwybrau aml-bwrpas fel Lôn Gwyrfai ac wedi cychwyn datblygu Cylchdaith Yr Wyddfa sef llwybr lefel isel o amgylch Yr Wyddfa.

Nodwyd yn y CGHT gwreiddiol y bwriad i negodi cytundeb ffurfiol rhwng Cyngor Gwynedd a'r Parc er mwyn sefydlu dull mwy integredig o weithio ym maes mynediad. Mae'r ddau awdurdod wedi cytuno ar egwyddorion cydweithio sy'n cydnabod rolau'r ddau gorff. Bydd angen camau pellach dros y blynyddoedd nesaf er mwyn adeiladu a chryfhau'r berthynas.

#### **DATGANIAD GWEITHREDU 7**

Bydd y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn cydweithio a APCE i ddatblygu trefniadau gweithio effeithio gyda'r nod o sicrhau bod hawlau tramwy yn cael cynnal a'u gwella o fewn ardal y Parc.

### **2.12.2 Cyngorau Cymuned a Thref**

Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd gwaith a mewnbwn y Cyngorau Cymuned a Thref i gynnal hawlau tramwy o fewn eu hardaloedd. Dangosodd ymarferiad ymgysylltu dros aeaf 2016/17 bod y mwyafrif helaeth o Gyngorau Cymuned a Thref yn awyddus i weld llwybrau poblogaidd yn cael eu cynnal a'u gwella. Roedd dealltwriaeth ymysg llawer o'r cyngorau bod cyfleoedd mynediad yn bwysig i'r economi a llesiant pobl leol.

Er mwyn gallu cefnogi gwaith y Cyngorau Cymuned, mae'r Cyngor yn parhau i weithredu trefniant o ad-dalu costau gwaith cynnal a chadw a wneir ganddynt. Serch hynny, mae lleihad yn y gyllideb graidd wedi golygu bod y cyfraniad yma hefyd wedi'i leihau.

Hyd at 2016, roedd oddeutu £70,000 yn cael ei ad-dalu'n flynyddol i'r Cyngorau Cymuned; ers 2016, mae'r cyfraniad wedi lleihau i £32,000. Mae'n ofynnol bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gynnal llwybrau categori 1 a 2 yn unig.

O ganlyniad i'r newid, mae nifer y Cyngorau cymuned sy'n manteisio ar y cyfle wedi lleihau o 53 yn 2016 i 48 yn 2019 (noder na fu rhai Cyngorau erioed yn rhan o'r trefniant a bod 5 CC Penllyn yn un endid o dan Bartneriaeth Penllyn). Mae'r lleihad mewn cyllid sydd ar gael i'r Cyngorau Cymuned wedi golygu bod y Cyngor wedi gorfod ysgwyddo'r gwaith ychwanegol mewn sawl ardal. Ar y llaw arall, mae rhai Cyngorau Cymuned a Thref wedi defnyddio eu cyllidebau eu hunain i gynyddu eu gwariant ar gynnal a chadw llwybrau yn eu hardaloedd.

#### **DATGANIAD GWEITHREDU 8**

Parhau i gydweithio â Chyngorau Cymuned a Thref i gefnogi eu gwaith o gynnal a chadw llwybrau sy'n bwysig yn lleol.

### **2.12.3 Tirfeddianwyr**

Mae'r mwyafrif helaeth o hawlau tramwy cyhoeddus yn croesi tir ac eiddo preifat ac felly mae'n hanfodol fod swyddogion y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn meithrin perthynas dda gydag ystod eang o berchnogion a rheolwyr tir. Heb berthynas adeiladol byddai'n hynod anodd rheoli a gwella mynediad i gefn gwlad.

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn berchen ar diroedd arfordirol ac wedi bod yn bartner allweddol yn natblygiad y Llwybr Arfordir.

Er bod canran uchel o lwybrau ar dir amaethyddol a choedwigaeth mae llwybrau hefyd i'w cael o fewn trefi a phentrefi, stadau diwydiannol, canolfannau gwyliau a hyd yn oed yn croesi gerddi preifat. Mae bodolaeth llwybrau yn agos i dai yn gallu cael effaith ar breifatrwydd y trigolion ac mewn achosion o'r fath, rhaid i staff ddangos diplomyddiaeth a thact wrth ddelio â sefyllfaedd sensitif.

#### **2.12.4 Cyfoeth Naturiol Cymru**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cydweithio ac yn dylanwadu ar waith y Gwasanaeth Cefn Gwlad mewn sawl ffordd.

- Mae CNC yn dirfeddiannwr sylweddol, yn enwedig coetiroedd ym Meirionnydd sydd â nifer o hawliau tramwy cyhoeddus yn eu croesi. Rhaid cydweithio â rheolwyr tir i sicrhau nad yw gwaith coedwigaeth yn amharu ar hawliau cyhoeddus.
- CNC sy'n gyfrifol am weinyddu grant Llwybr Arfordir Cymru sy'n talu am swyddog prosiect, gwaith cynnal a chadw a gwelliannau. Maent hefyd yn rhedeg sawl cronfa grant gan gynnwys cefnogaeth i waith o fewn AHNE Llŷn
- CNC sy'n arwain y gwaith o baratoi a diweddarau'r Datganiadau Ardal ac yn cydlynu'r Rhaglen Diwygio Mynediad.

#### **2.12.5 Grwpiau Defnyddwyr**

Mae cyswllt ac aelodau gwahanol grwpiau defnyddwyr yn digwydd mewn amrywiaeth o ffyrdd. Maent yn helpu'r Gwasanaeth wrth adrodd ar broblemau ac adnabod gwelliannau sydd eu hangen.

Mae derbyn persbectif person mewn cadair olwyn yn gwneud byd o wahaniaeth wrth ddylunio llwybrau newydd ac mae eu harbenigedd yn werthfawr wrth baratoi gwelliannau i lwybrau marchogaeth a beicio.

Mae cynrychiolwyr lleol hefyd yn ymateb i ymgynghori ar orchmynion cyfreithiol ynghyd â lobio a dod a materion i sylw gwleidyddion lleol a chenedlaethol.

#### **2.13 Gwirfoddolwyr**

Cydnabuwyd pwysigrwydd gwirfoddolwyr yn y CGHT gwreiddiol a nodwyd yr angen bryd hynny am adnodd staff i gydgorio gwaith gwirfoddolwyr. Er na lwyddwyd i sicrhau cyllid ar gyfer swydd Cydlynedd Gwirfoddolwyr mae'r Gwasanaeth wedi ymdrechu i gynnal a datblygu perthynas gyda mudiadau ac unigolion sy'n awyddus i gyfrannu tuag y gwaith o gynnal y rhwydwaith hawliau tramwy, y Lonydd Glas a'n gwarchodfeydd natur a choedlannau.



Mae gwirfoddoli yn fendithiol i'r unigolyn sy'n cymryd rhan, mae gweithgaredd corfforol yn cyfrannu at gwell iechyd corfforol a meddyliol, yn gyfle i gymdeithasu ac ennill profiadau a sgiliau newydd.

Dros y blynyddoedd diweddar gwelwyd diddordeb cynyddol ymysg cymunedau i wella eu milltir sgwâr, boed yn lwybrau cyhoeddus neu reoli tir er budd bioamrywiaeth.

Serch hynny mae'n heriol i swyddogion hawliau tramwy yn enwedig yn ardaloedd Arfon a Meirionnydd i roi amser i drefnu gwaith a sicrhau bod iechyd a diogelwch y gwirfoddolwyr yn cael ei gyfarch. Mae sefyllfa ym Mhen Llyn yn wahanol oherwydd dynodiad AHNE Llyn sydd wedi dennu cyllid i gyflogi Warden Cefn Gwlad yr AHNE. Mae cael y swydd wedi arwain at sefydlu grŵp gwirfoddolwyr Ffrindiau'r AHNE sy'n cwrdd yn rheolaidd i ymgymryd ag amrywiaeth o waith o ail agor llwybrau, casglu sbwriel ar y traethau i lanhau ffynhonnau traddodiadol.

Mae gan fudiad cenedlaethol megis Cymdeithas y Cerddwyr trefniadau gweithio i'w aelodau sydd am wneud gwaith ymarferol ond mae dal angen mewnbwn swyddogion hawliau tramwy yn arbennig y rôl allweddol o gysylltu gyda thirfeddianwyr.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn hwyluso prosiectau grant gan bartneriaethau lleol a mentrau cymdeithasol sy'n gwella mynediad, er enghraifft Partneriaeth Tirlun Llyn a Cwmni Nod Glas yn ardal Dinas Mawddwy, Cyngor Tref Pwllheli.

#### **DATGANIAD GWEITHREDU 9**

Bydd y Gwasanaeth yn adnabod cyfleoedd i ymestyn a chryfhau cysylltiadau gyda mudiadau ac unigolion sy'n awyddus i wirfoddoli ac yn ceisio cyllid er mwyn cefnogi'r gwaith a wneir ganddynt.

## **2.14 Fforymau Mynediad Lleol**

Mae Fforymau Mynediad yn gyrrff statudol cafodd eu sefydlu gan Adran 94 o Ddeddf CGaHT 2000 er mwyn rhoi cyngor annibynnol ac argymhellion ar faterion mynediad a hamdden awyr agored. Dylent ystyried y materion hyn ar lefel strategol.

Disgwylir i aelodaeth y Fforymau ddangos cydbwysedd rhwng defnyddwyr hawliau tramwy a pherchnogion a rheolwyr tir ynghyd a chynrychiolaeth diddordebau eraill sy'n berthnasol i'r ardal, er enghraifft y sector twristiaeth.

Mae tri Fforwm Mynediad Lleol yn weithredol yn ardal Gwynedd, sef :

- Fforwm Arfon a Dwyfor - gweinyddir gan Cyngor Gwynedd
- Fforwm Gogledd y Parc Cenedlaethol - gweinyddir gan APCE
- Fforwm De y Parc Cenedlaethol - gweinyddir gan APCE

Mae'r Fforymau yn ymateb i ymgynghoriadau gan y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus ar faterion fydd yn dylanwadu ar fynediad a defnydd tir yng Nghymru.

## Rhan 3: Thema B. Y Map a'r Datganiad Swydddogol

### 3.1 Beth yw'r Map a'r Datganiad Swydddogol ?

Y Map a'r Datganiad Swydddogol yw'r cofnod cyfreithiol o fodolaeth, statws a lleoliad hawliau tramwy cyhoeddus yng Ngwynedd. Mae'n cynnwys dwy ddogfen – y *Map Diffiniol a'r Datganiad Diffiniol*.

Mae'r Map Diffiniol yn dangos hawliau tramwy cyhoeddus ar fap sy'n seiliedig ar yr Arolwg Ordnans, ac mae'r Datganiad Diffiniol yn disgrifio'r llwybrau a ddangosir ar y Map Diffiniol. Ni ellir newid y dogfennau hyn mewn unrhyw ffordd oni bai bod gorchymyn cyfreithiol yn cael ei gadarnhau.

Yn sgil cyflwyno Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi map a datganiad diffiniol

Y cam cyntaf, a ddechreuwyd yn y 1950au cynnar, oedd cynnal arolwg o'r llwybrau troed, y llwybrau ceffylau neu'r ffyrdd a ddefnyddir fel llwybrau cyhoeddus. Arweiniodd yr arolwg at baratoi map a datganiad drafft ac yna map a datganiad dros dro. Yn ystod y broses, roedd cyfle i unigolion, sefydliadau a thirfeddianwyr gyflwyno sylwadau a gwrthwynebu cynigion i gofrestru hawliau tramwy.

Y cam olaf oedd paratoi'r map a'r datganiad diffiniol a datganiad, yn achos Gwynedd golygai hyn ddau fap sef y map diffiniol ar gyfer Sir Feirionnydd (dyddiad cyhoeddi 13.8.1964) a map diffiniol Sir Gaernarfon (dyddiad cyhoeddi 2.1.1975).

Mae Atodiad 2 yn cyflwyno eglurhad manwl o'r broses o baratoi a chynhyrchu'r Map a'r Datganiad Swydddogol.

### 3.2 Defnydd a phwysigrwydd y Map a'r Datganiad Swydddogol.

Y Map Swydddogol a'r Datganiad yw sylfaen gwaith yr Awdurdod ym maes hawliau tramwy, mae'n allweddol i'r gwaith o reoli'r rhwydwaith Hawliau Tramwy.

Mae cywirdeb y map yn bwysig dros ben wrth i'r Cyngor ystyried ceisiadau Cynllunio, neu i ddarpar brynwyr tir neu eiddo. Gall methiant i roi ystyriaeth i'r map swydddogol arwain at anghydfod rhwng cymdogion a rhwng unigolion a'r Cyngor.

Mae'r Map Swydddogol yn cael ei gadw gan yr Uned Cefn Gwlad ar nifer o daflenni maint A1, a darperir copïau papur ar gais i'r cyhoedd, datblygwyr a thirfeddianwyr. Mae yna fersiwn digidol o'r map sy'n cael ei ddefnyddio ar systemau mapio'r Cyngor ac a ddarperir i'r Arolwg Ordnans; fodd bynnag, nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn cydnabod fersiynau digidol fel y gwir fap swydddogol.

Yn 2019, rhoddwyd y fersiwn digidol ar safle we allanol y Cyngor

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/map/default.htm?iaith=cy&xC=257293&yC=336548&layer=29&level=1>

Gellir defnyddio'r map i gyflwyno ymholiad neu gŵyn ynglŷn â chyflwr llwybr penodol. Er bod y map ar y we yn ddull effeithiol o gyflwyno gwybodaeth, ni ddylid dibynnu arno i ddatrys ansicrwydd ynglŷn â llinell llwybr ac anogir y cyhoedd i drefnu i weld copi caled o'r map swyddogol.

#### **DATGANIAD GWEITHREDU 10**

**10a.** Cadw a diweddarau'r map swyddogol a datganiadau ysgrifenedig

**10b.** Cynnal a diweddarau'r map ar wefan y Cyngor a hyrwyddo'i ddefnydd.

### **3.3 Gorchmynion Diwygio Map Swyddogol (GDMS) :**

Gall unrhyw ddefnyddiwr, tirfeddiannwr neu ddeiliad tir wneud cais i'r awdurdod priffyrdd i ddiwygio'r Map Swyddogol. Gwneir hyn trwy gyfrwng Gorchmyn Diwygio Map Swyddogol yn unol ag adran 53b Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

Wrth baratoi cais rhaid i'r ymgeisydd gasglu a chyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r gorchmyn, bydd y Cyngor yn asesu'r cais ar sail y dystiolaeth. Gall y dystiolaeth fod yn dystiolaeth o ddefnydd neu'n dystiolaeth ddogfennol a hanesyddol.

Mae'n hollbwysig fod y Cyngor yn cymryd golwg gytbwys ar y cais gan roi cyfle teg i gefnogwyr a gwrthwynebwyr gyflwyno tystiolaeth o blaid neu yn erbyn y Gorchmyn.

Lle bo'n bosib, ymdrechir i geisio datrysiaid rhwng y diddordebau gwahanol; fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y mwyafrif o geisiadau yn arwain at Ymchwiliad Cyhoeddus.

Oherwydd y pwyslais ar gywirdeb a safon y dystiolaeth a'r tebygrwydd o orfod cyfiawnhau penderfyniad mewn ymchwiliad cyhoeddus mae'n anorfod fod y broses yn drwm o safbwynt swyddogion y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn ogystal â gwasanaeth cyfreithiol y Cyngor.

Oherwydd cyfres o doriadau cyllidebol ers 2010, un aelod o staff penodedig sydd bellach ar gael i ymdrin â GDMS yn ogystal â gorchmynion eraill. O ganlyniad, ceir ôl-groniad o geisiadau ac ym mis Ionawr 2020 roedd 60 cais wedi'i gofrestru. Gall y cyhoedd weld rhestr lawn o'r holl geisiadau GDMS ar safle we'r Cyngor.

Ar gyfartaledd, mae'r Cyngor yn derbyn tri chais newydd pob blwyddyn, yn bresennol mae'n cymryd o leiaf 4 blynedd i gais GDMS gael ei gwblhau yn enwedig os yw'n arwain at Ymchwiliad Cyhoeddus.

O'r 60 cais cofrestredig sydd heb eu penderfynu, gwelir bod 29 yn dyddio'n ôl cyn 1996 (Adrefnu Llywodraeth Leol). Rhaid nodi nad yw'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i'r awdurdod ddiystyru unrhyw gais waeth pryd oedd ei ddyddiad cofrestru.

Os na phenderfynwyd ar gais o fewn 12 mis i'w gofrestru, gallai'r ymgeisydd ofyn i'r Arolygaeth Gynllunio osod amserlen i'r Cyngor wneud penderfyniad.

Mae'r galw am orchmynio GDMS yn drech na'r capasiti i'w prosesu, o ganlyniad rhaid blaenoriaethu'r achosion. Mae Polisi 3.3 yn nogfen Polisiau Hawliau Tramwy Gwynedd yn gosod meini prawf ar gyfer blaenoriaethu ceisiadau. Mae profiad y blynyddoedd diweddar wedi dangos bod angen cryfhau'r meini prawf a chynnwys trefn sgorio.

### **3.4 Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus (GLIC)**

Os yw'r Cyngor yn ystyried bod newid i'r Map Swyddogol yn ddymunol mae'n bosibl gwneud y newid drwy gyfrwng sawl gweithdrefn gyfreithiol a gorchmynion llwybrau cyhoeddus. Prif gymhellad y Cyngor wrth wneud neu gefnogi GLIC yw'r budd sy'n deillio i'r rhwydwaith a defnyddwyr.

Er enghraifft defnyddir A25 Deddf Priffyrdd 1980 i greu llwybrau newydd drwy gytundeb y perchennog tir, mae A25 wedi'i ddefnyddio'n llwyddiannus er mwyn gwella llinell y Llwybr Arfordir.

Gellir gwyo hawl tramwy drwy ddefnyddio A119 o Ddeddf Priffyrdd 1980, mae'n declyn hwylus i osgoi mannau peryglus neu i ddatrys anghydfod rhwng perchennog tir a defnyddwyr.

### **3.5 Gorchmynion Cam Cyfreithiol (GCC)**

Pwrpas GCC yw cofnodi newidiadau ar y map swyddogol sy'n deillio o Orchmynion Llwybrau Cyhoeddus neu ddigwyddiadau eraill megis Gorchmynion Ffyrdd Ymyl neu weithred arall sy'n wedi newid y rhwydwaith yn gyfreithiol.

Mae cwblhau a phrosesu GCC yn sicrhau bod y Map Swyddogol a'r Datganiad yn cael ei ddiweddarau a'i gadw'n gyfredol.

#### **Datganiad Gweithredu 11**

**11a** Mae adnoddau ychwanegol er hangen er mwyn lleihau'r ôl groniad o achosion gorchmynion

**11.b** Mabwysiedir gweithdrefnau i flaenoriaethu ceisiadau GDMS er mwyn gwneud y defnydd gorau a mwyaf effeithlon o adnoddau ac sy'n dod a'r budd mwyaf i ddefnyddwyr hawliau tramwy.

Eglurir y weithdrefn blaenoriaethu i ymgeiswyr ac fe'i defnyddir i ymateb i apeliadau i'r Arolygaeth Gynllunio.

### 3.6 Gwallau cartograffig ac anghysondebau

Mae'r Map Swyddogol yn cynnwys sawl math o wall neu anghysondeb, er enghraifft, gwahaniaethau rhwng y map a'r disgrifiad yn y datganiad ysgrifenedig, llwybrau sy'n darford yn unman heb gysylltiad i lwybr neu briffordd arall, llinell llwybr yn cael ei ddangos yn mynd drwy adeilad neu strwythur oedd eisoes yn bodoli.

Mae llawer o'r gwallau yn dyddio'n ôl i adeg paratoi'r map drafft a'r map dros dro ond serch hynny mae gwallau o'r fath yn gallu bod yn sail i anghydfod rhwng perchnogion tir a'r Cyngor a rhwng un perchennog a'r llall.

Byddai angen dilyn trefn GDMS os am ddatrys nifer mawr o'r gwallau sydd ag oblygiadau mawr o safbwynt adnoddau.

Nodwyd yn CGHT 2007 y byddai angen un aelod o staff ychwanegol er mwyn datrys 200 achos fyddai angen GDMS. Ers hynny, oni bai bod achosion wedi codi sy'n golygu ei bod yn angenrheidiol i ddatrys gwall ni fu'n bosibl ymateb i'r mwyafrif helaeth o'r 200 gwall. Mae'n annhebygol y bydd adnoddau yn caniatáu i'r gwallau hyn gael eu datrys yn y dyfodol a rhaid ymdrin â hwy fesul achos.

#### **DATGANIAD GWEITHREDU 12**

Adolygir y rhestr o wallau ac anghysondebau ar y map swyddogol, gweithredir i'w datrys os yw adnoddau yn caniatáu.

### 3.7 Cydgrynhoi

Roedd y CGHT cyntaf yn cynnwys Cynnig Gweithredu i gynhyrchu Map Diffiniol Cyfun a fyddai'n uno mapiau Sir Gaernarfon a Sir Feirionnydd a'r holl Orchmynion dilynol yn un Map Diffiniol cyfredol newydd ar gyfer Gwynedd. Byddai'r dasg hon yn gofyn am ddatrys a chywiro'r anghysondebau a'r diffygion sy'n weddill; fodd bynnag, ni chyflawnwyd hyn oherwydd adnoddau staff annigonol. Er bod cynhyrchu Map Cyfunol yn parhau i fod yn ddyhead, mae'n annhebygol o fod yn gyraeddadwy o fewn oes y CGHT newydd.

### 3.8 Ffyrdd coll

Defnyddir y term "ffyrdd coll" i ddisgrifio llwybrau na chawsant erioed eu hadnabod a'u cofnodi ar y map swyddogol. Yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Adran 56) gosodwyd Ionawr 2026 fel y dyddiad terfynol ar gyfer cofrestru'r "ffyrdd coll" yn seiliedig ar dystiolaeth hanesyddol, sef cyn 1949.

Mae'n werth nodi nad yw'r Adran yma o'r ddeddf erioed wedi'i gweithredu yng Nghymru a cafodd ei hystyried ymhellach o fewn y Rhaglen Diwygio Mynediad. Yn ystod haf 2021 dywedodd Llywodraeth Cymru eu bod yn bwriadu diddymu A56 o ddeddfwriaeth Cymru.

## Rhan 4: Thema C. Cwrdd ag anghenion defnyddwyr

### 4.1 I ba raddau y mae hawliau tramwy lleol yn bodloni'r cyhoedd nawr ac yn y dyfodol?

Er mwyn ceisio adnabod anghenion defnyddwyr rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd roi eu barn mewn ymgyrch ymgysylltu yn 2017.

- Dywedodd 43.6% o'r rhai a ymatebodd eu bod yn cerdded ar hawliau tramwy yn ddyddiol
- Mewn ymateb i'r cwestiwn "Beth yw eich prif resymau am ddefnyddio Hawliau Tramwy?", atebodd 71.7% eu bod yn eu defnyddio i gadw'n heini, 59.1% i wyllo bywyd gwyllt a mwynhau cefn gwlad a 38.8% i fynd a'r ci am dro.
- Roedd 61.2% o'r rhai a atebodd wedi dod ar draws problem wrth ddilyn hawl tramwy.
- Un o brif ganfyddiadau'r ymgynghoriad oedd bod llwybrau cylch a llwybrau lleol yn cael eu ffafrio gan y mwyafrif o ddefnyddwyr yn hytrach na llwybrau pellter hir.
- Mewn ymateb i gwestiwn a ofynnwyd yn yr Holiadur "Ydych yn credu fod y rhwydwaith hawliau tramwy presennol yn addas ac yn cwrdd â gofynion y mwyafrif o ddefnyddwyr?", dywedodd 44% eu bod yn fodlon a nododd 41% nad oeddent yn fodlon (roedd 15% heb ateb).
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut y gellir gwella'r rhwydwaith, o'r rhai a oedd wedi ateb nad oeddent yn fodlon gyda'r rhwydwaith roedd canran uchel yn awyddus i weld rhagor o lwybrau beic, llwybrau marchogaeth ac roedd 18.3% yn credu y dylai beicwyr a marchogwyr gael yr hawl i ddefnyddio'r mwyafrif o lwybrau troed.
- Roedd cefnogaeth gref dros newid deddfwriaeth er mwyn hwyluso gwaith Awdurdodau Lleol i greu a diwygio hawliau tramwy.

Yn ychwanegol i'r holiadur, gofynnwyd hefyd am farn y Cynghorau Cymuned a Thref a'r Fforymau Mynediad. Roedd themâu clir i'w gweld o'r ymgynghoriad sef awydd i gael -

1. Rhwydwaith sy'n darparu cysylltiadau rhwydd o fewn cymunedau ar gyfer hamddena, cadw'n heini a theithio llesol.

2. Rhwydwaith sy'n cynnig darpariaeth well ar gyfer pob carfan o ddefnyddwyr.

## 4.2 Cerddwyr

Mae gan gerddwyr yr hawl i ddefnyddio'r rhwydwaith hawliau tramwy gyfan, gyda llawer yn cerdded gyda'u cŵn neu gyda phram neu chadair wthio plentyn.

Dengys tystiolaeth genedlaethol mai taith gerdded oddeutu 3 milltir sy'n arferol i fwyafrif o bobl. Gwelwyd o'r ymgynghoriad yn 2017 bod dymuniad i gael llwybrau cylch sy'n agos i gymunedau ac yn hwylus a diogel i'w defnyddio. Daeth y galw yma i'r amlwg yn ystod cyfnod clo Covid yn 2020 pan welwyd cynnydd mewn defnydd llwybrau oedd yn agos i gymunedau.

Gellir gwella llawer o lwybrau er budd pob defnyddiwr drwy weithredu egwyddorion dull lleiaf rhwystrol, sef newid camfeydd am giatiau ac os yn bosibl cael gwared â giatiau hefyd. Rhaid wrth gwrs gymryd anghenion rheolaeth stoc i ystyriaeth.

## 4.3 Beicwyr

Mae beicio ar ac oddi ar y briffordd wedi tyfu mewn poblogrwydd dros y ddegawd ddiwethaf.

Gall beicwyr ddefnyddio hawliau tramwy sy'n llwybrau marchogaeth, cilffyrdd cyfyngedig a chilffyrdd sydd ar agor i bob traffig. Yn ychwanegol, mae gan Wynedd y rhwydwaith Lonydd Glas sy'n llwybrau aml-ddefnydd wedi'u datblygu'n bennaf ar hen reilffyrdd. Er bod cyfleodd dali fod i ddatblygu'r cyn rheilffyrdd yn llwybrau aml ddefnydd mae

Mae'r Lonydd Glas hefyd yn rhan o'r rhwydwaith beicio cenedlaethol, Lôn Las Cymru (Rhif 8) sy'n defnyddio cyfuniad o'r Lonydd Glas, lonydd tawel a llwybrau ar goetiroedd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r Lonydd Glas hefyd wedi'u hadnabod fel llwybrau Teithio Llesol gan eu bod yn cysylltu cymunedau -

- Lôn Las Ogwen – Bangor – Glasinfryn – Tregarth – Bethesda
- Lôn Las Menai – Caernarfon – Y Felinheli
- Lôn Eifion – Caernarfon - Groeslon, Penygroes, Bryncir

Datblygwyd ac uwchraddiwyd y rhwydwaith presennol dros gyfnod o 20 mlynedd, mae'r prif llwybrau bellach gydag wyneb tarmac ac mae gwelliannau mawr wedi cael eu gwneud yn sgil sicrhau grantiau, er enghraifft, agor twnnel Tywyll er mwyn creu cyswllt uniongyrchol rhwng Tregarth a Bethesda.

Mae'r ddegawd ddiwethaf wedi gweld twf yn y niferoedd sy'n cymryd ran mewn beicio mynydd sydd wedi arwain at ddatblygiad sawl safle pwrpasol, er enghraifft Coed y Brenin a



canolfan Antur Stioniog ym Mlaenau Ffestiniog. Mae bodolaeth y canolfanau pwrpoasol yn cyfranu tuag at leihau problemau erydiad a gwrthdrawo rhwng gwahanol ddefnyddwyr ar hawliau tramwy.

#### **4.4 Marchogwyr**

Dim ond 10% o'r rhwydwaith hawliau tramwy sydd ar gael i farchogwyr. Yn ychwanegol, mae'r ddarpariaeth bresennol yn fratiog sy'n golygu nad yw'n bosibl dilyn taith heb orfod mynd ar y briffordd. Gan fod peryglon amlwg yn gysylltiedig â marchogaeth ar briffordd brysur, mae'r Gymdeithas Ceffylau Prydeinig a grwpiau lleol yn ymgyrchu i wella'r ddarpariaeth ar gyfer marchogwyr.

Gall y Cyngor wella darpariaeth i farchogwyr drwy

- Gwneud gwelliannau i lwybrau marchogaeth a chilffyrdd presennol, gall hyn gynnwys addasu giatiau i'w gwneud yn haws i'w hagor a'u cau ar gefn ceffyl. Mae marchogwyr hefyd yn awyddus i gael defnydd llawn o'r rhwydwaith Lonydd Glas. Yn bresennol, caniateir defnydd o Lôn Las Ogwen a rhannau o Lôn Eifion; penderfynwyd yn y gorffennol i gyfyngu'r defnydd o'r Lonydd Glas er diogelwch y marchogwyr a defnyddwyr eraill.
- Cofrestru hawliau newydd neu uwchraddio hawliau presennol drwy drefn GDMS. Fel y nodwyd yn rhan 3.3, mae'r drefn yma'n aml yn gynhennus a bydd y mwyafrif o berchnogion a rheolwyr tir yn anfodlon cydweithio i uwchraddio hawl tramwy o statws lwybr troed i hawliau uwch.
- Cynnwys darpariaeth fel rhan o gynlluniau a phrosiectau Teithio Llesol, er nad yw marchogaeth yn ystyriaeth dan ganllawiau Teithio Llesol presennol.

#### **4.5 Asesu Anghenion pobl gyda nam ar eu synhwyrau a'u symudedd**

Mae Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiad, Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i:

**Hyrwyddo Cydraddoldeb yn unol â dyletswyddau Deddf Cydraddoldeb 2010 (y dyletswyddau cyffredinol a'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn Neddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015)**

Y nodweddion a warchodir yw - Oedran, Rhyw, Hil, Anabledd, Ailbennu rhywedd, Beichiogrwydd a mamolaeth, Cyfeiriadedd Rhywiol, Crefydd neu gred - gan gynnwys dim cred a Phriodas a phartneriaeth sifil

Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd gweithgaredd dydd i ddydd 20.5% o boblogaeth Gwynedd yn cael eu cyfyngu oherwydd anabledd sy'n cynnwys pobl gyda nam corfforol a nam ar eu symudedd, pobl gyda nam ar eu golwg neu clyw, anableddau iechyd meddwl a salwch hirdymor.

Mewn ymateb i ymgynghoriad Hawliau Tramwy 2017, nododd 7% o'r rhai a ymatebodd nad oeddent yn defnyddio hawliau tramwy am resymau anabledd, oedran neu iechyd gwael.

Yng nghyd-destun mynediad i gefn gwlad mae llawer iawn i'w ystyried, gall dodrefn a'r llwybr fod yn broblem fawr i un person, ond nid i berson anabl arall. Rhaid hefyd ystyried yr effaith ar deuluoedd a ffrindiau.

Rhaid cydnabod bod tirwedd a thopograffi Gwynedd am fod yn rhwystr i rai defnyddwyr; serch hynny, ni ddylai hyn fod yn esgus i beidio â gweithredu camau ymarferol a rhesymol i wella mynediad i bawb. Mae'r camau hyn yn cynnwys:

- Gweithredu egwyddor dull gweithio lleiaf rhwystrol pan ddaw cyfle i adnewyddu neu drwsio dodrefn ar lwybr.  
Yn ymarferol mae hyn yn golygu newid camfa yn giât, gosod giatiaau lletach ac os oes modd cael gwared â'r giât yn gyfan gwbl. Mae'n ofynnol i gael cydweithrediad y tiffeddiannwr cyn gellir newid dodrefn.
- Sicrhau bod pontydd a strwythurau sy'n cynnal llwybrau o leiaf 1.2m o led.
- Newid stepiau am ramp lle mae'n rhesymol ymarferol.
- Ceisio lledu manau cul ar y rhwydwaith Lonydd Glas i sicrhau lled sy'n isafswm o 2.5m a lleihau rhwystrau oni bai eu bod yn allweddol am resymau diogelwch na ellir eu lliniaru.
- Sicrhau bod rhaglenni cynnal yn gwaredu canghennau coed a thyfiant arall all amharu ar ddefnyddwyr dall neu rhannol ddall.
- Gosod "tap rail" ar ganllawiau pont i helpu unigolion dall neu rhannol ddall i ymgyfarwyddo'u hunain â'r lleoliad.
- Mae llwybrau gydag wyneb gwastad heb dyllau yn llawer mwy diogel a hwylus i'w defnyddio gan gadeiriau olwyn ac unigolion sy'n ei chael hi'n anodd cadw balans.

Yn ogystal â'r camau ymarferol, rhaid hefyd ystyried sut y gellir hyrwyddo llwybrau'n well drwy ddefnyddio technoleg a dylunio arwyddion a deunydd gwybodaeth mewn ffordd sy'n hawdd ei weld a'i ddarllen. Enghraifft amlwg fyddai gosod panel dehongli ar uchder lle gallai rhywun mewn cadeiriau olwyn ei ddarllen.

Mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad wedi ymdrechu ers blynnyddoedd i ddeall a gweithredu er budd unigolion â nam ar y synhwyrau. Serch hynny, mae yna le i gydweithio'n agosach gyda mudiadau a grwpiau defnyddwyr er mwyn deall anghenion a dymuniadau defnyddwyr yn well.

### **DATGANIAD GWEITHREDU 13**

13a. Gweithredu'r dull mynediad lleiaf rhwystrol - newid camfeydd am giatiaau lle bo'n bosibl, lleihau rhwystrau ar y Lonydd Glas a llwybrau aml ddefnydd eraill.

13b. Adnabod a gwella llwybrau sy'n agos i gymunedau ac sy'n hwylus i'w defnyddio gan bobl leol a chan bobl â nam ar eu symudedd a'u synhwyrau.

13c. Gweithio gyda phartneriaid o fewn a thu allan i'r Cyngor i adnabod cyfleoedd i wella mynediad i bawb.

13ch. Codi ymwybyddiaeth o lwybrau sy'n addas i bawb.

## 4.6 Y galw am lwybrau aml-ddefnydd

Mae'n amlwg o'r ymgynghori a fu ac o'r ymholiadau a dderbynnir gan y Gwasanaeth Cefn Gwlad bod yna awydd ymysg carfan sylweddol o ddefnyddwyr am ragor o lwybrau aml-ddefnydd, sef llwybrau i gerddwyr, beicwyr, marchogwyr sydd hefyd yn diwallu gofynion pobl gyda phroblemau symudedd.

Byddai ymestyn argaeledd llwybrau aml-ddefnydd yn sicr o gwrdd ag anghenion y mwyafrif o ddefnyddwyr. Er enghraifft, defnyddir rhwydwaith y Lonydd Glas ar gyfer hamdden, cadw'n heini, ymlacio ac ar gyfer Teithio Llesol (i fynd a dod i'r gwaith neu'r ysgol) ac maent hefyd yn adnodd gwerthfawr i'r diwydiant twristiaeth yng Ngwynedd.

Er bod y Cyngor wedi cydweithredu'n llwyddiannus dros y blynyddoedd ag eraill i ymestyn y rhwydwaith Lonydd Glas a llwybrau aml-ddefnydd eraill; fodd bynnag, mae yna ffactorau cyfreithiol ac ymarferol a all atal neu ohirio cynnydd, megis:

- Os am sefydlu hawliau uwch (beicio a marchogaeth) ar lwybr troed sydd eisoes yn bodoli, rhaid i statws y llwybr newid. Os nad yw'r perchennog tir yn cytuno gyda'r newid, rhaid i'r Cyngor neu drydydd parti ddefnyddio'r weithdrefn GDMS neu orchymyn dan A26 Deddf Priffyrdd 1980. Gellir uwchraddio llwybr hefyd yn Lwybr Beicio dan Ddeddf Llwybrau Beicio 1984 ond ni fyddai hyn yn caniatáu defnydd gan farchogwyr. Ym mhob achos, gall y broses gyfreithiol fod yn gymhleth a gall gymryd sawl blwyddyn i'w chwblhau.
- Er mwyn ymestyn rhwydwaith y Lonydd Glas ar dir sydd heb unrhyw hawliau cyhoeddus cyfreithiol, byddai rhaid sicrhau'r tir neu greu hawliau newydd.
- Mae costau sylweddol yn gysylltiedig â chreu llwybrau aml-ddefnydd newydd, e.e. roedd cyfanswm y gost o ymestyn Lôn Las Ogwen rhwng Tregarth a Bethesda, gan gynnwys agor Twnnel Tywyll, oddeutu £800,000.
- Oherwydd eu poblogrwydd a'u hystod o ddefnyddwyr, mae llwybrau aml-ddefnydd angen lefel uwch o waith cynnal a chadw.

- Nid yw pawb yn cytuno â chaniatáu pob math o ddefnydd ar lwybr. Mae pryderon ynghylch diogelwch, yn enwedig gwrthdaro rhwng gwahanol ddefnyddwyr, mewn perthynas â chŵn afreolus neu sydd ag ofn bod yn agos at geffylau neu feiciau sy'n cael eu reidio ar gyflymder. Er na ddylid diystyru'r pryderon hyn, gellir eu goresgyn gyda dyluniad da, gwybodaeth ac ymgysylltu â defnyddwyr.

Mae'r angen am lwybrau aml-ddefnydd yn cael ei ystyried fel rhan o broses Adolygu Mynediad, gyda chynnig i feicwyr a marchogwyr gael yr hawl i ddefnyddio'r llwybr cyhoeddus presennol. Disgwylir canlyniad yr Adolygiad yn ystod 2021, ond bydd unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn cymryd amser hirach i'w gweithredu.

#### **DATGANIAD GWEITHREDU 14**

14a. Bydd y Cyngor yn ffafrio gwelliannau i'r rhwydwaith sy'n cynnig darpariaeth aml-ddefnydd.

14b. Oni bai fod rhesymau diogelwch cadarn yn bodoli, dylid caniatáu defnydd o'r rhwydwaith Lonydd Glas gan farchogwyr.

14c. Bydd pwslais ar ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr llwybrau aml ddefnydd i annog ymddygiad cyfrifol a pharch at ddefnyddwyr eraill.

## **4.7 Teithiau a hyrwyddir**

Mae'r Cyngor wedi ymdrechu dros y blynyddoedd i ddarparu teithiau cylch a llwybrau hir sy'n hwyluso ac annog mynediad er budd trigolion lleol ac i gwrdd â dyheadau twristiaid i fwynhau prydfferthwch a threftadaeth Gwynedd. Yn aml, mae teithiau yn dilyn thema arbennig yn gysylltiedig â hanes neu fywyd gwyllt.

Mae pwysigrwydd twristiaeth cerdded i'r economi wledig yn amlwg, amcangyfrifir bod twristiaeth cerdded yn dod a £550 miliwn yn flynyddol i economi Cymru gyda'r llwybr arfordir yn gyfrifol am £32 miliwn.

Bydd mwyafrif y teithiau yn defnyddio hawliau tramwy, ffyrdd tawel a llwybrau ar dir cyrff megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Wrth greu taith i'w hyrwyddo mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhaid cynnal a chadw'r llwybrau'n dda gan sicrhau bod y dodrefn yn gyfan a diogel ac wedi'u harwyddo'n glir.

Mae Gwasanaeth Twristiaeth y Cyngor wedi cydweithio gyda'r Gwasanaeth Cefn Gwlad dros y blynyddoedd i hyrwyddo a marchnata'r teithiau yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae mwyafrif y marchnata yn digwydd ar wefan Eryri Mynyddoedd a Môr. Er yn llai poblogaidd erbyn hyn, defnyddir dulliau traddodiadol megis taflen, llyfryn neu banel

gwybodaeth i hyrwyddo taith. Dros y blynyddoedd diwethaf, bu'n arferol i'r wybodaeth fod ar gael ar y we yn unig a thrwy wahanol apiau ar ffonau clyfar.

Mae llawer o lwybrau a theithiau yn cael eu hyrwyddo ar y we gan gyrff a mudiadau sy'n annibynnol o'r Cyngor neu'r Parc Cenedlaethol.

Mae technoleg yn cynnig cyfleoedd newydd, er enghraifft gellir dilyn y Llwybr Arfordir ar Google Street ar Google Maps.

Sefydlwyd y mwyafrif o'r teithiau gyda chymorth grantiau unwaith ac am byth, mae argaeledd grantiau wedi caniatáu i Gynghorau Cymuned a Thref, asiantaethau adfywio a mentrau cymunedol. Golyga'r buddsoddiad hwn fod sawl llwybr wedi'i wella er budd y gymuned ehangach ond nid yw'r arian grant ar gael ar gyfer cynnal a chadw parhaus yn y mwyafrif o achosion. Rhaid i gostau'r gwaith hwn gael eu talu gan y Gwasanaeth Cefn Gwlad. Fodd bynnag, ceir eithriadau megis y Llwybr Arfordir sy'n derbyn grant cynnal a chadw blynyddol a Llwybr Llechi Eryri a gaiff ei reoli fel Menter Gymdeithasol.

Yn anffodus, mae rhai teithiau eraill wedi dirywio oherwydd diffyg cyllid i'w cynnal a chadw. Rhaid felly ystyried dulliau amgen o gynnal y llwybrau a hyrwyddir, er enghraifft drwy:

- Rhesymoli'r teithiau gan ganolbwyntio adnoddau i sicrhau bod nifer llai mewn cyflwr da.
- Annog sefydliadau sy'n ystyried sefydlu llwybr a hyrwyddir gyda grant i ymgysylltu gyda'r Gwasanaeth Cefn Gwlad yn gynnar er mwyn trafod ei greu ac opsiynau cynnal a chadw hirdymor.
- Sefydlu a chynnal gweithlu o wirfoddolwyr i ofalu am y llwybrau.

Yn ystod cyfnod clo Covid, roedd diddordeb mawr gan drigolion lleol mewn ail-ddarganfod eu bröydd a gwelwyd cynnydd yn y defnydd o lwybrau oedd yn agos at drefi a phentrefi. Nid yn unig y dylid gwneud ymdrech i wella cyflwr ffisegol y llwybrau ond mae galw i'w hyrwyddo'n lleol.

#### **DATGANIAD GWEITHREDU 15**

15a. Bydd y Gwasanaeth yn asesu ansawdd a defnydd teithiau sy'n cael eu hyrwyddo ac yn ystyried eu rhesymoli os nad oes trefniant i'w cynnal yn yr hirdymor. Gellir gwneud y gwaith yma fel rhan o adolygiad Categoriadau.

15b. Rhoddir blaenoriaeth i hyrwyddo cyfleoedd mynediad yn agos at gymunedau lleol.

## 4.8 Bioamrywiaeth a mynediad at natur

Mae bioamrywiaeth a'r ecosystem yr ydym yn byw ynddi yn greiddiol i fwynhad pobl o gefn gwlad. Mae'r rhwydwaith hawliau tramwy, y Lonydd Glas a thir agored yn caniatáu i bobl fwynhau a gwerthfawrogi byd natur.

Mae'n ofynnol i Gyngor Gwynedd gynnal a gwella bioamrywiaeth ym mhopeth a wneir gan yr Awdurdod yn unol ag A6 o Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae Adran 6 yn nodi *"Rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio gwarchod a gwella bioamrywiaeth wrth ymarfer ei swyddogaethau yng Nghymru, a thrwy hyn hyrwyddo gwydnwch ecosystemau..."*

Mae llawer o diroedd, afonydd ac arfordir Gwynedd wedi'u dynodi oherwydd eu pwysigrwydd ecolegol a daearegol. Yn ychwanegol, mae cefn gwlad Gwynedd yn frith o lecynnau sy'n cynnal amrywiol rywogaeth o famaliaid, adar, planhigion, ymlusgiaid a phryfetach. Mae'r tiroedd, boed yn ddynodedig neu beidio, yn bwysig i fywyd gwyllt a rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion mynediad a gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau. Dylid bod yn ofalus wrth wneud gwelliannau ac uwchraddio llwybrau yn ogystal ag amseru gwaith rheoli tyfiant er mwyn osgoi ymyrryd ag adar yn nythu a thorri blodau gwyllt.

Mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad yn gyfrifol am Warchodfeydd Natur Lleol, a coedlannau sydd i gyd a mynediad cyhoeddus sydd angen ei gynnal a'i wella fel fod pawb yn gallu cael mynediad at natur. Dylid lle'n bosibl manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu prosiectau sy'n cyfuno gwaith rheolaeth cynefin, addysg a mynediad.

### **DATGANIAD GWEITHREDU 16**

Bydd y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn ystyried materion bioamrywiaeth wrth ymgymryd â gwaith i gynnal a gwella llwybrau.

Edrychir am gyfleoedd i weithredu cynlluniau sy'n elwa bioamrywiaeth a mynediad.

## 4.9 Cynlluniau Amaeth-amgylcheddol yn dilyn Brexit

Mae ymadawiad Prydain o'r Undeb Ewropeaidd yn golygu rhaid creu fframwaith newydd ar gyfer cefnogi'r sector amaethyddol. Ers degawdau, mae cynlluniau megis Tir Gofal a Glastir wedi cyfrannu tuag at wella cynefinoedd naturiol ac adfer nodweddion tirwedd megis cloddiau a waliau cerrig. Er i rai tirfeddianwyr fanteisio ar y cyfle i greu llwybrau caniataol, ni fu cefnogaeth uniongyrchol tuag at gynnal y rhwydwaith hawliau tramwy. Mae potensial i ymgorffori cynnal hawliau tramwy o fewn cyfundrefn newydd ar gyfer taliadau cymhorthdal i dirfeddianwyr.

## Atodiad 1

Nodwyd y camau gweithredu canlynol yn y CGHT cyntaf fel rhai y gellir eu cyflawni gyda'r adnoddau oedd ar gael ar y pryd. Mae'r tabl yn egluro beth sydd wedi'i wneud a statws presennol y camau hyn.

<b>Crynodeb o'r Camau Gweithredu a gynigir yn y CGHT cyntaf</b>	<b>Beth sydd wedi ei gyflawni</b>	<b>Statws presennol</b>
Cynhyrchu map wedi'i gyfuno	Heb ei gyflawni	Wedi ei gynnwys yn ddatganiad Gweithredu 3.7 yn y CGHT newydd.
Gweithio tuag at gynhyrchu fersiwn electronig gyfredol o'r Map Swyddogol	Wedi'i gyflawni	Mae'r map ar gael ar safle we'r Cyngor
Clirio'r ôl-groniad o geisiadau am Orchmynon Diwygio Map Swyddogol	Heb ei gyflawni oherwydd lleihad mewn lefelau staffio yn dilyn cwblhau'r CGHT gwreiddiol.	Mae Datganiad Gweithredu 11 yn y GCHT newydd yn cyfarch y mater, nid yw'n bosibl datrys y sefyllfa heb adnoddau staff ychwanegol.
Datblygu polisi cadarn ar gyfer camau orfodi / erlyniadau	Wedi'i gyflawni, mae materion gorfodaeth yn cael eu cyfarch yn nogfen Polisiâu Hawliau Tramwy Cyhoeddus	Mae Datganiad Gweithredu 3b yn y CGHT newydd yn datgan yr angen i adolygu a diweddarau'r polisiâu.
Cynhyrchu ystod o bolisiau eglur ar reoli hawliau tramwy.	Wedi'i gyflawni, mae rheolaeth hawliau tramwy wedi ei gyfarch yn y ddogfen Polisiâu Hawliau Tramw Cyhoeddus	Mae Datganiad Gweithredu 3b yn y CGHT newydd yn datgan yr angen i adolygu a diweddarau'r polisiâu.
Cynhyrchu canllaw i ddibenion diogelu a gorfodaeth gan ddefnyddio enghraifft Cyngor Sir Gaer fel model ymarfer da.	Heb ei gyflawni	Fe'i ystyrir fel rhan o'r adolygiad y polisiâu.
Negodi cytundeb ffurfiol gyda'r APCE er mwyn sefydlu dull o weithio mwy integredig	Mae cytuned ar egwyddorion cyd weithio.	Mae'n cael ei gyfarch yn Natganiad Gweithredu'r CGHT newydd
Annog gweithio mewn Partneriaeth gydag adrannau eraill o'r Cyngor,	Mae llawer wedi ei wneud i ddatblygu gweithio mewn Partneriaeth ers paratoi'r CGHT gwreiddiol.	Mae angen i barhad ac ymestyn gweithio mewn partneriaeth yn cael ei gyfarch yn Natganiadau

cynghorau cymuned ac asiantaethau eraill		Gweithredu 8 a 9 yn y CGHT newydd.
Trafod gyda thirfeddianwyr a rheolwyr i leihau gwrthdrawo a chynnal gweithdai i drafod materion sy'n effeithio ar dirfeddianwyr	Ystyrir bod cysylltu â pherchnogion tir yn allweddol i gynnal a gwarchod y Rhwydwaith HTC. Nid oes unrhyw weithdai ffurfiol wedi'u trefnu er bod materion yn cael eu codi yng nghyfarfodydd y FfMLI	Mae'r CGHT newydd yn pwysleisio'r angen a deialog gyda thirfeddianwyr a rheolwyr tir er mwyn lleihau anghydfod.
Sicrhau bod hyfforddiant staff yn gyfredol o ran cydraddoldeb anabled.	Mae hyfforddiant wedi ei roi i staff	Parheir i gynnig hyfforddiant ym mhob agwedd o gydraddoldeb
Cysylltu â gwahanol grwpiau defnyddwyr a grwpiau anabled.	Ceir ymgysylltiad parhaus ag ystod eang o grwpiau defnyddwyr. Mae cynrychiolwyr ac unigolion wedi cyfrannu at gynlluniau gwella llwybrau.	Ymdrinnir â mynediad i bobl â phroblemau symudedd yn Natganiad Gweithredu 13 yn y CGHT newydd.
Integreiddio a llwybrau diogel i'r Ysgol / gwaith - penderfynu pa lwybrau penodol a ddefnyddir i gymudo i'r Ysgol ac i'r gwaith a nodi gwelliannau posibl.	Mae'r maes gwaith hwn wedi'i ddisodli gan y Ddeddf Teithio Llesol a pharatoi mapiau Teithio Llesol.	Mae llwybrau teithio llesol yn ychwanegu gwerth sylweddol at y rhwydwaith mynediad ehangach. Mae gweithio ar y cyd wedi arwain at fuddsoddiad yn y Lonydd Glas a'r rhwydwaith hawliau tramwy.
Archwilio llwybrau presennol a hyrwyddir .	Oherwydd lleihad mewn adnoddau staff yn dilyn paratoi'r CGHT cyntaf, nid yw cynnal llawer o lwybrau a hyrwyddir wedi'i flaenoriaethu.	Mae Datganiad Gweithredu 15 yn mynd i'r afael â'r angen i adolygu ac ailasesu rheolaeth llwybrau a hyrwyddir.
Nodi mwy o deithiau cerdded iach -archwilio llwybrau newydd /gwahanol i sicrhau bod hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad yn darparu manteision iechyd.	Wedi'i gyflawni'n rhannol	Mae manteision iechyd a lles cerdded a mynediad i fannau gwyrdd bellach yn cael eu derbyn yn gyffredinol ac mae'n thema gyffredin yn y CGHT newydd.
Datblygu gwefan ryngweithiol o ansawdd.	Wedi'i gyflawni.	Rhoddir sylw i adolygu a ddiweddarau cynnwys y wefan.



## Atodiad 2

### Y broses o gynhyrchu Map a Datganiad Swydddogol

O dan y Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, rhoddwyd dyletswydd ar bob cyngor sir yng Nghymru a Lloegr i gynnal arolwg a mapio'r holl hawliau tramwy cyhoeddus trwy eu dosbarthu fel llwybrau troed, llwybrau ceffyl neu ffyrdd a ddefnyddir fel llwybrau cyhoeddus. Roedd y broses yn cynnwys tri cham: drafft, darpariaethol a swydddogol.

### Map Drafft

Paratowyd y drafft cyntaf mewn ymgynghoriad â'r cyngorau plwyf lleol pan aethpwyd ati i arolygu ac wedyn i fapio'r holl hawliau tramwy y tybid eu bod yn rhai cyhoeddus. Yna rhoddwyd y Map Drafft ar adnau a chaniatawyd amser i glywed gwrthwynebiadau a sylwadau ac a ystyriwyd yn ddiweddarach mewn cyfres o wrandawiadau lleol.

Cyhoeddwyd Map Drafft Cyngor Sir Feirionnydd ar 18 Rhagfyr 1952 ac un Sir Gaernarfon ar 2 Gorffennaf 1954 (ond roedd tair cymuned heb eu cynnwys - Aberdaron, Dolbenmaen a Llanystumdwy – oherwydd nad oedd y gwaith ar y cymunedau hyn wedi'i orffen). Cyhoeddwyd y tair cymuned hyn yn fuan wedyn (1955) a bu cyfres o wrandawiadau'n delio â gwrthwynebiadau a sylwadau a wnaethpwyd ar gyfer yr ardal gyfan.

### Map Darpariaethol

Yn achos Sir Gaernarfon, ymgorfforwyd canlyniadau'r gwrandawiadau mewn map yn dangos y "penderfyniadau i addasu", ac a gyhoeddwyd yn 1956. Dilynwyd penderfyniadau Sir Gaernarfon gyda Map Darpariaethol yn 1958, a dim ond tirfeddianwyr a allai wrthwynebu i gynnwys hwn. Clywyd gwrthwynebiadau ar y pryd trwy'r Llys Chwarter. Cyhoeddodd Sir Feirionnydd ei benderfyniadau i addasu ar 16 Hydref 1959 a dilynwyd hyn gan sesiwn o'r Llys Chwarter i ystyried unrhyw wrthwynebiadau.

### Y Map Swydddogol

Ar ôl ystyried yr holl achosion yn y llys chwarter a oedd yn ymwneud â'r ardal, cyhoeddodd Cyngor Sir Feirionnydd ei Fap Swydddogol ym mis Awst 1964. Seliwyd Map Swydddogol Sir Feirionnydd yn ffurfiol gan yr Awdurdod hwnnw.

Ni chyhoeddwyd Map Swydddogol Sir Gaernarfon am nifer o flynyddoedd oherwydd nad oedd proses gwrandawiadau'r llys chwarter wedi'i chwblhau. Fodd bynnag, cyn i ran Sir Gaernarfon gael ei chyhoeddi cyhoeddwyd (yn 1963) map â sylfaen newydd gan yr Arolwg Ordnans a throsglwyddwyd y cofnodion ar y map sylfaen mwy diweddar hwn cyn i'r map gael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 1975. Ni seliodd y Sir gopi o'r Map Swydddogol ond roedd yn fodlon cyhoeddi'r gwaith gorffenedig, gan nad oedd gofyniad yn y ddeddfwriaeth i fap gael ei "selio".

O dan y darpariaethau Trosglwyddo Eiddo yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol 1972, cafodd y mapiau hyn, gan eithrio rhai ardaloedd nad oedd wedi'u cynnwys o ganlyniad i newid ffiniau, eu trosglwyddo i Gyngor Sir Gwynedd a daethant, i bob pwrpas, yn rhan o Fap Swydddogol Cyngor Sir Gwynedd.

## Adolygu'r Map Swyddogol

Roedd Deddf 1949 yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i Gynghorau Sir adolygu eu Mapiau Swyddogol bob pum mlynedd o leiaf, proses a wnaethpwyd mewn tri cham - drafft, darpariaethol a swyddogol. Pwrpas yr adolygiad oedd galluogi awdurdodau i gynhyrchu map diwygiedig trwy ychwanegu unrhyw hawliau tramwy a oedd wedi eu hepgor o'r mapiau gwreiddiol a thrwy ddangos unrhyw lwybrau a grëwyd, a ddargyfeiriwyd neu a ddilëwyd ar ôl dilyn y drefn gyfreithiol. Oherwydd bod hwn yn waith a oedd yn cymryd cymaint o amser ac am nad Atodiad E 71 oedd adnoddau digonol yn cael eu neilltuo ar ei gyfer, nid oedd y rhan fwyaf o awdurdodau mewn sefyllfa i gydymffurfio â'r gofyniad i gynnal adolygiadau o dan Ddeddf 1949. Er ei bod yn dal i fynnu bod adolygiadau'n cael eu cynnal o bryd i'w gilydd, ceisiodd Deddf Cefn Gwlad 1968 gyflymu'r broses trwy ddatgan nad oedd bellach yn ofynnol i ddilyn tri cham y map, sef y fersiynau Drafft, Darpariaethol a Swyddogol.

Fodd bynnag, erbyn yr 1980au cynnar, roedd miloedd o wrthwynebiadau a ddeilliodd o'r broses adolygu ledled Cymru a Lloegr yn aros heb eu datrys. Ceisiodd Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 goethi'r broses ymhellach trwy ddiddymu'r adolygiad cyfnodol a chyflwyno gofyniad newydd ar awdurdodau priffyrdd i gadw'r Map a'r Datganiad Swyddogol o dan adolygiad parhaus a chaniatáu i newidiadau gael eu cyflwyno fesul Llwybr Cyflwynwyd darpariaethau trosiannol i ddelio ag adolygiadau heb eu cwblhau a oedd ar waith o dan Ddeddfau 1949 ac 1968.

Pan ddaeth Deddf 1981 i rym, roedd Cyngor Sir Gwynedd wedi cychwyn, ac wedi hysbysebu, ond heb gwblhau adolygiad o'r Map Swyddogol. Cawsant felly eu cyfarwyddo gan y Swyddfa Gymreig (yn 1986) i weithredu Gorchymyn Diwygio o dan Adran 55(5), i gadarnhau'r diwygiadau i'r Map a oedd wedi'u hysbysebu ond nad oedd gwrthwynebiad iddynt, fel bod y diwygiadau hynny'n dod yn rhan o'r Map. O ganlyniad i'r cyfarwyddyd hwn, paratowyd Gorchymyn Diwygio ac fe'i cwblhawyd ar 10 Awst 1988. Roedd hwn yn Orchymyn Diwygio sylweddol a oedd yn cynnwys newidiadau i fwy na 1000 o lwybrau. Fodd bynnag, roedd y map hwn ar raddfa fetrig newydd o 1:10000 yn hytrach na graddfa 1:10560 y mapiau gwreiddiol.

Dylid sylweddoli pan gynhaliwyd adolygiad 1981 nad oedd gofyniad i gadw golwg ar bob mân newid neu gywiriad gan fod y Map ei hun i gael ei dderbyn yn ei gyfanrwydd trwy'r broses adolygu. Efallai ei bod yn ddealladwy felly nad oedd pob newid a wnaethpwyd wedi ei gofnodi mewn atodlen a baratowyd tua saith mlynedd yn ddiweddarach.

# Atodiad 2

## Adroddiad Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd

**Dyddiad Cyflwyno:** 2022-10-14

**Awduron:** Tîm Ymchwil a Dadansoddeg

# Cynnwys

## Tudalen

Cyflwyniad	4
Methodoleg	4
Ymatebion i'r holiaduron	5
Categoriaddio Llwybrau (adran 2.4)	6
Grantiau (adran 2.6)	10
Datrys Anghydfod (adran 2.8)	12
Gwneud Defnydd o Dechnoleg (adran 2.11)	13
Cryfhau Cysylltiadau gyda Mudiadau ac Unigolion (adran 2.12.5)	15
Llwybrau Aml-ddefnydd (adran 4.6)	17
Defnydd o'r Rhwydwaith Lonydd Glas gan Farchogwyr (adran 4.6)	19
Sylwadau Pellach	20

# 1. Cyflwyniad

Mae hon yn adroddiad wedi'i greu i ddal ymatebion yr holiadur a dderbyniwyd.

Dogfen strategol yw'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) i'w defnyddio gan Awdurdodau Lleol er mwyn cynllunio ar gyfer rheoli, datblygu a hyrwyddo eu rhwydwaith hawliau tramwy. Bydd y CGHT yn gosod fframwaith ar gyfer adnabod, blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gwelliannau i'w rhwydwaith hawliau tramwy a mynediad i gefn gwlad er budd cerddwyr, beicwyr, marchogwyr, unigolion sydd â phroblemau symudedd ac eraill.

Mae Hawliau Tramwy yn cynnwys llwybrau troed, marchogaeth a chilffyrdd (lonydd cul fel arfer, yn aml heb wyneb), ond nid ydynt yn cynnwys ffyrdd.

## 2. Methodoleg

Er mwyn canfod barn trigolion Gwynedd ar y CGHT drafft defnyddiwyd holiadur fel dull casglu gwybodaeth.

Roedd yr holiadur yn agored o 27ain o Fehefin hyd at 30ain o Fedi 2022.

Fe osodwyd holiadur digidol ar dudalen 'Dweud eich dweud', sef safle ymgynghoriadau ar wefan y Cyngor, er mwyn casglu barn y cyhoedd cyffredinol.

Cysylltwyd gyda Phanel Trigolion y Cyngor gyda holiadur er mwyn canfod eu barn nhw.

Darparwyd copïau papur o'r holiadur ym mhob un o Siopau Gwynedd ynghyd a'r llyfrgelloedd ar draws y sir yn ogystal.

Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo trwy'r dudalen 'Dweud eich dweud', a hefyd trwy gyfryngau cymdeithasol y Cyngor, sef Facebook a Thrydar. Roedd yr holiadur hefyd yn cael ei hybu gan Barc Cenedlaethol Eryri.

Derbyniwyd ymatebion drwy'r post a drwy holiaduron ar-lein.

### 3. Ymatebion i'r holiaduron

Bydd y rhan yma o'r adroddiad yn dadansoddi ymatebion i'r holiaduron.

#### 3.01 Sut derbyniwyd ymatebion?

Derbyniwyd cyfanswm o 296 o ymatebion dilys i'r holiadur.

Roedd y rhan fwyaf (91.9%) o'r ymatebwyr yn ateb fel unigolyn, gyda 6.1% yn ateb ar ran sefydliad, grŵp neu fusnes.

	Nifer	Canran
Fel unigolyn	272	91.6
Ar ran sefydliad, grŵp neu fusnes	18	6.1
Dim ateb	6	2.0
Cyfanswm	296	100.0

Nodir isod y sefydliadau a ymatebwyd:

Cyngor cymuned Llanbedr

Dim ateb

Cyngor Tref Caernarfon

NFU Cymru

Bryncroes

Aberdyfi Community Council

Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru

Cyngor Cymuned Llanwnda

Snowdonia Slate Trail Trust

Llanegryn Community Council

Cyngor Cymuned Betws Garmon

Cyngor Cymuned Pistyll

Grŵp cerdded Pen-Y-Groes, Dyffryn Nantlle. 10 o'r gloch bob dydd Iau o'r Ganolfan Hamdden

Eryri Ramblers walks secretary

Fforwm Mynediad Arfon Dwyfor a Fforymau gogledd a de Parc Eryri (yn gyfunol) // Arfon Dwyfor

& Snowdonia Local Access Forums – north and south combined

Rhodwyr Llyn Ramblers representing 140 regular walkers mostly based in Dwyfor

Meirionnydd Ramblers

Cyngor Cymuned Llanengan

## Categoreiddio Llwybrau (adran 2.4)

Er bod beirniadaeth o'r drefn categoreiddio bresennol, yn y tymor byr dyma'r drefn fwyaf ymarferol sy'n caniatáu bod y llwybrau mwyaf poblogaidd mewn cyflwr boddhaol.

Dylid cydnabod nad oes modd rhoi sylw llawn i bob llwybr yng Nghategoriâu 1 a 2\*, a bod diffyg cynnal a chadw ar weddill y rhwydwaith yn arwain at ôl-groniad o waith a chostau os ydynt i'w hadfer i safon dderbyniol.

Bydd arolwg o gyflwr hawliau tramwy Gwynedd yn cael ei gynnal i'w ddefnyddio i sefydlu gwaelodlin y gellir ei ddefnyddio ar gyfer mesur perfformiad, cynorthwyo gyda'r gwaith o ail-gategoreiddio llwybrau ac i flaenoriaethu prosiectau ar gyfer cyllid grant. Bydd hyn yn ymrwymiad hir dymor a ni ellir ei gyflawni'n llawn gyda'r adnoddau staff presennol, ymdrechir i ddefnyddio gwirfoddolwyr neu staff dros dro i gyflymu'r gwaith.

Bwriedir ail asesu categorïau llwybrau a'i diweddarau os oes angen i greu rhwydwaith sy'n adlewyrchu'n well anghenion cymunedau'r Sir. Gwneir y gwaith ar y cyd â Chynghorau Cymuned a Thref gyda mewnbwn y Parc Cenedlaethol, Fforymau Mynediad Lleol a grwpiau defnyddwyr.

\*Llwybrau Categori 1: Llwybrau sy'n hwyluso symudiad pobl. Bydd y rhain fel arfer yn cael defnydd sylweddol neu'n ffurfio cyswllt mewn trefi, pentrefi neu rhwng cyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus, meysydd parcio ac atyniadau hamdden.

Llwybrau Categori 2: Llwybrau poblogaidd a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer pleser gan gynnwys llwybrau o amgylch cymunedau, teithiau cylchol, mynediad at draethau neu lwybrau a hyrwyddir.

### **3.02 Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid parhau gyda'r drefn bresennol o gategoreiddio hawliau tramwy?**

Gweler o'r tabl isod fid 67.9% (N=201) o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid parhau gyda'r drefn bresennol o gategoreiddio hawliau tramwy, tra bod 17.2% (N=51) ddim yn cytuno nac yn anghytuno, ac 12.5% (N=37) yn anghytuno.

	Nifer	Canran
Cytuno'n gryf	9	32.8
Cytuno i raddau	104	35.1
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	51	17.2
Anghytuno i raddau	20	6.8
Anghytuno'n gryf	17	5.7
Dim ateb	7	2.4
Cyfanswm	296	100.0



### 3.03 Nodwch unrhyw sylw pellach yma

Gofynnwyd i'r rhai a nodwyd eu bod yn cytuno'n gryf, cytuno i raddau a ddim yn cytuno nac yn anghytuno nodi unrhyw sylw pellach. O'r 252 ymateb posib, cafwyd sylw pellach gan 70 ymatebydd. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

Thema	Nifer	Canran
Angen pob llwybr i fod yn agored i bawb ( <i>cerddwyr, beicwyr, reidio ceffylau, mynediad i'r anabl</i> ) / Peidio blaenoriaethu	18	25.7
Categoriâu hawdd i'w defnyddio - e.e. lliw (colour-coded categories)	11	15.7
Peidio anwybyddu llwybrau llai poblogaidd	9	12.9
Cytuno gyda'r cynigon	8	11.4
Peidio newid dim	7	10.0
Angen gwella cynnal a chadw'r llwybrau	7	10.0
Posib cyfuno rhai categorïau ar rhai llwybrau	5	7.1
Pryderon fod perchnogion tir yn tynnu arwyddion lawr / atal mynediad	3	4.3
Blaenoriaethu Llwybrau penodol	2	2.9
Gweithredu ar gamddefnydd o'r tramwy	1	1.4
Llwybrau Beicio Mynydd Dynodedig	1	1.4
Cynnwys Slate Trail yng nghategori 1	1	1.4
Blaenoriaethu Llwybrau Pellter Hir	1	1.4
Angen ail-edrych ar ba ffordd mae rhai llwybrau yn mynd (e.e. Datblygiadau diweddar yn agor i rai llwybrau)	1	1.4
Sicrhau fod Sat Navs ddim yn gyrru twristiaid lawr rhai lonydd	1	1.4
Amherthnasol i'r Cwestiwn	7	10.0
<i>Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad. Enwadur = 70</i>		

### 3.04 Oes gennych syniadau ynglŷn â sut gellir blaenoriaethu gwaith ar y rhwydwaith?

Gofynnwyd i'r rhai a nodwyd eu bod yn anghytuno i raddau neu anghytuno'n gryf os oedd ganddynt syniadau ynglŷn â sut gellir blaenoriaethu gwaith ar y rhwydwaith. O'r 37 ymateb posib, cafwyd sylw pellach gan 30 ymatebydd. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

Thema	Nifer	Canran
Cynnal a Chadw pob llwybr (pob categori)	9	30.0
Cadw arolwg manwl a chyson o bob llwybr	4	13.3
Cyflogi mwy o swyddogion / mwy o gyllideb	3	10.0
Dileu rhai llwybrau er mwyn rhoi sylw i eraill	2	6.7
Atal tirfeddianwyr rhag rhwystro mynediad	2	6.7
Gwneud y categorïau llwybr yn fwy clir	2	6.7
Uwchraddio categori rhai llwybrau i by-ways neu bridleways	1	3.3
Blaenoriaethu llwybrau reidio ceffylau	1	3.3
Cynghorau Cymuned i gymryd mwy o berchnogaeth	1	3.3
Blaenoriaethu rhai a defnyddir gan gerbydau / llwybrau cylchol	1	3.3

7

Amherthnasol i'r cwestiwn	4	13.3
<i>Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad. Enwadur = 30</i>		

### 3.05 Sut fydddech yn mynd ati i adolygu a diweddarau'r drefn categoreiddio a pwy ddylid fod yn rhan o'r gwaith yma?

Cafwyd ymateb gan 119 unigolyn. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

Thema	Nifer	Canran
Creu grŵp gyda chyfuniad o rhanddeiliaid / ymgynghoriad lleol ar lwybrau	31	26.1
Defnyddiwr llwybrau / Gwirfoddolwyr lleol / Grwpiau Cerdded	25	21.0
Cynghorau Cymuned	17	14.3
Ymgynghoriad arall ar ddefnydd llwybrau / Adolygu'r categorïau	10	8.4
Arolygon o'r awyr (Aerial surveys) / defnyddio drone / mapio digidol	9	7.6
Cynnwys Tirfeddianwyr	7	5.9
Gwella arwyddion / marcio'r llwybrau	7	5.9
Y Cyngor i beidio anwybyddu pryderon / cwynion am lwybrau / cymryd mwy o berchnogaeth	6	5.0
Cyllid ychwanegol / staff ychwanegol	4	3.4
Cynnal a Chadw pob llwybr	4	3.4
Egluro'r gwahaniaeth rhwng categorïau yn well	3	2.5
Grwpiau Cymunedol	2	1.7
Dim creu mwy o lwybrau	2	1.7
Adolygu'r speed limit ar rai o'r llwybrau	1	0.8
Treth Twristiaid	1	0.8
Dim categoreiddio llwybrau - pob un yn bwysig	1	0.8
Blaenoriaethu teithio / llwybrau cylchol	1	0.8
Blaenoriaethu'r llwybrau gyda'r mwyaf o ddefnydd	1	0.8
Young Offenders i neud gwaith cynnal a chadw	1	0.8
Amherthnasol i'r cwestiwn	9	7.6
<i>Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad. Enwadur = 119</i>		

## Grantiau (adran 2.6)

Mae'r grantiau sydd ar gael i wella'r rhwydwaith llwybrau yn blaenoriaethu'r canlynol:

- Uwchraddio pontydd a strwythurau;
- Gwneud llwybrau yn fwy hygyrch;
- Llwybrau aml ddefnydd;
- Prosiectau sy'n hwyluso mynediad at natur.

### 3.06 Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r blaenoriaethau yma ar gyfer defnyddio cyllid grant?

Gweler fod bron i dri chwarter o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r blaenoriaethau uchod (72.6%, N=215). Nododd 9.1% (N=27) o'r ymatebwyr eu bod yn anghytuno gyda'r blaenoriaethau, tra bod 6.4% (N=19) ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

	Nifer	Canran
Cytuno'n gryf	119	40.2
Cytuno i raddau	96	32.4
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	19	6.4
Anghytuno i raddau	13	4.4
Anghytuno'n gryf	14	4.7
Dim ateb	35	11.8
Cyfanswm	296	100.0

### 3.07 Nodwch unrhyw sylw pellach yma

Nododd 112 o ymatebwyr sylw pellach. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

Thema	Nifer	Canran
Hyrwyddo a chynnal a chadw llwybrau presennol	28	25.0
Llwybrau i reidio ceffylau i gael eu cynnwys	12	10.7
Mynediad i natur / Gwarchod Natur	9	8.0
Mynediad i bawb	9	8.0
Arwyddion gwell	8	7.1
Cyfleusterau / Mynediad i'r anabl	7	6.3
Cyswllt rhwng pentrefi	6	5.4
Gwella pontydd a strwythurau	6	5.4
Eisiau llwybrau cerdded a beicio ar wahân	5	4.5
Defnyddio technoleg / digidol i hyrwyddo'r llwybrau	4	3.6
Cytuno gyda'r argymhellion	3	2.7
Cysidro anghenion y defnyddwyr i gyd	2	1.8
Mwy o finiau ar gael	2	1.8
Cydlynnydd Gwirfoddoli	2	1.8
Ymgynghoriad Cymunedol gyda'r holl rhanddeiliaid	2	1.8

Ddim yn gyfrifoldeb ar y tirfeddianwyr	1	0.9
Ffyrdd Gwyrdd	1	0.9
Gwneud mynediad yn anodd i feiciau modur	1	0.9
Mwy o fapiau ar gael	1	0.9
Mynediad / croesi diogel wrth ysgolion	1	0.9
Amherthnasol i'r cwestiwn	16	14.3
<i>Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad. Enwadur = 112</i>		

### Datrys Anghydfod (adran 2.8)

Ymdrechir i ddatrys anghydfod drwy drafod a negodi gyda pherchnogion tir a budd ddeiliaid. Os nad oes dewis ond i gymryd camau gorfodaeth ffurfiol, blaenoriaethir ymdrech ar lwybrau categori 1 a 2.

### 3.08 Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid blaenoriaethu gorfodaeth ar lwybrau categori 1 a 2?

Gweler o'r tabl isod fod 67.6% (N=200) o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid blaenoriaethu gorfodaeth ar lwybrau categori 1 a 2. Roedd 15.5% (N=46) yn anghytuno ac 14.2% (N=42) ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

	Nifer	Canran
Cytuno'n gryf	115	38.9
Cytuno i raddau	85	28.7
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	42	14.2
Anghytuno i raddau	18	6.1
Anghytuno'n gryf	28	9.5
Dim ateb	8	2.7
Cyfanswm	296	100.0

### 3.09 Nodwch unrhyw sylw pellach yma

Cafwyd sylw ychwanegol gan 79 o'r ymatebwyr. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

Thema	Nifer	Canran
Pob categori llwybr (o fewn cyfyngiadau ariannol)	20	25.3
Pryderon am effaith hyn ar rai Cymunedau	1	1.3
Cytuno gyda'r argymhelliad	8	10.1
Blaenoriaethu amcanion y Cyngor nid tirlfeddianwyr	1	1.3
Gorfodaeth yn cael ei wneud ar lefel lleol yn barod	1	1.3
Datrys y broblem cyn gorfodaeth os bosib	8	10.1
Ystyried yr effaith ar ffermwyr / tirlfeddianwyr	9	11.4
Cyfrifoldeb statudol y Cyngor i ddelio gyda phob llwybr dim rhai categorïau yn unig	3	3.8
Tirlfeddianwyr (a phobl eraill) yn gwybod does dim cosb os nad yw'r llwybr yng nghategori 1 neu 2	8	10.1
Tirlfeddianwyr sy'n troseddu yn aml	13	16.5
Angen parchu barn y tirlfeddianwyr	1	1.3
Bridleways yn bwysig hefyd	5	6.3
Mynediad i'r cyhoedd sydd bwysicaf dim categori llwybr	12	15.2
Sicrhau gorfodaeth yn bwysig	3	3.8
Cynnig mai cyfrifoldeb Cyngorau Cymuned yw Gorfodaeth	1	1.3
Angen gwella arwyddion	1	1.3
Dim barn / Amherthnasol i'r cwestiwn	7	8.9

*Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad. Enwadur = 79*

## Gwneud Defnydd o Dechnoleg (adran 2.11)

Mae'n angenrheidiol bod y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn gwneud defnydd o dechnoleg sy'n caniatáu i swyddogion i weithio'n effeithiol ac i ymateb yn effeithlon i gwynion gan y cyhoedd. Bydd systemau presennol gan gynnwys y wefan yn cael eu hadolygu a'u ddiweddarau.

### 3.10 Ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r bwriad i annog y cyhoedd i wneud rhagor o ddefnydd o wefan Cyngor Gwynedd ar gyfer cysylltu ar faterion mynediad?

Roedd 80.7% (N=239) o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r bwriad i annog y cyhoedd i wneud rhagor o ddefnydd o wefan Cyngor Gwynedd ar gyfer cysylltu ar faterion mynediad. Roedd 5.4% (N=16) yn anghytuno gyda 11.5% (N=34) ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

	Nifer	Canran
Cytuno'n gryf	150	50.7
Cytuno i raddau	89	30.1
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	34	11.5
Anghytuno i raddau	12	4.1
Anghytuno'n gryf	4	1.4
Dim ateb	7	2.4
Cyfanswm	296	100.0

### 3.11 Nodwch unrhyw sylw pellach yma

Cafwyd sylw ychwanegol gan 116 o ymatebwyr. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

Thema	Nifer	Canran
Cytuno gyda'r argymhelliad	30	25.9
Pryderon gallu rhai i ddefnyddio'r we / technoleg (pryderon am yr henoed)	24	20.7
Angen ffurf oddi ar y we i adrodd materion hefyd (e.e. Ffon neu wyneb i wyneb)	21	18.1
Systemau ar y we yn gwneud hi'n anodd siarad gyda / cael ymateb gan swyddogion y Cyngor	16	13.8
Taflenni ar y we yn dangos y llwybrau	11	9.5
Angen bod yn hawdd i'w ddefnyddio	11	9.5
Angen sicrhau fod y Cyngor yn ymateb i bob un	9	7.8
Porth cofnodi materion ar-lein	8	6.9
Angen cadw manylion ar y we yn hygyrch	6	5.2
Angen pwynt cyswllt i'r cyhoedd	3	2.6
Defnyddio drone i wneud arolygon o'r llwybrau	2	1.7
Y broblem fwyaf yw sicrhau fod y gwaith yn cael ei wneud ar y llwybrau	2	1.7
Cynnwys Cyngorau Cymuned	1	0.9
Pryderon y bydd y Cyngor yn cael llawer mwy o sylwadau diangen	1	0.9

Anghytuno gyda'r argymhelliad	1	0.9
Y gallu i uwchlwytho lluniau a fideos o'r llwybrau yn ddefnyddiol	1	0.9
Defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn well	1	0.9
Defnyddio apps fel Strava i weld pa lwybrau sy'n boblogaidd	1	0.9
Amherthnasol i'r cwestiwn	4	3.4
<i>Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad. Enwadur = 116</i>		

## Cryfhau Cysylltiadau gyda Mudiadau ac Unigolion (adran 2.12.5)

Bydd y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn adnabod cyfleoedd i ymestyn a chryfhau cysylltiadau gyda mudiadau ac unigolion sy'n awyddus i wirfoddoli ac yn ceisio cyllid er mwyn cefnogi'r gwaith a wneir ganddynt.

### 3.12 Sut gall y Gwasanaeth Cefn Gwlad annog rhagor o wirfoddolwyr i gyfrannu tuag at y gwaith o gynnal hawliau tramwy?

Cafwyd sylw gan 174 o'r ymatebwyr. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

Thema	Niferr	Canran
Hysbysebu'r cyfleoedd i wirfoddoli	49	28.2
Cysylltu efo grwpiau addas (e.e. Grwpiau Cerdded, Cyngor Cymuned)	40	23.0
Defnyddio cyfryngau cymdeithasol	36	20.7
Hysbysebu'r cyfleoedd mewn papurau lleol / leaflets ayyb	16	9.2
Sicrhau fod buddiannau i'r gwirfoddolwyr	15	8.6
Ymgysylltu ag ysgolion / clybiau ieuenctid	14	8.0
Dal angen swyddogion i reoli gwirfoddolwyr	13	7.5
Angen ei reoli ar lefel lleol, cymunedau i gymryd perchnogaeth	12	6.9
Marchnata'r gwaith sydd eisoes wedi ei wneud / gwybodaeth am beth sydd angen ei wneud	10	5.7
Rhoi'r cyfarpar sydd eu hangen i wirfoddolwyr wneud y gwaith	9	5.2
Anghytuno gyda defnyddio gwirfoddolwyr	8	4.6
Meithrin cysylltiadau gydag amaeth	8	4.6
Rhaid i'r gwirfoddolwyr fod yn gymwysedig	8	4.6
Ystod eang o amseroedd gwahanol i wirfoddoli	5	2.9
Diwrnod agored i wirfoddolwyr	2	1.1
Cynnal hyfforddiant am ddim	1	0.6
Bod yn gynhwysol	1	0.6
Anodd defnyddio gwirfoddolwyr oherwydd materion yswiriant ayyb	1	0.6
Treialu defnyddio gwirfoddolwyr ar rhai llwybrau	1	0.6
Community Service	1	0.6
Busnesau sy'n elwa o'r llwybrau i gyfrannu	1	0.6
Gwirfoddolwyr angen sicrhau fod y gwaith cynnal a chadw am barhau am amser	1	0.6
Sicrhau fod trawstoriad o bob math o ddefnyddwyr o'r llwybrau	1	0.6
Amherthnasol i'r cwestiwn	8	4.6

*Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad. Enwadur = 174*



### 3.13 A ydych yn aelod o fudiad sy'n awyddus i gyd-weithio gyda Gwasanaeth Cefn Gwlad y Cyngor?

Roedd 17.6% (N=52) o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn aelod o fudiad sy'n awyddus i gyd-weithio gyda Gwasanaeth Cefn Gwlad y Cyngor.

	Nifer	Canran
Ydw	52	17.6
Nac ydw / ddim yn berthnasol	231	78.0
Dim ateb	13	4.4
Cyfanswm	296	100.0

## Llwybrau Aml-ddefnydd (adran 4.6)

Bydd y Cyngor yn ffafrio gwelliannau i'r rhwydwaith sy'n cynnig darpariaeth aml-ddefnydd.\*

\*Llwybrau aml-ddefnydd: Llwybrau i gerddwyr, beicwyr, marchogwyr sydd hefyd yn diwallu gofynion gyda phroblemau symudedd.

### 3.14 Ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid blaenoriaethu darparu llwybrau aml-ddefnydd ychwanegol?

Nododd y 69.6% (N=206) eu bod yn cytuno y dylid blaenoriaethu darparu llwybrau aml-ddefnydd ychwanegol. Roedd 19.3% (N=57) yn anghytuno, tra roedd 7.8% (N=23) ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

	Nifer	Canran
Cytuno'n gryf	140	47.3
Cytuno i raddau	66	22.3
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	23	7.8
Anghytuno i raddau	33	11.1
Anghytuno'n gryf	24	8.1
Dim ateb	10	3.4
Cyfanswm	296	100.0

### 3.15 Nodwch unrhyw sylw pellach yma

Cafwyd sylw pellach gan 135 o'r ymatebwyr. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

Thema	Nifer	Canran
Angen bod yn gynhwysol / hygyrch i bobl anabl a phroblemau symudedd	17	12.6
Diogelwch rhai sy'n defnyddio'r llwybrau	14	10.4
Pwysig ar gyfer rhai grwpiau ee marchogwyr, beicwyr, plant	14	10.4
Cynnal a chadw	11	8.1
Edrych ar bob llwybr ar wahân / Dibynnu ar y llwybr / Ddim bob tro yn addas	9	6.7
Cost / Cyllid	8	5.9
Rhwydwaith cysylltu pentrefi / teithio llesol	7	5.2
Angen rhai llwybrau cerddwyr yn unig / Llwybrau ar wahanol i feicwyr / Rhwydwaith i feicwyr	7	5.2
Anghytuno gyda llwybrau aml ddefnydd / Risg fod y llwybrau ddim yn addas i neb / Problemau gyda'r math yma o lwybrau	6	4.4
Angen cadw natur y llwybrau	6	4.4
Bob llwybr i fod yn llwybr aml-ddefnydd / Cytuno gyda hyn	5	3.7
Anodd /Ymdrech mawr i wneud hyn / Rhwystrau i newid llwybrau presennol i fod yn aml-ddefnydd	4	3.0
Angen parchu eraill / Hybu hyn	4	3.0
Risg i'r amgylchedd naturiol	3	2.2
Hybu mynd allan / teithio llesol	2	1.5

Effeithiau negyddol i dirfeddianwyr	2	1.5
Anghenion beicwyr / mountain bikers	2	1.5
Llwybrau aml-ddefnydd yn gallu bod yn anodd ei defnyddio ee i feicwyr neu yn brysur	2	1.5
Angen gwahanu beicwyr a cherddwyr ar y llwybrau ee 'separate lanes'	2	1.5
Codi sylw o'r llwybrau / hyrwyddo	1	0.7
Cynnal arolwg o ddefnydd presennol y llwybrau	1	0.7
Arall	19	14.1
<i>Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad. Enwadur = 135</i>		

## Defnydd o'r Rhwydwaith Lonydd Glas gan Farchogwyr (adran 4.6)

### 3.16 A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid caniatáu marchogaeth ar y rhwydwaith Lonydd Glas gyfan?

Roedd 54.4% (N=161) o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid caniatáu marchogaeth ar y rhwydwaith Lonydd Glas gyfan. Roedd 18.9% (N=56) yn anghytuno tra roedd 23.0% (N=68) ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

	Nifer	Canran
Cytuno'n gryf	99	33.4
Cytuno i raddau	62	20.9
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	68	23.0
Anghytuno i raddau	24	8.1
Anghytuno'n gryf	32	10.8
Dim ateb	11	3.7
Cyfanswm	296	100.0

### 3.17 Nodwch unrhyw sylw pellach ynghylch hyn

Cafwyd sylw pellach gan 92 o'r ymatebwyr. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

Thema	Nifer	Canran
Cynnwys marchogaeth yn gymwysedig / yn gam positif / syniad da	22	23.4
Gall marchogaeth fod yn beryglus / anghyfforddus / ddim yn addas i eraill (ee cerddwyr, pobl anabl, beics)	18	19.1
Dim ychwanegol	18	19.1
Gall farchogaeth achosi tyllau ac ati i'r lonydd, gall farchogaeth arwain at fwy o waith cynnal a chadw	7	7.4
Diogelwch - Mae'n saff i farchogwyr rannu'r llwybrau / marchogwyr angen lle saff i fynd	6	6.4
Diffyg Parch / Rheolau neu côd ymddygiad ei angen ar gyfer defnyddwyr	6	6.4
Baw ceffylau yn broblem	5	5.3
Llwybrau angen bod yn addas	5	5.3
Arwyddion eu hangen	5	5.3
Unintended negative consequence ee agor ffyrdd i feiciau modur, affecting landscape when expanding paths	4	4.3
Llwybrau prysur	3	3.2
Syniadau am lwybrau addas ee traciau rheilffordd segur	2	2.1
Gwariant a Chyllid	2	2.1
Gall gynyddu defnydd y lonydd	1	1.1
Gall anghenion helpu eraill hefyd	1	1.1
Peth 'restrictions' ee amser	1	1.1

Angen Ymgynghoriad	1	1.1
Amherthnasol	1	1.1
<i>Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad. Enwadur = 94</i>		

## Sylwadau Pellach

### 3.18 Oes yna unrhyw faes gwaith sydd heb ei gyffwrdd yn ddigonol neu ddim o gwbl yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Drafft hoffwch weld yn cael ei gynnwys?

Cafwyd ymateb gan 124 o'r ymatebwyr. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

Thema	Nifer	Canran
Cynnal a Chadw	21	16.9
Dim	13	10.5
Marchogion	10	8.1
Byrddau Gwybodaeth ac Arwyddion	10	8.1
Hygyrchedd i'r rhai sydd â phroblemau symudedd neu anabledd	9	7.3
Sbwriel, gwastraff cŵn, ymddygiad anghymdeithasol, effaith amgylcheddol	8	6.5
Mewnbwn lleol / Gwirfoddoli	7	5.6
Rhwystrau gan berchnogion tai a thir / Angen sicrhau mynediad parhaus i lwybrau cofrestredig	6	4.8
Cyllid	6	4.8
Ail gategorïo llwybrau / Edrych ar ffyrdd di-gategori	6	4.8
Hawliau tramwy / hawliau cerddwyr / beicwyr / beicwyr modur	5	4.0
Amserlenni / cynllun yn amwys / targedau	5	4.0
Cywirdeb Mapiau	5	4.0
Marchnata / Hyrwyddo	3	2.4
Llwybrau aml-ddefnyddiwr	3	2.4
Addysgu	3	2.4
Llwybrau beics	3	2.4
Ailagor / Cynyddu nifer / Uwchraddio llwybrau	3	2.4
Llwybrau rhwng pentrefi	2	1.6
Parcio	2	1.6
Diogelwch	2	1.6
Adran cerbydau modur yn wan	1	0.8
Perchnogaeth	1	0.8
Dog friendly'	1	0.8
Amherthnasol	6	4.8

*Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad. Enwadur = 124*

### 3.19 Oes yna unrhyw faterion yn cael eu cynnig gennym rydych yn teimlo fyddai yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg mewn unrhyw ffordd, ac yn benodol felly yn gallu effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio y Gymraeg neu a fyddai yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Cafwyd ymateb gan 80 o'r ymatebwyr. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

Thema	Nife r	Canra n
Na	34	42.5
Cadw / hybu / addysgu am enwau Cymraeg llefydd / Cymraeg gyntaf	14	17.5
Arwyddion ayyb dwyieithog	13	16.3
Hybu hanes ardaloedd ee drwy Son am hanes llefydd ar arwyddion ac ati	4	5.0
Saesneg yn cael ei drin yn llai ffafriol / Bias tuag at y Gymraeg	3	3.8
Llwybrau cysylltu cymunedau	2	2.5
Angen bod yn gynwysedig	2	2.5
Lleoliad yn ysbrydoli pobl i ddysgu am y diwylliant	1	1.3
Llwybrau hanesyddol yn rhan bwysig o gymunedau	1	1.3
Annog gwirfoddolwyr a phobl sy'n symud i ardal ddod at ei gilydd a helpu dysgu Cymraeg	1	1.3
Defnyddio pres i ddatblygu'r iaith ee mountain leaders etc dwyieithog	1	1.3
Defnyddio arwyddion i ddysgu Cymraeg	1	1.3
Gofal wrth gyfieithu	1	1.3
Arall	5	6.3
<i>Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad. Enwadur = 80</i>		

### 3.20 Unrhyw sylwadau eraill?

Cafwyd ymateb gan 46 o'r ymatebwyr. Dengys y tabl isod y themâu a gododd o'r ymatebion.

Thema	Nife r	Canra n
Cyllid ac Adnoddau	6	13.0
Twristiaeth	5	10.9
Diolch / cefnogaeth	5	10.9
Iechyd / Teithio llesol	5	10.9
Nodi problemau gyda'r ddogfen , ei gywirdeb ac elfennau sydd heb gael eu cynnwys	4	8.7
Diogelwch	4	8.7
Cydweithio gyda grwpiau lleol / rhanddeiliaid / cynghorau cymuned	4	8.7
Manteision a phwysigrwydd llwybrau	4	8.7
Perchnogion tai / tir yn rhwystro pobl rhag defnyddio'r llwybrau	3	6.5
Angen rhwydwaith / Syniadau am rwydwaith / anghenion ychwanegol llwybrau	3	6.5
Angen bod yn gynwysedig i anghenion oll gan gynnwys beicwyr, defnyddwyr cadair olwyn, ceffylau	2	4.3

Marchogaeth	2	4.3
Adolygu llwybrau sydd ddim ar gael	2	4.3
Effaith negyddol ehangu llwybrau presennol	1	2.2
Toiledau ar gael	1	2.2
Effaith peidio gallu defnyddio llwybrau presennol	1	2.2
Beiciau modur yn defnyddio'r llwybrau	1	2.2
Fandaliaeth	1	2.2
Angen map i ddangos llwybrau	1	2.2
Amherthnasol / Arall	2	4.3
Dim sylwadau eraill	5	10.9
<i>Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod mwy nag un thema yn codi fesul sylwad. Enwadur = 46</i>		



## **Paratowyd yr adroddiad yma gan**

### **Tîm Ymchwil a Dadansoddeg**

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol  
Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

E-bost: [ymchwil@gwynedd.llyw.cymru](mailto:ymchwil@gwynedd.llyw.cymru)

Ffôn: 01286 679619

[www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil](http://www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil)

23

**Atodiad 3 : Ymatebion yr holiadur.**

Testun	Adran a Datganiad Gweithred	Crynodeb	Argymhelliad
Categorioidio	Adran 2.4  Datganiad Gweithredu 1a , 1b , 1c	<p>Mae trefn Categorioidio hawliau Tramwy wedi ei fabwysiadu ers dros 20 mlynedd ar gyfer blaenoriaethu adnoddau ac amser staff. Beirniadir y drefn gan ei fod yn arwain i ddirywiad yng nghyflwr llwybrau mewn categorïau is ac ar ôl 20 mlynedd mae'n amlwg nad yw'r categorïau gwreiddio bellach yn cyfleu eu defnydd a'i gwerth i gymunedau.</p> <p>Mae'r ymateb yn dangos fod 68% o'r ymatebwyr yn cytuno dylid cadw'r drefn categorioidio.</p>	<p>Cadw Datganiad(au) Gweithredu 1a, 1b ac 1c fel y maent.</p> <p>Bydd angen gwaith pellach i asesu cyflwr y rhwydwaith (1.b) ac i adnabod dulliau o ddiweddarau ac ail-gategorioidio ac i'r perwyl yma edrychir ar yr awgrymau sydd wedi eu cynnig gan ymatebwyr.</p>
Grantiau	Adran 2.6  Datganiad Gweithredu 2b	<p>Mae'r Gwasanaeth yn fwyfwy dibynnol a'r grantiau o wahanol ffynonellau i wneud gwelliannau i isadeiledd hawliau tramwy.</p> <p>Gofynnwyd am farn ynglŷn â'r blaenoriaethu canlynol :</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Uwchraddio pontydd a strwythurau;</li> <li>• Gwneud llwybrau yn fwy hygyrch;</li> <li>• Llwybrau aml ddefnydd;</li> <li>• Prosiectau sy'n hwyluso mynediad at natur.</li> </ul> <p>Roedd yr ymateb yn dangos bod 72% yn cytuno a'r blaenoriaethau.</p>	Cadw Datganiad Gweithredu 2b fel y mae.

Datrys Anghydfod a Gorfodaeth	Adran 2.8  Datganiad Gweithredu 4b	Ymdrechir i ddatrys anghydfod drwy drafod a negodi gyda pherchnogion tir a budd ddeiliaid. Os nad oes dewis ond i gymryd camau gorfodaeth ffurfiol, blaenoriaethir ymdrech ar lwybrau categori 1 a 2.  Roedd yr ymateb yn dangos fod 67% yn cytuno dylid blaenoriaethu ymdrech ar lwybrau categori 1 a 2.	Argymhellir cadw Datganiad Gweithredu 4b fel y mae.
Gwneud defnydd o Dechnoleg	Adran 2.11  Datganiad Gweithredu 6	Mae'n angenrheidiol bod y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn gwneud defnydd o dechnoleg sy'n caniatáu i swyddogion i weithio'n effeithiol ac i ymateb yn effeithlon i gwynion gan y cyhoedd. Bydd systemau presennol gan gynnwys y wefan yn cael eu hadolygu a'u ddiweddarau.  Roedd 80.6% o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r bwriad i annog y cyhoedd i wneud rhagor o ddefnydd o wefan Cyngor Gwynedd ar gyfer cysylltu ar faterion mynediad.	Argymhellir cadw Datganiad Gweithredu 6 fel y mae
Cryfhau Cysylltiadau gyda Mudiadau ac unigolion	Adran 2.13  Datganiad Gweithredu 9	Bydd y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn adnabod cyfleoedd i ymestyn a chryfhau cysylltiadau gyda mudiadau ac unigolion sy'n awyddus i wirfoddoli ac yn ceisio cyllid er mwyn cefnogi'r gwaith a wneir ganddynt.  Roedd 17.7% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn aelod o fudiad sy'n awyddus i gyd-weithio gyda Gwasanaeth Cefn Gwlad y Cyngor. Roedd 78% wedi dweud nad oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt.	Argymhellir cadw Datganiad Gweithredu 9 fel y mae.

Llwybrau aml-ddefnydd	Adran 4.6  Datganiad Gweithredu 14a	Bydd y Cyngor yn ffafrio gwelliannau i'r rhwydwaith sy'n cynnig darpariaeth aml-ddefnydd.*  *Llwybrau aml-ddefnydd: Llwybrau i gerddwyr, beicwyr, marchogwyr sydd hefyd yn diwallu gofynion unigolion gyda phroblemau symudedd. Nododd y 69.4% eu bod yn cytuno y dylid blaenoriaethu darparu llwybrau aml-ddefnydd ychwanegol. Roedd 19.4% yn anghytuno'n gryf, tra roedd 7.8% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.	Argymhellir cadw Datganiad Gweithredu 14a fel y mae
Defnydd o'r rhwydwaith Lonydd Glas gan farchogwyr	Adran 4.6  Datganiad Gweithredu 14b	Mae'r rhwydwaith Lonydd Glas yn adnodd poblogaidd dros ben, caniateir defnydd gan gerddwyr a beicwyr ar y rhwydwaith cyfan a gall marchogwyr defnyddio rhai rhannau.  Er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y rhwydwaith cynigwyd dylid caniatáu marchogwyr i ddefnyddio'r rhwydwaith cyfan oni bai fod rhesymau diogelwch cadarn yn bodoli.  Roedd 54.4% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid caniatáu marchogaeth ar y rhwydwaith Lonydd Glas cyfan. Roedd 18.7% yn anghytuno tra roedd 23.1% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.	Argymhellir cadw Datganiad Gweithredu 14b fel y mae ond bydd angen rhagor o waith i asesu risgiau.

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu [DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru](mailto:DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru), am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## I) Manylion

### I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT)

### I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Pwrpas y CGHT yw roi arweiniad lefel uchel i waith yr Awdurdod ym maes mynediad i gefn gwlad ac yn benodol sut fydd y rhwydwaith hawliau tramwy yn cael ei gynnal a'i wella yn ffisegol. Mae'r CGHT hefyd yn ymdrin a'r dyletswydd statudol sydd gan yr Awdurdod i gynnal a diweddarau y map a'r datganiad swyddogol. Bydd y CGHT newydd yn ddilyniant / adolygiad o'r CGHT gwreiddiol a fabwysiadwyd yn 2007. Oni bai gwelir newid mewn deddfwriaeth bydd y CGHT yn weithredol hyd at 2028 /29.

Nid yw'r CGHT newydd yn gwyrto llawer o'r cynllun gwreiddiol ond yn ymdrin â newidiadau mewn adnoddau a dyfodiad deddfwriaethau sydd wedi dod i rym ers 2007, er enghraifft Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r CGHT yn cyflwyno cyfres o Ddatganiadau Gweithredu yn hytrach na rhaglenni gwaith manwl. Un o'r Datganiadau Gweithredu fydd yn cael blaenoriaeth yw'r gwaith o ddiweddarau dogfen "Polisiâu Hawliau Tramwy" fydd yn mynd i fwy o fanylder ynglŷn â phrosesau gwaith.

### **1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?**

Wyn Williams – Rheolwr Gwasanaeth Cefn Gwlad

### **1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?**

Fersiwn 1 – Hydref / Tachwedd 2022

## **2) Gweithredu**

### **2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

Mae hawliau tramwy a llwybrau eraill ar gael i bawb yng Ngwynedd yn ogystal ag ymwelwyr i'r ardal.

Mae'r gwaith dydd i ddydd o reoli'r rhwydweithiau mynediad eisoes yn cael ei wneud efo mewnbwn a chydweithrediad nifer o fudd-ddeiliaid a phartneriaid o fewn y sector gyhoeddus (Cynghorau Cymuned, PCE, Cyfoeth Naturiol Cymru), mudiadau gwirfoddol a chynrychiolwyr defnyddwyr (Cymdeithas y Cerddwyr, Cymdeithas Ceffylau Prydain, Sustrans,, Fforymau Mynediad).

Mae'r uchod ac eraill wedi cael cyfle i gyfranu at baratoi y CGHT.

### **2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Cynhaliwyd yr ymgynghoriadau canlynol :

- Holi barn am hawliau tramwy 2017 - 1,386 ymateb dilys. Gofynnwyd cwestiynau penodol am y ddarpariaeth ar gyfer pobl gyda phroblemau symudedd.
- Ymgynghoriad cyhoeddus 2022 ar Ddrafft y CGHT - derbyniwyd sylwadau mewn perthynas â'r ddarpariaeth i bobl a phroblemau symudedd
- Sawl ymgynghoriad a'r Fforymau Mynediad sy'n cynnwys aelodau sydd â nodweddion gwarchoddedig.
- Mae ymgysylltu ar y Cynllun Adfywio – Ardal Ni yn dangos bod sawl cymuned yn dymuno blaenoriaethu gwelliannau llwybrau.

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Mae prif negeseuon o'r ymgysylltu wedi eu hymgorffori yn y CGHT

### 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae ymatebion i'r ymgysylltu ynghyd a natur ymholiadau a chwynion i'r Gwasanaeth Cefn Gwlad yn adlewyrchu'r angen am ddarpariaeth llwybrau aml ddefnydd a gwella hygyrchedd llwybrau yn gyffredinol.

### 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Mae diffyg gwybodaeth ynglŷn â chyflwr y mwyafrif o'r rhwydweithiau yn rhwystr i ddatblygu rhaglenni gwaith cynhwysfawr.

## 3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
------------	-----------------------	---------------------------------------

<b>Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)</b>	Dim	Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud a'r nodwedd yma ond mae peth tystiolaeth nad yw rhai cymunedau o leiafrifoedd ethnig yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd mynediad i gefn gwlad. Bydd angen gweithio gyda'n partneriaid er mwyn adnabod camau positif gellir eu cymryd ar y cyd.
<b>Anabledd</b>	Positif	Pwysleisir yr angen i sicrhau bod yr isadeiledd yn addas a diogel i bawb gan gynnwys pobl gyda gwahanol broblemau symudedd.  Mewn ymateb blaenoriaethir y camau canlynol : <ul style="list-style-type: none"> <li>• Parhau i weithredu'r dull gweithio lleiaf rhwystrol - newid camfa am giât, ac os yn bosibl cael gwared â'r giât.</li> <li>• Gwaredu rhwystrau diangen a thyfiant.</li> <li>• Lledu llwybrau lle'n bosibl.</li> <li>• Sicrhau bod pontydd a strwythurau sy'n cynnal llwybrau o leiaf 1.2m o led.</li> <li>• Blaenoriaethu gwelliannau i lwybrau poblogaidd yn agos at gymunedau.</li> <li>• Darparu gwybodaeth ynglŷn â lleoliad llwybrau "mynediad i bawb".</li> </ul> Bydd y ddogfen Polisiâu Hawliau Tramwy'n yn cael ei diwygio yn ystod 22/ 23 ac yn manylu ar y camau gellir eu cymryd i weithredu'r uchod.
<b>Rhyw</b>	dim	Nid oes unrhyw gynlluniau unigol a'r nodwedd yma.
<b>Oedran</b>	Positif	Bydd sicrhau bod llwybrau yn fwy hygyrch i bawb yn hwyluso pobl hŷn i gadw'n heini a parhau i fwynhau yr awyr agored a natur.
<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>	dim	Nid oes unrhyw gynlluniau unigol a'r nodwedd yma.
<b>Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)</b>	dim	Nid oes unrhyw gynlluniau unigol a'r nodwedd yma
<b>Ailbennu rhywedd</b>	dim	Nid oes unrhyw gynlluniau unigol a'r nodwedd yma.
<b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b>	Positif	Bydd sicrhau bod llwybrau yn fwy hygyrch i bawb yn hwyluso merched beichiog a rai a phlant bychan i fwynhau'r awyr agored.



<b>Priodas a phartneriaeth sifil</b>	dim	Nid oes unrhyw gynlluniau unigol a'r nodwedd yma
<b>Yr iaith Gymraeg</b>	Positif	Bydd deunydd dehongli a gwybodaeth am hawliau tramwy a chyfleoedd mynediad yn cael ei baratoi a'r gyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn unol â pholisi iaith y Cyngor.
<b>Anfantais Economaidd-Gymdeithasol</b>	Positif	Mae darpariaeth llwybrau hygyrch a diogel yn fanteisiol i gymunedau sydd dan anfantais Economaidd -Gymdeithasol. Bydd yn haws teithio ar droed neu feic, gwella cysylltiad i hybiau cymunedol a thrafnidiaeth gyhoeddus.  Roi cyfle i pawb i fanteisio ar fynediad i'r awyr agored er lles eu iechyd corfforol a meddwl.

\* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

<b>Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb</b>	<b>A yw'n cael effaith?*</b>	<b>Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?</b>
<b>Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth</b>	Ydi	Bydd y CGHT yn cael effaith positif ar y dyletswyddau.
<b>Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal</b>	Ydi	Bydd gweithredu'r CGHT yn darparu adnodd fydd ar gael i bawb ac yn cyfrannu ar hyrwyddo cyfleoedd cyfartal.
<b>Meithrin perthnasau da</b>	Ydi	Bydd gweithredu'r CGHT yn gyfle i gryfhau ac ymestyn cydweithio a cysylltiadau.

\* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Bydd arwyddion a deunyddiau gwybodaeth yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf yn unol a pholisi iaith y Cyngor.

Mae gwirfoddolwyr yn cyfrannu at y gwaith o gynnal hawliau tramwy, sicrheir bod cyfle i rai sy'n dysgu Cymraeg cael cyfle i ymarfer eu sgiliau iaith mewn amgylchedd anffurfiol.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Rhaid sicrhau bod asiantaethau eraill a'r sector fusnes sy'n hyrwyddo teithiau cerdded yn roi sylw cyfartal i'r iaith Gymraeg.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Dim sylw pellach

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

Manteisir ar gyfleoedd i gydweithio o fewn a thu allan i'r Cyngor i sicrhau bod cynlluniau Adfywio yn ystyried yn llawn anghenion defnyddwyr hawliau tramwy sydd ag anabledau.

#### 4) Dadansoddi'r canlyniadau

##### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Bydd y CGHT yn cael effaith bositif er nad oes dim effaith wedi ei adnabod mewn perthynas ar yr holl nodweddion cydraddoldeb.  
Bydd yr asesiad effaith cydraddoldeb yn cael ei ddiweddarau fel rhan o'r gwaith o ddiweddarau'r Polisiâu Hawliau Tramwy.

##### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nid oes effeithiau negyddol wedi eu hadnabod.

##### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	<b>X</b>
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	

##### 4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Nid yw'n berthnasol

##### 4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Nid yw'n berthnasol

## **5) Monitro**

### **5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Bydd effeithiolrwydd y Datganiadau Gweithredu unigol yn cael eu monitro dros oes y CGHT ac adroddir ar gynnydd i Bwyllgora'r Cyngor ac i fudd-ddeiliad allweddol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a Fforymau Mynediad Lleol.

# Eitem 8

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



**Dyddiad y cyfarfod:** 22 Tachwedd, 2022  
**Aelod Cabinet:** Y Cyngorydd Craig ab Iago  
**Swyddog Cyswllt:** David Mark Lewis, Rheolwr Ynni a Gwasanaethau Masnachol  
**Teitl yr Eitem:** Cynllun Paneli PV cynhyrchu trydan – Gwedd 4

### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

---

#### Y penderfyniad a geisir

- I. Fod y Cyngor yn bwrw 'mlaen i fuddsoddi £2.8m yn y pedwerydd wedd o'r cynllun paneli PV cynhyrchu trydan gan arwain at arbediad refeniw blynyddol o £507,725.
- II. Ariannu'r buddsoddiad cyfalaf o gronfeydd y Cyngor gan arwain at arbedion refeniw parhaol yn syth fel cyfraniad i'n cynllun arbedion / toriadau.

---

#### 1. Cyflwyniad

- 1.1. Ffurfiodd Cyngor Gwynedd bartneriaeth gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon yn 2009, ac o ganlyniad mae dau gynllun Rheoli Carbon wedi eu cymeradwyo.
- 1.2. Roedd y Cynlluniau Rheoli Carbon (CRHC) yn gynlluniau strategol cynhwysfawr oedd yn amlinellu:
  - Perfformiad carbon Cyngor Gwynedd yn y flwyddyn waelodlin o 2005/6
  - Adnabod cyfleoedd gwella a lleihau carbon
  - Darparu argymhellion i wella a lleihau carbon
  - Gosod targedau lleihau carbon
- 1.3. Yn 2005/6 roedd yr allyriadau carbon o adeiladau, goleuadau stryd, gwastraff, trafndiaeth fflyd a busnes yn 31,155tCO<sub>2</sub>.
- 1.4. Ymrwymodd y cyngor i leihau allyriadau carbon o 40% erbyn 2021 o'i gymharu gyda data'r flwyddyn gwaelodlin.
- 1.5. Roedd y cynllun yn cynnwys nifer o brosiectau gan gynnwys inswleiddio, uwchraddio bwyleri a goleuadau mewn adeiladau, uwchraddio rheolyddion

gwresogi, newid goleuadau stryd i lampau LED, defnyddio cerbydau mwy effeithlon lleihau ein gwastraff i dirlenwi.

- 1.6. Mae tabl 1 isod yn dangos bod y Cyngor wedi rhagori ar ei uchelgais yn gynharach na'r disgwyl.

Tabl 1

	Goleuadau Stryd	Fflyd	Teithio Busnes	Gwastraff	Adeiladau a PV	Cyfanswm Allyriadau
<b>% newid o'r waelodlin - 2020</b>	-80.3	-35.7	-58.0	-55.5	-59.9	-58.3

## **2. Cam nesaf yn y maes adeiladau**

- 2.1. Wedi i'r Cyngor ddatgan Argyfwng Hinsawdd a gosod targed o Sero-Net erbyn 2030, penodwyd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (WGES) i asesu'r cyfleoedd pellach yn y maes adeiladau.
- 2.2. Cynhaliwyd adolygiad pen desg o'r arferion rheoli ynni presennol ynghyd â dadansoddiad meintiol o effeithlonrwydd yr adeiladau hynny a ddefnyddir gan Gyngor Gwynedd. Nodwyd cyfleoedd arbed ynni penodol.
- 2.3. Un o'r prif brosiectau sydd wedi ei adnabod yw ehangu PV ymhellach sef ychwanegu i'r Paneli Solar cynhyrchu trydan sydd eisoes wedi eu gosod.
- 2.4. Paneli PV yw paneli a osodir ar do adeilad sy'n trosi ynni'r haul yn drydan i'w ddefnyddio yn yr adeilad. Golyga hyn nad oes angen prynu cymaint o drydan o'r grid cenedlaethol ac felly mae'r gost hwnnw yn cael ei arbed.
- 2.5. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo tair gwedd o baneli PV yn ystod cyfnod y ddau gynllun CRHC ac maent wedi bod yn llwyddiant fel a ddangosir yn nhabl 2. Mae'r tabl yn cymharu yr amcanion gwreiddiol o safbwynt costau cyfalaf, arbedion referniw ac arbedion carbon (mewn tunelli) yn erbyn y ffigyrau terfynol.

Tabl 2

	<b>Amcan Gost</b>	<b>Amcan Arbedion</b>	<b>Amcan tCO2</b>	<b>Gwir Gost</b>	<b>Gwir arbedion</b>	<b>Gwir tCO2</b>
Gwedd 1	£ 490,728	£ 43,770	50t	£ 289,260	£ 27,782	62
Gwedd 2	£ 537,080	£ 55,404	111t	£ 502,812	£ 67,607	124
Gwedd 3	£ 68,329	£ 10,064	29t	£ 63,979	£ 12,279	32
Cyfanswm				856,051	107,668	

Cyfartaledd ad-dalu - 8 mlynedd

- 2.6. Yn ogystal ag arbed talu am drydan o'r grid, ar un adeg roedd Llywodraeth ganolog yn rhoi taliad am bob uned o drydan a gynhyrchir o'r paneli hyn. Gelwir y taliadau hyn yn "Feed in Tariff (FIT)". Roedd y taliad grant yn cael ei warantu drwy gytundeb cyfreithiol am gyfnod o 25 mlynedd. Mae oes y Paneli am yr un cyfnod o amser.
- 2.7. Ar ôl gwedd 3 nid oedd yn bosib gosod mwy o baneli oherwydd penderfyniad Llywodraeth San Steffan i ddiddymu'r Taliadau FIT oedd yn gwneud yr achos busnes yn anhyfyw.
- 2.8. Ers hynny mae costau paneli PV wedi disgyn ac oherwydd bod costau ynni wedi cynyddu gymaint dros y blynyddoedd, yn enwedig eleni, mae'r achos busnes nawr yn hyfyw.
- 2.9. Yr ydym felly yn cynnig achos busnes er eich sylw sydd ar sail 54 o adeiladau sydd wedi eu rhestru yn atodiad 1.
- 2.10. Rydym wedi rhoi enghraifft o sut mae newid yn nghost yr uned yn effeithio'r achos busnes. Wrth edrych ar y senario isod, cyn y cynnydd mawr yn Hydref roedd y Cyngor yn talu 16.5c yr uned a felly roedd y cyfnod ad-dalu yn 10.6 mlynedd. Rydym bellach yn talu 34c yr uned sy'n golygu bod y cyfnod ad-dalu nawr i lawr i 5.6 mlynedd.

*Cost Buddsoddi*                      £        2,785,120

	<b>16.5c</b>	<b>25c</b>	<b>34c</b>	<b>54c</b>	<b>60c</b>
Arbedion Blynyddol	£        266,266	£ 375,300	£ 507,725	£ 802,003	£ 890,286
Cyfnod ad-dalu	10.6	7.6	5.6	3.5	3.2

### **3. Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

- 3.1. Nid ydyn yn gwybod, wrth gwrs, beth fydd costau ynni yn y dyfodol. Cyn i Lywodraeth San Steffan gyflwyno “cap”, roeddem yn wynebu costau o bron i 60c, fyddai'n dod â'r achos busnes i lawr i 3.2 mlynedd.
- 3.2. Beth bynnag fydd y costau wrth symud ymlaen, mae'n annhebygol y byddant yn agos i'r 16c yn y blynyddoedd nesaf, os o gwbl. Felly rydym yn hyderus na fydd yr achos busnes yn waeth na chyfnod ad-dalu o oddeutu 10 mlynedd.
- 3.3. Gan ystyried bod y tair gwedd flaenorol wedi bod yn llwyddiant a bod paneli PV bellach yn dechnoleg aeddfed, rydym yn hyderus y bydd y cynllun hwn hefyd yn llwyddiant.

### **4. Ystyriaethau ariannol**

- 4.1. Mae tri opsiwn i ariannu'r prosiect:
  - a. Benthyciad di-log gan Salix. Ni fyddai cost i'r Cyngor a byddwn yn defnyddio arbedion mewn costau trydan i ad-dalu'r benthyciad dros gyfnod o flynyddoedd.
  - b. Defnyddio adnodd cyfalaf y Cyngor a'i ad-dalu dros gyfnod o flynyddoedd fel bod y cyfalaf gennym i ariannu cynlluniau eraill yn y dyfodol.
  - c. Defnyddio ein cronfeydd fel Cyngor er mwyn cael arbediad refeniw yn syth, a bod hwnnw yn mynd tuag at ein cynllun arbedion / toriadau.
- 4.2. O ystyried y sefyllfa ariannol y mae'r Cyngor yn ei wynebu byddai'r 3ydd opsiwn yn caniatáu gallu gweithredu'n gyflym i leihau ein hallyriadau a gwneud cyfraniad yn ddi-oed i'r rhaglen arbedion.

### **5. Camau nesaf ac amserlen**

- 5.1. O dderbyn yr argymhelliad, byddai modd cwblhau y gwaith dylunio, tendro a gosod ar safle yn ystod y flwyddyn nesaf.

---

#### **Barn y swyddogion statudol**

#### **Y Swyddog Monitro:**

**Mae'r adroddiad yn amlygu y bydd gweithredu y prosiect yn cynnwys prosesau caffael priodol. Rwy'n fodlon fod y penderfyniad a geisir yn briodol**



**Y Pennaeth Cyllid:**

**“Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir. Bydd y gwir arbediad fydd yn cael ei wireddu yn ddibynnol ar y farchnad drydan dros y blynyddoedd nesaf, ond rwyf yn argyhoeddedig o gywirdeb y ffigyrau sydd yn yr adroddiad ac yn fodlon fod y cynllun hwn yn un hyfyw. Gallaf gadarnhau bydd cronfeydd y Cyngor yn cael eu defnyddio i ariannu'r datblygiad; mae cyfran o'r arian eisoes wedi ei glustnodi ar gyfer y cynllun lleihau carbon, a bydd y balans yn cael ei gyllido o gronfeydd cyfalaf.**

---

## Atodiad 1: Rhestr y Safleoedd

	Arbedion Ynni	Arbedion Ariannol Blynyddol (£)	Cost Buddsoddi (£)	Cyfnod Ad-dalu (blynyddoedd)	Cost bob tCO2e
Safle	kWh				
Ysgol Tryfan: 41kWp	19,919	£6,864	£41,600	6.1	£9,043.48
Ysgol Dyffryn Nantlle: 21kWp	13,373	£4,593	£21,700	4.8	£7,000.00
Ysgol Cae Top: 14kWp	10,028	£3,346	£14,300	4.2	£6,217.39
Plas Heddd: 12kWp	9,050	£3,001	£12,900	4.2	£6,142.86
Ysgol Friars Eithinog: 46kWp	35,336	£11,694	£46,500	3.9	£5,670.73
Ysgol Uwchradd Tywyn: 45kWp	28,343	£9,934	£46,200	4.8	£7,000.00
Ysgol y Moelwyn: 44kWp	26,346	£8,996	£45,100	5.0	£7,393.44
Ysgol Syr Huw Owen: 38kWp	26,333	£8,847	£39,200	4.4	£6,426.23
Pencadlys	60,984	£19,998	£82,348	4.0	£5,842
Ysgol Glan y Mor	49,336	£17,431	£89,517	5.3	£7,851
Penrallt	40,222	£13,274	£54,181	4.0	£5,828
Swyddfa Penarlag	39,349	£13,535	£77,166	5.8	£8,485
Byw'n Iach, Bro Dysynni	38,457	£12,978	£56,120	4.3	£6,314
Ysgol Pendalar	31,877	£10,693	£50,758	4.7	£6,890
Ysgol y Berwyn	31,184	£10,757	£76,675	7.2	£10,639
Depo Glan y Don	29,533	£10,051	£48,639	4.8	£7,126
Bryn Blodau	29,143	£9,954	£55,200	5.6	£8,195
Byw'n Iach Abermaw (Pafiliwn)	27,358	£9,420	£52,900	5.7	£8,366
Llys Cadfan	24,164	£7,928	£37,260	4.5	£6,672
Caergyfchu	24,144	£9,286	£71,001	8.6	£12,724
Ysgol Cymerau	21,495	£7,572	£42,665	5.8	£8,588
Canolfan Gyswilt Gwynedd	21,440	£7,073	£29,402	4.0	£5,934
Ysgol Botwnnog	18,612	£6,504	£28,460	4.5	£6,616
Plas y Don	17,039	£5,650	£33,235	5.7	£8,439

Amlogfa Bangor	15,693	£5,127	£26,692	5.0	£7,359
Intec, Bangor	15,557	£5,054	£27,451	5.2	£7,634
Cartref Frondeg	14,872	£4,942	£25,070	5.0	£7,294
Plas Maesincla	14,815	£5,121	£34,535	6.9	£10,086
Hafod Mawddach	14,233	£4,609	£24,150	5.0	£7,341
Byw'n Iach, Glan Wnion, Dolgellau	13,662	£4,828	£36,685	7.9	£11,618
Plas Ogwen	12,485	£4,026	£18,860	4.4	£6,536
Plas Pengwaith	12,088	£3,965	£22,885	5.6	£8,191
Tan y Marian	11,393	£3,816	£22,425	5.8	£8,517
Pwll Nofio Bro Ffestiniog	10,761	£3,458	£14,537	4.0	£5,845
Storiell	10,513	£3,397	£23,150	6.5	£9,528
Cefn Rodyn	10,343	£3,324	£15,755	4.5	£6,591
Plas Gwilym	10,268	£3,290	£15,295	4.4	£6,445
Ysgol y Gelli	9,003	£2,989	£19,320	6.3	£9,285
Depo Cwm y Glo	8,997	£2,924	£13,692	4.5	£6,585
Depo Cibyn	7,382	£2,517	£15,302	6.1	£8,969
Ysgol Llanbedrog	3,506	£1,142	£6,958	5.8	£8,587
Ysgol Arduwy Harlech Scenario 2: 47kWp	23,069	£8,392	£47,900	6.1	£9,037.74
Ysgol Eifionydd Scenario 2: 66kWp	33,652	£11,990	£66,800	5.8	£8,564.10
Ysgol Dyffryn Ogwen Scenario 2: 67kWp	31,888	£10,974	£68,200	6.3	£9,216.22
Ysgol Brynrefail Scenario 2: 56kWp	30,277	£10,546	£57,400	5.6	£8,200.00
Ysgol Maesincla Scenario 2: 50kWp	25,701	£9,114	£50,700	5.8	£8,593.22
Byw'n Iach, Penllyn, Bala: Scenario 2: Maximum roofs (174kWp)	80,900	£27,506	£174,500	6.3	£8,512.20
Swyddfa Dwyfor, Pwllheli: Scenario 2, Swyddfa Dwyfor + EV charging	27,500	£9,850	£72,900	7.8	£10,414.29

Byw'n lach Caernarfon: (174 kWp system).	76,200	£27,008	£147,200	5.7	£7,626.94
Ysgol Eifion Wyn Scenario 2: 54kWp	20,476	£7,715	£54,600	7.8	£11,617.02
Canolfan Hamdden Plas Ffrancon Scenario 2: 90kWp	27,400	£10,216	£91,100	9.8	£13,202.90
Archifdy roof & canopy Scenario 2: 69kWp	44,952	£15,228	£87,791	5.7	£8,450
Hafan Pwllheli roof & canopy	74,539	£24,975	£118,044	4.7	£6,852
Byw'n lach, Glaslyn	30,400	£10,936	£65,700	6.4	£8,532.47

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	22ain Tachwedd 2022
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Swyddog Cyswllt:	Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor
Rhif Ffôn Cyswllt:	32233
Teitl yr Eitem:	Deddf Llywodraeth Leol 2021 – Hunanasesiad Cyngor Gwynedd (Drafft) 2021/22

#### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1. Cymeradwyo Hunanasesiad Cyngor Gwynedd (Drafft) 2021/22 (**Atodiad 1**) (gan gymryd i ystyriaeth unrhyw argymhellion a wneir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (os bydd rhai) ac argymhell i'r Cyngor Llawn ei fod yn ei fabwysiadu.

#### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1. O dan Ddedf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mae gennym ddyletswydd i adrodd ar berfformiad, yn seiliedig ar ddull hunanasesu.

#### 3. CYFLWYNIAD

- 3.1. Dyma adroddiad sy'n cyflwyno Hunanasesiad Perfformiad cyntaf y cyngor gan edrych yn ôl ar 2021/22. Nodir fod yr adroddiad yn ofyn statudol newydd o dan **Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**.
- 3.2. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad. Mae'n disodli'r ddyletswydd a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 .
- 3.3. Golyga bod yn rhaid i gyngor lunio adroddiad hunanasesu mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Mae'n rhaid i'r adroddiad nodi ei gasgliadau ynghylch i ba raddau y bodlonodd y gofynion perfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol honno, ac unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd, neu y mae wedi'u cymryd eisoes, er mwyn cynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad. Y gofynion perfformiad yw i ba raddau:-
  - y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
  - y mae'n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
  - y mae ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.

- 3.4. Ar ei lefel symlaf, mae a wnelo hunanasesu â'r ffordd y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad ac yn ymateb i'r cwestiynau canlynol:
- Pa mor dda rydyn ni'n gwneud?
  - Sut rydyn ni'n gwybod hynny?
  - Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?
- 3.5. Mae dyletswydd i gyhoeddi adroddiad sy'n nodi casgliadau'r hunanasesiad unwaith mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol ac i gwblhau'r gwaith "cyn gynted ag bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi."
- 3.6. Nodir dyletswydd hefyd i ymgynghori o leiaf unwaith mewn blwyddyn ariannol gyda phobl leol, busnesau lleol, staff y cyngor a'r undebau llafur. Dylid defnyddio'r ymgynghoriadau hyn i gael adborth ar y graddau y mae'r awdurdod yn cyflawni'r gofynion perfformiad.
- 3.7. Mae'r cyngor eisoes yn casglu llawer o'r dystiolaeth ac yn cyhoeddi dogfennau sy'n cynnwys y math o wybodaeth sy'n ddisgwyliedig i ni ei gynnwys o fewn yr hunanasesiad. Mae hyn yn cynnwys dogfennau megis (ond ddim yn gyfyngedig i) adroddiadau blynyddol Perfformiad, Cydraddoldeb, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Datganiad Cyfrifon Blynyddol a'r Datganiad Llywodraethu. O ganlyniad, rydym wedi ceisio cadw'r ddogfen hunan asesiad yn gymharol gryno gan gyfeirio tuag at nifer o'r dogfennau lle ceir gwybodaeth bellach er mwyn ceisio osgoi dyblygu.
- 3.8. Y Grŵp Llywodraethu sydd wedi arwain/cymryd trosolwg o'r broses hyn o fewn y cyngor er mwyn sicrhau fod y gwaith yn cael ei berchnogi a'i arwain ar lefel strategol.
- 3.9. Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth yn awgrymu y dylid defnyddio'r saith maes corfforaethol sy'n gyffredin i drefniadau llywodraethu corfforaethol cyrff cyhoeddus (fel sydd wedi eu hadnabod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) fel fframwaith ar gyfer yr hunan asesiad, sef:
- Cynllunio corfforaethol
  - Cynllunio ariannol
  - Cynllunio'r gweithlu (pobl)
  - Caffael
  - Asedau
  - Rheoli risg
  - Rheoli Perfformiad
- 3.10. Mae angen cyflwyno drafft o'r adroddiad hunan asesu i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu cyn iddo gael ei gyhoeddi yn derfynol er mwyn rhoi cyfle iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau ac argymhellion. Bydd angen rhoi ystyriaeth i'r rhain pan fydd y ddogfen yn cael ei chyflwyno yn ffurfiol i'r Cabinet.
- 3.11. Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn trafod yr hunanasesiad yn ei gyfarfod ar y 17eg o Dachwedd. Gan fod yr adroddiad hwn wedi ei gyhoeddi cyn y dyddiad yma byddwn yn adrodd ar unrhyw sylwadau ac argymhellion a wneir (os bydd rhai) ar lafar fel eich bod yn gallu eu hystyried.

3.12. Fel sydd wedi ei nodi eisoes y flwyddyn hon yw'r tro cyntaf i ni gynnal yr hunan asesiad a'r tro hwn bydd yn cael ei gyhoeddi fel dogfen sy'n sefyll ar ei ben ei hun. I'r dyfodol y bwriad yw integreiddio'r gwaith gyda threfniadau herio perfformiad y Cyngor gan gynnwys yr hunanasesiad o fewn yr Adroddiad Perfformiad Blynnyddol fel bod yr holl wybodaeth o fewn yr un ddogfen. Mae'r ddogfen hon yn arfer cael ei pharatoi yn ystod mis Ebrill/Mai er mwyn ei chyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Llawn i'w chymeradwyo ar ddechrau mis Gorffennaf.

3.13. Byddai peidio â chyhoeddi hunanasesiad yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Archwilio Cymru, fyddai hefo goblygiadau i enw da'r Cyngor.

#### **4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

4.1. Bydd yr hunanasesiad, ac unrhyw argymhellion a wneir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (os bydd rhai), yn cael ei chyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar gyfer ei chymeradwyo ar y 1af o Ragfyr.

#### **Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

**Y Pennaeth Cyllid:**

## Deddf Llywodraeth Leol 2021 - Hunanasesiad Cyngor Gwynedd (Drafft) 2021/22

### Cefndir

Dyma adroddiad sy'n adlewyrchu hunanasesiad cyntaf Cyngor Gwynedd fel y disgwylir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ar ei lefel symlaf, wnelo hunanasesu â'r ffordd y mae'r Cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad, hynny yw, pa mor dda mae'n gwneud? Sut mae gwybod hynny? A, beth all wneud er mwyn gwella a sut?

Mae'r Ddeddf yn ei wneud yn ofynnol i bob Cyngor yng Nghymru adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw i ba raddau:-

- y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
- y mae'n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- y mae ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.

Bwriad y broses hunanasesu yw annog gonestrwydd, gwrthrychedd a thryloywder ynghylch perfformiad a llywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys ei gydberthnasau allweddol rhwng arweinwyr gwleidyddol a swyddogion a'r ffordd y maent yn cael eu rheoli. Byddai dull gweithredu effeithiol yn cael ei berchenogi a'i arwain ar lefel strategol, ond byddai hefyd yn cynnwys aelodau a swyddogion ar bob lefel o'r sefydliad ac amrywiaeth o bobl ar draws cymunedau a phartneriaid.

Er bod y ddyletswydd hon yn newydd dylid nodi fod y Cyngor eisoes yn paratoi nifer o ddogfennau sy'n cynnwys y math o wybodaeth sy'n ddisgwylidig i ni ei gynnwys o fewn yr hunan asesiad. Mae hyn yn cynnwys dogfennau megis adroddiadau blynyddol Perfformiad, Cydraddoldeb, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Datganiad Cyfrifon Blynyddol a'r Datganiad Llywodraethu.

Yn y gorffennol mae ein trefniadau adrodd ar berfformiad wedi bod yn canolbwyntio ar gynnydd prosiectau o dan ein blaenoriaethau gwella, sef:

- Creu economi hyfyw a ffyniannus
- Rhoi cyfle i bob disgybl gael y cyfle i gyflawni ei botensial
- Lleihau anghydraddoldeb o fewn y sir
- Sicrhau mynediad at gartref addas
- Helpu pobl i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg
- Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant
- Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud
- Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd

Ceir copi o Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2021/22 [yma](#). Bydd yr hunan asesiad yn golygu ein bod hefyd yn edrych ar ein perfformiad yn erbyn meysydd llywodraethu corfforaethol.

Mae'r ddogfen hon yn grynodedd lefel uchel o hunan asesiad strategol o berfformiad y Cyngor yn ystod 2021/22 gyda'r canlyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth o'r dogfennau a restrir uchod.



Cynhelir cyfarfodydd herio perfformiad ar lefel Adrannol bob yn ail fis sy'n edrych ar gynnydd prosiectau blaenoriaeth, perfformiad gwasanaethau a'r ymateb i'r prif risgiau o fewn y Gofrestr Risg Corfforaethol. Mae'r wybodaeth wedyn yn bwydo i mewn i adroddiadau perfformiad rheolaidd a gyflwynir gan bob Aelod Cabinet yn ystod y flwyddyn ynghyd ac Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

I'r dyfodol bydd yr adroddiadau hyn hefyd yn rhoi sylw i'r cynnydd yn erbyn y materion fydd angen sylw a gaiff eu hadnabod o fewn yr hunan asesiad. Rhain yw'r dogfennau sy'n rhoi gwybodaeth o sut mae'r wedi perfformio yn erbyn ein blaenoriaethau yn 2021/22 gan gynnwys cynnydd yn erbyn ein hamcanion llesiant. Y flwyddyn hon yw'r tro cyntaf i ni gynnal yr hunan asesiad a'r tro hwn bydd yn cael ei gyhoeddi fel dogfen sy'n sefyll ar ei ben ei hun. Y bwriad yw integreiddio'r gwaith gyda threfniadau herio perfformiad y Cyngor gan gynnwys yr hunanasesiad o fewn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol fel bod yr holl wybodaeth o fewn yr un ddogfen yn y dyfodol.

Mae'r ddogfen yn cynnwys asesiad o'n trefniadau llywodraethu gan ddefnyddio'r saith maes corfforaethol sy'n gyffredin i drefniadau llywodraethu corfforaethol cyrff cyhoeddus, fel yr awgrymir o fewn canllawiau statudol Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, fel fframwaith ar gyfer yr hunan asesiad, sef:

1. Cynllunio corfforaethol
2. Cynllunio ariannol
3. Cynllunio'r gweithlu (pobl)
4. Caffael
5. Asedau
6. Rheoli risg
7. Rheoli Perfformiad

Penderfynwyd hefyd i gynnwys pennawd penodol am y gwaith ymgysylltu sy'n digwydd â thrigolion, staff, budd-ddeiliaid ac Undebau Llafur.

Rydym eisoes wedi nodi fod llawer o'r dystiolaeth ar gyfer yr hunan asesiad yn deillio o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt sydd rhwng y meysydd o risgiau llywodraethu sydd wedi eu hadnabod o fewn y ddogfen hynny a'r themâu ar gyfer yr hunan asesiad.

Themâu hunan asesiad	Meysydd o risg Llywodraethu
Cynllunio Corfforaethol	Cyfeiriad a gweledigaeth Cynaliadwyedd Cyfreithlondeb Bod yn agored Arweinyddiaeth Diwylliant Ymddygiad Penderfyniadau

	Rhanddeiliaid Cynllunio gweithrediadau Adolygu deilliannau
Cynllunio Ariannol	Cyllid Cynllunio gweithrediadau
Cynllunio'r Gweithlu (pobl)	Cynllunio'r gweithlu
Caffael	
Asedau	Asedau eiddo Asedau technoleg gwybodaeth Gwybodaeth
Rheoli Risg	Rheoli risg Rheolaeth fewnol Adolygu deilliannau Iechyd, Diogelwch a Llesiant?
Rheoli Perfformiad	Perfformiad Atebolrwydd Adolygu deilliannau
Ymgysylltu	Ymgysylltu

## 1. Cynllunio Corfforaethol

Mae Cyngor Gwynedd yn gosod ei weledigaeth a'i flaenoriaethau yn glir, a hynny drwy ei Gynllun Corfforaethol -[Cynllun y Cyngor 2018-2023](#). Cyhoeddwyd y Cynllun pum mlynedd yn ôl yn 2018, a phob blwyddyn wedi hynny cyhoeddir Cynllun blynyddol sy'n cynnwys adolygiad o'r holl brosiectau blaenoriaeth. Mae hyn yn digwydd drwy drafodaethau rhwng yr Aelodau Cabinet, yr Adrannau a'r Tîm Rheoli. Mae ymgysylltu pellach â gweddill yr Aelodau hefyd yn rhan o drefniadau adolygu ac ym mis Tachwedd 2021 cynhaliwyd dau sesiwn rhithiol er mwyn rhoi'r cyfle iddynt roi sylwadau ar y blaenoriaethau a sicrhau perchnogaeth wleidyddol o'r Cynllun. Mae trefn mewn lle i adolygu'r prosiectau blaenoriaeth yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni, ac i adnabod unrhyw rwystr sy'n gall achosi llithriad. Cyflwynir adroddiadau perfformiad gan aelodau unigol i'r Cabinet ddwy waith y flwyddyn yn ogystal â diweddariad cryno iawn o gynnydd holl brosiectau Cynllun y Cyngor dair gwaith y flwyddyn (mis Gorffennaf/Medi, mis Rhagfyr a mis Mawrth). Cyhoeddir yr [Adroddiad Perfformiad blynyddol ar gyfer 2021/22](#) ym mis Gorffennaf a gwelir fod y mwyafrif o brosiectau wedi eu cyflawni. Dyma adroddiad cytbwys sydd hefyd yn tynnu sylw at unrhyw fethiant pan nad oedd yn bosib cyflawni o fewn yr amserlen, fel gwelir efo prosiect darpariaeth addysg ôl 16 yn Arfon.

Mae lle i wella a chryfhau rôl yr Aelodau Craffu yn y gwaith Cynllunio Corfforaethol gan sicrhau fod cyswllt rhwng y rhaglen Craffu a gwireddu blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a hefyd dal y Cabinet i gyfrif ynghylch perfformiad. Ar ddechrau 2022/23 cyflwynwyd trefn herio perfformiad newydd sy'n cryfhau yn ymarferol rôl yr aelodau craffu yn y cyfarfodydd herio perfformiad, ac felly eu cyswllt â'r Cynllun Corfforaethol (gwelir adran 'Rheoli Perfformiad' yn yr hunan asesiad am ragor o fanylion).

Nodir hefyd fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ei chael hi'n anodd i ddenu aelodau llewg addas i fod ar y pwyllgor fel sy'n ofynnol o fewn y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 sy'n golygu nad oes gennym y nifer ddisgwyliedig o aelodau llewg ar hyn o bryd.

Mae ein cynlluniau corfforaethol yn cyd-fynd hefo gofynion/canllawiau statudol neu ddeddfwriaeth berthnasol ond mae lle i gryfhau'r cyswllt hwn. Tra bod dogfen megis Cynllun y Cyngor 2022/23, yn gyffredinol yn cyfarch gofynion statudol penodol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn cyfeirio at yr amcanion a'r pum ffordd o weithio, ychydig o dystiolaeth sydd ei fod wedi treiddio fel elfen sylfaenol o osod cyfeiriad ac wedi ei brif ffrydio. Mae gwaith pellach ei angen er mwyn sicrhau fod y Ddeddf Llesiant a gofynion statudol eraill yn integreiddio'n llawn o fewn ein fframweithiau cynllunio corfforaethol, yn hytrach na gwneud hynny mewn ffordd sy'n ymatebol a thameidiog ei natur. Mae rôl Swyddogion Statudol angen bod yn fwy creiddiol wrth osod trywydd, ac ar hyn o bryd maent yn tueddu cael eu cynnwys yn rhy hwyr mewn materion.

Mae gwaith eisoes ar waith er mwyn edrych ar sut i greu strwythur a threfniadau gwell ar gyfer Cynllun y Cyngor 2023-28. Bwriedir hefyd edrych ar sut mae gofynion statudol y Ddeddf yn cyd-fynd hefo egwyddorion Ffordd Gwynedd, sef y diwylliant o weithio mae'r Cyngor wedi ei fabwysiadu er mwyn sicrhau ei fod yn ystyriaeth greiddiol wrth gynllunio ond hefyd ein bod yn medru tystiolaethu sut yr ydym yn cyfrannu at yr egwyddorion.

Nid oes trefn ffurfiol yn bodoli ar gyfer hunanasesu gan ddefnyddio gwybodaeth gyfredol (er enghraifft, adroddiadau Archwiliadau, adborth gan gwsmeriaid, cyflawniadau) i lywio Cynlluniau Adran. Erbyn hyn mae'r mwyafrif o Wasanaethau wedi sefydlu pwrpasau sy'n berthnasol i drigolion y sir ac hefo mesurau meintiol sy'n dangos cyfraniad i'r pwrpas. Nodir fodd bynnag fod y trefniadau yn amrywio o ar draws y Cyngor gyda rhai Adrannau hefo trefniadau mwy aeddfed nag eraill. *(Mae fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor yn datblygu'n dda er bod gweithredu'n amrywiol ar hyn o bryd, ac mae'n anodd llywio'r broses adrodd - Adolygiad o Reoli Perfformiad – Cyngor Gwynedd: Archwilio Cymru – Ionawr 2022.)*

Yn gyffredinol, mae gan y Cyngor drefn llywodraethu addas yn ei le. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn ddogfen gyhoeddus sydd yn gosod allan y trefniadau llywodraethu ac mae canllaw yn cael ei ddarparu er mwyn yn atgyfnerthu hyn. Mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn cadw trosolwg o faterion llywodraethu o fewn y Cyngor. Mae'r Grŵp yn cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, y Rheolwr Risg & Yswiriant a'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.

Yn ogystal, mae'r Cyngor yn cyhoeddi Datganiad Llywodraethu blynyddol sy'n amlinellu ein trefniadau llywodraethu a'u heffeithiolrwydd gan ddilyn egwyddorion Fframwaith CIPFA/Solace Delivering Good Governance in Local Government. Ceir copi o [Ddatganiad Llywodraethu 2021/22 yma](#).

**Beth sy'n dda?**

- Gweledigaeth a blaenoriaethau clir wedi ei nodi o fewn Cynllun y Cyngor.
- Trefn mewn lle er mwyn adolygu blaenoriaethau Cynllun y Cyngor yn gyson a rheolaidd.
- Perchnogaeth wleidyddol o Gynllun y Cyngor, gyda'r Aelodau Cabinet ac Aelodau eraill yn rhan o'r broses o'i ddatblygu ac adolygu.

**Beth sydd angen ei wella?**

Gwelliant	Cyfrifoldeb
Byddwn yn:	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• cryfhau rôl yr Aelodau Craffu yn y gwaith cynllunio corfforaethol fel bod mwy o gyswllt hefo'r rhaglen craffu a sicrhau eu bod yn dal Aelodau Cabinet i gyfrif.</li> </ul>	<p>Tîm Arweinyddiaeth/Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith</p>

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn edrych i gryfhau ein trefniadau mewnol er mwyn sicrhau fod gofynion/canllawiau statudol neu ddeddfwriaeth yn elfen greiddiol ac wedi eu hintegreiddio'n well hefo ein gwaith cynllunio corfforaethol.</li> </ul>	<p>Tîm Arweinyddiaeth/Swyddogion Statudol</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu ein trefniadau hunan asesu ar sail profiadau'r flwyddyn gyntaf gan hefyd edrych ar arfer da o fewn Cyngorau eraill.</li> </ul>	<p>Grŵp Trefniadau Llywodraethu/Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor</p>

## 2. Cynllunio Ariannol

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Er gwaethaf argyfwng Covid-19 a'r gofynion parhaus i gyflawni arbedion heriol, mae sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2021/22 yn cadarnhau y bu rheolaeth ariannol effeithiol. Yn 2021/22 roedd y Cyngor yn tanwario, ac fe gymeradwyodd aelodau'r Cabinet danwariant net gwasanaethau o £791,000 am y flwyddyn. Fodd bynnag, mae pwysau sylweddol yn parhau yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, gan olygu eu bod wedi gorwario yn ystod y flwyddyn. Mae'r sefyllfa yma bellach o dan adolygiad parhaus.

Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer cynllunio a rheoli'n ariannol i sicrhau parhad gwasanaeth, gan gynnwys cyfrifwyr ac archwilwyr mewnol, dan arweiniad y prif swyddog cyllid. Mae gan archwilwyr mewnol ffocws ar drefniadau effeithiol a rheolaethau mewn systemau ariannol, tra mae'r cyfrifwyr yn gweithio'n agos gyda'r adrannau ac yn annog perchnogaeth rheolwyr o'u systemau, perfformiad, a phriodoldeb ariannol.

Pob blwyddyn mae'r Cyngor yn paratoi ei [Strategaeth Ariannol](#) sy'n sicrhau Cyllideb gytbwys (balanced) er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth. Mae'r Cyngor hefyd yn cyhoeddi [Datganiad o'r Cyfrifon](#) ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol sy'n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario. Mae'r gwaith o adolygu gwariant yn erbyn cyllidebau, a monitro fod arbedion wedi'u cyflawni gan holl adrannau'r Cyngor, yn sicrhau fod y gwasanaethau yn gweithredu'n effeithlon. Yn Medi 2021, cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad oedd yn cadarnhau fod rheolaeth ariannol y Cyngor yn dda. Mae'r adroddiad i'w weld [yma](#).

Fodd bynnag, un argymhelliad oedd bod angen edrych fwy i'r dyfodol er mwyn rhagweld sefyllfa ariannol y sefydliad am y blynyddoedd nesaf. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig Cyngor Gwynedd wedi bod dan adolygiad barhaus ers cychwyn blwyddyn ariannol, wrth i'r bwlch ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor (fel pob awdurdod lleol arall) gynyddu'n gyflym wrth i effaith lefelau chwyddiant digynsail effeithio ar allu'r Cyngor i ariannu ei wasanaethau. Bydd rhaglenni arbed yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor wrth ymateb i'r sefyllfa ariannol yma, a byddwn yn adrodd i aelodau, staff a'r cyhoedd yn rheolaidd am y sefyllfa. O ganlyniad i hynny, bydd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig addasedig yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet pan fydd setliad ariannol 2023/24, a ddangosol ar gyfer 2024/25, yn dod yn fwy cadarn yn Rhagfyr 2022. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor edrych ar sut i blethu ei drefniadau Cynllunio Ariannol hefo gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Bydd hyn yn helpu'r Cyngor edrych ar sut i blethu ei drefniadau Cynllunio Ariannol hefo gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r Cyngor hefyd angen rhoi ystyriaeth bellach i sut y gall gynnwys trigolion mewn penderfyniadau ariannol arwyddocaol. Yn y gorffennol mae'r Cyngor wedi ymgynghori ar ei gynlluniau i gyflawni arbedion yn achlysurol, er enghraifft, drwy ymarferiad Her Gwynedd yn 2016 ac ymgynghoriad Strategaeth Ariannol yn 2019. Mae hefyd yn cynnal gweithdai gydag

Aelodau ar lefel y dreth Cyngor ac yn ymgysylltu ar Drethi Annomestig yn flynyddol. Mae'r Cyngor yn cydnabod fod angen bod yn fwy agored ynghylch penderfyniadau ariannol gan ymgysylltu yn fwy aml, er mwyn sicrhau fod pobl Gwynedd yn cael mewnbwn ar benderfyniadau.

**Beth sy'n dda?**

- Y Cyngor wedi tanwario yn ystod 2021/22.
- Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer cynllunio a rheoli'n ariannol ac mae archwilwyr allanol yn cadarnhau fod rheolaeth ariannol y Cyngor yn dda.

**Beth sydd angen ei wella?**

Gwelliant	Cyfrifoldeb
<b>Byddwn yn:</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Edrych i'r dyfodol er mwyn rhagweld sefyllfa ariannol hirdymor y Cyngor drwy baratoi Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.</b></li> </ul>	Pennaeth Cyllid
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ystyried y ffyrdd mwyaf o ymgysylltu a chynnwys trigolion mewn penderfyniadau ariannol arwyddocaol a gweithredu</li> </ul>	Pennaeth Cyllid/Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu

### 3. Cynllunio'r Gweithlu (Pobl)

Mae adborth aelodau staff yn dangos fod y Cyngor, ar y cyfan, yn 'le da i weithio', ac o'i gymharu ag arolwg a gynhaliwyd yn 2019, roedd canlyniadau 2021 yn dangos fod cynnydd yn 'sgôr' y datganiad yma. Mae gwaith pellach i wneud, fodd bynnag, yn y meysydd gwerthfawrogiad staff a chyflogau teg. (Gwelir y bennod Ymgysylltu am fwy o wybodaeth am yr Arolwg Llais Staff).

Er mwyn sicrhau fod y Cyngor mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau sydd yn rhoi pobl Gwynedd yn y canol bob amser, rhaid sicrhau fod y staff iawn yn y lle iawn gyda'r sgiliau iawn. Er bod Covid-19 wedi amlygu gweithlu effeithiol ac ymroddedig, mae'r cyfnod hefyd wedi amlygu heriau denu a chadw staff ar draws y Cyngor gyda gweithio o adref a threfniadau gweithio hybrid wedi golygu fod gweithio i sefydliadau y tu hwnt i'r ardal wedi dod yn fwy deniadol i swyddogion.

Erbyn hyn, mae cynllunio gweithlu addas i'r dyfodol yn un o'r prif flaenoriaethau o fewn Cynllun y Cyngor ac yn derbyn sylw yn gorfforaethol yn hytrach na dim ond ym maes Oedolion a Phlant, lle'r oedd problemau yn bodoli yn y gorffennol. Yn ystod 2021/22 penodwyd 13 Prentis a 7 Hyfforddai Proffesiynol (drwy Gynllun Arbenigwyr Yfory a Rheolwyr Yfory) newydd i feysydd adnabuwyd fel blaenoriaeth ar draws y Cyngor. Mae enghreifftiau hefyd o lwyddiant y Cynllun, gydag unigolion sydd wedi cychwyn ar y Cynllun Prentisiaethau yn derbyn dyrchafiadau a swyddi parhaol o fewn y Cyngor.

Mae'r Cynllun Pobl yn blaenoriaethu gwella trefniadau ar gyfer meithrin talent o fewn y Cyngor, a sicrhau fod ein trefniadau dysgu a datblygu yn canolbwyntio ar y pethau angenrheidiol, er enghraifft, drwy'r Cynllun Datblygu Potensial. Fel rhan o'r prosiect blaenoriaeth 'Merched mewn Arweinyddiaeth' sefydlwyd Cynllun Datblygu penodol i ferched, gan eu bod wedi eu hadnabod fel un garfan sy'n gyndyn o ymgeisio am swyddi uwch. Gwelir hyn yn y ganran isel o ferched sydd yn cyflawni swyddogaeth reolaethol o fewn y Cyngor, sy'n anghymesur â rhaniad o fewn y gweithlu cyfan, hynny yw, 70% merched a 30% dynion.

Tra bod y prosiect cynllunio gweithlu yn dod a sawl adran at ei gilydd i gydweithio er mwyn mynd ati i daclo problemau denu a chadw staff, mae'r Cyngor yn tueddu i fod yn ymatebol ei natur yn hytrach na chynllunio yn hirdymor. Un gwendid gan Reolwyr (ar y cyfan) yw'r methiant i edrych ymlaen 5-10 mlynedd gan ystyried oedran staff presennol a'r arbenigeddau sydd eu hangen i'r dyfodol, sydd â'r potensial i gael effaith sylweddol ar barhad gwasanaeth. Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu diweddarau ac adolygu ei Strategaeth Cynllun Pobl yn ystod y flwyddyn.

#### Beth sy'n dda?

- Ar y cyfan, mae staff yn teimlo fod y Cyngor yn le da i weithio, a hyn wedi cynyddu rhwng 2019 a 2021.
- Llwyddiant Cynllun Prentisiaethau, Cynllun Arbenigwyr a Rheolwyr Yfory, Cynllun Datblygu Potensial fel rhan o'r Cynllun Datblygu Talent Fewnol.



- ‘Cynllunio’r Gweithlu’ wedi ei adnabod yn brosiect blaenoriaeth drawsadrannol o fewn Cynllun y Cyngor 2022/23.

**Beth sydd angen ei wella?**

Gwelliant	Cyfrifoldeb
<b>Byddwn yn:</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithredu prosiect er mwyn mynd i’r afael a’r problemau recriwtio staff presennol y mae’r Cyngor yn ei brofi.</li> </ul>	Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoi arweiniad a chyngor i wasanaethau er mwyn sefydlu arferion cynllunio gweithlu tymor hir, fel bod modd ceisio osgoi problemau recriwtio a chadw staff i’r dyfodol.</li> </ul>	Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol

#### 4. Caffael

Caffael yw'r broses sy'n galluogi'r Cyngor i reoli cael ei holl nwyddau, Gwasanaethau a gwaith. Bwriad y Rheolau Caffael yw sicrhau fod y Cyngor yn cael gwerth am arian a'r lefel angenrheidiol o ansawdd a pherfformiad a bod yr holl weithgaredd caffael yn cael ei gynnal mewn modd agored, cywir ac atebol.

Mae'r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu [Polisi Caffael Cynaliadwy](#) sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Drwy fabwysiadu'r Polisi, y bwriad yw ystyried yr effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol bosibl y gall ein penderfyniadau caffael ei gael a pha gamau y gellir eu cymryd i wneud y defnydd gorau posibl o wariant y cyngor, er lles y sir.

Mae gweithgareddau caffael y Cyngor yn arddangos bod 60% o'r gwariant hyn yn aros o fewn Gwynedd, a drwy'r prosiect 'Cadw'r Budd yn Lleol' mae'r Cyngor yn ymdrechu i ganfod ffyrdd newydd o gefnogi busnesau lleol i gystadlu ac ennill y cytundebau. Un agwedd o'r gwaith yw symud i ddull asesu tendrau ar sail gwerth cymdeithasol, yn hytrach na phris ac ansawdd yn unig. Mae gwaith treialu'r dull wedi ei gynnal yn ystod 2021/22 a bydd dadansoddiad pellach yn cael ei wneud yn ystod 2022/23 i edrych os oes angen cyflwyno newidiadau i'r drefn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yng Ngwynedd.

Cyhoeddodd y Cyngor ei [Gynllun Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur](#) ym mis Mawrth 2021 sy'n cynnwys rhan ar y gwaith o gyfrifo'r allyriadau carbon sy'n deillio o weithgareddau caffael. Wrth barhau i weithredu'r Polisi Caffael Cynaliadwy, dros y blynyddoedd nesaf bydd y Cyngor hefyd yn edrych i ddarparu cefnogaeth i'r farchnad, yn enwedig i ddarparwyr lleol, i fedru mesur effaith eu gweithrediadau ar eu ôl-troed carbon ac yn parhau i asesu ei brosesau mewnol o osod meini prawf i fesur tendrau er mwyn sicrhau ei fod yn mesur effaith amgylcheddol contractau.

Mae'r Tîm Caffael yn darparu cyngor a chymorth i wasanaethau, ac yn sicrhau fod y sefydliad yn cadw at ei Reoliadau Caffael. Nod y tîm yw cryfhau a datblygu'r arbenigedd caffael o fewn y Cyngor, mabwysiadu'r arfer orau yn y maes a chefnogi'r farchnad leol. Mae hefyd trefniadau Rheolaeth Categori (Amgylchedd, Corfforaethol a Phobl) yn ei le er mwyn edrych ar gaffael yn strategol a rhoi mwy o bwyslais ar gynnal dadansoddiad trylwyr o'r farchnad, gan annog fwy o gydweithio. Ychydig o dystiolaeth sydd gennym ynghylch pa mor effeithiol ac effeithlon yw ein trefniadau mewnol ar gyfer caffael ac mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn rhoi sylw iddo yn y dyfodol.

#### Beth sy'n dda?

- Mae gweithgareddau caffael y Cyngor yn arddangos bod 60% o'r gwariant hyn yn aros o fewn Gwynedd.
- Prosiectau pellach ar waith fel rhan o'r Cynllun Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur, er mwyn cyfrifo a lleihau'r allyriadau carbon sy'n deillio o weithgareddau caffael.

**Beth sydd angen ei wella?**

Gwelliant	Cyfrifoldeb
<b>Byddwn yn:</b>	
<ul style="list-style-type: none"><li>Datblygu set o fesurau er mwyn sefydlu pa mor effeithiol ac effeithlon yw ein trefniadau rheolaeth categori ar gyfer caffael.</li></ul>	Gwasanaeth Caffael

## 5. Asedau

Er mwyn cyflawni'r amcanion a blaenoriaethau gwella sydd yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor mae gwasanaethau yn gorfod defnyddio nifer o amrywiol asedau. Er mwyn gosod ei weledigaeth asedau mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Gynllun Asedau Corfforaethol 2019/20-2029, ac mae ar gael i drigolion ei ddarllen ar wefan y Cyngor [yma](#).

Er mwyn creu'r Cynllun cynhaliwyd trafodaethau gydag adrannau er mwyn nodi beth fydd eu hanghenion asedau tebygol dros y 10 mlynedd nesaf. Roedd nifer o'r cynlluniau yn ymwneud a gwaith ataliol ac yn edrych i'r hirdymor yn unol â gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cafodd pob Aelod o'r Cyngor gyfle i chwarae rhan yn y broses o flaenoriaethu'r cynlluniau hynny drwy adnabod y flaenoriaeth yr oedd ef neu hi yn ystyried y dylid ei roi i gynllun unigol. Mae cysylltiad agos rhwng y Cynllun Asedau a'r Cynllun Corfforaethol a Chynllun Cyfalaf y Cyngor.

Gellir rhannu asedau'r Cyngor o dan ddau bennawd sef Asedau Tir ac Eiddo, ac Asedau Technoleg Gwybodaeth. Un risg posib sydd wedi ei adnabod yn [Natganiad Llywodraethu Blynnyddol y Cyngor](#) yw nad yw'r Asedau Eiddo yn cael ei defnyddio i'w llawn potensial. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r sgôr risg yma yn isel gan fod nifer o adeiladau nad oedd mo'u hangen mwyach wedi cael eu gwaredu yn unol â chanlyniadau gwaith creu'r Cynllun Asedau 2019/20-2029. O ran cerbydau'r Cyngor mae yna hefyd gynllun ar waith i geisio gwneud gwell defnydd o fflyd sydd eisoes wedi arwain at rhai arbedion ariannol ac yn debygol o gyflawni mwy i'r dyfodol.

Mae'r risg nad ydi'r Cyngor yn defnyddio ei Asedau Technoleg Gwybodaeth i'w llawn potensial ychydig yn uwch. Mae defnyddio technoleg mewn ffordd effeithiol yn arf hanfodol i sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n cwrdd ag anghenion trigolion, gan wneud hynny mewn ffordd cost effeithiol. Mae'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth yn rhoi pwyslais penodol ar ddod a gwasanaethu digidol yn agosach at bobl Gwynedd drwy gyflwyno arlwy o wasanaethau newydd fel apGwynedd, "Fy nghyfrif" a chynnydd yn y dewis o gyflwyno ceisiadau am wasanaeth ar-lein, yn ogystal ag wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Fodd bynnag, mae risg nad yw hyn yn digwydd ar yn ddigon cyflym ac mae risgiau pellach yn ein hwynebu o ran diogelwch a seibrgadernid.

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn adolygu'r Cynllun Asedau er mwyn rhoi cyfle i ail ystyried ac ail flaenoriaethu yn dilyn cyfnod Covid-19, er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu newidiadau ehangach fel Technoleg Gwybodaeth a Data. Bydd hefyd angen cymryd i ystyried yr her o addasu ein hadeiladau ar gyfer y ffordd newydd o weithio gan gynnwys trefniadau gweithio hybrid i'r dyfodol.

Nid yw'r Cyngor yn ymgysylltu'n ehangach wrth greu'r Cynllun Asedau, fodd bynnag, mae gwaith ymgysylltu penodol yn cael ei gynnal wrth ddatblygu rhai o'r cynlluniau unigol. Un enghraifft ddiweddar yw'r ymgysylltiad ar ddatblygu cynlluniau Canolfan Dolfeurig, sef canolfan dydd yn Nolgellau ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu. Mae hyn yn digwydd ar lefel adrannol yn hytrach na chorfforaethol.

**Beth sy'n dda?**

- Cynllun Asedau tymor hir yn ei le sy'n cynnwys blaenoriaethau hyd at 2029/30.

**Beth sydd angen ei wella?**

Gwelliant	Cyfrifoldeb
<b>Byddwn yn:</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu Cynllun Asedau'r Cyngor er mwyn sicrhau fod y blaenoriaethau yn parhau i fod yn gyfredol yn sgil profiadau a datblygiadau'r blynyddoedd diwethaf.</li> </ul>	Prif Weithredwr

## 6. Rheoli Risg

Mae yna drefniadau cryf ar gyfer monitro ein cydymffurfiaeth â rhai mathau penodol o risgiau gweithredol. Lansiodd Cofrestr Risg Corfforaethol ar ei newydd wedd ym mis Mawrth 2021 ac mae'r system wedi profi i fod yn gyfleuster hwylus i ddefnyddwyr ym mhob Adran. Bellach mae'n llawer haws i wneud cysylltiad rhwng y risgiau wrth i Adrannau ystyried eu blaenoriaethau a nodi beth sydd angen ei wneud fel ymateb, ac mae hefyd yn cynorthwyo Aelodau i herio perfformiad a sicrhau fod y camau disgwylidig wedi cael eu cymryd i leihau'r risg.

Y Pennaeth Cyllid sydd i baratoi a hybu datganiad polisi a strategaeth rheoli risg yr awdurdod. Mae'r strategaeth i reoli risgiau wedi'i berchnogi ar lefel gorfforaethol drwy'r Grŵp Llywodraethu y cyfeirir tuag ato uchod a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gyfrifol am herio'r sgoriau risg llywodraethu. Bydd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn sicrhau bod trefn yn bodoli ar gyfer mesur effeithlonrwydd y broses rheoli risg, ac y bydd pob darganfyddiad a ddaw o'r drefn fonitro yn cael ei fwydo'n ôl i'r cylch rheoli risg

Wrth ddelio ag argyfwng Covid-19, nid oedd y Cyngor wedi cynllunio ar gyfer cyfnod clo cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd gwaith eisoes wedi ei wneud er mwyn categorio Gwasanaethau o 1 i 4 ar sail gwaith 'hanfodol'. Bu i hyn alluogi'r sefydliad flaenoriaethu gan sicrhau parhad gwasanaethau 'hanfodol' yn ôl ym mis Mawrth 2020. Mae'n bwysig cydnabod hefyd fod y gwersi sydd wedi eu dysgu wrth ddelio ag argyfwng Covid-19 wedi bod yn werthfawr mewn argyfyngau dilynol, e.e. y rhyfel yn Wcráin, gyda thîm penodol wedi ei sefydlu yn gyflym er mwyn cefnogi'r ffoaduriaid yng Ngwynedd.

Er bod y drefn a strategaethau rheoli risg i'r dyfodol yn gwella a chryfhau ar y cyfan, mae angen i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn bodloni eu hunain fod trefniadau yn eu lle i ddelio hefo risgiau mewn modd priodol.

### Beth sy'n dda?

- Cofrestr Risg Corfforaethol wedi ei lansio ar ei newydd wedd ym mis Mawrth 2021 ac mae'r system wedi profi i fod yn gyfleuster hwylus i ddefnyddiwr ym mhob adran.
- Gwersi â ddysgwyd o ddelio â argyfwng Covid-19 wedi bod yn werthfawr wrth ddelio â argyfyngau eraill, er enghraifft, rhyfel yn Wcráin.

### Beth sydd angen ei wella?

Gwelliant	Cyfrifoldeb
<b>Byddwn yn:</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu ein trefniadau er mwyn sicrhau fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gallu bodloni eu hunain fod trefniadau yn eu lle i ddelio hefo risgiau mewn modd priodol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pennaeth Cyllid/Grŵp Trefniadau Llywodraethu</li> </ul>

## 7. Rheoli Perfformiad

Ar ddechrau 2022/23 cyflwynwyd trefn newydd ar gyfer herio perfformiad y Cyngor. Yn unol â'r drefn newydd mae holl Adrannau'r Cyngor yn cynnal cyfarfod herio perfformiad mewnol pob yn ail fis, ac yn adrodd i'r Cabinet dwywaith y flwyddyn. Mae'r cyfarfodydd mewnol yn dod â'r Pennaeth Adran, Aelod Cabinet, Prif Weithredwyr neu Gyfarwyddwyr Corfforaethol a Rheolwyr Gwasanaeth at ei gilydd yn rheolaidd, ac mae cyfle i herio cynnydd prosiectau blaenoriaethau gwella a mesurau perfformiad gwasanaethau'r Adran (hynny yw, y gwaith dydd i ddydd).

Mae gan yr Aelodau rôl graidd o fewn y gyfundrefn perfformiad newydd. Yn ogystal ag Aelod Cabinet fydd yn mynychu pob cyfarfod perfformiad eu hadran, mae Aelod Cabinet cysgodol ac Aelodau o'r Pwyllgorau Craffu hefyd yn mynychu dau gyfarfod y flwyddyn, ac Arweinydd y Cyngor un waith er mwyn sicrhau trefn herio briodol ac adnabod os yw perfformiad angen ei wella. Fel nodwyd eisoes ym mhennod 1, mae hefyd trefn hefyd mewn lle i adolygu perfformiad prosiectau blaenoriaeth, gyda'r holl Aelodau Cabinet yn derbyn diweddariad cryno iawn tair gwaith y flwyddyn sy'n rhoi trosolwg o gynnydd holl brosiectau Cynllun y Cyngor.

Mae pryder ynghylch y gallu i ymateb i bryderon yn amserol, ac tra bod y materion sy'n codi yn derbyn sylw yn ganolog, efallai nad yw hyn mor wir ar lefel Adrannol. Mae'n wir hefyd fod rhai Adrannau wedi addasu i'r drefn ac wedi 'prynu mewn' ac addasu i'r newid yn gynt nag eraill. Mae'r Pennaethiaid, yr Aelodau Cabinet a Aelodau Craffu wedi derbyn canllaw yn egluro'r drefn perfformiad newydd ac bydd angen rhoi amser i'r holl Adrannau ac Aelodau addasu dros y misoedd nesaf.

Mae pob Aelod Cabinet yn adrodd i'r Cabinet dwywaith y flwyddyn yn gyhoeddus. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r adroddiadau herio perfformiad a data misol ar gael i drigolion Gwynedd. Mae [adroddiad diweddar Archwilio Cymru \(Ionawr 2021\)](#) ar ein trefniadau rheoli perfformiad yn nodi bod '....fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor yn datblygu'n dda er bod gweithredu'n amrywiol ar hyn o bryd, ac mae'n anodd llywio'r broses adrodd'.

Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at adroddiadau perfformiad niferus a hirfaith, sydd ddim yn cynnwys gwybodaeth bwysig ac felly yn ei gwneud yn anodd cael darlun cyfannol diduedd o berfformiad y Cyngor. Erbyn hyn mae camau wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad gan gynnwys cyflwyno templed a chanllaw i'w gylchredeg i bob Pennaeth Adran. Y gobaith yw bydd hyn yn symleiddio'r dogfennau herio perfformiad, ac yn ei gwneud yn bosib i drigolion bori drwy'r data mewn amser. Mae ein mesurau yn edrych ar ein perfformiad yn erbyn pwrpasau sydd wedi eu datblygu i adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i drigolion Gwynedd. O ganlyniad, ychydig o gymhariaeth a wneir hefo awdurdodau lleol eraill wrth edrych ar berfformiad Cyngor Gwynedd, oni bai fod yna werth gwirioneddol o wneud hynny.

Yn y gorffennol roedd Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs) yn cael eu cyhoeddi yn flynyddol er mwyn galluogi awdurdodau i feincnodi yn erbyn cyfres o fesurau allweddol ar

draws nifer o wahanol feysydd. Nid yw'r wybodaeth hyn wedi ei gasglu yn llawn (oherwydd y pandemig) er 2018/19 felly nid oes modd cymharu gyda awdurdodau eraill ar gyfer mesurau mewn nifer o feysydd.

Tra bod y Cyngor yn ymgysylltu â thrigolion ar ei benderfyniadau a'i flaenoriaethau (gwelir y bennod Ymgysylltu isod), ar hyn o bryd nid ydym yn ymgysylltu yn benodol ar berfformiad. Mae gwaith pellach ei angen ar y cyd â Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu y Cyngor er mwyn edrych ar sut y gallwn ymgynghori â rhan-ddeiliaid ar ein perfformiad, ond bydd angen bod yn wylidwrus rhag 'blinder ymgynghori' ('consultation fatigue') gan ein bod eisoes yn gofyn barn ein trigolion am nifer o bynciau a chynlluniau amrywiol.

Mae'r Drefn Gwynion Gorfforaethol yn parhau i weithio'n dda. Mae'r Swyddog Gwella Gwasanaeth yn sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o gwynion, ac yn osgoi ailadrodd camgymeriadau. Mae'r Gwasanaeth Cwynion a Gwella Gwasanaethau wedi gallu parhau i weithredu i ddelio â phryderon y cyhoedd ac i gefnogi gwasanaethau trwy gydol cyfnod y pandemig.

### Beth sy'n dda?

- Trefn newydd herio perfformiad yn ei le ar gyfer 2022/23, sydd ymhen amser yn gobeithio sicrhau trefn fwy tryloyw a dealladwy.
- Rôl Aelodau o fewn y cyfundrefn Perfformiad wedi ei amlygu ac mae canllawiau cyfredol wedi eu cylchredeg â Aelodau Cabinet ac Aelodau Craffu.

### Beth sydd angen ei wella?

Gwelliant	Cyfrifoldeb
<b>Byddwn yn:</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithredu ar y camau sydd eisoes wedi eu rhoi yn eu lle mewn ymateb i archwiliad o drefniadau herio perfformiad a wnaed gan Archwilio Cymru yn ystod 2021/22 a pharhau i edrych ar lwyddiant y trefniadau hynny gan adolygu os oes angen.</li> </ul>	Tîm Arweinyddiaeth/ Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu a gwella ein trefniadau adrodd i'r cyhoedd ar berfformiad ein gwasanaethau.</li> </ul>	Pob Adran/Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor



## 8. Ymgysylltu

### Pobl Gwynedd

Mae ystod o weithdrefnau ymgysylltu corfforaethol wedi eu cynnal i sicrhau fod y Cyngor yn derbyn barn y cyhoedd ar ei flaenoriaethau ac ar benderfyniadau arwyddocaol. Yn ystod 2021/22 fe dderbyniwyd tua 8,000 o ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus y Cyngor ar bynciau amrywiol.

Un o brif ymgynghoriadau corfforaethol 2021/22 – 2022/23 oedd Ardal Ni 2035, sef yr ymgysylltiad ynghlwm â'r gwaith Fframwaith Adfywio a gwaith ymgysylltu adrannol fel y Strategaeth Dai. Bwriad yr ymarferiad oedd cyd-weithio gyda thrigolion, grwpiau a sefydliadau er mwyn helpu cymunedau i adnabod y blaenoriaethau hynny fydd angen sylw dros y 10-15 mlynedd nesaf a chreu a gwireddu cynlluniau adfywio cymunedol. Ar gyfer y gwaith yma rhannwyd Gwynedd yn 13 ardal adfywio lai er mwyn cynnal sgysiau ar lefel lleol iawn. Cynhaliwyd yr ymarferiad mewn dau ran:

1. Medi – Rhagfyr 2021: Cynnal cyfweiliadau dros y ffôn neu gyfarfodydd yn rhithiol drwy Microsoft Teams gyda 157 o grwpiau a mentrau cymunedol, Cynghorwyr a Chynghorau Cymuned, Tref a Dinas. Bwriad hyn oedd casglu data ansoddol a negeseuon cychwynnol sydd o bwys i gymunedau Gwynedd.
2. Chwefror - Mehefin 2022: Ymgysylltu ehangach gyda thrigolion Gwynedd, drwy arbrofi dashfwrdd ar “Dweud eich Dweud Gwynedd ” yn defnyddio'r feddalwedd Engagement HQ. Trefnwyd hefyd i sicrhau fod yr ymarferiadau ymgysylltu yn cyrraedd grwpiau a charfannau megis pobl ifanc, pobl LGBT+, pobl hŷn ac oedolion gydag anabledau dysgu.

Ymatebodd dros 3,000 o bobl i'r ymarferiad a dros y misoedd nesaf bydd y Cyngor yn cyd-weithio efo cymunedau er mwyn creu 13 Cynllun Ardal unigol. Mae'r gwaith hefyd wedi bwydo mewn i Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, ac yn sail bwysig i'r Cynllun Llesiant newydd fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2023.

Mae gan y Cyngor hefyd Banel Trigolion er mwyn sicrhau cynrychiolaeth o drawstoriad o drigolion Gwynedd, a bod eu llais yn ganolog wrth i'r Cyngor gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau lleol i'r dyfodol.

Y Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu sy'n arwain ar ymarferiadau ymgysylltu corfforaethol ac maent hefyd yn cefnogi gwasanaethau unigol i ymgysylltu yn y dull mwyaf addas.

### Staff

Mae'n bwysig fod y Cyngor yn ymwybodol o beth yw barn ei staff ac yn rhoi cyfle iddynt ddarparu adborth ar sut gyflogwr yw'r sefydliad. I'r perwyl hyn mae Holiaduron Llais Staff yn cael ei gylchredeg i sampl o 25% o staff ymhob adran yn rheolaidd. Mae'r arolwg yn gofyn

am sgôr o 1 i 5 fesul datganiad ac felly mae modd 'tracio' atebion o gylch i gylch. Bu rhaid oedi'r gwaith dros gyfnod Covid-19, ond mae bellach modd cymharu arolwg a gynhaliwyd yn 2019 â chanlyniadau 2021. Mae'r arolwg yn holi am feysydd yn gysylltiedig â'i swydd, eu gwasanaeth a hefyd y Cyngor fel sefydliad. Mae'n edrych ar faterion fel gwerthuso parhaus, cefnogaeth rheolwyr, pwysau gwaith ag adnoddau sydd ei angen er mwyn cyflawni swydd. Mae'r arolwg yn gwbl ddi-enw ac mae canlyniadau yn cael ei rannu fesul Adran efo'r Penaethiaid, fel bod cyfle iddynt ymateb i'r prif negeseuon neu unrhyw her penodol sy'n perthyn i'r Adran. Mae'r canlyniadau hefyd yn cael ei rannu â'r gweithlu gyfan drwy'r fewnwyd, y bwletin wythnosol a hunanwasanaeth staff.

Yn ychwanegol i'r arolwg corfforaethol, mae rhai adrannau wedi ymgymryd â gwaith pellach er mwyn canfod barn staff yn rheolaidd. Mae'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Adran YGC wedi derbyn achrediad 'Buddsoddwyr Mewn Pobl' yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac ym mis Hydref 2021, cafodd yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ei ddyfarnu ar lefel Safon Aur ar gyfer yr Asesiad Iechyd a Llesiant Buddsoddwyr Mewn Pobl. Mae hefyd gwaith pellach wedi ei wneud yn fewnol gan yr Adran Amgylchedd ac Adran Oedolion er mwyn sicrhau fod staff yn cael y cyfle i ddarparu adborth neu roi mewnbwn ar faterion iechyd a llesiant.

Mae'r Cyngor yn cydnabod fod her ychwanegol wrth ymgysylltu a chyfathrebu â staff rheng flaen fel gofawyr neu weithwyr gwastraff. Cyn cyfnod Covid-19 roedd y Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn cyd-weithio â Gwasanaeth Dysgu a Datblygu er mwyn cynnal 'roadshows' mewn lleoliadau fel depos Canolfannau Gwastraff, er mwyn darparu gwybodaeth i staff a rhoi cyfle iddynt ddweud eu dweud. Er bod ymdrech ddiweddar i wneud hyn yn rhithiol gyda'r Adran Cefnffyrdd, mae wedi bod yn anodd ymgysylltu wyneb yn wyneb â staff rheng flaen dros gyfnod Covid-19.

### **Rhanddeiliaid**

Mae gan y Cyngor sawl rhanddeiliad a phartneriaid y mae'n gweithio â hwy yn rheolaidd. Mae parodrwydd cyrff sector gyhoeddus, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, cynghorau unedol eraill cyfagos, yr Heddlu, Y Bwrdd Iechyd, y trydydd sector ac eraill i gydweithredu er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd yn gallu cael effaith sylweddol, weladwy i Bobl Gwynedd.

Mae'r Cyngor yn ymgysylltu â sawl partner drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae gwaith yn digwydd er mwyn creu Cynllun Llesiant newydd, ac mae'r berthynas rhwng y sefydliadau wedi aeddfedu dros y pum mlynedd ers sefydlu'r Bwrdd yn dilyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae perthynas y Cyngor gyda'r Trydydd Sector hefyd yn parhau i esblygu. Mae'r Grŵp Cyswllt Trydydd Sector yn fforwm i wneud y mwyaf o'r cysylltiadau allweddol er mwyn ymgysylltu â'r mudiadau sirol, ac yn sicrhau bod y berthynas honno i uchafu'r budd sy'n gallu deillio o hynny i bobl Gwynedd.

## Undebau Llafur

Mae gan y Cyngor drefniadau ymgysylltu cyson a'r undebau llafur cydnabyddedig. Mae yna gyfarfod ar y cyd rhwng swyddogion adnoddau dynol, iechyd a diogelwch a swyddogion y dair undeb Unsain, GMB ac Unite yn fisol, lle mae cyfle i rannu gwybodaeth a thrafod materion cyflogaeth corfforaethol, ac unrhyw benderfyniadau corfforaethol all ddylanwadu ar weithwyr y sefydliad. Mae yna gyfarfod misol hefyd rhwng swyddog o bob undeb a'r rheolwr adnoddau dynol, pan fo cyfle i drafod materion sy'n berthnasol i'r undeb unigol yn unig. Ar ben hynny, cynhelir cyfarfod blynyddol rhwng swyddogion undeb, swyddogion y Cyngor a phwyllgor o aelodau etholedig, pan fod cyfle i drin a thrafod yr heriau lefel uchel sydd yn wynebu'r Cyngor fel cyflogwr. Gelwir y pwyllgor hwn yn Gyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol.

Mae'r undebau yn gefnogol i'r trefniadau hyn ac nid ydynt wedi lleisio unrhyw bryder am ddiffygion yn ngallu'r Cyngor i rannu gwybodaeth yn hynny o beth.

### **Beth sy'n dda?**

- Yn ystod 2021/22 cynhaliwyd gwaith ymgysylltu Ardal Ni 2035 i edrych ar flaenoriaethau trigolion y Sir ar gyfer y dyfodol gan wneud hynny mewn modd cydlynol gyda'r bwriad o osgoi dyblygu gwaith. Mae canlyniadau'r gwaith hyn wedi ei ddefnyddio i lywio blaenoriaethau i'r dyfodol mewn nifer o feysydd megis Tai, Oedolion a Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac hefyd wedi bwydo i mewn i'r gwaith o ddatblygu Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau ar gyfer Gwynedd a Môn.
- Trefniadau effeithiol yn eu lle er mwyn ymgysylltu hefo gwahanol garfannau.

### **Beth sydd angen ei wella?**

Gwelliant	Cyfrifoldeb
<b>Byddwn yn:</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu ein trefniadau ymgysylltu er mwyn sicrhau ein bod yn derbyn mewnbyn cyson gan wahanol garfannau ar faterion perfformiad a llywodraethu.</li> </ul>	Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu/Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>22 Tachwedd 2022</b>
<b>Aelod Cabinet:</b>	<b>Y Cyngorydd Menna Jones</b>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	<b>Annes Sion – Arweinydd Tîm Democratiaeth</b>
<b>Rhif Ffôn Cyswllt:</b>	<b>01286 679490</b>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Cynllun Deisebau</b>

#### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Cymeradwyo Cynllun Deisebau ac argymhell i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu.

#### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae Rhan 3 o Ddeddf Llywdoraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn nodi'r angen i Awdurdodau Lleol fabwysiadu Cynllun Deisebau. Gofynnir i'r Cabinet ei gymeradwyo a'i argymhell i'r Cyngor Llawn.

#### 3 CYFLWYNIAD

Gosodir gofyn statudol i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Deisebau sydd yn yn nodi sut fydd yn Cyngor yn ymdrin a deisebau.

Rhaid i'r Cynllun nodi:

- Sut i gyflwyno desieb
- Sut ac erbyn pryd y cydnabyddir derbyn y ddeiseb
- Camau y egellir eu cymeryd mewn ymaten
- Amgylchiadau pan allai'r CYngro beidio a chymryd unrhyw gamau pellach mewn ymateb
- Sut ac erbyn pryd bydd y Cyngor yn sicrhau fod ymateb i'r ddeiseb ar gael.

Mae deisebu yn un ffordd y gall unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, drwy godi materion sy'n peri pryder i'r cyhoedd gyda'r Cyngor a chaniatáu i Aelodau Etholedig ystyried yr angen am newid.

Mae'r Cynllun hwn yn gosod y camau fydd y Cyngor ei gymryd pan yn derbyn deiseb gan y unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau. Mae'n gosod trefn

mewn lle sydd yn cyfarch y gofyn yn y ddeddf , amlygu sut i fynd ati i gyflwyno deiseb a'r hyn y gellir ei ddsigwyl mewn ymateb.

Amlinellir beth yw'r gofynion o ran cyflwyno deiseb ddilys gan amlygu pwy all arwyddo y ddeiseb a sut y bydd y Cyngor yn cadarnhau deiseb ddilys. Bydd deisebau dilys fydd yn cael eu derbyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor gan gynnwys y camu gweithredu fydd i ddilyn.

Amlygir fod gofynnion cyfreithiol a statudol yn o gylch ymgynghori neu gyfnodau ymateb statudol yn weithredol mewn ambell faes penodol, megis Ail Strwythuro Ysgolion a'r maes Cynllunio a pwysleisir na fydd deiseb yn cael ei derbyn y tu allan i'r trefniadau statudol hynny.

#### **4. Deddf Cydraddoldeb 2010**

Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol dan Deddf Cydraddoldeb 2010 yma, wrth wneud penderfyniadau, mae rhaid dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchoddedig. Gan fod Cynllun Deisebau yn disgyn o fewn penderfyniadau all eu hystyried yn strategol, mae'r dyletswydd i roi sylw dyledus i weithredu mewn modd sydd wedi ei ddylunio i leihau anghydraddoldebau sydd yn deillio o anfantais "socio economaidd." Mae asesiad ardrawiad atodedig yn cadarnhau nad oes ardrawiadau penodol fyddai yn cefnogi gwyro oddi wrth yr argymhelliad.

#### **5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ( Cymru) 2015.**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd , amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Gan ddal sylw at y cyd destun, mae'r argymhellion yn gydnaws â'r dyletswyddau yma.

#### **6. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

Bydd y Cyngor yn trafod ac yn derbyn, neu beidio, yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr 2022. Pan fydd yr Cynllun terfynol wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor bydd yn cael ei gyhoeddi ar y wefan.

#### **7. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

Sylwadau'r Swyddogion Statudol

Swyddog Monitro:

Mae'r argymhelliad yn cynnyrch gwaith Tim Prosiect yr wyf yn aelod ohono. Rwy'n fodlon a phriodoldeb yr argymhellion a chadarnhau y cyd -destun Cyfreithiol.

Pennaeth Adran Gyllid:

Mae cyflwyno Cynllun Deiseb yn un o'r gofynion newydd sydd wedi ei roi ar y Cyngor gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rwyf yn fodlon nad oes ymrwymiad ariannol yn deillio'n uniongyrchol o'r penderfyniad a geisir a nid oes gennyf wrthwynebiad iddo

Atodiadau:

Atodiad 1 – Cynllun Deisebau

Atodiad 2 – Aseiad Cydraddoldeb

# Cynllun Deisebau

## Trosolwg

Mae deisebu yn un ffordd y gall unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, drwy godi materion sy'n peri pryder i'r cyhoedd gyda'r Cyngor a chaniatáu i Aelodau Etholedig ystyried yr angen am newid.

Gall deisebau gael canlyniadau cadarnhaol sy'n arwain at newid neu'n llywio trafodaeth.

Cyn ystyried a ddylid codi deiseb a'i peidio, awgrymir i chi drafod y mater gyda'ch Cynghorydd Lleol a allai eich cynorthwyo gyda'r mater neu egluro sut i gyflwyno sylwadau ar bwnc penodol i'r person cywir o fewn y Cyngor.

## Pwy all godi deiseb?

Gall unrhyw un sy'n byw, yn gweithio, yn berchen ar fusnes, yn berchnogion tir / trethdalwr neu astudio yng Ngwynedd lofnodi neu gyflwyno deiseb, gan gynnwys y rhai dros 16 oed. Gall unrhyw un sy'n byw yn ardal Cyngor cyfagos hefyd lofnodi neu gyflwyno deiseb OS oes rheswm rhesymol i bwnc y ddeiseb fod yn effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Gellir cyflwyno deisebau ar bapur neu'n electronig gan ddefnyddio system ddeisebu ar-lein sy'n bodloni gofynion deiseb ddilys, neu gyfuniad o'r ddau.

## Ystyried Deiseb

Gall deiseb gael ei hystyried mewn cyfarfod o'r Cyngor, y Cabinet, neu gan yr aelod perthnasol o'r Cabinet neu gan bwyllgor Craffu os yw pwnc y ddeiseb yn ymwneud â rôl benodol y pwyllgor hwnnw.

Noder fod trefniadau statudol yn bodoli mewn ambell i faes penodol (e.e. Ail Strwythuro Ysgolion a Maes Cynllunio). Ni dderbynnir deiseb y tu allan i'r trefniadau statudol hynny.

Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democratiaeth â'r Swyddog Monitro yn ystyried y deisebau a gyflwynir ac yn penderfynu a yw'r ddeiseb yn dderbyniol yn seiliedig ar y meini prawf canlynol ar gyfer deiseb ddilys, gan gynghori ar y corff priodol i'w ystyried. Bydd angen derbyn cadarnhad bod y ddeiseb yn ddilys cyn iddo gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## Gofynion Deiseb Ddilys.

Prif Ddeisebydd

Mae pob deiseb yn ei gwneud yn ofynnol i ddeisebydd arweiniol gael ei nodi a fydd yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer y ddeiseb. Dyma'r gofynion sy'n angenrheidiol ar gyfer prif ddeisebydd:

1. Gall enw'r prif ddeisebydd fod yn unigolyn sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio o fewn Gwynedd, yn berchnogion tir / trethdalwr neu'n sefydliad sydd wedi'i leoli yng Gwynedd.
2. Rhaid i'r prif ddeisebydd nodi cyfeiriad cartref / gwaith / sefydliad yn llawn ynghyd â chyfeiriad e-bost neu wybodaeth gyswllt y gellir anfon unrhyw ohebiaeth sy'n ymwneud â'r ddeiseb ati.

## Y Ddeiseb

Bydd y Cyngor yn ystyried pob deiseb gyda mwy na 100 o lofnodwyr sy'n dod o fewn cwrpas y Cynllun hwn. Gall y Cyngor yn defnyddio'i ddisgresiwn lle ceir llai na 100 o lofnodwyr mewn achosion lle ceir cefnogaeth leol glir ar gyfer gweithredu (e.e. lle mae trigolion cymuned fach wedi deisebu ar gyfer mesurau arafu traffig).

Gellir cyflwyno deisebau i'r Cyngor neu un o'i bwyllgorau naill ai ar bapur neu'n electronig, gyda gofynion cyffredinol y Cynllun yn berthnasol i bapur ac e-ddeisebau. Rhaid i'r ddeiseb:

1. cynnwys datganiad clir, byr sy'n ymdrin â phwnc y ddeiseb. Caiff y ddeiseb ei dychwelyd os yw'n aneglur;
2. Rhaid i'r ddeisebau fod ymwneud â mater sydd dan gyfrifoldeb y Cyngor.
3. galw ar Gyngor Gwynedd i gymryd camau penodol, er enghraifft: "Rydym yn galw ar Gyngor Gwynedd i..." neu "Rydym yn galw ar y Cabinet i ..." Rhaid ei ailadrodd ar bob tudalen o ddeiseb ar bapur.
4. darparu enwau a chyfeiriadau post y rhai sy'n llofnodi'r ddeiseb, gan gynnwys codau post.
5. Dangosir templed deiseb a awgrymir yn Atodiad A (Dolen yn agor mewn ffenestr newydd)

Ni ddylai deisebau gynnwys:

1. iaith sy'n sarhaus, yn ddirmygus neu'n bryfoclyd. Mae hyn nid yn unig yn cynnwys rhegfeydd a sarhad amlwg, ond unrhyw iaith y byddai person rhesymol yn ei hystyried yn sarhaus.
2. Datganiadau a allai fod yn ffug neu a allai fod yn ddifenwol.
3. Gwybodaeth sydd wedi'i gwahardd rhag cael ei chyhoeddi gan orchymyn llys neu gorff neu berson sydd â phŵer tebyg.



4. Deunydd a allai fod yn gyfrinachol, yn fasnachol sensitif, neu a allai achosi trallod neu golled bersonol.
5. Unrhyw gymeradwyaeth fasnachol, hyrwyddo unrhyw gynnyrch, gwasanaeth neu gyhoeddiad neu ddatganiadau sy'n gyfystyr â hysbysebion.
6. Enwau unigolion.
7. Materion nad deiseb yw'r sianel briodol ar eu cyfer (er enghraifft, gohebiaeth am fater personol neu fater sy'n destun achos llys).
8. Deisebau ar faterion sydd eisoes yn destun penderfyniad gan Ombwdsmon (neu berson sydd â phwerau tebyg)
9. Deisebau sydd yn eu hanfod yn geisiadau rhyddid gwybodaeth, sylwadau, canmoliaethau neu gwynion, a fydd yn cael eu trosglwyddo i'r adran briodol am ymateb addas.
10. Bydd deisebau sy'n codi materion sy'n ymwneud â chamymddwyn posibl gan gynghorwyr neu weithwyr llywodraeth leol yn cael eu cymryd fel cwynion sy'n codi o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a chânt eu hadrodd i'r Swyddog Monitro yn hytrach na'u hystyried o dan y cynllun deiseb hwn.
11. Ni ddibynnir y ddeiseb os yw'n sylweddol debyg i ddeiseb a gyflwynwyd i un o Bwyllgorau'r Cyngor yn ystod y chwe mis diwethaf.
12. Os yw deiseb ynglŷn a mater sydd yn destun ymgynghoriad neu gyfnod ymateb statudol yna ymdrinnir a'r ddeiseb yn unol a'r trefniadau a'r amserlen sydd wedi ei ddynodi ar gyfer y broses.

## Llofnodwyr Deisebau

Llofnodwr priodol yw unigolyn sy'n byw, yn gweithio, yn berchen ar fusnes neu'n astudio yng Ngwynedd; yn berchnogion tir / trethdalwr neu sy'n byw yn ardal sir cyfagos ac y gellid disgwyl yn rhesymol iddo/iddi gael eu effeithio gan bwnc y ddeiseb.

Dim ond unwaith y gall unigolyn lofnodi deiseb. Rhaid i bobl beidio â llofnodi deiseb ar-lein ac un ar bapur, a gellir dileu dyblygu os canfyddir bod deisebydd wedi llofnodi ddwywaith.

## Cyflwyno Deiseb

Rhaid i ddeisebau papur neu electronig, sydd i'w hystyried gan y Cyngor gael eu cyflwyno i:

Gwasanaethau Democratiaeth  
Cyngor Gwynedd  
Stryd y Jêl  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 1SH

Neu'n electronig i: [GwasanaethauDemocratiaeth@gwynedd.llyw.cymru](mailto:GwasanaethauDemocratiaeth@gwynedd.llyw.cymru)

## Sut ac erbyn pryd y bydd y Cyngor yn cydnabod derbyn deiseb

Bydd derbyn neu hysbysu am ddeiseb bapur, neu gyflwyno deiseb electronig i'r Gwasanaethau Democratiaeth, yn cael ei gydnabod o fewn 5 diwrnod gwaith ar yr amod bod manylion cyswllt y prif ddeisebydd yn cael eu darparu ar yr un pryd.

## Cadarnhau Deiseb Ddilys

Bydd gwiriadau cychwynnol i gadarnhau bod deiseb a gyflwynir yn bodloni gofynion y Cynllun yn cael ei gynnal gan y Swyddog Monitro a Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth.

Os derbynnir nifer o ddeisebau ar bwnc tebyg gyda chanlyniadau dymunol tebyg, dim ond un prif ddeisebydd fydd yn gallu cyflwyno ei ddeiseb i'r Cyngor. Bydd y Prif ddeisebydd ar gyfer pob deiseb yn cael ei hysbysu gan y Gwasanaethau Democratiaeth, a gofynnir iddynt gysylltu â'i gilydd er mwyn ystyried opsiynau i gyfuno deisebau a phenderfynu pa ddeisebydd arweiniol fydd yn cyflwyno'r ddeiseb i'r Cyngor. Os na cheir cytundeb, bydd gan y deisebydd sydd â'r nifer fwyaf o lofnodion yr hawl i gyflwyno'r ddeiseb i'r Cyngor.

Bydd unrhyw bryderon ynghylch dilysrwydd y ddeiseb yn cael eu codi gyda'r Swyddog Monitro cyn annilysu unrhyw ddeiseb.

Os yw eich deiseb yn annilys, bydd y prif ddeisebydd yn cael gwybod o fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn y ddeiseb.

## Y camau y gall y Cyngor eu cymryd mewn ymateb i ddeiseb a dderbyniwyd.

Derbynnir deisebau dros e-bost neu drwy law ac fel cam cyntaf byddant yn cael ei gwrio ac os yn dderbyniol bydd yn cael arddangos ar wefan y Cyngor am gyfnod o 2 fis.

Bydd angen i'r ddeiseb dderbyn dros 100 llofnod cyn cael ei dderbyn gan y Cyngor. Gall y Cyngor ddefnyddio'i ddisgresiwn lle ceir llai na 100 o lofnodwyr mewn natur testun y ddeiseb yn cyfiawnhau derbyn rhif is a fod nifer y llofnodwyr yn gymesurol i'r gymuned dan sylw (e.e. lle mae trigolion cymuned fach wedi deisebu ar gyfer mesurau arafu traffig). Bydd pob deiseb sydd ar wefan y Cyngor yn agored am gyfnod a bennir gan y Prif Ddeisebydd, ond dim mwy na 2 fis.

Os yn ddilys bydd y ddeiseb yn cael hanfon ymlaen i'r Aelod Cabinet gyda copi yn mynd i'r Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Perthnasol.

Yn dilyn trafodaeth ac ymgynghoriad rhwng yr Aelod Cabinet, Cadeirydd Craffu, Swyddog Monitro a Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth bydd yr Aelod Cabinet yn llunio ymateb i'r ddeiseb o fewn 20 diwrnod gwaith a fydd yn nodi'r camau gweithredu sef:

1. Ymateb gan yr aelod perthnasol o'r Cabinet
2. Adroddiad i'r Cabinet,
3. Adroddiad i bwyllgor Craffu perthnasol
4. Adroddiad i'r Cyngor Llawn

Bydd y camau gweithredu yn cael ei nodi ar y wefan yn ogystal o fewn 5 diwrnod gwaith i'r ymatebiad gael ei anfon i'r Prif Ddeisebydd.

## Eithriadau

Yn y cyfnod yn union cyn etholiad neu refferendwm, efallai y bydd angen i ni ddelio â'ch deiseb yn wahanol. Os felly, byddwn yn esbonio'r rhesymau ac yn trafod unrhyw amserlen ddiwygiedig a allai fod yn berthnasol.

## Dewisiadau amgen i Ddeisebau

Ar ôl darllen y Cynllun Deisebau, efallai y bydd unigolyn neu sefydliad o'r farn nad deiseb yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r canlyniad a ddymunir gennych. Mae'r opsiynau amgen i alluogi aelodau'r cyhoedd i ddweud eu dweud yn cynnwys:

- a. Ysgrifennu at yr Aelod Cabinet neu'r Uwch Swyddog Priodol
- b. Cysylltu â'ch Cynghorydd lleol
- c. Ymateb i ymgynghoriad
- d. Codi eich pryderon gyda'r gwasanaeth Craffu
- e. Gwneud awgrym drwy wefan y Cyngor
- f. Gofyn cwestiwn yn y Cyngor.

## Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR

Bydd yr holl ddata personol yn cael ei drin yn unol â deddfau diogelu data a'n Polisi Preifatrwydd. Byddwn yn cadw copi caled a gwybodaeth electronig am ddeisebau am 12 mis ac ar ôl hynny caiff ei dinistrio'n ddiogel.

## TEMPLED DEISEB PAPUR A AWGRYMIR – CYNGOR GWYNEDD

MANYLION Y PRIF DDEISEBYDD:	
Enw:	
Cyfeiriad Post Llawn:	
Cyfeiriad e-bost:	
Rhif Ffôn (dewisol)	
Oedran	Gallaf gadarnhau fy mod yn 16 oed neu hyn <input type="checkbox"/>

MANYLION Y DDEISEB:	
Datganiad clir, byr sy'n ymdrin â phwnc y ddeiseb. Caiff y ddeiseb ei dychwelyd os yw'n aneglur;	
Yn galw ar Gyngor Gwynedd i gymryd camau penodol, er enghraifft: "Rydym yn galw ar Gyngor Gwynedd i..."	<p><i>Rydym yn galw ar...</i></p> <p>*Nodwch: bydd angen ailadrodd y frawddeg ar bob tudalen o ddeiseb bapur*</p>

**LLOFNODWYR Y DDEISEB**

Rydym yn galw ar.....(wedi'i gopïo o fanylion y ddeiseb)

<b>Nifer</b>	<b>Enw</b>	<b>Cyfeiriad Post Llawn</b>	<b>Cod Post</b>	<b>Llofnod</b>
1.				
2.				
3.				
4.				
5.				
6.				
7.				
8.				
9.				
10.				
11.				
12.				
13.				
14.				
15.				
16.				
17.				
18.				
19.				
20.				

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu [DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru](mailto:DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru), am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

## I Manylion

### I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cynllun Deisebau.

Mae Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau fabwysiadu Cynllun Deisebau.

### I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Gosodir gofyn statudol i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Deisebau sydd yn ynodi sut fydd yn Cyngor yn ymdrin â deisebau.

Rhaid i'r Cynllun nodi:

1. Sut i gyflwyno deiseb
2. Sut ac erbyn pryd y cydnabyddir derbyn y ddeiseb
3. Camau y gellir eu cymryd mewn ymateb
4. Amgylchiadau pan allai'r Cyngor beidio a chymryd unrhyw gamau pellach mewn ymateb
5. Sut ac erbyn pryd bydd y Cyngor yn sicrhau fod ymateb i'r ddeiseb ar gael.

Mae deisebu yn un ffordd y gall unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, drwy godi materion sy'n peri pryder i'r cyhoedd gyda'r Cyngor a chaniatáu i Aelodau Etholedig ystyried yr angen am newid.

Mae'r Cynllun hwn yn gosod y camau fydd y Cyngor ei gymryd pan yn derbyn deiseb gan y unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau. Mae'n gosod trefn mewn lle sydd yn

cyfarch y gofyn yn y ddeddf , amlygu sut i fynd ati i gyflwyno deiseb a'r hyn y gellir ei ddisgwyl mewn ymateb.

Amlinellir beth yw'r gofynion o ran cyflwyno deiseb ddilys gan amlygu pwy all arwyddo y ddeiseb a sut y bydd y Cyngor yn cadarnhau deiseb ddilys. Bydd deisebau dilys fydd yn cael eu derbyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor gan gynnwys y camu gweithredu fydd i ddilyn.

Amlygir fod gofynion cyfreithiol a statudol yn o gylch ymgynghori neu gyfnodau ymateb statudol yn weithredol mewn ambell faes penodol, megis Ail Strwythuro Ysgolion a'r maes Cynllunio a pwysleisir na fydd deiseb yn cael ei derbyn y tu allan i'r trefniadau statudol hynny

### **1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?**

Annes Sion, Arweinydd Tîm Democratiaeth - ar ran Bwrdd Gweithredol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

### **1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?**

Dyma'r asesiad cyntaf wrth greu drafft cyntaf y Cynllun Deisebau.

## **2) Gweithredu**

### **2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

Cynghorwyr a Staff

### **2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig?**

Nid oes camau penodol wedi eu cymryd i ymgysylltu gyda phobl gyda nodweddion gwarchoddedig, gan fod y Cynllun Deisebau yn agored i unrhyw un sydd dros 16 ac sy'n byw, yn gweithio, yn berchen ar fusnes yn berchnogion tir / trethdalwr neu astudio yng Ngwynedd.

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Dim l'w nodi.

### 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Gweithredir yn unol â gofynion y Ddeddf.

### 2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Gan mai amlygu trefniadau'r Cyngor o'r ran y broses ar trefniadau yn dilyn cyflwyno deiseb sydd dan sylw, nid oes unrhyw fylchau ar hyn o bryd.

Mater y Prif Ddeisebydd fydd hygyrchedd y ddeiseb.

## 3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi neu wasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl efo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	dim	Dim effaith wedi ei adnabod.
Yr iaith Gymraeg	Positif	Rydym yn galluogi ac yn annog unigolion sy'n dymuno cyflwyno deiseb i wneud hynny drwy'r Gymraeg neu'r Saesneg.
Anabledd	Positif / negyddol /	Positif – mae'n rhoi cyfle i drigolion Gwynedd (fel a nodwyd uchod) i gyflwyno deiseb er sylw'r Cyngor, o fewn y cyfyngiadau ar gyfer cyflwyno deiseb.  Negyddol – gall greu rhwystredigaeth i rai trigolion petai'r ddeiseb ddim yn cael ei derbyn.



		.
<b>Rhyw</b>	dim	Dim effaith wedi ei adnabod.
<b>Oedran</b>	dim	Dim effaith wedi ei adnabod.
<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>	dim	Dim effaith wedi ei adnabod.
<b>Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)</b>	dim	Dim effaith wedi ei adnabod.
<b>Ailbennu rhywedd</b>	dim	Dim effaith wedi ei adnabod.
<b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b>	dim	Dim effaith wedi ei adnabod.
<b>Priodas a phartneriaeth sifil</b>	dim	Dim effaith wedi ei adnabod.

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

<b>Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb</b>	<b>A yw'n cael effaith?*</b>	<b>Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?</b>
<b>Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth</b>	Nac ydi	
<b>Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal</b>	Ydi	Cyfle i unrhyw unigolyn godi materion o bwys gyda'r Cyngor.

<b>Meithrin perthnasau da</b>	Ydi	Ydi, fel uchod
-------------------------------	-----	----------------

#### 4) Dadansoddi'r canlyniadau

##### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Gweler yr effaith bositif wedi ei amlinellu uchod trwy roi cyfle cyfartal i bawb i gyflwyno deiseb (o fewn cyfyngiadau'r cynllun).

##### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol dan Deddf Cydraddoldeb 2010 yma, wrth wneud penderfyniadau, mae rhaid dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchoddedig. Gan fod y Cynllun Deisebau yn disgyn o fewn penderfyniadau all eu hystyried yn strategol, mae'r dyletswydd i roi sylw dyledus i weithredu mewn modd sydd wedi ei ddylunio i leihau anghydraddoldebau sydd yn deillio o anfantais "socio economaidd." Mae asesiad yn cadarnhau nad oes ardrawiadau penodol fyddai yn cefnogi gwyro oddi wrth yr argymhelliad

##### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	√
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	

##### 4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Byddwn yn adolygu'r gwaith 12 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Deisebau.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Byddwn yn adolygu'r gwaith 12 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Deisebau.

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>22 Tachwed 2022</b>
<b>Aelod Cabinet:</b>	<b>Y Cyngorydd Dilwyn Morgan</b>
<b>Swyddog Cyswilt:</b>	<b>Dylan Owen, Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol</b>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2021/2022</b>

#### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1. Gofynnir i'r Cabinet nodi'r gwaith a'r cynnydd a wnaed yn 2021/2022 yn y meysydd gwaith sy'n cael eu dwyn ymlaen yn rhanbarthol trwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

#### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1 Pwrpas Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yw darparu gwybodaeth i bartneriaid mewn perthynas â'i weithgareddau yn ystod 2021/22. Mae'r adroddiad yn dangos y cynnydd a wnaed o fewn ffrydiau gwaith y Bwrdd yn ystod y flwyddyn.
- 2.2 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gofyn bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei waith ac yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

#### 3. CYFLWYNIAD

- 3.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar gwblhau'r Adroddiad Blynyddol bob blwyddyn. Felly mae Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn mynd i'r afael â'r wybodaeth sydd ei angen gan Lywodraeth Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar waith y Bwrdd ar gael ar <https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/>. Mae adroddiad Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cael ei ysgrifennu mewn fformat sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen.
- 3.2 Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw'r Bwrdd a sefydlwyd i fodloni gofynion Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad â'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion ag anghenion am ofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Mae'n gosod dyletswydd ar

partneriaid perthnasol i gydweithredu, a darparu gwybodaeth i'r awdurdodau lleol at ddibenion eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

- 3.3 Mae Rhan 9 o'r Ddeddf hefyd yn cynnwys trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gyflawni eu swyddogaethau. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Llywodraeth Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â threfniadau partneriaeth ffurfiol, adnoddau ar gyfer trefniadau partneriaeth (gan gynnwys cronfeydd cyfunol) a byrddau partneriaeth.
- 3.4 Diben Rhan 9 y Ddeddf yw gwella canlyniadau a lles pobl, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ddarparu gwasanaethau. Felly, gellir disgrifio amcanion allweddol cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:
- Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth
  - Gwella canlyniadau ac iechyd a lles
  - Darparu gofal a chymorth cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
  - Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd.
- 3.5 Mae Llywodraeth Cymru yn dyfarnu cyllid grant rhanbarthol trwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol e.e. y Gronfa Gofal Integredig, Grantiau Darparu Trawsnewid. Mae partneriaid yn cytuno ar ddefnydd y grantiau er mwyn ddarparu ei raglenni.
- 3.6 Disgwylir y bydd gweithio mewn partneriaeth ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn helpu i gefnogi cymunedau gwydn a hefyd yn sicrhau gwasanaeth di-dor ar gyfer unigolion sydd angen gofal a chefnogaeth.

#### **4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

- 4.1 Dim i'w nodi.

#### **5. Barn y Swyddogion Statudol:**

**i) Y Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yn cyfarch y gofyn cyfreithiol i'r Bwrdd baratoi adroddiad blynyddol ar y graddau y bu iddo gyflawni ei amcanion statudol.

**ii) Y Pennaeth Cyllid:**

Yn 2021-22, fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae dyfarniad cyllidebau a grantiau partneriaeth i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi galluogi ariannu gweithgareddau a rheoli ffrydiau gwaith y Bwrdd. Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r gweithgareddau hyn.




CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

# Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

**Adroddiad Blynyddol  
2021/22**



Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio i fodloni'r gofynion a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Tud. 255

## Cynnwys

Rhagair gan Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC)	3
1. Llywodraethu'r Partneriaethau	4
2. Diweddariad cyffredinol ar y cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Ardal	11
3. Cyfathrebu, Ymgysylltu a Gwerth Cymdeithasol	21
4. Edrych tuag at y Dyfodol	24
<b>Atodiad 1 – Aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru</b>	<b>25</b>
<b>Atodiad 2 – Darpariaethau Statudol</b>	<b>27</b>





# Rhagair gan Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC)

Mary Wimbury, Prif Weithredwr,  
Fforwm Gofal Cymru

Fel Cadeirydd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad 21/22 sy'n dangos y cynnydd a wnaed ar draws y rhanbarth.

Bu hon yn flwyddyn heriol arall i'r Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Clywais ddweud droeon ein bod bellach mewn cyfnod o adferiad, ond gwahanol iawn fu'r realiti i'n partneriaid sydd dal i orfod delio â phroblemau dyddiol yn sgil Covid. Ni ellir bychanu'r effaith ar ein gweithlu a'r bobl sy'n derbyn gwasanaethau, a bu'n ystyriaeth allweddol yn ein gwaith partneriaeth.



Rwy'n eithriadol o falch o'r gwaith a gyflawnwyd o dan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, er y pwysau difrifol. Mae'r Rhaglen Trawsnewid a'r Gronfa Gofal integredig (CGI) wedi parhau i ffynnu, a gwnaed cynnydd ffantastig yn ystod blwyddyn olaf y ddwy raglen.

Roedd yn bleser cael derbyn y gwerthusiad o'r gwaith a wnaed, a oedd yn dangos cymaint yr ydym wedi llwyddo i'w gyflawni trwy gydol cyfnodau'r rhaglenni hyn, ynghyd â'r gwahaniaeth y maent wedi'i wneud i bobl Gogledd Cymru.

Rydym bellach yn mynd i gyfnod newydd gyda'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol 5 mlynedd yn ysgogi newid a thrawsnewid ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â Chronfa Gyfalaf Tai â Gofal 4 blynedd a Chronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso 3 blynedd. Bydd y cyllid gwarantiedig yn rhoi cyfle gwirioneddol i ni drawsnewid ac integreiddio'r system yn y tymor hir ledled Gogledd Cymru. Fodd bynnag, mae'r heriau'n parhau o fewn y sector: yn enwedig cadw a recriwtio ein gweithlu. Fel Bwrdd, rydym wedi gwneud cynnydd o safbwynt ymrwymo pob partner o amgylch y bwrdd - ond mae llawer i'w wneud eto.

Hoffwn ddiolch i'r holl bartneriaid am eu cefnogaeth barhaus ar gyfer gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ynghyd ag i'r Tîm Cydweithredol Rhanbarthol am eu gwaith caled a'u hymrwymiad.



Dymuniadau gorau - Mary Wimbury.

# 1. Llywodraethu'r Bartneriaeth

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn nodi pwrpas, rôl, aelodaeth, strwythur gweithredu a blaenoriaethau allweddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'n amlinellu datblygiad allweddol y bartneriaeth dros y flwyddyn ddiwethaf ynghyd â chynnydd o ran gweithredu newidiadau yn y Canllawiau Rhan 9 diwygiedig.

## 1.1 Pwrpas, Rôl, Aelodaeth, Strwythur Gweithredu a Blaenoriaethau Allweddol

Sefydlwyd **Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru** fel rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (DGCLIC) i:

-  Wella lles y boblogaeth
-  Gwella'r modd y cyflenwir gwasanaethau iechyd a lles

Rydym yn dod ag iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai, y trydydd sector a phartneriaid eraill ynghyd i gydlynu gwaith parhaus i drawsnewid ac integreiddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar draws y rhanbarth.






Mae BPRhGC yn cyfarfod yn fisol, ac mae wedi parhau i wneud hynny trwy gydol y pandemig. Cynhaliwyd y cyfarfodydd llwyddiannus hyn yn rhithiol gyda chyfleusterau cyfieithu, sydd wedi sicrhau ymgysylltiad parhaus ar gyfer aelodau.

### Datganiad o Weledigaeth

Cydweithio i wella iechyd a lles pobl a chymunedau

### Egwyddorion Arweiniol

Cytunodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar ei egwyddorion arweiniol ym mis Tachwedd 2016 ac mae'r rhain yn parhau i fod yn addas i'r diben:

-  Newid y system gyfan ac ail-fuddsoddi adnoddau i fodel ataliol sy'n hyrwyddo iechyd a lles da, ac sy'n defnyddio tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio orau yn effeithiol;
-  Mae gofal yn cael ei ddarparu mewn dulliau cydlynol sy'n canolbwyntio ar anghenion, dewisiadau, ac asedau cymdeithasol pobl (defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a chymunedau);
-  Mae pobl yn cael eu galluogi i ddefnyddio eu hyder a'u sgiliau i fyw'n annibynnol, gan dderbyn cefnogaeth gan ystod o ddewisiadau o ansawdd uchel yn y gymuned;
-  Ymgorffori cyd-gynhyrchu yn y broses o wneud penderfyniadau er mwyn i ddinasyddion a'u cymunedau lunio'r gwasanaethau;
-  Rydym yn cydnabod yr ystod eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles a phwysigrwydd cysylltiadau â'r meysydd hyn (gan gynnwys addysg, tai, lles, lleihau digartrefedd, twf economaidd, adfywio, hamdden a'r amgylchedd).

Tud. 258

## 1.2 Rôl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Adolygir Gylch Gorchwyl BPRhGC yn flynyddol, fodd bynnag, rôl hanfodol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fydd:

- Sicrhau bod cydweledigaeth gytunedig a chyfeiriad clir o ran datblygiad y gwasanaeth ac integreiddiad iechyd, gofal a lles, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a Chymru Iachach
- Sicrhau bod cynlluniau a rennir a strategaethau ar waith (wedi'u cefnogi gan achosion busnes priodol) i gyflawni'r weledigaeth
- Sicrhau bod y cynlluniau strategol yn cael eu gwerthuso a'u hadolygu yn erbyn y canlyniadau a dangosyddion perfformiad cytunedig a dealladwy
- Arwain ymagwedd strategol at gyfathrebu a hyrwyddo'r cyfeiriad y symudir iddo a'r cynnydd a wnaed
- Sicrhau y cedwir at egwyddorion y Bwrdd
- Cynnal trosolwg effeithiol o'r adnoddau a ddyrannwyd i gyflawni ei amcanion
- Adrodd i'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol ar gynnydd, materion allweddol ac eithriadau, gan uwchgyfeirio unrhyw rwystr i gynnydd o fewn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn eu datrys
- Sicrhau bod adroddiad blynyddol ar gynnydd yn cael ei baratoi a'i gyflwyno yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn adrodd yn ffurfiol i Fwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru. Rheolir busnes y Bwrdd a busnes yr is-grwpiau rhanbarthol gan y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol ac aelodau o'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol.

Cafodd strwythur llywodraethu'r Bwrdd ei ffurfioli ym mis Ionawr 2021 ac mae'r strwythur i'w weld isod. Adolygwyd ein cylch gorchwyl ym mis Tachwedd 2020. Mae aelodau'r Bwrdd (ar ddiwedd mis Mawrth 2021) i'w gweld yn Atodiad 1.

### Stori Gwenda


Mae Gwenda yn ddynes 90 oed sy'n gofalu am ei gŵr 92 oed. Bu'r ddau'n briod am 70 mlynedd ac mae ei gŵr yn dioddef o ddementia erbyn hyn. Mae hi'n ei gadw'n brysur ac yn ei annog cymaint â phosib trwy ddarllen y papurau newydd dyddiol a mynd am dro i fyny a lawr eu dreif, ac mae'n disgrifio ei gŵr fel ei "holl fyd".

Bu Gwenda'n pryderu'n ddiweddar am y modd y gellir gofalu am ei gŵr pe bai ei hiechyd ei hun yn dechrau dirywio. Mae'r pryderon hyn wedi dwysau gan ei bod i fod i gael llawdriniaeth fawr.

Trafododd ei phryderon yn helaeth gan ddweud efallai y bydd angen i'w gŵr fynd i ofal yr awdurdod lleol ar ryw adeg. Roedd ei Gweithiwr Cefnogi hefyd wedi trafod y posibilrwydd o wneud cais am becyn gofal i gynnal annibyniaeth am gymaint o amser â phosib.

Roedd Gwenda wirioneddol yn gwerthfawrogi'r amser a'r cyfle i rannu ei meddyliau a'i phryderon mewn lle cyfrinachol, dywedodd "*diolch i chi am wrando arna i*".

Mae BPRhBC yn cydnabod rôl allweddol gofaluwr o bob oed yn yr amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol, a bod angen eu gwerthfawrogi am y gefnogaeth a ddarperir ganddynt. Mae'r bwrdd hefyd yn cydnabod bod angen eu cefnogi yn y rôl hanfodol hon.



### 1.3 Datblygu Partneriaethau Allweddol

Mae'r bartneriaeth wedi datblygu dros y 12 mis diwethaf, er y pandemig sy'n parhau.


Fel rhan o'n gwaith i ddatblygu partneriaeth, lle'n bosibl, rydym wedi cymryd rhan ym mhob un o ddigwyddiadau dysgu Llywodraeth Cymru a chyfarfodydd gyda'r Gweinidog.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddarparu ymateb lleol a rhanbarthol cydlynol i anghenion lles unigolion.

Lle'n bosibl, cafodd gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei hyrwyddo a'i arddangos ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Rydym wedi gweithio'n helaeth â Llywodraeth Cymru a'n partneriaid ar ddatblygu'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF), y Gronfa Tai â Gofal (HCF) a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysio (IRCF).

Mae'r tîm rhanbarthol a phartneriaid wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu'r Rhaglen Ailgydbwysio Gofal a Chymorth, ac maent yn parhau i wneud hynny.



## 1.4 Fforwm Mwy Na Geiriau

Nod Fforwm Mwy Na Geiriau Gogledd Cymru yw sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn eu mamiaith, heb orfod gofyn am hynny. Mae hyn yn arwain at well gwasanaeth a chanlyniadau ar gyfer ein poblogaeth, gan fod derbyn gwasanaeth yn yr iaith gywir yn rhywbeth y mae ar bobl ei angen.

I gyflawni hyn, nod y fforwm yw dwyn ynghyd pob partner allweddol yn y maes i rannu arferion da, i weithio gyda'i gilydd ac i ddatrys rhwystrau, a dod yn grŵp lle gall pob arweinydd ddefnyddio hyn i gyd i gefnogi'r agenda hanfodol hon ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn dilyn y pandemig Covid-19, roedd cyfle eleni i aildechrau cynnal cyfarfodydd ffurfiol y Fforwm. Roedd y cyfarfodydd yn cynnwys cyflwyniadau diddorol, yn ogystal â thrafodaethau defnyddiol mewn perthynas â rhannu arferion da ac ati.

Mae'r cynnydd o safbwynt yr agenda'n dda, gyda phob aelod o'r Fforwm yn gweithio tuag at ymgorffori gweledigaeth Mwy Na Geiriau o fewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae argaeledd cyrsiau hyfforddiant yn dda, ac mae nifer o ddulliau digidol ar gael i gefnogi staff.

## 1.5 Cynnydd o ran gweithredu newidiadau i'r canllawiau Rhan 9 diwygiedig

Mae BPRhGC yn gweithredu'n unol â'r canllawiau Rhan 9 diwygiedig.

Ar ôl derbyn diweddariad Codau a Chanllawiau Rhan 9 yn Ionawr 2020, diweddarwyd Cylich Gorchwyl BPRhGC i adlewyrchu gofynion y canllawiau

diwygiedig.

Sefydlwyd Is-grŵp Plant sy'n adrodd i'r BPRhGC, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn Ionawr 2022.

Pwrpas y grŵp yw:


- Darparu cyfeiriad strategol yng nghyswllt cefnogi teuluoedd a chanddynt anghenion o ran iechyd a gofal cymdeithasol ar draws y rhanbarth.
- Gwella integreiddiad a chydweithrediad ar lefel ranbarthol ar draws iechyd, gofal cymdeithasol i oedolion, gwasanaethau plant ac addysg, a rhyngddynt.
- Sicrhau bod plant a theuluoedd ag anghenion gofal a chymorth cymhleth yn derbyn cymorth di-dor ac integredig sy'n eu helpu i gyflawni beth sy'n bwysig iddynt.
- Gwella canlyniadau i blant a sicrhau bod gweithgareddau a gyflenwir ar draws y rhanbarth yn cefnogi'r dyhead hwn.
- Cefnogi camau ataliol i fynd i'r afael ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gwaethygu.

Bydd gweithgareddau allweddol yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:

- Bwrw ymlaen a'r blaenoriaethau a gytunwyd gan y BPRh mewn perthynas â phlant a theuluoedd, h.y. rhoi camau allweddol ar waith sy'n deillio o'r Asesiad Poblogaeth, y Cynllun Ardal, a chynlluniau strategol allweddol partneriaid.
- Datblygu ymagwedd strategol a rennir ynghyd â chynllun gweithredu rhanbarthol sy'n cynnwys set o flaenoriaethau a rennir sy'n gwella canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd, gyda'r nod o weithio i'w cyflawni.
- Datblygu a gweithredu ymagwedd integredig, yn seiliedig ar asedau o safbwynt y system gyfan, ar draws meysydd iechyd, gofal ac addysg, sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â blaenoriaethau'r grŵp.
- Canfod dulliau creadigol ac integredig ar lefel ranbarthol o ran gweithredu a chyflenwi gwasanaethau sy'n cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, ac i atal plant rhag dod yn blant 'sy'n derbyn gofal'.
- Datblygu a phennu cynigion o ran buddsoddiad ar gyfer prosiectau a rhaglenni rhanbarthol, er mwyn darparu yn ôl yr ymagwedd a'r blaenoriaethau strategol ar lefel ranbarthol.
- Monitro rhaglenni ariannu sy'n cefnogi'r agenda hon a chanfod cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad ariannol a chynaliadwyedd ariannol lle'n briodol.
- Gweithredu fel y mecanwaith ar gyfer deall yr hyn a ddysgir sy'n cael ei rannu ar draws pob rhaglen waith berthnasol ledled y rhanbarth, sy'n anelu at wella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Mae gennym Fwrdd Comisiynu Rhanbarthol hirsefydlog o fewn y rhanbarth sy'n cael ei ategu gan gytundeb partneriaeth a'i ariannu gan bartneriaid. Mae'r rhaglen waith yn cyd-fynd â gwaith y Byrddau Trawsnewid, ac yn nodi lle y gallai ychwanegu gwerth / cefnogi'r agenda drawsnewid.

Tud. 262



## Y Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol

Mae'r Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol wedi parhau i gefnogi darpariaeth Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymunedol Gogledd Cymru, yn ogystal â sicrhau darpariaeth i gefnogi strategaethau, agendâu a blaenoriaethau cenedlaethol ynghyd â'u hyrwyddo.

Cefnogwyd ymgyrch genedlaethol Gofalwn ('WeCare') i ddenu, recriwtio a chadw gweithwyr gofal, trwy gyfrwng nifer o dechnegau gwahanol. Mynychwyd amryw ddiwyddiadau ar-lein gennym a drefnwyd gan bartneriaid i wneud y gorau o gyfleoedd i hyrwyddo gyfaoedd ym maes Gofal Cymdeithasol, ynghyd â chymorth ac adnoddau Gofalwn.

Crëwyd deunydd newydd hefyd i gefnogi camau i hyrwyddo'r gwaith. Cafodd 21 o fideos eu creu o astudiaethau achos, a rannwyd ar amryw blatfformau cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â mewn cyflwyniadau, a hefyd gyda gwahanol bartneriaid fel Gyrfa Cymru, DWP a Cymru'n Gweithio. Fe gafodd fideos eu coladu hefyd i gefnogi gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gyda neges unwaith eto i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector. Arbrofwyd â phodlediadau, gyda thîm Gofalwn Cymru'n cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn podlediad lleol a redwyd gan Llwyddo'n Lleol i hyrwyddo gweithio yn y sector i gynulleidfa wahanol. Caiff cylchlythyrau eu rhyddhau'n chwarterol i ddarparwyr erbyn hyn hefyd, i hyrwyddo maes Gofalwn ac i amlygu gwahanol negeseuon i ddarparwyr.

Rydym hefyd wedi treialu Mentor Cyflogadwyedd Camu i Waith i weithio gyda'r rheiny sy'n chwilio am waith neu sydd eisiau newid gyrfa. Ceir cyfleoedd i gael lleoliadau gwaith o fewn lleoliadau gofal cymdeithasol i weld p'un a yw gyrfa mewn gofal yn addas iddynt hwy, ac i ddileu unrhyw rwystrau y gallant eu hwynebu yn ystod y lleoliad. Ar ddiwedd y lleoliad, y gobaith yw y byddant yn cael cyflogaeth

gyda'r darparwr a ddarparodd y lleoliad hwnnw, neu o fewn y sector gofal.

Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd i fynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau o safbwynt Gwaith Cymdeithasol Plant wedi canfod camau allweddol ac wedi'u rhoi ar waith i ddatrys yr heriau a'r rhwystrau hyn. Testun sylw'r gwaith hwn oedd y Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol, sgiliau i sicrhau parodrwydd i weithio, ynghyd â'r cymorth a roddir i ymarferwyr yn ystod eu tair blynedd gyntaf. Bu'r grŵp yn edrych hefyd ar y tâl a'r telerau a gynigir ledled Cymru, a gwnaeth argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch mynd i'r afael â'r gwahaniaethau o ran tâl fel mater cenedlaethol.

Yn ogystal, mae'r Bwrdd Gweithlu wrthi'n gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i fynd i'r afael â'r materion allweddol yng nghyswllt recriwtio a chadw gweithwyr yn y sector ar hyn o bryd. Rhoddir sylw arbennig i ofynion cofrestru, lefelau tâl ac amodau a thelerau yn y sector, er mwyn dylanwadu ar drafodaethau a phenderfyniadau mewn perthynas â'r agweddau allweddol hyn ar lefel genedlaethol.



## 2. Diweddariad cyffredinol ar y cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Ardal

Yn y rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol, cyflwynir y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r amcanion allweddol yn y cynllun ardal a'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer integreiddio, yn unol â'r cyfarwyddyd Rhan 9, gan gynnwys y canlyniadau a gyflawnwyd ar ran defnyddwyr y gwasanaeth a gofaluwr. Mae'n ymdrin yn benodol â'r grwpiau blaenoriaeth a bennwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.

Yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn ystod 2021-22 parhaodd y Bwrdd i ddatblygu ei ddulliau o ran gwasanaethau integredig ar gyfer ei feysydd blaenoriaeth.





### 2.1 Cynllun Ardal Gogledd Cymru

Mae'r Cynllun Ardal yn pennu'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer integreiddio gwasanaethau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ac mae hyn yn gosod y cyfeiriad i'r Bwrdd. Mae'r Cynllun Ardal yn nodi sut y bydd y rhanbarth yn mynd i'r afael â'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, sef yr edefyn aur sy'n dal i gysylltu meysydd gwaith penodol yn y rhanbarth.




### 2.2 Cymru Iachach

Arweiniwyd rhaglen trawsnewid "Cymru Iachach" gan Gydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru. Mae'r gydweithredfa yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r chwe Awdurdod Lleol yn Rhanbarth Gogledd Cymru: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir y Fflint.

Roedd rhaglen trawsnewid Gogledd Cymru'n cynnwys 4 rhaglen o waith sy'n canolbwyntio ar wahanol grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth:

-  Trawsnewid gwasanaethau cymunedol.
-  Ymyrraeth gynnar integredig a chefnogaeth ddwys i blant a phobl ifanc.
-  Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Gwasanaethau di-dor i bobl ag anableddau dysgu.
-  Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru.

Er eu bod yn amrywio yn nhermau eu grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth, roedd gan y pedair rhaglen nodau cyffredin:

-  Darparu ymyrraeth gynnar a gofal ataliol i helpu pobl neu deuluoedd barhau i fyw yn eu cartref arferol, ynghyd â'u cefnogi i gadw'n annibynnol am gyn hired ag y bo modd.
-  Gwella profiad pobl o wasanaethau, trwy integreiddio pethau'n well, gan leihau'r rhwystrau rhwng gwasanaethau presennol a darparu gofal di-dor.
-  Gwella canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth ac

 Atal argyfyngau.

Er bod Covid-10 wedi effeithio ar y gwaith o gyflawni'r rhaglen, llwyddwyd i'w chwblhau yn ei ffurf gychwynnol ym mis Mawrth 2022, ac roedd yn llwyddiannus o safbwynt ei chanlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl Gogledd Cymru. Cynhaliwyd gwerthusiad o'r rhaglen lawn gan IPC.

### 2.2.1 Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol



Nod y rhaglen hon oedd trawsnewid darpariaeth gymunedol trwy ddatblygu model y Tîm Adnoddau Cymunedol (TAC). Trwy'r prosiect hwn, roedd y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru a BIPBC, ynghyd â meddygon teulu, yn anelu at weithio gyda'i gilydd i sefydlu a gwella gwasanaethau integredig yn y gymuned. Cefnogwyd datblygiad cychwynnol y gwasanaethau hyn gan amryw ffrydiau ariannu, gan gynnwys y Gronfa Gofal Integredig (CGI) a'r Gronfa Trawsnewid. Roedd y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol yn ceisio adeiladu ar waith partneriaeth a oedd yn bodoli eisoes, gyda golwg ar gyflawni'r trawsnewidiad cyffredinol a fynnydd. Bwriad y rhaglen oedd darparu ymagwedd oedd yn cael ei dylunio ar lefel ranbarthol ond ei chyflenwi ar lefel lleol, ac roedd yn cynnwys y ffrydiau gwaith a ganlyn:

**Ffrwd Waith 1 – Datblygu ar lefel ardaloedd lleol**, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu timau arweinyddiaeth lleol, ymgymryd ag asesiad o anghenion a sicrhau trefniadau llywodraethu integredig.

**Ffrwd Waith 2 – Y gweithlu a chyflenwi gweithredol**, sy'n seiliedig ar ddatblygu'r model TAC a gweithio mewn timau amlddisgyblaethol. Roedd y ffrwd waith hon hefyd yn arwain datblygiad cynlluniau ar gyfer rhannu cofnodion a chynlluniau gofal.

**Ffrwd Waith 3 - Trawsnewid digidol**, sy'n canolbwyntio ar y trawsnewidiad digidol a fynnir i gefnogi gwaith y TAC, a oedd yn cynnwys trefniadau o ran llywodraethu gwybodaeth, e-drefnu ('e-scheduling') a datrysiadau technegol, ochr yn ochr â rhaglen waith ar wahân i ddatblygu cymunedau digidol.

**Ffrwd Waith 4 - Datblygu cymunedol**, elfen allweddol o fodel gwasanaeth integredig y rhanbarth yw cyfraniad y trydydd sector a'r sector cymunedol o safbwynt cefnogi lles, hyrwyddo cynhwysiant a chyfranogiad, ynghyd â chydlynu presgripsiynu cymdeithasol.

**Ffrwd Waith 5 - Cynllunio cynaliadwy**. Elfen ganolog o'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol yw'r dymuniad i ddatblygu a thyfu cwmpas y cyflenwad o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o fewn y gymuned.

#### Crynodeb o'r gwerthusiad


Y disgwyliad o'r rhaglen hon oedd y byddai'r gwelliannau o safbwynt isadeiledd, diwylliant a chydweithredu yn ddigonol ynddynt eu hunain i sicrhau datblygiad pellach, heb yr angen am ragor o fewnbwn neu fuddsoddiad.

Bu'r newidiadau a roddwyd ar waith yn gyfyngedig, a gwnaed llai o gynnydd ag a ragwelwyd. Datblygwyd rhai offerynnau dadansoddi a dogfennau, ac mae angen eu nodi'n gywir a sicrhau eu bod ar gael ar gyfer rhagor o waith datblygu.

Mae bwrw ymlaen â'r gwaith o ymgysylltu ag uwch reolwyr a sicrhau eu cyfraniad a'u cymorth yn hanfodol o safbwynt unrhyw ymgais bellach i ddatblygu isadeiledd gwasanaethau ymhellach. Hefyd, mae'n glir na fu'r ymagwedd Asiant Dros Newid yn gwbl lwyddiannus. O ran elfennau'r rhaglen sy'n symud yn eu blaenau ar hyn o bryd, mae angen eu goruchwyllo a'u rheoli o fewn strwythur arweinyddiaeth gweithredol y rhanbarth.

Mae angen gwell cysylltiad rhwng amryw elfennau'r rhaglen, gydag ymagwedd fwy rhanbarthol, yn hytrach nag un ar sail ardal, i gyflwyno modelau y dangoswyd y buont yn effeithiol.

## 2.2.2 Rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc



Nod y rhaglen oedd cyflawni gwell canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc heb orfod troi at ymyriadau a gofal statudol costus a hirdymor. Roedd y rhaglen yn ymgorffori nifer o brosiectau sy'n cysylltu â'r sbectwm o angen. Roedd yr ymagwedd yn cynnwys mentrau rhanbarthol ac isranbarthol, ac arweiniwyd y gwaith datblygu gan grwpiau llywio amlasiantaethol. Cyflenwyd y rhaglen trwy dair ffrwd waith sy'n canolbwyntio ar Ymyrraeth Gyffredinol, Ymyrraeth Gynnar a Dwys, a Gwasanaethau ar Ffiniau Gofal. O fewn pob ffrwd waith ceir nifer o brosiectau.

**Ffrwd Waith 1: Cyffredinol.** Yn anelu at wella lles emosiynol, iechyd a gwydnwch plant trwy dri phrosiect, sef fframwaith strwythuredig, adnoddau digidol a rhaglen sgiliau 'Friends Resilience'.

**Ffrwd Waith: Cymorth Cynnar.** Tri phrosiect sy'n anelu at ddarparu cymorth cynnar i blant ag anghenion arbennig a/neu sy'n agored i niwed, a lle gall ymyrraeth gynnar atal problemau rhag gwaethygu.

**Ffrwd Waith 3: Ar Ffiniau Gofal – timau asesu a chefnogi.** Defnyddiwyd y rhan fwyaf o'r cyllid trawsnewid i sefydlu ymyriadau 'ymateb cyflym' (allgymorth mewn argyfwng) i blant a phobl ifanc ar ffiniau gofal. Y grŵp targed yw plant ag Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol (AEY). Mae'r ymagwedd yn cynnwys

llwybrau ac ymyriadau amlddisgyblaethol a therapiwtig cadarnach, a ddylunnir i atal plant rhag dod yn rhai sy'n derbyn gofal a/neu i alluogi ailuno'r teulu, a/neu ddarparu asesiad o ansawdd uchel i lywio'r pecyn lleoli a chefnogi mwyaf priodol. Crëwyd tri gwasanaeth cymorth dwys sef:

- y gwasanaeth **Therapi Amlsystemig** yn y Dwyrain
- Gwasanaeth **Bwthyn Y Ddôl** yn ardal Canol Gogledd Cymru
- Tîm Trawsnewid Gwynedd a Môn yn y Gorllewin

### **Crynodeb o'r gwerthusiad:**

Mae'r rhaglen ar gyfer Plant a Phobl Ifanc wedi creu newid pendant i rai o'r plant mwyaf bregus yn y gymdeithas, yn enwedig y rheiny a oedd yn flaenrol yn dod o fewn y bylchau rhwng gwasanaethau, ac a oedd mewn perygl o orfod mynd i ofal preswyl hirdymor. Argymhellir bod y gwaith yng nghyswllt Plant a Phobl Ifanc yn parhau ac yn cael ei gefnogi gan gyllid hirdymor, gan alluogi'r gwasanaethau i ddatblygu ynghyd â chyflogi staff parhaol. Mae'r gwasanaethau yn gofyn am sefydlogrwydd, yn enwedig y gwasanaethau sydd ar ffiniau gofal, gan eu bod yn ymgorffori'r model ac yn datblygu modelau gofal preswyl.

Nid dim ond cyllid sy'n creu sefydlogrwydd hirdymor, ond hefyd y strwythurau rheoli gweithredol sy'n cefnogi'r gwasanaethau. Er y crëwyd y prosiectau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc trwy'r Gronfa Trawsnewid, ac felly fe'u rheolir trwy strwythur prosiectau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, er mwyn caniatáu sefydlogrwydd hirdymor mae angen i drefniadau gweithredol y gwasanaethau symud i mewn i strwythurau gweithredol y rhanbarthau.

Roedd canfyddiadau cynnar o'r gwerthusiad o wasanaethau ar ffiniau gofal yn awgrymu bod newidiadau cadarnhaol yn digwydd o fewn teuluoedd tra bo'r ymyrraeth ar waith. Fodd bynnag, o ran rhai o'r plant a'r teuluoedd ar ben uchaf yr ystod o gymhlethdod, a chanddynt yr anghenion mwyaf, gellir argymhell rhagor o ymyriadau arbenigol. Un o'r rhwystrau posibl i gynnal cynnydd yw nad oes gan asiantaethau eraill bob amser y capasiti i ddarparu'r mewnbwn parhaus hwnnw.

Mae angen i'r ffrwd waith i wella anghenion plant a phobl ifanc o ran eu hiechyd emosiynol, eu lles a'u gwydnwch, sicrhau, wrth roi'r fframwaith a'r adnoddau ar waith, y sefydlir system ar gyfer casglu data ar allbynnau a chanlyniadau er mwyn gallu canfod eu heffaith.

### **2.2.3 Rhaglen Trawsnewid Anableddau Dysgu**



Sylfaen y rhaglen yw Strategaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru. Mae'r tîm yn gweithredu'r strategaeth drwy bum ffrwd waith: strwythurau integredig, datblygu'r gweithlu, comisiynu a chaffael, newid cymunedol a diwylliannol a thechnoleg gynorthwyol.

  
**North Wales Together**  
**Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd**  
 Seamless services for people with Learning Disabilities  
 Gwasanaethau ddi-dori i bobl ag Anableddau Dysgu

 <b>SUT FM TRIN YN DDA</b>	 <b>GADWCH IMI REOLI FY MYWYD FY HUN</b>	 <b>HELPWCH FI I GYRRAEDD FY MICTERIAL</b>	 <b>BYDDWCH YN ONEST</b>
<p><i>Dylid ierh pob unigolyn gyda pherthn ag unigolus</i></p> <p>"Mae fy mharchu i yn golygu parchu fy ngofod, fy mhaisau, fy mhenderfyniadau a'm personolaeth"</p> <p>"Gwrandwch araf, a threulwch amser yn dod i'm haarnod"</p> <p><b>"Byddwch yn glân"</b></p> <p><b>AWGRYMIADAU GWYBCH</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid cyflwynu mewn modd agored, oyston a byrne</li> <li>Pedwch â dehyddio jargon</li> <li>Dylid dogelu a pharchu gwybodaeth personol a cynhyrchoi poti</li> <li>Dylid dehyddio fhwir mewn modd brodd</li> <li>Dylid gwirio sut y dymuni bwl gael eu cyflwyno atyne</li> <li>Byddwch yn brydon a gweithredwch ar unrhyw gamau yr ydych wedi dweud y byddwch yn eu cyfrwyd</li> </ul>	<p>Mae llaw, dweta, rheolwrth ac awrhyfwrth wrth wraidd popeth a wneir</p> <p>Rydym yn ymryfydu mewn gwelwio ar y cyd</p> <p>"Hoffwn gael dewis le hoffwn i fyw a phwy sy'n fyw gyda mi"</p> <p>"Helpwch fi i wneud yr ffin yr wyf yn ei ddyfundo, a gwrandwch araf"</p> <p>"Mae amaf eisau teimio'n bwysig a gallu gwneud penderfyniadau fy hun"</p> <p><b>AWGRYMIADAU GWYBCH</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid gymuso, arnog a galluogi poti gyda angen gofal a chetogwch i wneud pethau drostyne eu hunan ac i wneud eu penderfyniadau eu hunan</li> <li>Dylid cefnogi unigolion i wneud y gorau o'u penderfyniadau a'u meolaeth dros eu bywydau</li> </ul>	<p>Rydym yn darparu gofal sy'n awrhyfwrtho ar yr unigolyn, gan roi'r unigolyn wrth wraidd popeth a wneir i'n helpu i gyrraedd eu potensial</p> <p>"Olygwch gerhyf, a chetwch gyronod fy nghyfoerw"</p> <p>"Helpwch fi i ddyfuo pethau newydd"</p> <p>"Nawch dagon, ond nid gormod o gethogwch imi"</p> <p><b>AWGRYMIADAU GWYBCH</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Byddwch yn barod i gyfrwyd rai gaw cadarnhad, gan esbonio canlyniadau rai gaw yn glir i eraill</li> <li>Cetwch fynd i'r afael â phroblemau newydd a phroblemau sy'n ddatblygu yn gresdigi</li> <li>Pedwch â meddwl am gamgymeriadau fel rhyweth negyddol, meddwlwch am danynt fel cyfle i ddyfuo a thylu</li> <li>Byddwch yn gymus, yn garedig, yn empwrth, yn adbynaedwy ac yn dostudil yn eich gweithredolaeth</li> </ul>	<p>Rydym bob amser yn onest ac yn dryfogyw ac nid oes amser na olin dweud pan fydd rhyweth yn mynd o'i le</p> <p>Rydym yn hunanymwybodi ac yn myfyrto'n meolaeth ar y gwath yr ydym yn ei wneud, sut rydym yn ei wneud a'n etatn yr ydym yn ei onest ar y rha sy'n cael eu cefnogi</p> <p>"Mae amaf eisau i bob fod yn onest â mi, a dweud y gwir wrthyf"</p> <p><b>AWGRYMIADAU GWYBCH</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rydym yn dyfuo gan eraill ac yn mamru gwybodaeth ac arfer orau</li> <li>Cetio adroth gan gydweithwyr dehyddwyr gwasanaeth a'u teuluolaeth, myfyrto arto a dyfuo oodi wrtho</li> <li>Bod yn dagon dewr i god eich las a herio eraill le mae ganodyn rhw bryderon am ansawdd neu ddogwch y gafa sy'n cael ei darparu</li> </ul>

Bu 2021/2022 yn flwyddyn brysur iawn unwaith eto i **Raglen Trawsnewid Anableddau Dysgu Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd**. Fe wnaeth holl aelodau'r tîm ddal i weithio o bell a llunio strategaethau i oresgyn yr anawsterau fel y gellid gweithredu prosiectau'n rhithwir, gan gefnogi partneriaid i gyflawni eu hamcanion mewn gwahanol ffyrdd.

### Crynodeb o'r gwerthusiad

Mae'r Rhaglen wedi codi proffil anableddau dysgu ar lefel y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Nid yw anghenion y grŵp hwn o bobl bob amser wedi cael eu cydnabod neu eu trin gyda'r un lefel o bwysigrwydd â grwpiau eraill o fewn y boblogaeth. Mae'n bwysig eu bod yn parhau i gael eu gweld fel blaenoriaeth, a bod digon o gyllid yn cael ei neilltuo ar gyfer y ffrydiau gwaith sy'n parhau i sicrhau y gellir cyflawni dyheadau dinasgyddion o ran cael 'bywyd cyffredin'.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ar [wefan Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd](#), sy'n cynnwys gwybodaeth am y prosiect, fideo o'i uchafbwyntiau, a dogfen sy'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer 2021/2022.

## 2.2.4 Rhaglen Trawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl



Mae Rhaglen 'iCAN' ("Independent, Connected, Active, Networked") / 'FEDRA' i' yn dod o fewn y strategaeth eang hon. Ei nod cyffredinol yw rhoi system gofal a diwylliant mwy integredig ac arloesol ar waith sy'n atal, ond lle bo angen, yn ymateb yn effeithiol i gyfnodau o anghenion ac

argyfyngau iechyd meddwl aciwt. Mae'r rhaglen hon a ariennir yn ceisio hybu 'beth sy'n gweithio' a chyflymu'r trawsnewid ar draws Gogledd Cymru i greu system gofal brys integredig flaenllaw o fewn y sector. I ategu hyn, crëwyd llwybr FEDRA' i integredig sy'n hybu gwaith cydweithredol o fewn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, partneriaid statudol a sefydliadau trydydd sector, a rhyngddynt.

Mae cydrannau cynnig FEDRA' i wedi newid a datblygu yn ystod y Rhaglen. Maent wedi datblygu i greu'r cydrannau allweddol a ganlyn:

- FEDRA' i: Hybiau - 8 hwb cymunedol a leolir ym mhob un o'r prif drefi ar draws y rhanbarth, sy'n gweithio gyda phartneriaid o'r trydydd sector i gynnig cymorth y gellir cael mynediad iddo'n rhwydd mewn amgylchedd diogel, a gellir cyfeirio pobl ymlaen at wasanaethau eraill.
- FEDRA' i: Gofal Sylfaenol - Prosiect peilot sy'n lleoli Therapyddion Galwedigaethol arbenigol mewn meddygfeydd, sy'n gallu cynnig gwasanaeth cwnsela, cyngor, cyfeirio ymlaen ac atgyfeirio pobl at wasanaethau eraill.
- FEDRA' i: Weithio – Cymorth i gael cyflogaeth.
- FEDRA' i: Digidol – Mynediad at gefnogaeth ar gyfer hybu lles meddyliol trwy gyfrwng amryw 'apiau' ac adnoddau ar-lein.

### Crynodeb o'r gwerthusiad

Yn ystod 2021/22, mae Rhaglen FEDRA' i / iCAN wedi datblygu fframwaith casglu data manwl sy'n dangos tystiolaeth glir bod llawer o unigolion yn cael mynediad at holl gydrannau'r gwasanaeth a'u bod yn cael effaith sylweddol a mesuradwy ar eu lles meddyliol. Yn ôl arolwg o ddefnyddwyr gwasanaeth ar draws rhaglen FEDRA' i, roedd 70% o'r defnyddwyr gwasanaeth yn meddwl ei bod yn hawdd cael mynediad i wasanaethau FEDRA' i, eu bod yn gyfleus, yn amserol, a'u bod yn cefnogi defnyddwyr gwasanaeth i gymryd rheolaeth dros eu sefyllfa.

Roedd yr un arolwg yn darparu tystiolaeth o effaith gwasanaethau FEDRA' i ar les meddyliol unigolion, a'u bod yn eu hatal rhag bod angen gwasanaethau eraill mwy dwys. Er enghraifft, roedd 71% o'r ymatebwyr i'r arolwg (yr oeddynt yn teimlo fod y cwestiwn hwn yn berthnasol iddynt) wedi canfod bod gwasanaethau FEDRA' i wedi eu helpu i aros allan o'r Ysbyty. Yn yr un modd, roedd 44% yn teimlo bod gwasanaethau FEDRA' i wedi eu helpu i gael allan o'r Ysbyty gyn gynted ag yr oeddynt yn gallu, ac roedd 81% wedi canfod bod gwasanaethau FEDRA' i wedi eu helpu i aros adref o fewn eu cymuned leol.

O'r sefydliadau sy'n bartneriaid a'r rhanddeiliaid, roedd 70% o'r rhai a ymatebodd i arolwg y gwerthuswyr yn deall eu rôl, yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn teimlo bod eu rôl yn glir o fewn llwybr diffiniedig. Roedd tua 60% o'r rhanddeiliaid proffesiynol yn teimlo eu bod yn deall gwasanaethau FEDRA' i ac roeddynt yn hyderus i atgyfeirio unigolion at wasanaethau FEDRA' i.

Fodd bynnag, dim ond 30% oedd yn cytuno bod ymagwedd system gyfan ar waith o safbwynt gweithio gyda phobl a chanddynt broblemau iechyd meddwl, a dim ond 24% oedd yn teimlo byd yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd ganddynt gan wasanaethau FEDRA' i yn briodol.

Mae rhaglen waith FEDRA' i yn cefnogi pobl yn y gymuned sydd â phroblemau iechyd meddwl, maent yn rhoi cymorth i bobl gael gwaith, a thrwy gyfrwng cymorth FEDRA' i o safbwynt gofal sylfaenol, maent yn cefnogi meddygon teulu.

## 2.2.5 Hwb Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant

Nod y ganolfan yw cydlynu gwaith ymchwil, arloesi a gwelliant yng Ngogledd Cymru i fod yn sail ar gyfer dulliau integredig newydd o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fel rhan o'r ymrwymiad a wnaed yn y cynllun Cymru Iachach.

Yn 2021-22, lanswyd y [casgliad o syniadau da](#) a [chronfa ddata ymgysylltu](#) ar ein gwefan. Bydd yr adnoddau hyn yn helpu i rannu arferion da a gwella cydlyniant gweithgareddau ar draws Gogledd Cymru.

Roeddem wedi cefnogi rhaglenni rhanbarthol gyda dyluniad arolwg, gwerthusiadau, chwiliadau data a llenyddiaeth i'w helpu i ddeall beth sy'n gweithio a thargedu adnoddau yn fwy effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys cynnal arolygon o'r hyn y mae rhieni ei angen, ynghyd â chwiliadau cynhwysfawr o adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc, er mwyn cefnogi fframwaith newydd i gefnogi iechyd a lles emosiynol.

Roeddem wedi cynnal cyfweiliadau, arolygon a mapio adnoddau i ganfod beth sydd angen digwydd i gefnogi ymchwil ac arloesi a gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y gwaith hwn yn llywio sut mae'r ganolfan yn datblygu dros y flwyddyn nesaf.

Roeddem wedi gweithio'n agos gyda chanolfannau rhanbarthol eraill a sefydliadau cenedlaethol i rannu, hybu a datblygu syniadau newydd. Erbyn diwedd y flwyddyn roeddem wedi cynyddu dilynwyr ein cyfrif Twitter i 300, ac roedd 150 o bobl wedi tanysgrifio i restr bostio'r Ganolfan Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant.

Am ragor o wybodaeth, gweler [Adroddiad Blynnyddol 2021/22](#), dilynwch ni ar Twitter [@NW\\_RICH](#) / [@ NW\\_RICH](#) a/neu [cofrestrwch i dderbyn ein newyddlen](#).

## Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022

Llwyddwyd i gwblhau adolygiad llawn o Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru mewn partneriaeth ag arweinyddion o fewn yr awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd, gyda chefnogaeth yr Hwb Ymchwil, Arloesi a Gwelliant ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

I baratoi'r adroddiad, casglwyd gwybodaeth a data, edrychwyd ar ystadegau, siaradwyd â'n cymunedau a defnyddiwyd ystod eang o wybodaeth a gafodd ei choladu gan gynghorau lleol, gwasanaethau iechyd, elusennau a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau. Mae'r adroddiad yn ein helpu i ddatblygu ein blaenoriaethau rhanbarthol ac i gynllunio a gwella gwasanaethau ar draws y rhanbarth.

[Gweler yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ar wefan y Gydweithredfa ranbarthol](#)

## 2.3 Grŵp Llywio Dementia Gogledd Cymru

Yn ystod 2021-22, roedd y Grŵp Llywio Dementia Rhanbarthol wedi ehangu ei gwmpas i oruchwylio gwaith datblygu a chyflawni (1) Strategaeth Dementia Gogledd Cymru, (2) Safonau Dementia Cymru Gyfan a (3) Gwella Gwasanaeth Asesu'r Cof (MAS) Rhanbarthol.

Comisiynwyd darn o waith hefyd i edrych yn benodol ar broblemau pobl sy'n byw â dementia o safbwynt y Gymraeg a natur wledig rhanbarthau Gogledd Cymru a Phowys.

### **Strategaeth Dementia Gogledd Cymru**

Yn ystod 2021-22, canfu'r grŵp llywio 12 blaenoriaeth o fewn cynllun gweithredu Strategaeth Dementia Gogledd Cymru. Llwyddwyd i gyflawni 6 o'r rhain yn gyfan gwbl, a gwnaed cynnydd da o ran y 6 arall. Ymhlith yr enghreifftiau o gyflawniadau yn ystod 2021-22 y mae:

- ✓ Sefydlu gwasanaeth asesu clyw rhanbarthol i bobl sy'n cael mynediad i wasanaethau cof.
- ✓ Cyflawni statws Cyfeillgar i Dementia gan bedwar o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, gyda grwpiau llywio ar waith i sicrhau gwelliant parhaus. Mae dau Awdurdod Lleol yn dal wrthi'n gweithio tuag at gyflawni'r statws hwn.
- ✓ Cynhyrchu 28 o fideos cefnogol Mentro Gyda'n Gilydd er mwyn cefnogi pobl i ennyn hyder ac ailgysylltu â'u cymuned yn dilyn y pandemig.
- ✓ Profi ymagwedd newydd arloesol ym maes gofal a chymorth ar gyfer dementia o safbwynt ymddygiadol, trwy dreialu Cymorth Dadansoddwr Ymddygiadol Cymhwysol.
- ✓ Datblygu pecyn cymorth hyfforddi a datblygu'r gweithlu gyda Gwelliant Cymru, i gefnogi'r gwaith o gyflenwi'r Fframwaith Gwaith Da.

### **Rhaflen Waith Parodrwydd a Gweithredu Safonau Dementia Cymru Gyfan**

Gwnaed cynnydd da yn ystod y cyfnod parodrwydd ar gyfer gweithredu Safonau Cymru Gyfan, er bod Covid, pwysau'r gaeaf a phwysau sylweddol parhaus ar y system iechyd a gofal cymdeithasol yn golygu y bu rhaid oedi cryn dipyn o'r gwaith hwn rhwng mis Tachwedd ac Ebrill.

### **Gwella Gwasanaeth Asesu'r Cof (MAS)**

Gwnaed cynnydd ardderchog o ran y gwaith o wella'r MAS. Mae enghreifftiau o gyflawniadau 2021-22 yn cynnwys:

- ✓ Cynyddu'r ddarpariaeth o gymorth cyn ac ar ôl cael diagnosis gan gynnig gwasanaeth cyson trwy gyfrwng llwybr MAS integredig a gomisiynwyd ar lefel ranbarthol, ac sy'n cael ei gyflenwi gan bedwar darparwr o'r trydydd sector.
- ✓ Cychwyn y gwaith o fodelu'r galw a'r capasiti o ran gwasanaeth o fewn clinigau cof, a datblygu cynlluniau ar gyfer clirio'r ôl-groniad o ran rhestrau aros.




- ✓ Cwblhau adolygiad pen desg o fodolau cyflenwi clinigau cof.
- ✓ Rhoi camau tymor byr ar waith i leihau amseroedd aros ar gyfer asesiadau mewn clinigau cof ynghyd â'r niferoedd sy'n aros am gyfnodau hir, er enghraifft oriau ychwanegol a goramser ym maes Nyrsio, Therapi Galwedigaethol, Seiciatreg ac Awdioleg.

## 2.4 Y Gronfa Gofal Integredig

Yn ystod 2021-22, buddsoddwyd cyfanswm o £18.92 miliwn o gyllid refeniw o'r Gronfa Gofal Integredig (CGI) mewn 125 o brosiectau ledled ein rhanbarth. Gwariwyd ychydig dros £6.2 miliwn ar brosiectau a oedd yn cefnogi gofalwyr yn uniongyrchol a buddsoddwyd £2.6 miliwn i gefnogi prosiectau gan sefydliadau trydydd sector.

Mae'r grwpiau canlynol yn rhai sydd â blaenoriaeth o ran integreiddio, ac mae'n rhaid i bob un o raglenni rhanbarthol y Gronfa Gofal Integredig ymgymryd â hwy yn unol â'u hasesiadau poblogaeth rhanbarthol a'u cynlluniau ardal:

- 🌈 Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a salwch tymor hir, gan gynnwys dementia;
- 🌈 Pobl ag anableddau dysgu;
- 🌈 Plant ag anghenion cymhleth; a
- 🌈 Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc.



Mae 46 o brosiectau yn cefnogi pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor; mae 26 o brosiectau yn cefnogi pobl â dementia a'u teuluoedd; 32 o brosiectau sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu ac mae 21 o brosiectau yn darparu ymyrraeth gynnar i bobl ifanc a'u teuluoedd.

Cadarnhawyd cyllid ychwanegol o £678,000 yn Awst 2021 i wella gwasanaethau asesu'r cof. Mae cael diagnosis yn amserol yn nod allweddol o fewn Cynllun Gweithredu Dementia Cymru. Bydd Llwybr Asesu'r Cof Integredig Gogledd Cymru'n cyflenwi

gwasanaeth rhanbarthol sy'n hawdd cael mynediad iddo, sy'n effeithiol ac yn deg i bobl â dementia a'u gofalwyr. Bydd y llwybr 3-rhan yn darparu (1) Gwasanaethau addysg a chymorth cyn cael asesiad, (2) Asesiad clinigol a (3) Gwasanaethau cymorth ar ôl cael diagnosis.

Mae'r GGI yn ariannu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru ar gyfer Oedolion hefyd. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wrthi ar hyn o bryd yn datblygu cynllun i roi hyn ar waith i sicrhau ei fod yn gallu cyflawni gofynion y Cod Ymarfer Awtistiaeth Cenedlaethol.

Defnyddiwyd y GGI i gomisiynu darn o waith i ddatblygu strategaeth '*Dim Drws Anghywir*' sy'n cynnig y modd gorau i asiantaethau weithio gyda'i gilydd i ymateb i'r sbectwm cyfan o anghenion plant a phobl ifanc sy'n profi problemau iechyd meddwl.




Yn ogystal â chyllid refeniw, derbyniodd rhanbarth Gogledd Cymru hefyd £10.53m o gyllid Cyfalaf CGI a oedd wedi cefnogi 46 o brosiectau yn ystod 2020/21. Roedd y prif gynlluniau cyfalaf a yrrwyd yn eu blaenau yn defnyddio cyllid Cyfalaf ICF yn ystod y flwyddyn yn cynnwys academi gyflogaeth a hyfforddiant i gefnogi dinasyddion ag anabledd dysgu yn Sir Ddinbych, ynghyd â chartref i grŵp bach o blant ar Ynys Môn, a Chanolfan Asesu Breswyl i Blant yn Sir y Fflint.






Daeth cyllid ychwanegol ar gyfer tai cymdeithasol, cyflwynodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol geisiadau a diogelwyd ychydig dros £700,00 mewn cyllid ar gyfer 6 eiddo.

## 2.5 Arian y Gaeaf

Dyrannodd Llywodraeth Cymru £2.2 miliwn i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gefnogi cyflawniad y llwybrau Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu (D2RA) fel rhan o Gynllun y Gaeaf.

Mae'r llwybrau Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu wedi'u nodi isod, ac roedd cynlluniau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnwys:

-  Ychwanegu at y Timau Adnoddau Cymunedol fel y gellid bod yn barod i ddarparu'r gwasanaeth Gartref o'r Ysbyty;
-  Ychwanegu Gweithiwr Cymdeithasol, Therapydd Galwedigaethol, Ffisiotherapydd a Nyrsys Cymunedol, i gefnogi asesiadau a rhyddhau o'r ysbyty;
-  Mwy o Weithwyr Cymorth Dementia.

LLWYBR 0	LLWYBR 1	LLWYBR 2	LLWYBR 4	LLWYBR 3
				
Osgoi derbyn trwy gefnogaeth trydydd sector byr-dymor	A yw'r unigolyn mewn cyflwr priodol i'w derbyn?	Pam ddim gartref? Pam ddim heddiw??	Cartref gyntaf pan mai cartref gofal yw eich cartref	Cefnogaeth i gael adferiad mewn cyfleuster gofal canolraddol gyda gwllâu
Darparu gwasanaethau ataliol ar y cyd â sefydliadau trydydd sector. Anelu i osgoi atgyfeirio a derbyniad pellach	Asesiad tîm aml-ddisgyblaethol o fewn unedau 'drws ffrynt' ysbyty i osgoi derbyn llawn. Trefnu triniaeth ac adferiad gyda chymorth yn y cartref, pryd bynnag fo'n ddiogel gwneud hynny.	Cychwyn cyn gynted ag y bydd triniaeth, a ellir ond ei darparu o fewn amgylchedd ysbyty aciwt, yn cael ei gwblhau. Cefnogi pobl i gael adferiad yn y cartref cyn cael eu hasesu ar gyfer unrhyw angen parhaus.	Tebyg i Lwybr 2, ond yn cydnabod ystyriaethau penodol i'w trin yn yr amgylchedd cartref gofal presennol. Dylai unigolion gael cyfnod o adferiad, ac yna asesiad yn eu hamgylchedd arferol.	Dylid ond ei ystyried pan fo anghenion yr unigolyn yn golygu na ellir cael adferiad ac asesiad yn y cartref. Adolygu a throsglwyddo i Lwybr 2 ble bynnag fo'n bosib, a chyn gynted a phosib.

Tud. 274

### 3. Cyfathrebu, Ymgysylltu a Gwerth Cymdeithasol

Yn y rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol nodir sut aeth y Bwrdd ati i ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau neu baneli dinasyddion, a hyrwyddo cydweithrediad a chyfranogiad â phartneriaid perthnasol ac eraill. Mae'n esbonio sut mae'r Bwrdd wedi ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn y trydydd sector a'r sector annibynnol, ynghyd â'r cynnydd a wnaed wrth sefydlu fforymau i hybu gwerth cymdeithasol a rhannu arferion da.





#### 3.1 Ymgysylltu yng Ngogledd Cymru

Roedd Covid-19 wedi parhau trwy gydol 2021 ac felly nid oedd modd cynnal gweithgareddau ymgysylltu fel fforymau, sesiynau grŵp, digwyddiadau cyhoeddus a sesiynau wyneb yn wyneb, ond mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn dal i ymgysylltu â phobl drwy dulliau gwahanol, e.e. y cyfryngau cymdeithasol, ar-lein, Teams/Zoom ac ati, dros y ffôn a thrwy bartneriaid a budd-ddeiliaid.

Mae gan Swyddog Ymgysylltu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gysylltiadau gweithio ardderchog gyda swyddogion cyfathrebu ac ymgysylltu sefydliadau sy'n bartneriaid, ac mae'n parhau i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu ynghylch y Bwrdd a'i waith. Drwy gael Swyddog Ymgysylltu pwrpasol mae'r Bwrdd yn gallu cyflymu ei weithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu, a datblygu ar sail y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud.

#### 3.2 Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru








Sefydlwyd Grŵp Llywio Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru yng Ngogledd Cymru yn 2016 i gefnogi Awdurdodau Lleol a phartneriaid i gyflawni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 drwy:

-  Weithio gyda Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru i hyrwyddo datblygiad sefydliadau dielw preifat (gan gynnwys mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector) i ddarparu gofal a chefnogaeth, a chefnogaeth i ofalwyr, a gwasanaethau ataliol;
-  Hyrwyddo cydweithio gyda'r nod o gynyddu gwerth cymdeithasol a chyd-gynhyrchu ar draws yr holl ddarparwyr sy'n darparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a/neu wasanaethau lles yng Ngogledd Cymru;
-  Hyrwyddo cyfleoedd partneriaeth a rhwydweithio ar draws sectorau;
-  Nodi arferion da a'u rhannu; dylanwadu ar ddatblygiad ymarfer a dulliau arloesol gyda chomisiynwyr ac adrannau caffael i gomisiynu a chaffael gwasanaethau sy'n darparu gwerth cymdeithasol.

Gwnaed cynnydd cadarnhaol o safbwynt adfywio'r Fforwm ers Gorffennaf 2021,

ynghyd â chanfod aelodau ychwanegol o awdurdodau lleol, BIPBC a'r Trydydd Sector/Sector Gwirfoddol.

Mae aelodaeth Grŵp Llywio Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru yn cynnwys y cynrychiolwyr canlynol, sydd i gyd yn meddu ar wybodaeth a diddordeb mewn Gwerth Cymdeithasol:

-  Pob un o'r chwe awdurdod lleol ar draws Gogledd Cymru
-  Pob Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sirol
-  Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Mantell Gwynedd
-  Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
-  Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'r Grŵp Arweinyddiaeth
-  Cymdeithasau Tai Gogledd Cymru
-  Gwasanaethau statudol – Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Bydd y Fforwm yn parhau i weithio gyda Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru i hyrwyddo datblygiad sefydliadau dielw preifat (gan gynnwys mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector) i ddarparu gofal a chefnogaeth a chefnogaeth i ofalwyr, a gwasanaethau ataliol. Byddwn yn hyrwyddo gwaith ar y cyd, partneriaeth a chyfleoedd rhwydweithio ar draws sectorau, gyda'r nod o gynyddu gwerth cymdeithasol a chyd-gynhyrchu ar draws yr holl ddarparwyr sy'n darparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a/neu wasanaethau lles yng Ngogledd Cymru. Bydd y Fforwm hefyd yn ceisio mesur effaith gwerth cymdeithasol a sut mae'n cael ei ddarparu yng Ngogledd Cymru.

Yn ystod 2021/22, Gan weithio gyda Chynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol, bydd y Fforwm yn canolbwyntio ar brosiectau Trydydd Sector, yn arbennig gan ddefnyddio arian Trawsnewid Rhanbarthol a'r Gronfa Gofal Integredig i gyflawni'r budd mwyaf posibl. Bydd y Fforwm hefyd yn llunio cynllun gweithredu ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Cliciwch [YMA](#) ar gyfer Astudiaeth Achos Gwerth Cymdeithasol.

### 3.3 Grwpiau Gofalwyr Gogledd Cymru


Mae **Grŵp Gweithredol Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru (NW(Y)COG)** wedi dal ati trwy 2021/22 i gyflawni Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol Gogledd Cymru drwy ddarparu gwasanaethau cynnal gofalwyr ar ran awdurdodau lleol, y gwasanaethau iechyd a'r trydydd sector yn y rhanbarth.

Mae ein **Gwasanaeth Hwyluso ar gyfer Meddygon Teulu ac Ysbytai**, a ariannwyd trwy Grant Gofalwyr blynyddol Llywodraeth Cymru, wedi parhau i gefnogi gofalwyr di-dâl ym maes gofal sylfaenol ac eilaidd trwy gydol ail flwyddyn y pandemig, yn ystod y cyfyngiadau ar feddygfeydd a wardiau ysbytai. Bu Hwyluswyr Gofalwyr Ysbytai yn darparu cymorth ar adeg rhyddhau unigolion o'r ysbyty, ac maent wedi parhau i gyfathrebu â gweithwyr iechyd o bell yn ystod cyfnod y sawl sy'n derbyn gofal yn yr

ysbyty. Sefydlwyd cysylltiadau â Biwroau Rhyddhau Cartref yn Gyntaf ar draws y tri Ysbyty Cyffredinol Dosbarth (YCD).

Rhwng Ebrill a Rhagfyr 2021, fe gafodd dros 700 o ofalwyr di-dâl eu canfod a'u cefnogi o fewn y sector gofal sylfaenol gan y ddau ddarparwr a gomisiynwyd gennym, sef Cynnal Gofalwyr a NEWCIS. Hefyd, fe gafodd nifer debyg o ofalwyr di-dâl eu canfod a'u cefnogi o fewn y sector gofal eilaidd, wrth gefnogi claf mewnol, neu pan oeddynt hwy eu hunain yn gorfod aros yn yr ysbyty.

Cafodd **Cynllun Gweithredu NW(Y)COG** ei adolygu yn unol â Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'r pedair blaenoriaeth genedlaethol. Gofynnwyd i bartneriaid unigol o fewn y Grŵp Gweithredol Gofalwyr ddarparu diweddariad ar y cynnydd er mwyn mesur eu perfformiad eu hunain yn erbyn y strategaeth a'r cynllun gweithredu.



Hefyd, Diwrnod Gweithredu Gofalwyr Ifanc, sef 16eg Mawrth 2022, oedd pen-blwydd cyntaf **cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru**. Defnyddir y dull adnabod hwn mewn ysgolion, fferyllfeydd ac archfarchnadoedd gan ofalwyr ifanc sy'n gofalu am rywun, sef rhiant neu frawd neu chwaer fel arfer, p'un a ydynt yn wael neu'n anabl.

Hyd at Fawrth 2022, mae bron i 200 o gardiau adnabod wedi cael eu cyflwyno i ofalwyr ifanc yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Drosodd ym Môn ac yng Ngwynedd datblygwyd 'ap' o'r enw AIDI, mae'n cael ei dreialu mewn pedair ysgol a, hyd yma, mae'n profi i fod yn effeithiol ymhlith gofalwyr ifanc di-dâl.

Bu'r darparwr a gomisiynwyd sy'n cefnogi gofalwyr ifanc, sef Gweithredu Dros Blant, Gofalwyr Ifanc WCD (Wrecsam, Conwy, Sir Ddinbych) a NEWCIS yn cydweithio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, o'r gwaith cychwynnol o gyd-dylunio'r cerdyn gyda gofalwyr ifanc, i waith hyrwyddo a datblygu'r fenter ar hyn o bryd.



## 4. Edrych tuag at y Dyfodol

Yn y rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol cyflwynir y blaenoriaethau y bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn canolbwyntio arnynt yn 2022-23 a thu hwnt, gan amlygu'r meysydd hynny y mae Covid-19 wedi cael effaith arnynt gan arwain at ailbennu blaenoriaethau neu gyfeiriad strategol

### 4.1 Effaith Covid

Mae effaith COVID-19 yn dal yn amlwg ar draws y rhanbarth, ac mae o wedi effeithio'r cynnydd a wnaed o safbwynt rhai ffrydiau gwaith. Fodd bynnag, roedd cyfarfodydd misol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi parhau i gael eu cynnal yn rhithiol, a'r adborth gan aelodau yw eu bod wedi llwyddo i barhau i ymgysylltu â'r Bwrdd a chyfrannu i'w waith trwy gyfarfodydd rhithwir.

Er mwyn sicrhau bod aelodau, partneriaid, rhanddeiliaid y Bwrdd a phobl a oedd â diddordeb yn parhau i gael eu diweddarau, lluniwyd newyddlen chwarterol a ddosbarthwyd i amlygu llwyddiant y gwasanaethau a gyflenwyd yng nghyswllt ei raglenni trwy gydol 2021/22.

### 4.2 Blaenoriaethau ar gyfer 2022/23 a thu hwnt

Rydym wedi cadarnhau ein blaenoriaethau a'n dogfen ffocws ar gyfer y tymor byr a'r tymor hwy. Mae hyn yn cysylltu â'n Cynllun Ardal a'r blaenoriaethau presennol ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Nodir hyn yn adran 1.1. Cynhelir adolygiad pellach yn unol â chanlyniadau'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a'r adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad, a chaiff ein Cynllun Ardal a'n Blaenoriaethau eu diwygio fel y bo'n briodol.

# Atodiad 1 – Aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Fel ag yr oedd ddiwedd mis Mawrth 2022

Enw	Teitl
Mary Wimbury (Cadeirydd)	Cynrychiolydd Darparwyr
Catrin Roberts	Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol
Alwyn Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Ann Woods	CGS Gogledd Cymru (Cyfetholedig)
Bethan E Jones	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Dr Chris Stockport	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Y Cyng. Bobby Feeley	Cyngor Sir Ddinbych
Y Cyng. Christine Jones	Cyngor Sir y Fflint
Y Cyng. John Pritchard	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Y Cyng. Dafydd Meurig	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cyng. Llinos Medi Huws	Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng. Cheryl Carlisle	Cyngor Gwynedd
Dave Hughes	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (Cyfetholedig)
Delyth Lloyd-Williams	Cynrychiolydd Darparwyr
Dr Lowri Brown	Cynrychiolydd Addysg ALI
Estelle Hitchon	WAST (Cyfetholedig)
Ffion Johnstone	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Fôn Roberts	Cyngor Sir Ynys Môn
Helen Corcoran	Heddlu Gogledd Cymru (Cyfetholedig)
Iwan Davies	Cynrychiolydd Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru/Prif Weithredwr
Jenny Williams	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Jo Whitehead	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Lucy Reid	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

<b>Enw</b>	<b>Teitl</b>
Meinir Williams-Jones (Barnardos)	Cynrychiolydd Trydydd Sector
Morwena Edwards	Cyngor Gwynedd
Neil Ayling	Cyngor Sir y Fflint
Nicola Stubbins	Cyngor Sir Ddinbych
Ricki Owen	Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth
Rob Smith	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Sam Parry	Cynrychiolydd Tai ALI
Sian Tomos (GISDA)	Cynrychiolydd Trydydd Sector
Steve Gadd	Prif Swyddog Cyllid (Adran 151) (Cyfetholedig)
Shan Lloyd Williams	Cynrychiolydd Tai
Teresa Owen	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Ruth Whittingham	Cydweithio Rhanbarthol



## Atodiad 2 – Darpariaethau Statudol

Mae partneriaid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi llunio ‘Cytundeb Integreiddio’, sef cytundeb cyfreithiol sy’n cadarnhau ei ymrwymiad i gydweithio ar brosiectau allweddol a nodwyd fel rhai addas ar gyfer gwasanaethau integredig a threfniadau cyllideb gyfun.

Caniateir defnyddio’r darpariaethau statudol a ganlyn i ategu gwaith y Bwrdd:

- Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – adrannau 166 a 167 yn benodol a rheoliadau cysylltiol (Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015).

Dibynnwyd ar bwerau cyfreithiol eraill i gefnogi partneriaethau rhanbarthol yr ymunwyd â hwy, gan gynnwys:

- Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 – adrannau 1, 2, 10, 33, 38 ac 82 yn bennaf.
- Pwerau Adran 9 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 mewn perthynas â chydweithio gydag awdurdodau lleol eraill.
- Deddf Llywodraeth Leol 1972 – yn enwedig adran 2, sy’n rhoi pwerau i awdurdodau wneud unrhyw beth y maent yn ystyried ei fod yn debygol o gyflawni un neu fwy o’r buddion canlynol: hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yr ardal, ac adran 113 sy’n galluogi un awdurdod lleol i gynnig ei staff i awdurdod lleol neu awdurdod iechyd neu Fwrdd Iechyd arall.

Mae Adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1982 yn caniatáu i awdurdod lleol gael y pŵer i wneud unrhyw beth sy’n cael ei bennu i hwyluso, neu sy’n ffafriol neu’n atodol, i gyflawni ei swyddogaethau.

# Eitem 12

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>22 Tachwedd 2022</b>
<b>Aelod Cabinet:</b>	<b>Y Cynghorydd Dilwyn Morgan</b>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	<b>Aled Davies</b>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Oedolion, lechyd a Llesiant</b>

#### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

#### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

#### 3 CYFLWYNIAD

3.1 Dyma adroddiad i ddiweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdany'n nhw. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddarad o ran sefyllfa ariannol yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant. Mae'r adroddiad hwn wedi'i ddrafftio yn seiliedig ar drafodaethau mewn cyfarfod rhyngof i, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a chynrychiolaeth o'r adran.

3.2 Mae'r adran yn parhau mewn cyfnod heriol sydd ddim i'w weld yn ysgafnhau. Mae staff wedi bod o dan bwysau sylweddol ers dechrau cyfnod y pandemig ac am nifer o resymau, mae'n anoddach nag erioed i recriwtio i'r maes sy'n rhoi pwysau sylweddol pellach arnynt. Mae'r adran hefyd mewn cyfnod trosiannol, gyda llawer o waith yn digwydd i geisio sicrhau bod ein gwasanaethau ni'n addas i bwrpas ar gyfer anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth rŵan ac i'r dyfodol. Rwy'n falch iawn felly o'r modd y mae'r adran wedi bod yn llwyddo i ymdopi â'r pwysau yma ac mae'r perfformiad yn adlewyrchu hynny ar y cyfan. Rwy'n falch hefyd o weld bod cynnydd dal i ddigwydd er gwaetha'r anawsterau capasiti yn yr adran, a does dim dwywaith mai ymroddiad y staff i'r maes ac i'r unigolion y maen nhw'n ei gefnogi sydd i'w ddiolch am hynny.

3.3 Mae'r gwaith o ddatblygu mesurau yn barhaus yn yr adran hon ond rwyf wedi gweld y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma ac wedi fy modloni fod y gwaith yn digwydd fel mater o flaenoriaeth i'r adran.

3.4 Mae nifer o'r materion isod wedi eu hamlygu fel rhan o archwiliad diweddar gan Arolygaeth Gofal Cymru, a byddaf yn adrodd ymhellach ar eu hadroddiad nhw i'r Pwyllgor Craffu Gofal.

## 4 PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-23

4.1 Mae gan yr adran gyfrifoldeb dros nifer fawr o ffrydiau gwaith sydd o flaenoriaeth i'r Cyngor. Mae'r rhain wedi'u rhannu i ddwy raglen waith yng Nghynllun y Cyngor – *Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r Dyfodol ac Ailddylunio ein Gwasanaethau Gofal*.

4.2 Fodd bynnag, un o brif heriau a risg sylweddol i allu'r adran i ddarparu ei wasanaethau craidd yw'r anawsterau presennol i **recriwtio a chadw staff yn y maes**. Mae hyn yn derbyn sylw ar lefel corfforaethol fel rhan o brosiect yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, *Cynllunio'r Gweithlu*, ond dyma ddiweddariad byr ar waith yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn y maes ers i mi adrodd ddiwethaf:

- Wedi bod yn ailedrych ar ffurflenni cais a chreu tudalen swyddi symlach, mwy deniadol.
- Yn cynnal digwyddiadau recriwtio lleol – er yn llwyddiannus ym Maesgeirchen, ni fu mor llwyddiannus yn Ffestiniog gan na lwyddwyd i benodi o gwbl. Mae hyn wedi cyfrannu at ein anallu i agor uned dementia yn ein cartref yn Llan Ffestiniog.
- Yn cynnal cyfweiliadau gadael i ddeall pam fod unigolion yn gadael y maes ac i le maen nhw'n mynd. Bydd yr wybodaeth yn bwydo mewn i'r strategaeth recriwtio i'r dyfodol.
- Cydweithio ag ysgolion a cholegau i geisio denu unigolion i'r sector yn fuan, ac i drafod cydweithio drwy gynnig gwaith gofal i staff sydd ond yn gweithio 39 wythnos y flwyddyn e.e. cymorthyddion dysgu.
- Cynlluniau Hyfforddeion Gwaith Cymdeithasol a Therapi Galwedigaethol yn dal i fynd rhagddynt.

### 4.3 Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r Dyfodol

Mae gwaith ar y rhaglen hon yn mynd rhagddo'n dda ond mae heriau sylweddol yn parhau yn bennaf o ganlyniad i heriau recriwtio. Dyma geisio crynhoi lle'r ydan ni arni fesul ffrwd gwaith:

- **Ceisio deall 'gwir gost gofal'** – yn cydweithio i baratoi awgrym o ffi rhanbarthol preswyl a nyrsio ar gyfer 2023/24. Bydd hyn o gymorth i ni wrth benderfynu ar ein ffioedd ni ar gyfer y flwyddyn honno.
- **Safle Penrhos** - gwaith yn parhau. Bwriad i gyflwyno achos busnes i'r Cabinet ym mis Rhagfyr.
- **Cynyddu gwelyau dementia** - gwaith yn parhau ar ein cartrefi'n y Bermo a Bangor. Yn cael anhawster i agor unedau parod oherwydd problemau staffio.
- **Gwneud defnydd o'r addasiadau sydd wedi'u gwneud i'n cartref yn Nolgellau ar gyfer unigolion ag anghenion corfforol dwys** – wedi'i gyflawni ac yn gweld bod yr addasiadau yn cefnogi pobl i barhau i fyw yn y cartref am hirach.
- **Gwasanaethau Cefnogol** – mwy o wasanaethau dydd ac ysbaid wedi aildechrau. Hefyd yn ystyried opsiynau posib ar gyfer darpariaeth gofal dydd i'r dyfodol yn Ffestiniog a Chricieth.
- **Tai Gofal Ychwanegol** - mewn trafodaethau gyda'r Adran Tai ac Eiddo er mwyn datblygu yn Nolgellau a Chaernarfon. Daeth Caernarfon i'r amlwg mewn darn o waith diweddar fel blaenoriaeth sirol o safbwynt y galw am y math yma o ddarpariaeth.
- **Cryfhau ein gwasanaeth sicrwydd ansawdd** – bid yn aflwyddiannus a chapasiti yn parhau'n rhy isel i gyrraedd mwyafrif y darparwyr. Bwriad i gyflwyno bid eto eleni.

### 4.4 Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal


Mae'r gwaith ar y rhaglen yma hefyd yn mynd rhagddo'n dda yn gyffredinol er bod ein prif heriau'n parhau. Dyma geisio crynhoi lle ydan ni arni fesul ffrwd gwaith:

- **Arfogi'r Timau Adnoddau Cymunedol i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i oedolion Gwynedd** –gwaith yn parhau gyda ffocws ar hyfforddiant a dileu rhwystrau.
- **Model newydd gofal cartref** – proses drosglwyddo yn mynd rhagddo. Bwrdd Rhaglen wedi'i sefydlu i weithredu'r amrywiol ffrydiau gwaith.
- **Cryfhau'r gwasanaeth Therapi Galwedigaethol** – rhwystrau recriwtio yn parhau er gwaethaf gwneud penodiadau i swyddi a chyfleon hyfforddai. Bwriad i benodi hyfforddai arall yn fewnol i ddechrau cwrs gradd rhan amser Therapi Galwedigaethol yn y flwyddyn newydd gan gydweithio â Phrifysgol Glyndŵr.
- **Ychwanegu at rwydwaith o hybiau cymunedol i unigolion ag anableddau dysgu** – bwriadu cyflwyno cais cynllunio llawn ar gyfer gwaith adeiladu yng Nghanolfan Dolfeurig Dolgellau ar 30/11/22. Yn defnyddio mwy ar Hwb Arfon yng Nghanolfan Byw'n Iach Arfon i ddatblygu sgiliau, sesiynau grŵp ayb.
- **Diwallu anghenion llesiant unigolion gydag Anableddau Dysgu yng Nghaernarfon** – gwaith yn parhau i ystyried yr opsiynau, ac yn edrych ar ddatblygu gofod cymunedol ar safle Frondeg i bawb gan gynnwys Oedolion Hŷn.
- **Profi'r budd o hybiau llesiant i gefnogi unigolion hyd at 25 oed yn ymarferol ac emosiynol yng Nghaernarfon a Ffestiniog** – wedi gweld cynnydd yn nefnydd yr hybiau yn sgil y crisis costau byw. Y Bwrdd lechyd yn bwriadu datblygu mwy o hybiau ar-lein cyn y Nadolig a bwriad i ddatblygu hwb yn benodol i unigolion yn y byd amaeth. Dylid nodi mai'r Bwrdd lechyd sydd yn arwain ar y gwaith yma ac mai ymylol yw ein cyfraniad.
- **Cynyddu opsiynau llety addas i unigolion ag Anableddau Dysgu** – gwaith yn parhau i gynyddu eiddo addas yn Arfon a Llŷn. Bwriad i ganfod opsiwn i ddatblygu ym Meirionnydd. Gwaith ataliol yn digwydd i drafod dyheadau unigolion sy'n agosáu at oed trosglwyddo i wasanaethau oedolion.
- **Gwerthuso ein darpariaeth iechyd meddwl** – wedi derbyn adroddiad ar opsiynau posib a dechrau trafodaethau i gynllunio'r gwaith.
- **Cydweithio â'n partneriaid i sicrhau cysondeb o ran mynediad i wasanaethau iechyd meddwl addas ar draws y sir** – wedi adolygu ein cytundebau efo'r canolfannau adnoddau iechyd meddwl i gyfarch llesiant yn hytrach na chanolbwyntio ar iechyd meddwl. Y canolfannau'n darparu cefnogaeth rhithiol ac mewn lleoliadau lloeren ar draws y sir.

## 5 PERFFORMIAD

- 5.1 Prif fesurydd y **Gwasanaeth Pobl Hŷn, Anableddau Corff ac Anhwylderau Synhwyraidd** ydi 'a wnaethom gyflawni'r hyn sy'n bwysig' i unigolion. Rydym wedi gweld cwmp yn y ffigurau yma ers adrodd ym Mehefin gyda 77% yn adrodd ein bod wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt yn llawn yn y cyfnod ers Ebrill 2022 o'i gymharu â 79% rhwng Ionawr a Mawrth 2022. Mae'r nifer o adolygiadau sydd wedi eu gwneud yn parhau'n is nag y byddem yn hoffi o ganlyniad i ddiffyg capasiti. Ymddengys bod y rhesymau dros fod wedi methu cyflawni'r hyn sy'n bwysig i unigolion yn faterion sydd allan o'n rheolaeth ni mewn rhai achosion, gan gynnwys unigolion yn teimlo'n rhwystredig na allen nhw wneud mwy dros eu hunain a diffyg lle parhaol mewn cartref lle'r oedd unigolyn wedi mynd yno dros dro.
- 5.2 Mae'r un mesurydd gan ein **Gwasanaeth Anableddau Dysgu a'n Gwasanaeth Gofalwyr**. Er bod y perfformiad yn ymddangos yn 100% ar gyfer y ddau wasanaeth, mae'r nifer o adolygiadau yn bryderus o isel ac mae risg nad yw'r mesuryddion o'r herwydd yn wir adlewyrchiad o'r sefyllfa a'r heriau. Rwyf wedi gofyn i'r adran roi sylw i'r mesurydd yma yn gyffredinol er mwyn sicrhau ei fod yn cyfleu darlun dibynadwy.

5.3 Ers i mi adrodd y tro diwethaf, mae'r **rhestrau aros am ofal cartref** wedi gwaethygu eto gyda'r nifer o oriau gofal cartref na ellir ei ddiwallu wedi cynyddu o 11.2% i




17.1%. Mae'r cynnydd cyson ers Mehefin yn bennaf o ganlyniad i nifer o ddarparwyr yn rhoi pecynnau gofal yn ôl ar fyr rybudd o ganlyniad i gynnydd mewn galw, materion staffio neu'r darparwr ddim yn ennill y gytundeb gofal cartref yn yr ardal. Mae wedi sefydlogi rhywfaint ers trosglwyddo pecynnau i ddarparwyr newydd ond rydym hefyd yn gweld diffyg capasiti ganddynt i gwrdd â'r galw yn yr ardaloedd ar hyn o bryd.

5.4 Yr effaith o hynny wedyn ar ein **gwasanaeth gofal cartref mewnol** ydi nad yw'n bosib i ni dynnu'n ôl yn llawn o'r ardaloedd lle na fyddwn yn darparu gwasanaeth i'r dyfodol. Rwyf wedi gofyn i'r adran ystyried sut mae mynd i'r afael â hyn.


5.5 Rydym wedi gweld nifer o broblemau gyda'r mesurydd hwn yn y gorffennol, yn bennaf oherwydd nad yw'r rhestrau bob amser yn cael eu diweddarau'n briodol. Mae tîm Bangor ar hyn o bryd yn treialu trefn newydd o adrodd ar y rhestr aros yn ddyddiol fesul is ardal i sicrhau cywirdeb – ac mae'r adran yn gobeithio ei gyflwyno yng ngweddill yr ardaloedd hefyd.

5.6 Mae nifer y gwelyau sydd ar gael i'w defnyddio yn ein **cartrefi gofal mewnol** yn parhau'n is nag yr hoffem iddo fod. Mae rhai materion penodol sy'n cyfrannu at hyn megis diffyg gallu agor unedau dementia a chynnydd yn anghenion gofal ein trigolion. Wrth ystyried yr argyfwng recriwtio a chadw staff difrifol sydd eisoes yn bodoli ac sy'n ein rhwystro rhag gallu staffio ein cartrefi'n ddigonol, mae'r materion hyn yn rhoi pwysau ychwanegol eto ar ein capasiti staffio.



5.7 Yn fy adroddiad diwethaf, nodais y rhwystredigaeth gyda diffyg mesuryddion ar gyfer y **Gwasanaeth Iechyd Meddwl**. Mae'r problemau'n ymwneud â diffyg defnydd o systemau ffeilio electroneg gan y gwasanaeth integredig yn parhau, ond erbyn hyn mae'r gwasanaeth wedi gallu adrodd ar y cynnydd mewn cyfeiriadau i'r gwasanaeth ers dechrau 2020 – gyda 352 cyfeiriad y mis ar gyfartaledd yn 2020 a 428 cyfeiriad y mis ar gyfartaledd hyd yma eleni. Dylid nodi hefyd fod achosion sydd yn cyrraedd y tîm bellach yn fwy cymhleth sydd yn cynyddu'r pwysau ar y tîm ymhellach. Mae na bellach 116 o unigolion ar y rhestr aros am wasanaeth iechyd meddwl eilradd hefyd. Rwyf wedi gofyn i'r adran barhau i roi sylw i ddatblygu'r mesuryddion ar gyfer y gwasanaeth yma.

5.8 Rydym wedi gweld gwellhad unwaith eto gyda'r **canran o ymholiadau diogelu** oedd wedi eu cwblhau o fewn 7 diwrnod yn 90.3% ar gyfartaledd dros y 7 mis diwethaf ers Ebrill 2022. Mae hyn yn cymharu â 88% ac 81% ar gyfer y cyfnodau blaenorol ac rwy'n hynod o falch o'r perfformiad hwn. Mae'r nifer o achosion lle mae'r risg wedi'i reoli hefyd yn ymddangos yn uwch ar gyfer y chwarter diwethaf (97% ar gyfartaledd dros 4 mis ers Gorffennaf 2022). Cyflwynwyd ffurflen adrodd newydd ym mis Ebrill sydd llawer mwy eglur ac felly mae gwell cysondeb bellach.



5.9 Mae'r tîm **sicrwydd ansawdd** yn bodoli i sicrhau bod y gofal sy'n cael ei gomisiynu yn ddiogel ac o ansawdd, ac mae gen i bryderon gwirioneddol nad yw capasiti'r tîm yn eu caniatáu i gyrraedd y rhan fwyaf o ddarparwyr gofal i gynnal ymweliadau monitro. Oherwydd diffyg capasiti yn y tîm a'r adnodd sylweddol fyddai ei angen i fedru ymweld â sampl digonol o achosion ar draws nifer o leoliadau amrywiol, nid yw'r tîm wedi gallu cychwyn eto ar y gwaith o fonitro'r naw darparwr gofal cartref yn y sir. Mae bidiau am arian i

gynyddu capasiti'r tîm yma wedi eu gwrthod yn y blynyddoedd diwethaf, ond rwyf wedi cael cadarnhad y bydd bid yn cael ei gyflwyno eto eleni er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r mater yma.

## 6 SEFYLLFA ARIANNOL

6.1 Ar sail adolygiad cyllidol diwedd Awst 2022, mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn rhagweld gorwariant o £1.9 miliwn yn erbyn y gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2022/23.

6.2 Mae tueddiad i adolygiad cyllidol cyntaf y flwyddyn ariannol adlewyrchu sefyllfa heriol gan fod ansicrwydd am amrywiol grantiau sy'n dod yn hysbys i'r Adran yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol fel arfer. Dydi hyn ddim gwahanol ar gyfer y flwyddyn 2022/23. Mae'r adran yn ymwybodol fod perfformiad ariannol calonogol 2021/22 wedi bod yn ddibynnol ar grantiau 'un tro' gan Lywodraeth Cymru, a bod y rhagolygon ar gyfer 2022/23 a'r blynyddoedd i ddod yn parhau yn heriol dros ben.

6.3 Bu i Gabinet 18 Ionawr 2022 gyntuno i ohirio rhai o gynlluniau arbedion yr adran i 2023/24 er mwyn rhoi cyfle i gyflawni. Rhoddodd hyn fwy o amser i sicrhau bod modelau gweithredu newydd yn cael eu gwreiddio o fewn yr adran. Mae'r ffigwr gorwariant ar gyfer 2022/23 yn cynnwys oddeutu £1m o gynlluniau arbedion sydd heb allu cael eu gwireddu hyd yma, ac yn annhebygol o fod wedi eu gwireddu yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae cyfarch yr arbedion yma, tra'n parhau i weld cynnydd mwy na'r disgwyl yn y galw am wasanaethau, yn mynd i fod yn heriol o ystyried y gwaith sylweddol sy'n parhau i drawsnewid gwasanaethau a newid y ffordd o weithio. I sicrhau fod gennym yr adnodd hwyluso trawsnewid sydd ei angen i gyflawni hyn, mae ymdrech i ddefnyddio ffynonellau ariannu amrywiol, yn benodol y Grant RIF (Cronfa Integreiddio Rhanbarthol) gan Lywodraeth Cymru.

6.4 Mae'r adran wedi cyflwyno bidiau ariannol er mwyn cyfarch cyllidebau sydd eu hangen er mwyn parhau gyda gwasanaethau statudol, a/neu newid mewn deddfwriaeth, ac mae gwaith craffu cychwynnol wedi digwydd rhyngof i a'r adran. Yn yr hinsawdd sydd ohoni, bydd rhaid i ni hefyd ailedrych ar ein dulliau o gyflawni rhai gwasanaethau.

## 7 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDY CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

7.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

i. Y Swyddog Monitro:

Mae'r Gwasanaetha Cyfreithiol yn cyd weithio gyda'r Adran ar sawl elfen o'r hyn a adroddir arno . Dim sylwadau pellach i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

ii. Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

# Eitem 13 CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad:</b>	22 Tachwedd 2022
<b>Teitl yr Eitem:</b>	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd
<b>Aelod Cabinet:</b>	Y Cyngorydd Elin Walker-Jones
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	Marian Parry Hughes, Pennaeth Adran Pland a Cefnogi Teulu

---

### Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

### Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

---

#### 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd hyd yma yn 2022-23 yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; ac amlinelliad o ble mae'r adran arni gyda'u mesurau perfformiad; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.
- 1.2 Edrychaf ymlaen i gael gweithio gyda'r adran a'r cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu drwy'r drefn Herio Perfformiad yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau gallwn i roi pobl Gwynedd yn ganolog i'n gwasanaethau plant a chefnogi teuluoedd.
- 1.3 Mae'r prosiectau blaenoriaeth drwy Gynllun y Cyngor yn symud ymlaen. Er fod dargyfeirio staff i gefnogi gyda'n Ymateb i Argyfwng Wcraïn wedi cael ardrawiad ar ein gallu i gyflawni ein rposeict "Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd" rydym bellach wedi dal fyny gyda'r gwaith. Mae newid pwylais wedi bod hefyd yn ein prosiect "Cefnogi Llesiant Pobl" oherydd yn argyfwng costay byw a'n dymuniad ni fel Cabinet i wneud mwy i helpu tirgolon Gwynedd gyda'r argyfwng.



## 2 PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023

- 2.1 Nodir isod y cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma yn erbyn prosiectau blaenoriaeth yr Adran. Mae'r blaenoriaethau hyn yn mynd i'r afael â phrif risgiau yr adran. Yn gyffredinol teimlaf fod bob prosiect yn gwneud cynnydd yn erbyn yr addewidion yr ydym wedi eu gwneud yng Nghynllun y Cyngor.
- 2.2 Strategaeth Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd  
Rwy'n falch o nodi fod ceisiadau ac adnoddau i ddatblygu ein Strategaeth Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd drwy gronfa RIF wedi eu sicrhau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Rydym bellach yn gallu symud ymlaen gyda'r Rhaglen Diogelu Plant yn Effeithiol, gwaith Tim Emrallt, a thynnu y Tim Aml-ddisgyblaeth i mewn i'n trefniadau lleol. Rydym wedi recriwtio i swyddi newydd sydd yn ategu capasiti yn ein Hwb Teuluoedd a'n Tim Cyfeiriadau, i ddelio gyda'r cynnydd mewn ceisiadau gan deuluoedd am help yn amserol, gan osogi rhestrau aros i'n darpariaethau.
- 2.3 Sicrhau darpariaeth arbenigol briodol leol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth  
Rydym wedi bod yn cydweithio gyda Cyngor Môn a'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu y model o Dim Aml-asiatnaethol i gefnogi plant gydag anghenion dwys a cymhleth. Yn seiliedig ar werthusiad o'r model rydym bellach wedi dod i gytundeb ynghylch symud y Tim o fodel isrannbarthol i fodel fydd yn cael ei integreiddio i'n trefniadau lleol oddi fewn i'r Strategaeth cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd. Rydym wedi cychwyn recriwtio i swyddi gweigion, a recriwtio i swyddi newydd i sicrhau fod y model yn ymateb i anghenion lleol. ER mwyn sicrhau digon o leoliadau addas i gyfarch yr ystod o anghenion sydd gan einplant rydym hefyd yn parhau gyda'r ymgynrch Maethu Cymru i ddenu mwy o rieni maeth i weithio gyda ni, ac hefyd wedi dechrau gweithio ar brosiect i sefydlu Grŵp Tai Bach.
- 2.4 Sicrhau fod teuluoedd a phlant gydag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ffynnu  
Rydym wedi cyflwyno'r Cynllun Awtistiaeth i'r cabinet yn Rhagfyr 2021. Ers hynny rydym wedi penodi Cydlynnydd i'r Cynllun ac wedi darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth awtistiaeth i weithwyr rheng ar draws y Cyngor, dros 150 ohonynt. Mae digwyddiadau lleol bellach yn cael eu cynnal i rieni yng Ngwynedd gan y Gwasanaeth Rhanbarthol. Byddwn yn symdu i recriwtio 2 swydd yn Adran Plant ac Oedolion yn y cyfnod nesaf.
- 2.5 Cefnogi Llesiant Pobl  
Mae gwaith ar rai o'r ffrydiau gwaith yn parhau i symud ymlaen megis taclo diagrtrefedd drwy'r Cynllun Gweithredu Tai a'n Cynllun Cefnogi Gofalwyr di-dal. Mae'r prosiect wedi canolbwyntio fwy fwy ar y ffrwd gwaith Costau Byw yn ystod y cyfnod ers i mi adordd ddiwethaf. Rydym wedi penodi dwy swydd ar gyfer tynnu partneriaid ynghyd i uchafu ein ymdrechion i fynd i'r afael a'r heriau costu byw'n cynyddu, tldi tanwydd, tldi bwyd a mynediad i wasanaethau cynghori ariannol. Mae ein gwaith i ymateb i'r argynfw costu byw wedi cynnwys creu adran beonodl o gyngor a gwybodaeth ar ein gwefan; sefydlu rhwydwaith o leoliadau sy'n cynnig "Croeso Cynnes" i drigolion dor sy gaef; sefydlu a

dyrannu grant bwyd argyfwng; a trefnu cyfres o ddigwyddiadau galw heibio “Help gyda’ch Biliau” mewn cymunedau.

Mae’r gwaith ar ddatblygu Fframwaith Gwydnwch Cymunedol yn parhau. Rydym wedi cydweithio gyda partneriaid newydd er mwyn ymestyn y rhwydiwath o Hybiau Cefnogi Pobl yn y sir. Mae’r rhwydwaith o 11 hwb yn sicrhau fod mynediad lleol, anffurfiol i wasanaethau cefnogi ar gael i drigolion ar gyfer amrywiaeth a nifer o anghenion.

### **3. PERFFORMIAD A MESURAU**

- 3.1 Byddwn yn dymuno tynnu eich sylw at y materion canlynol, nad ydynt yn ymwneud a’r Prosiectau Blaenoriaeth, ond eu bod nhw’n derbyn sylw gan yr adran oherwydd eu bod yn cael effaith ar berfformiad gwasanaethau a/neu yn achosi pryder i ni.
- 3.2 Capasiti y Gweithlu – Mae’r sefyllfa gweithlu yn parhau yn fater o bryder difrifol, ond mae’r gwaith diweddar gyda cefnogath ymgynghorydd annibynnol a’n ymgyrchoedd recriwtio wedi ei dargedu, ar waith. Mae’n rhy gynnar i ni weld y gwaith hwnnw yn dwyn ffrwyth eto, felly am y tro mae capasiti y gweithlu yn parhau yn bryder.
- 3.3 Mae’r adran yn parhau i weld fod natur yr achosion sydd yn cael eu cefnogi yn arddangos fod anghenion plant yn gymhleth, yn dwysau, eu bod angen pecyn cefnogaeth a phecynnau gofal eang, cynhwysfar ac arbenigol iawn. Bydd ein prosiectau blaenoriaeth a chynladwyedd a sefydlogrywdd ein gwasanaethau dydd i ddydd yn allweddol i’n gallu i ymateb i hyn.
- 3.4 O ran mesurau yr adran, rwyf ar y cyfan yn hapus gyda’u perfformiad. Byddwn yn dymuno tynnu eich sylw at un mesurydd yn benodol sy’n darlunio stori yr adran yn ystod y cyfnod sydd dan sylw yn yr adroddiad hwnnw.
- 3.5 Mae niferoedd sy’n cysylltu am Wybodaeth, Cyngor neu Gefnogaeth yn parhau i gynyddu. Daeth 1881 i gyswllt a ni yn Ebrill a Mehefin, a 1680 rhwng Gorffennaf – Medi. Rydym o’r farn mai effeithiau yr argyfwng COVID, a’r effeithiau cymdeithasol ac economaidd dilynol gan gynnwys yr argyfwng costau byw sy’n arwain at straen mewn teuluoedd sy’n gyrru’r galw hwn.

### **4 SEFYLLFA ARIANNOL / ARBEDION**

- 4.1 Adroddwyd i’r Cabinet ar 25 Hydref 2022 (adroddiad Cyllideb Refeniw 2021/22 – Adolygiad Diwedd Awst 2022) fod yr Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd yn debygol o orwario £88k yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.
- 4.2 Mae’r Cabinet, 18 Ionawr 2022, wedi dileu targed arbedion o £279,750 o’r cynllun Dechrau i’r Diwedd ar gyfer 2022/23.
- 4.3 Ar gyfer 2022/23, fel rhan o’r drefn bidiau mae’r Adran wedi derbyn gwerth dros £1,031,500 o fidiau (£581,500 yn fidiau parhaol a £450,000 o fidiau un-tro) i gwrdd â phwysau anorfod yn bennaf ar leoliadau plant mewn gofal ac i gefnogi cyflawni prosiectau blaenoriaeth Awtisitiaeth a Cefnogi Llesiant Pobl.

**5 Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

“Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.”

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

“Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Plant a Chefnogi Theuluoedd yn ystod y cyfnod dan sylw.”

**a. Barn yr Aelod Lleol:**

i. Ddim yn fater lleol.

**b. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

i. Dim i’w nodi.

---

**Atodiadau**